



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales**

**Cofnod y Trafodion
The Record of Proceedings**

**Dydd Mawrth, 8 Mawrth 2011
Tuesday, 8 March 2011**

Cynnwys
Contents

3	Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister
25	Datganiad a Chyhoeddiad Busnes Business Statement and Announcement
31	Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Mesur Seneddol ynghylch Diwygio Cyrff Cyhoeddus Legislative Consent Motion in respect of the Public Bodies Bill
39	Datganiad am y Refferendwm: Y Camau Nesaf Statement on the Referendum: Next Steps
47	Datganiad am Ymateb i'r Adolygiad i Waed wedi'i Heintio Statement on the Response to Contaminated Blood Review
63	Datganiad am Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru Statement on the Welsh Assembly Government's Response to the Annual Report of the Children's Commissioner for Wales
86	Cynnig i Gymeradwyo Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011 Motion to Approve the Waste (England and Wales) Regulations 2011
86	Cynnig i Gymeradwyo Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011 Motion to Approve the NHS (Concerns, Complaints and Redress Arrangements (Wales) Regulations 2011
95	Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ar gyfer 2009-10 The Annual Report for 2009-10 of Her Majesty's Chief Inspector of Education and Training in Wales
118	Y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaetho The National Transport Plan
139	Cyfnod Pleidleisio Voting Time

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were
spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Dafydd Elis-Thomas) yn y Gadair.
The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Dafydd Elis-Thomas) in the Chair.*

Y Llywydd: Trefn ar gyfer cwestiynau i'r Prif Weinidog yn y Cynulliad Cenedlaethol deddfwriaethol llawn.

The Presiding Officer: Order for questions to the First Minister in the full legislative National Assembly.

Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister

Pwerau Deddfu

1. William Graham: *Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer canlyniad y refferendwm ar bwerau deddfu i'r Cynulliad hwn. OAQ(3)3463(FM)*

The First Minister (Carwyn Jones): As you know, I will be making an oral statement on this matter later this afternoon.

William Graham: We look forward to hearing your statement. However, now that the people of Wales have spoken, in reasonable numbers—enough to give a definite indication of what they wanted—could you give an assurance that, as First Minister, you will ensure that all views are taken into account, and that there is no question of a slate curtain descending between us and Westminster?

The First Minister: There is no question of such a curtain descending; it would make a large noise, and would probably shatter if it did.

Leanne Wood: You may recall that, last week, I raised with you the implications of legislation being drawn up by the coalition Government in Westminster. In the forthcoming Open Public Services White Paper, David Cameron intends to open public service contracts to the private sector, by providing an automatic right to bid for public work. Last week, you said that it was a matter for Westminster, and that it would not affect Wales, but, later in the same Plenary session, during the business statement and announcement, Brian Gibbons asked Jane Hutt about this matter. She said that she would be looking at the issue in closer detail,

Law-making Powers

1. William Graham: *What plans does the Welsh Assembly Government have in relation to the outcome of the referendum on law making powers for this Assembly. OAQ(3)3463(FM)*

Y Prif Weinidog (Carwyn Jones): Fel y gwyddoch, Byddaf yn gwneud datganiad llafar ar y mater hwn yn ddiweddarach y prynhawn yma.

William Graham: Rydym yn edrych ymlaen at glywed eich datganiad. Fodd bynnag, gan fod pobl Cymru wedi siarad, mewn niferoedd rhesymol—digon i roi syniad pendant o'r hyn yr oeddent ei eisiau—a allwch chi roi sicrwydd, fel Prif Weinidog, y byddwch yn sicrhau bod yr holl sylwadau yn cael eu hystyried, ac nad oes llen o lechi yn disgyn rhyngom ni a San Steffan?

Y Prif Weinidog: Nid oes unrhyw gwestiwn o'r fath len yn dod i lawr; byddai'n gwneud sŵn mawr, ac mae'n debyg y byddai'n chwalu pe bai'n gwneud hynny.

Leanne Wood: Efallai y cofiwch, yr wythnos diwethaf, fy mod wed codi gyda chi goblygiadau'r ddeddfwriaeth sy'n cael ei llunio gan y Llywodraeth glymblaid yn San Steffan. Yn y Papur Gwyn ar Wasanaethau Cyhoeddus Agored, mae David Cameron yn bwriadu agor contractau gwasanaeth cyhoeddus i'r sector preifat, drwy ddarparu hawl awtomatig i wneud cais am waith cyhoeddus. Yr wythnos diwethaf, dywedasoch ei fod yn fater i San Steffan, ac na fyddai'n effeithio ar Gymru ond, yn ddiweddarach yn yr un Cyfarfod Llawn, yn ystod y datganiad a'r cyhoeddiad busnes, gofynnodd Brian Gibbons i Jane Hutt am y

particularly its potential impact on the third sector. My concern is that, until we see the details of the White Paper, we do not know how this privatisation agenda could affect us in Wales. Therefore, as part of the respect agenda between this Government and the Westminster Government, and given that we now have primary law-making powers—

The Presiding Officer: Order. There were a lot of sub-clauses there; please ask a question.

Leanne Wood: Thank you for your patience, Presiding Officer; the question is coming. Given that we now have primary law-making powers, have you had, or do you plan to have, any meetings or discussions with your counterparts in Westminster about this legislation as it affects Wales?

The First Minister: I would not expect the legislation to affect Wales, especially following last Thursday's referendum result, as most Welsh public services are in the realm of the Assembly and the Assembly Government. However, where there are issues that might affect Wales, particularly in non-devolved areas, we will make our view known that privatisation is not the answer.

The Leader of the Welsh Conservatives (Nick Bourne): I appreciate that you are making a statement on the referendum later this afternoon, First Minister, but I do not believe that we can let this question go without recognising the historic decision that was made last Friday, as well as recognising the work that was done across the Chamber, by Assembly Members of all parties. It was good news for Wales, and it was a clear-cut result—in north, south, east and west, urban and rural, primarily Welsh-speaking and primarily English-speaking Wales. Will you join me in congratulating those who worked for this historic victory?

The First Minister: Yes, I will. I pay tribute

mater hwn. Dywedodd hi y byddai'n edrych ar y mater yn fanylach, yn enwedig ei effaith bosibl ar y trydydd sector. Fy mhryder i yw, hyd nes y byddwn yn gweld manylion y Papur Gwyn, nid ydym yn gwybod sut y gallai'r agenda preifateiddio hwn effeithio arnom ni yng Nghymru. Felly, fel rhan o'r agenda parch rhwng y Llywodraeth a Llywodraeth San Steffan, ac o gofio bod gennym bellach bwerau deddfu cynradd—

Y Llywydd: Trefn. Yr oedd llawer o is-gymalau yno; gofynnwch gwestiwn os gwelwch yn dda.

Leanne Wood: Diolch am eich amynedd, Lywydd; mae'r cwestiwn yn dod. O gofio bod gennym bellach bwerau deddfu cynradd, a ydych wedi, neu a ydych yn bwriadu cael, unrhyw gyfarfodydd neu drafodaethau gyda'ch cymheiriaid yn San Steffan am y ddeddfwriaeth fel y mae'n effeithio ar Gymru?

Y Prif Weinidog: Ni fyddwn yn disgwyl y ddeddfwriaeth i effeithio ar Gymru, yn enwedig yn dilyn canlyniad y refferendwm ddydd Iau diwethaf, gan fod y rhan fwyaf o wasanaethau cyhoeddus Cymru yng nghylch gwaith y Cynulliad a Llywodraeth y Cynulliad. Fodd bynnag, lle mae materion a allai effeithio ar Gymru, yn enwedig mewn meysydd sydd heb eu datganoli, byddwn yn gwneud ein barn yn hysbys nad preifateiddio yw'r ateb.

Arweinydd y Ceidwadwyr Cymreig (Nick Bourne): Yr wyf yn gwerthfawrogi eich bod yn gwneud datganiad ar y refferendwm yn ddiweddarach y prynhawn yma, Brif Weinidog, ond nid wyf yn credu y gallwn adael i'r cwestiwn hwn fynd heb gydnabod y penderfyniad hanesyddol a wnaed ddydd Gwener diwethaf, yn ogystal â chydabod y gwaith a wnaethpwyd ar draws y Siambr, gan Aelodau Cynulliad o bob plaid. Roedd yn newyddion da i Gymru, ac yr oedd yn ganlyniad clir—yn y gogledd, de, dwyrain a gorllewin, trefol a gwledig, ac yn bennaf yn yr ardaloedd Cymraeg a Saesneg eu hiaith yng Nghymru. A wnewch chi ymuno â mi i longyfarch y rhai a weithiodd i sicrhau'r fuddugoliaeth hanesyddol?

Y Prif Weinidog: Gwnaf. Yr wyf am roi

to the hundreds, if not thousands, of people who delivered leaflets across Wales, as well as to the relatively small number of people who gave of their time, voluntarily, on a day-to-day basis; much is owed to them as well.

Nick Bourne: We should also acknowledge the massive role that was played by Roger Lewis and the army of volunteers who were organised on the 'yes' side of the campaign. Moving on to a related issue, namely the Barnett formula, between doing other things over the weekend, I am sure that you will have seen George Osborne's statement, committing to a review of the Barnett floor. Could you update us on any discussions that the Minister for Business and Budget might have had with Danny Alexander about the Barnett floor, so that we can see how we will tackle this issue of the Barnett formula as well?

The First Minister: The Minister for Business and Budget intends to write to Danny Alexander, and also hopes to have a meeting with him, to discuss the implementation of part 1 of the Holtham commission report.

Nick Bourne: It is important that this issue is addressed now. The Barnett floor is on the agenda, as the Prime Minister confirmed during a speech at the weekend, so we need to press ahead with that. You may be addressing this issue during your statement, but would you like to say something about how you see this developing now in terms of a Calman-like process, which is on the agenda following the 'yes' decision last week?

The First Minister: It is difficult to see why there needs to be another commission, given the fact that Holtham was very comprehensive in what it recommended. However, Holtham was clear in saying that the first issue that must be addressed for Wales is that of the funding formula, which is something that we will be investigating with the UK Government over the coming months.

teyrnged i'r cannoedd, os nad miloedd, o bobl a ddsbarthodd daflenni ar draws Cymru, yn ogystal â'r nifer cymharol fach o bobl a roddodd o'u hamser, yn wirfoddol, o ddydd i ddydd; mae llawer yn ddyledus iddyn nhw hefyd.

Nick Bourne: Dylem hefyd gydnabod y rôl enfawr a gafodd ei chwarae gan Roger Lewis a'r byddin o wirfoddolwyr ar ochr 'ie' yr ymgyrch. Gan symud ymlaen at fater cysylltiedig, sef y fformiwla Barnett, rhwng gwneud pethau eraill dros y penwythnos, yr wyf yn siŵr y byddwch wedi gweld datganiad George Osborne, yn ymrwymo i gynnal adolygiad o'r llawr Barnett. A allwch chi ddweud wrthym am unrhyw drafodaethau y gallai'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb fod wedi'u cael â Danny Alexander am y llawr Barnett, fel y gallwn weld sut y byddwn yn mynd i'r afael â mater fformiwla Barnett hefyd?

Y Prif Weinidog: Mae'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb yn bwriadu ysgrifennu at Danny Alexander, a hefyd yn gobeithio cael cyfarfod gydag ef, i drafod gweithredu rhan 1 o adroddiad comisiwn Holtham.

Nick Bourne: Mae'n bwysig bod y mater hwn yn cael sylw nawr. Mae'r llawr Barnett ar yr agenda, fel y cadarnhaodd y Prif Weinidog mewn araith dros y penwythnos, felly mae angen i ni fwrw ymlaen â hynny. Efallai y byddwch yn mynd i'r afael â'r mater hwn yn ystod eich datganiad, ond a hoffech chi ddweud rhywbeth am sut yr ydych yn gweld hyn yn datblygu yn awr o ran proses fel Calman, sydd ar yr agenda yn dilyn yr 'ie' yr wythnos diwethaf?

Y Prif Weinidog: Mae'n anodd gweld pam mae angen comisiwn arall, o ystyried y ffaith bod Holtham yn gynhwysfawr iawn yn yr hyn a argymhellodd. Fodd bynnag, yr oedd Holtham yn glir wrth ddweud mai'r mater cyntaf y mae'n rhaid rhoi sylw o ran Cymru yw'r fformiwla ariannu, sy'n rhywbeth y byddwn yn ymchwilio iddo gyda Llywodraeth y DU dros y misoedd nesaf.

Strategaeth Tlodi Plant y DU

2. Brian Gibbons: *Beth fydd ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Strategaeth Tlodi Plant y DU. OAQ(3)3460(FM)*

The First Minister: On 3 February, we launched the child poverty strategy for Wales. The strategy gives a clear account of what we are going to do in order to eradicate poverty by 2020. Where UK Government policies impact on Welsh services, we will respond to the UK Government.

Brian Gibbons: You will be aware, of course, that, in tackling child poverty, the issue of poverty of life chances is very important. I know that our own strategy is majoring in a big way on that. However, at the heart of child poverty is poverty of income. Would you agree that, looking at the UK Government approach, both strategic and in practice, this seems to be one of the areas furthest from its mind in tackling child poverty? Would you consider, as part of the Welsh Assembly Government's response to the UK strategy, emphasising that income levels are crucial in child poverty and that any lack of support in financial terms is simply not legitimate and will clearly undermine the capacity to tackle child poverty by 2020?

The First Minister: Clearly, income is crucial to the measurement of child poverty. That is why it is a matter of great regret that we see the disappearance of schemes like the Future Jobs fund, the proposals for the benefits system and the removal of so many schemes that have helped people back into work over the years. The best way to deal with child poverty is to ensure that people are able to access jobs, which means not only ensuring that jobs are available, but that the obstacles that sometimes prevent people from taking jobs are removed. I see no sign of that from the UK Government.

Mark Isherwood: With respect, I beg to differ, First Minister. I am sure that you will agree that, for too long, a child's birth has dictated its destiny. Wales has the highest child poverty rate among the UK nations—and at one in three—and the highest severe poverty

The UK Child Poverty Strategy

2. Brian Gibbons: *What response will the Welsh Assembly Government be making to the UK Child Poverty Strategy. OAQ(3)3460(FM)*

Y Prif Weinidog: Ar 3 Chwefror, lanswyd y strategaeth tlodi plant ar gyfer Cymru. Mae'r strategaeth yn amlinellu'n glir yr hyn yr ydym yn mynd i'w wneud i ddileu tlodi erbyn 2020. Lle mae polisiau Llywodraeth y DU yn effeithio ar wasanaethau Cymraeg, byddwn yn ymateb i Lywodraeth y DU.

Brian Gibbons: Byddwch yn ymwybodol, wrth gwrs, wrth fynd i'r afael â thlodi plant, bod tlodi o ran cyfleoedd bywyd yn bwysig iawn. Rwy'n gwybod bod ein strategaeth ni yn canolbwyntio'n fawr ar hynny. Fodd bynnag, wrth wraidd tlodi plant y mae tlodi incwm. A fydddech yn cytuno, o edrych ar ddull Llywodraeth y DU, yn strategol ac yn ymarferol, fod hyn yn ymddangos fel un o'r ardaloedd sydd bellaf o'i meddwl wrth fynd i'r afael â thlodi plant? A fydddech yn ystyried, fel rhan o ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i strategaeth y DU, bwysleisio bod lefelau incwm yn hollbwysig o ran tlodi plant ac nad yw unrhyw ddiffyg cefnogaeth o safbwynt ariannol yn ddilys a bydd yn amlwg yn tansailio'r gallu i fynd i'r afael â thlodi plant erbyn 2020?

Y Prif Weinidog: Yn amlwg, mae incwm yn hanfodol i fesur tlodi plant. Dyna pam mae'n destun gofid mawr i weld cynlluniau fel cronfa Swyddi'r Dyfodol yn diflannu, y cynigion ar gyfer y system fudd-daliadau a chael gwared ar gymaint o gynlluniau sydd wedi helpu pobl i ddychwelyd i'r gwaith dros y blynyddoedd. Y ffordd orau i ddelio â thlodi plant yw sicrhau bod pobl yn gallu cael mynediad at swyddi, sy'n golygu nid yn unig sicrhau bod swyddi ar gael, ond bod y rhwystrau sy'n atal pobl rhag cymryd swyddi weithiau yn cael eu dileu. Ni welaf unrhyw arwydd o hynny gan Lywodraeth y DU.

Mark Isherwood: Gyda phob parch, yr wyf yn anghytuno, Brif Weinidog. Yr wyf yn siŵr y byddwch yn cytuno bod tras plentyn, am gyfnod rhy hir, wedi pennu ei dynged. Cymru sydd â'r gyfradd uchaf o dlodi plant ymysg cenhedloedd y DU—un o bob tri—a'r

rate, as confirmed by Save the Children two weeks ago, and the Joseph Rowntree Foundation has said that improvement in child poverty levels in Wales ended before the recession began. Therefore, do you not recognise that the UK child poverty strategy, based on Frank Field MP's work, will increase child tax credit for the lowest income families, reform Sure Start to target the most needy, extend the offer of free childcare, introduce a pupil premium to support the poorest at every stage of their education and introduce a new integrated work programme for the long-term unemployed and at-risk groups, using the public, private and voluntary sectors and incorporating payment by result? Which of those proposals do you object to?

The First Minister: The final version has not been published yet, although it is imminent. When it is published, we will make our views known with regard to the proposals contained in it.

Bethan Jenkins: In its response to the UK child poverty strategy, UNICEF called on the UK Government to set ambitious interim targets on the way towards eradicating child poverty in the UK by 2020. One of these suggestions was a fairness test in relation to making changes, especially to benefits and the taxation system. In relation to what was mentioned earlier on benefits cuts for the most needy, will you be making those representations to the UK Government on its strategy? Will you be ensuring that the targets on eradicating child poverty are adhered to and met? We have our own targets and aspirations here in Wales, so how will they work together?

The First Minister: Clearly, there has to be an element of coterminosity between the targets that we have set here in Wales and the targets set at UK level. However, where we think that the targets set by the UK Government as part of its child poverty strategy could be improved upon, or we think that those targets are wrong, we will certainly

gyfradd uchaf o dlodi difrifol, fel y cadarnhawyd gan Achub y Plant bythefnos yn ôl, ac mae Sefydliad Joseph Rowntree wedi dweud bod gwelliant mewn lefelau tlodi plant yng Nghymru wedi dod i ben cyn i'r dirwasgiad ddechrau. Felly, onid ydych yn cydnabod y bydd strategaeth tlodi plant y DU, yn seiliedig ar waith Frank Field AS, yn cynyddu credyd treth plant ar gyfer y teuluoedd ar yr incwm isaf, yn diwygio Cychwyn Cadarn i helpu'r bobl fwyaf anghenus, yn ymestyn y cynnig o ofal plant am ddim, yn cyflwyno premiwm disgyblion i gefnogi'r tlodaf yn ystod pob cam o'u haddysg ac yn cyflwyno rhaglen waith integredig newydd ar gyfer pobl sydd yn ddi-waith ers cyfnod hir a grwpiau sydd mewn perygl, gan ddefnyddio'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ac yn ymgorffori taliad drwy ganlyniad? Pa un o'r cynigion hynny yr ydych yn ei wrthwynebu?

Y Prif Weinidog: Nid yw'r fersiwn derfynol wedi'i chyhoeddi eto, er bod hynny ar fin digwydd. Pan gaiff ei chyhoeddi, byddwn yn rhoi ein barn o ran y cynigion a gynhwysir ynddi.

Bethan Jenkins: Yn ei ymateb i strategaeth tlodi plant y DU, galwodd UNICEF ar Lywodraeth y DU i osod targedau uchelgeisiol dros dro tuag at ddileu tlodi plant yn y DU erbyn 2020. Un o'r awgrymiadau oedd prawf tegwch mewn perthynas â gwneud newidiadau, yn enwedig i fudd-daliadau a'r system drethu. Mewn perthynas â'r hyn y soniwyd amdano yn gynharach o ran torri budd-daliadau ar gyfer y rhai mwyaf anghenus, a fyddwch yn gwneud y sylwadau hynny i Lywodraeth y DU yng nghyswllt ei strategaeth? A fyddwch yn sicrhau bod glynu wrth y targedau ar ddileu tlodi plant a'u bod yn cael eu cyflawni? Mae gennym ein targedau a'n dyheadau ein hunain yma yng Nghymru, felly sut fyddant yn gweithio gyda'i gilydd?

Y Prif Weinidog: Yn amlwg, mae'n rhaid cael elfen o gydffinio rhwng y targedau a osodwyd gennym yma yng Nghymru a'r targedau a osodir ar lefel y DU. Fodd bynnag, lle credwn y gellid gwella'r targedau a osodwyd gan Lywodraeth y DU fel rhan o'i strategaeth tlodi plant, neu lle credwn fod y targedau hynny yn anghywir, byddwn yn sicr

say so. As a Government, we have made known our concerns about the reform of the benefits system on many occasions. We very much fear that the proposals being put forward with regard to the benefits system will lead to more people staying in poverty.

Joyce Watson: First Minister, do you agree that every child poverty strategy must have many elements, and that one of those must be the provision of youth services? Will you join me in congratulating Powys Youth Service, especially Labour board member Councillor Gwyn Gwillim, on helping to deliver new services in Powys, such as the brand-new youth club in Llandrindod Wells, which you joined me in visiting recently, and the revamped youth centre at Penrhos? Do you agree that it is only through the dedication of people on the ground such as Councillor Gwillim, who has served the area for 40 years, that we can deliver our policies?

The First Minister: I would join you in that, Joyce. I grew up in the 1980s, when youth services were non-existent, and there was hardly anything around for young people. I visited Llandrindod Wells, as you said, and saw the wonderful youth centre that has been built there. It is a good size, with tremendous facilities, and is just the sort of thing that we need to ensure that our young people get a fair start in life.

Llywodraeth Leol

3. Nick Bourne: *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol llywodraeth leol yng Nghymru. OAQ(3)3458(FM)*

The First Minister: The Assembly Government will continue to work with local government to help it to provide high-quality services that meet local needs.

Nick Bourne: I thank the First Minister for that response. He will be aware that next week the Proposed Local Government (Wales) Measure will be debated in Plenary

yn dweud hynny. Fel Llywodraeth, rydym wedi gwneud ein pryderon yn hysbys ynghylch y broses o ddiwygio'r system fudd-daliadau ar sawl achlysur. Rydym yn ofni'n fawr y bydd y cynigion sy'n cael eu cyflwyno o ran y system budd-daliadau yn arwain at fwy o bobl yn parhau i fyw mewn tlodi.

Joyce Watson: Brif Weinidog, a ydych yn cytuno bod yn rhaid i bob strategaeth tlodi plant gynnwys llawer o elfennau, ac mai un o'r elfennau hynny yw darparu gwasanaethau ieuentid? A wnewch chi ymuno â mi i longyfarch Gwasanaeth Ieuentid Powys, yn enwedig yr aelod Llafur o'r bwrdd, y Cynghorydd Gwyn Gwillim, ar helpu i ddarparu gwasanaethau newydd ym Mhowys, fel y clwb ieuentid newydd sbon yn Llandrindod, yr ymunoch â mi i ymweld ag ef yn ddiweddar, a'r ganolfan ieuentid sydd wedi'i hailwampio ym Mhenrhos? A ydych yn cytuno mai dim ond drwy ymroddiad y bobl ar lawr gwlad fel y Cynghorydd Gwillim, sydd wedi gwasanaethu'r ardal ers 40 mlynedd, y gallwn gyflawni ein polisiau?

Y Prif Weinidog: Byddwn yn ymuno â chi yn hynny, Joyce. Cefais fy magu yn y 1980au, pan nad oedd gwasanaethau ieuentid yn bodoli, ac nid oedd fawr ddim ar gyfer pobl ifanc. Ymwelais â Llandrindod, fel y dywedaso, a gweld y ganolfan ieuentid wych sydd wedi ei hadeiladu yno. Mae'n ganolfan o faint da, gyda chyfleusterau gwych, ac yn union y math o beth y mae angen arnom i sicrhau bod ein pobl ifanc yn cael dechrau teg mewn bywyd.

Local Government

3. Nick Bourne: *Will the First Minister make a statement on the future of local government in Wales. OAQ(3)3458(FM)*

Y Prif Weinidog: Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i weithio gyda llywodraeth leol i helpu i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion lleol.

Nick Bourne: Diolch i'r Prif Weinidog am yr ymateb hwnnw. Bydd yn ymwybodol y bydd y Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru) yn cael ei drafod

and that it contains a provision, introduced at a late stage, providing that new local government areas may be created by amalgamating two or three existing local government areas. That has been criticised by the Welsh Local Government Association as having been brought in without scrutiny and wider engagement, and, indeed, Members of the governing parties have also criticised it. For example, Helen Mary Jones said that it was like taking a sledgehammer to crack a nut. Do you have it in mind to reorganise local government entirely? Do you have it in mind to amalgamate authorities? Why have you not had wider consultation on this with the WLGA?

The First Minister: It is not a tool to reorganise local government. We know that there are a number of difficulties involved in that. This is a power that I believe is available to equivalent Ministers in England. It should also be borne in mind that any proposal to amalgamate will be thoroughly consulted upon, with an initial 12-week consultation period following the proposal's being made, and then, of course, the superaffirmative procedure will be used to approve any amalgamations. What this does not do is to give power to one Minister to amalgamate without any consultation or without a vote on the floor of the Assembly.

Christine Chapman: Would you agree, especially in light of the devastating Conservative-led UK Government cuts, that it is more important than ever for local government in Wales to reform the way in which it delivers its services by working in partnership and across traditional boundaries? We know that the Welsh Assembly Government and local government are already doing good work in this regard. There are numerous examples across Wales of excellent collaborative projects between local authorities such as my own and others. Nick Bourne has also mentioned the Proposed Local Government (Wales) Measure, which places particular emphasis on the need for collaboration. Will you ensure that this continues?

The First Minister: Absolutely, Chris. The

yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos nesaf a'i fod yn cynnwys darpariaeth, a gyflwynwyd yn hwyr, i ardaloedd llywodraeth leol newydd gael eu creu drwy uno dau neu dri ardal llywodraeth leol sy'n bodoli eisoes. Mae hynny wedi cael ei feirniadu gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fel pe bai wedi'i gyflwyno heb graffu ac ymgysylltu ehangach, ac, yn wir, mae Aelodau o'r pleidiau sy'n llywodraethu hefyd wedi ei feirniadu. Er enghraifft, dywedodd Helen Mary Jones ei fod fel cymryd gordd i agor cneuen. A yw hi'n fwriad gennych i ad-drefnu llywodraeth leol yn llwyr? A yw hi'n fwriad gennych i uno awdurdodau? Pam nad ydych wedi cael ymgynghoriad ehangach ar hyn gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru?

Y Prif Weinidog: Nid yw'n offeryn i ad-drefnu llywodraeth leol. Rydym yn gwybod bod nifer o anawsterau sy'n gysylltiedig â hynny. Mae hwn yn bŵer y credaf ei fod ar gael i Weinidogion cyfatebol yn Lloegr. Dylid hefyd gadw mewn cof y bydd ymgynghoriad trwyadl ynglŷn ag unrhyw gynnig i uno, gyda chyfnod ymgynghori cychwynnol o 12 wythnos yn dilyn gwneud y cynnig, ac yna, wrth gwrs, bydd y weithdrefn uwchgadarnhaol yn cael ei defnyddio i gymeradwyo unrhyw uno. Yr hyn nad yw hyn yn ei wneud yw rhoi grym i un Gweinidog i uno heb unrhyw ymgynghori neu heb bleidlais ar lawr y Cynulliad.

Christine Chapman: A fyddech yn cytuno, yn enwedig yng ngoleuni'r toriadau dinistriol a arweinir gan Lywodraeth Ceidwadol y DU, ei bod yn bwysicach nag erioed i lywodraeth leol yng Nghymru ddiwygio'r ffordd y mae'n darparu ei wasanaethau trwy weithio mewn partneriaeth ac ar draws ffiniau traddodiadol? Rydym yn gwybod bod Llywodraeth Cynulliad Cymru a llywodraeth leol eisoes yn gwneud gwaith da yn hyn o beth. Mae nifer o enghreifftiau ar draws Cymru o brosiectau cydweithredol ardderchog rhwng awdurdodau lleol fel fy awdurdod innau ac eraill. Mae Nick Bourne hefyd wedi sôn am y Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru), sy'n rhoi pwyslais penodol ar yr angen am gydweithio. A wnewch chi sicrhau bod hyn yn parhau?

Y Prif Weinidog: Yn hollol, Chris. Mae

future of local government lies in collaboration. We know that not every local authority can provide every service itself. It is essential, therefore, that local authorities work with other local authorities in order to provide better services for their citizens.

Peter Black: First Minister, you say that the intention is not to reorganise local government, yet there is nothing in the amendment to the Proposed Local Government (Wales) Measure that would prevent it from being used over and over again to, in effect, reorganise councils piecemeal. You say that the superaffirmative procedure would be used, but that would require nowhere near the same level of scrutiny as a proposed Measure. Given that you cannot give assurances on what a future Minister for local government would do with this power, and that you cannot at this stage provide any evidence to back up the assertions made by the Minister for local government in terms of the money that might be saved and the evidence that would be needed to deliver these amalgamations, will you consider withdrawing the amendment and bring the proposals back in a stand-alone proposed Measure so that we can have a proper debate on this over the proper period in the next Assembly?

1.45 p.m.

The First Minister: I cannot bring it back as a Measure, because they will not exist after 5 May. However, any wide-scale reorganisation of local government—in other words, reorganisation involving every local authority—would come back to the Chamber for discussion and scrutiny, possibly in the form of a local government Act.

David Lloyd: Yn dilyn yr atebion yr ydych wedi eu rhoi eisoes ynglŷn â'r angen i gydweithio, beth ydych yn ei wneud i hyrwyddo cydweithio gwirfoddol rhwng siroedd nad ydynt yn cydweithio i'r graddau y dylent ar hyn o bryd er mwyn darparu gwasanaethau ac arbed arian?

Y Prif Weinidog: Mae gan y Gweinidog bwerau i orfodi awdurdodau lleol i gydweithio. Mae'n bwysig dros ben bod yr

dyfodol llywodraeth leol mewn cydweithio. Gwyddom na all pob awdurdod lleol ddarparu pob gwasanaeth ei hun. Mae'n hanfodol felly fod awdurdodau lleol yn gweithio gydag awdurdodau lleol eraill er mwyn darparu gwasanaethau gwell ar gyfer eu dinasyddion.

Peter Black: Brif Weinidog, yr ydych yn dweud nad ad-drefnu llywodraeth leol yw'r bwriad, ac eto nid oes unrhyw beth yn y gwelliant i'r Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru) a fyddai'n ei atal rhag cael ei ddefnyddio dro ar ôl tro, i bob pwrpas, i ad-drefnu cynghorau fesul tipyn. Yr ydych yn dweud y byddai'r weithdrefn uwchgadarnhaol yn cael ei defnyddio, ond ni fyddai hynny'n gofyn am yr un lefel o graffu â Mesur arfaethedig o gwbl. Gan nad oes modd i chi roi sicrwydd ar yr hyn y byddai Gweinidog llywodraeth leol yn y dyfodol yn ei wneud gyda'r pŵer hwn, ac na allwch chi ar hyn o bryd ddarparu unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r honiadau a wnaed gan y Gweinidog dros lywodraeth leol o ran yr arian a allai gael ei arbed a'r dystiolaeth y byddai ei hangen i gyflawni'r uno hyn, a wnewch chi ystyried tynnu'r gwelliant yn ôl ac ailgyflwyno'r cynigion mewn Mesur arfaethedig sy'n sefyll ar ei ben ei hun, fel y gallwn gael dadl iawn ar hyn dros y cyfnod priodol yn y Cynulliad nesaf?

Y Prif Weinidog: Ni allaf ddod a hyn yn ôl fel Mesur, gan na fyddant yn bodoli ar ôl 5 Mai. Fodd bynnag, bydd unrhyw ad-drefnu ar lywodraeth leol ar raddfa eang—mewn geiriau eraill, ad-drefnu yn cynnwys pob awdurdod lleol—yn dod yn ôl i'r Siambr ar gyfer trafod a gwaith craffu, o bosibl ar ffurf Deddf llywodraeth leol.

David Lloyd: Following the responses that you have already given on the need to collaborate, what are you doing to promote voluntary collaboration between those counties that are not currently working collaboratively to the extent that they should in order to provide services and save money?

The First Minister: The Minister has powers to compel local authorities to collaborate. It is extremely important that the authorities

awdurdodau yn dod i'r casgliad bod hwn o les i'r bobl sy'n byw o fewn eu ffiniau. Fodd bynnag, fel y dywedais, os nad yw awdurdodau yn cydweithio, mae gan y Gweinidog bwerau i'w gorfodi i wneud hynny.

Alun Davies: First Minister, do you agree that a key challenge facing local government at the moment is how to maintain services in light of the squeeze on funding? Do you agree with John Davies, the leader of the Welsh Local Government Association, who has praised the Minister for Social Justice and Local Government for listening to the concerns of local government and responding appropriately, that the local government settlement for Wales is as good as it gets in the current economic climate? Do you agree that the 0.1 per cent increase in funding for local government over the next three years is very different from the 2.3 per cent cut that is being implemented on the other side of Offa's Dyke? That cut is leading to services, jobs and opportunities being lost across the whole of England. The Welsh Assembly Government is showing the way in protecting local services and public services.

The First Minister: Local government in Wales has a lot to be grateful for. Council tax is, on average, 15 to 20 per cent lower than in England and we know that local government is funded at a higher level in Wales than it is elsewhere. I am glad to hear the comments of John Davies and I welcome them. The local government settlement that has been proposed for this year is certainly as good as it could have hoped for.

Treftadaeth

4. Mohammad Asghar: *A wnaiiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y portffolio Treftadaeth ar gyfer gweddill y Trydydd Cynulliad. OAQ(3)3455(FM)*

The First Minister: We are committed to fulfilling our 'One Wales' commitments, which include securing a thriving future for

conclude that this will benefit those who live within their boundaries. However, as I said, if authorities do not collaborate, then the Minister has the powers to compel them to do so.

Alun Davies: Brif Weinidog, a ydych yn cytuno mai un her allweddol sy'n wynebu llywodraeth leol ar hyn o bryd yw sut i gynnal gwasanaethau yng ngoleuni'r pwysau ar gyllid? A ydych yn cytuno gyda John Davies, arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, sydd wedi canmol y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol am wrando ar bryderon llywodraeth leol ac ymateb yn briodol, fod y setliad llywodraeth leol ar gyfer Cymru cystal ag y gall fod yn yr hinsawdd economaidd bresennol? A ydych yn cytuno bod y cynnydd o 0.1 y cant mewn cyllid ar gyfer llywodraeth leol dros y tair blynedd nesaf yn wahanol iawn i'r toriad o 2.3 y cant sy'n cael ei weithredu ar yr ochr arall i Glawdd Offa? Mae'r toriad hwnnw yn arwain at wasanaethau, swyddi a chyfleoedd yn cael eu colli ar draws Lloegr gyfan. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn arwain y ffordd o ran diogelu gwasanaethau lleol a gwasanaethau cyhoeddus.

Y Prif Weinidog: Mae gan lywodraeth leol yng Nghymru lawer i fod yn ddiolchgar amdano. Mae treth y cyngor, ar gyfartaledd, 15 i 20 y cant yn is nag y mae yn Lloegr, ac rydym yn gwybod bod llywodraeth leol yn cael ei hariannu ar lefel uwch yng Nghymru nag y mae mewn mannau eraill. Yr wyf yn falch o glywed sylwadau John Davies ac yr wyf yn eu croesawu. Mae'r setliad llywodraeth leol sydd wedi cael ei gynnig ar gyfer y flwyddyn hon yn sicr cystal ag y gellid bod wedi gobeithio amdano.

Heritage

4. Mohammad Asghar: *Will the First Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's priorities for the Heritage portfolio for the remainder of the Third Assembly. OAQ(3)3455(FM)*

Prif Weinidog: Yr ydym wedi ymrwymo i gyflawni ein hymrwymiaid yn 'Cymru'n Un', sy'n cynnwys sicrhau dyfodol

the Welsh language, encouraging more physical activity for better health, encouraging tourism by maximising the economic value of our heritage, and modernising the public library network.

Mohammad Asghar: Thank you very much for that answer, First Minister. Last week, I opened a debate in which Members on this side of the Chamber called on the Assembly Government to support bids to bring the final of the UEFA European Cup, the Champions League final and the Commonwealth Games to Wales. You have previously said that bringing the Champions League final to Wales was your next sports objective and the Assembly Government has reportedly held discussions with Cardiff Council about bringing the Commonwealth Games to the Welsh capital. For these reasons, I was somewhat mystified by the hypocrisy of the Welsh Assembly Government in seeking to amend and voting down that part of our motion. First Minister, can you provide an update on the discussions you have had regarding bringing the Champions League final to Wales? Have you been promoting the case for the Millennium Stadium to stage that event? Can you also offer an update on any further discussions that you have had with Cardiff Council with regard to hosting the Commonwealth Games in Cardiff?

The First Minister: Oscar, I cannot give a running commentary on the negotiations and discussions that we have with other bodies, but we still wish to bring the Champions League final to the Millennium Stadium. The Rugby League World Cup will be coming to Wales in 2013, and the Rugby World Cup may also come to Cardiff, building on the success of the Ryder Cup, which we hosted last year. We remain focused on our desire to ensure that more major events come to Wales to benefit not only Cardiff, but the whole of Wales.

Rhodri Glyn Thomas: Bu ichi gyfeirio at

ffyniannus i'r iaith Gymraeg, gan annog mwy o weithgarwch corfforol ar gyfer iechyd gwell, annog twristiaeth gan wneud y gorau o werth economaidd ein treftadaeth, a moderneiddio'r rhwydwaith o lyfrgelloedd cyhoeddus.

Mohammad Asghar: Diolch yn fawr iawn am yr ateb hwnnw, Brif Weinidog. Yr wythnos diwethaf, agorais ddafl lle yr oedd Aelodau ar yr ochr hon i'r Siambr yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i gefnogi ceisiadau i ddod â rownd derfynol Cwpan Ewropeaidd UEFA, rownd derfynol Cynghrair y Pencampwyr a Gemau'r Gymanwlad i Gymru. Rydych wedi dweud o'r blaen mai dod â rownd derfynol Cynghrair y Pencampwyr i Gymru oedd eich nod nesaf o ran chwaraeon, ac mae'n debyg bod Llywodraeth y Cynulliad wedi cynnal trafodaethau gyda Chyngor Caerdydd am ddod â Gemau'r Gymanwlad i brifddinas Cymru. Am y rhesymau hyn, yr oeddwn mewn penbleth i raddau ynglŷn â rhagrith Llywodraeth Cynulliad Cymru wrth geisio newid a phleidleisio yn erbyn y rhan honno o'n cynnig. Brif Weinidog, a wnewch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau yr ydych wedi'u cael ynghylch dod â rownd derfynol Cynghrair y Pencampwyr i Gymru? A ydych chi wedi bod yn hyrwyddo'r achos dros lwyfannu'r digwyddiad yn Stadiwm y Mileniwm? A allwch chi hefyd gynnig y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw drafodaethau pellach yr ydych wedi'u cael gyda Chyngor Caerdydd o ran cynnal Gemau'r Gymanwlad yng Nghaerdydd?

Y Prif Weinidog: Oscar, ni allaf roi sylwebaeth ar ein trafodaethau gyda chyrrff eraill, ond rydym yn dal yn awyddus i ddod â rownd derfynol Cynghrair y Pencampwyr i Stadiwm y Mileniwm. Bydd Cwpan Rygbi Cynghrair y Byd yn dod i Gymru yn 2013, a gallai Cwpan Rygbi'r Byd hefyd ddod i Gaerdydd, gan adeiladu ar lwyddiant y Cwpan Ryder, a gynhaliwyd gennym y llynedd. Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar ein dymuniad i sicrhau bod mwy o ddigwyddiadau mawr yn dod i Gymru i ddod â budd nid yn unig i Gaerdydd, ond i Gymru gyfan.

Rhodri Glyn Thomas: You referred to the

sicrhau bod budd yn dod i Gymru gyfan o ganlyniad i'r digwyddiadau, ac mae hynny yn wir o ran y digwyddiadau mawr, ond mae hefyd yn wir o ran cefnogi sefydliadau ledled Cymru. A wnewch ymuno â mi wrth longyfarch y Gweinidog dros Dreftadaeth oherwydd y gefnogaeth ariannol ychwanegol a gynigiodd i'r Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn Sir Gaerfyrddin? Mae'n bwysig iawn o ran denu twristiaid i dde-orllewin Cymru ac i economi de-orllewin Cymru. A gytunwch hefyd fod y cyfeiriad mae'r Gweinidog yn ei gynnis i'r ardd o ran sicrhau bod mwy o bwyslais ar yr ochr wyddonol, yn ogystal â denu mwy o dwristiaid i Sir Gaerfyrddin, yn eithriadol o bwysig ar gyfer dyfodol economi de-orllewin Cymru?

Y Prif Weinidog: Mae pwysigrwydd yr ardd wedi cael ei gydnabod o gofio y bydd £1.8 miliwn mewn cefnogaeth refeniw yn cael ei rhoi iddi dros y dair blynedd nesaf. Bydd grant cyfalaf blynyddol o £100,000 hefyd yn cael ei roi i'r ardd.

Y Llywydd: Trosglwyddwyd cwestiwn 5, OAQ(3)3462(FM), i'w ateb yn ysgrifenedig.

need to ensure that the whole of Wales benefits from these events, and that is true with regard to the large-scale events, but it is also true with regard to supporting organisations across Wales. Will you join me in congratulating the Minister for Heritage on the additional financial support that he has offered to the National Botanic Garden of Wales in Carmarthenshire? It is very important in terms of attracting visitors to south-west Wales and to the economy of south-west Wales. Do you also agree that the direction that the Minister has offered the garden in terms of ensuring greater emphasis on the scientific side, in addition to attracting more tourists to Carmarthenshire, is exceptionally important to the future of the economy of south-west Wales?

The First Minister: The importance of the garden has been recognised bearing in mind that £1.8 million in revenue support will be provided to it over the next three years. There will also be an annual capital grant of £100,000 provided to the garden.

The Presiding Officer: Question 5, OAQ(3)3462(FM), is transferred for written answer.

Bwydydd Iach

6. Jenny Randerson: *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am hyrwyddo bwydydd iach ledled Cymru. OAQ(3)3453(FM)*

The First Minister: In addition to providing healthy free breakfasts in schools and increasing the number of community food co-operatives to over 300, we have launched the Change4Life campaign. This helps families to eat well, exercise more and live longer by providing fun, practical ideas to address their eating and exercise habits.

Jenny Randerson: The provision of healthy food in schools has been assisted by the Appetite for Life action plan in recent years, and progress has been made. However, we are in a time when budgets are tight, and there is a possibility—almost a probability—that local education authorities and schools will seek to save money by cutting the standard and quality of school food.

Healthy Foods

6. Jenny Randerson: *Will the First Minister make a statement on the promotion of healthy foods throughout Wales. OAQ(3)3453(FM)*

Y Prif Weinidog: Yn ogystal â darparu brecwast iach am ddim mewn ysgolion a chynyddu nifer y cydweithfeydd bwyd cymunedol i dros 300, rydym wedi lansio ymgyrch Newid am Oes. Mae hyn yn helpu teuluoedd i fwyta'n dda, gwneud mwy o ymarfer corff a byw'n hirach trwy ddarparu syniadau hwyliog ac ymarferol i fynd i'r afael â'u harferion bwyta ac ymarfer corff.

Jenny Randerson: Mae darparu bwyd iach mewn ysgolion wedi cael ei gynorthwyo gan gynllun gweithredu Blas am Oes yn y blynyddoedd diwethaf, ac mae cynnydd wedi ei wneud. Fodd bynnag, yr ydym mewn adeg pan mae cyllidebau'n dynn, ac mae posibilrwydd—tebygolrwydd bron—y bydd awdurdodau addysg lleol ac ysgolion yn ceisio arbed arian drwy dorri safon ac

Legislation would protect the quality of school food, and the Healthy Eating in Schools (Wales) Measure 2009 received Royal Approval in October 2009, but it has not yet been implemented. Does your Government plan to protect the quality of school food by ensuring that that Measure is brought into force?

The First Minister: The Assembly passed the Measure, and we intend to implement it. It should be borne in mind that any reduction in the quality of school food would be noticed by parents, and local authorities would have parents to reckon with. We have made tremendous strides in improving the quality and healthiness of school food over the past few years, and that progress must continue.

Andrew R.T. Davies: First Minister, in a meeting of the Rural Development Subcommittee a few weeks ago, figures provided by Cardiff University showed that public sector procurement of local food was decreasing as a percentage of the overall purchase of food. Are you confident that public sector agencies, especially those in the field of education, are doing their best to source local produce? I am sure that you would agree that sourcing local produce with the right kitemark—that is, farm-assured produce—is the best way to guarantee quality school produce, and that there is room for more to be done in this regard, given that the figures tell us that, as a percentage, less local produce is being purchased?

The First Minister: There is no question that some public bodies have better records than others in this regard, but there has been an enormous improvement over the past 10 years—almost no food was bought locally about a decade ago. Part of the reason for that was that there were very few suppliers that could fulfil large contracts day in, day out, week in, week out, month in, month out throughout the year. Through the procurement initiatives that were put in place, we were able to ensure that suppliers were able to fulfil those contracts. We have seen an increase in the supply of local meat particularly, although not exclusively, to schools and hospitals. I would encourage that

ansawdd bwyd ysgol. Byddai deddfwriaeth yn diogelu ansawdd bwyd ysgol, a chafodd y Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009 Gydsyniad Brenhinol ym mis Hydref 2009, ond nid yw eto wedi ei roi ar waith. A yw eich Llywodraeth yn bwriadu diogelu ansawdd bwyd ysgol trwy sicrhau bod y Mesur yn dod i rym?

Y Prif Weinidog: Mae'r Cynulliad wedi pasio'r Mesur, ac rydym yn bwriadu ei roi ar waith. Dylid cadw mewn cof y byddai rhieni yn sylwi ar unrhyw ddirywiad mewn ansawdd bwyd ysgol, a byddai'n rhaid i awdurdodau lleol wynebu'r rhieni hynny. Rydym wedi cymryd camau breision wrth wella ansawdd a pha mor iach yw bwyd ysgol dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae'n rhaid i'r cynnydd hwnnw barhau.

Andrew R.T. Davies: Brif Weinidog, mewn cyfarfod o'r Is-bwyllgor Datblygu Gwledig ychydig wythnosau yn ôl, dangosodd ffigurau a ddarparwyd gan Brifysgol Caerdydd bod caffael bwyd lleol yn y sector cyhoeddus, fel canran o lefel gyffredinol y pryniant, yn lleihau. A ydych yn hyderus bod asiantaethau yn y sector cyhoeddus, yn enwedig y rhai ym maes addysg, yn gwneud eu gorau i ddefnyddio cynnyrch lleol? Yr wyf yn siŵr y byddech yn cytuno mai dod o hyd i gynnyrch lleol gyda'r nod barcud cywir—hynny yw, cynnyrch sydd â gwarant fferm—yw'r ffordd orau i sicrhau cynnyrch ysgol o safon, a bod lle i wneud mwy yn y cyswllt hwn, o ystyried bod y ffigurau yn dweud wrthym, fel canran, fod llai o gynnyrch lleol yn cael ei brynu?

Y Prif Weinidog: Nid oes dwywaith bod gan rai cyrff cyhoeddus record gwell nag eraill yn hyn o beth, ond mae gwelliant aruthrol wedi bod dros y 10 mlynedd diwethaf—nid oedd bron dim bwyd yn cael ei brynu yn lleol ddegawd yn ôl. Rhan o'r rheswm am hynny oedd mai ychydig iawn o gyflenwyr a allai gynnal contractau mawr, bob dydd, wythnos ar ôl wythnos, fis ar ôl mis drwy gydol y flwyddyn. Drwy'r mentrau caffael a roddwyd ar waith, roeddem yn gallu sicrhau bod cyflenwyr yn gallu cynnal y contractau hynny. Rydym wedi gweld cynnydd yng nghyflenwad cig lleol yn enwedig, ond nid yn unig, i ysgolion ac ysbytai. Buaswn yn annog y duedd hon i barhau.

trend to continue.

Cynllun Nofio am Ddim

7. Eleanor Burnham: *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cynllun nofio am ddim. OAQ(3)3456(FM)*

The First Minister: Free swimming in Wales continues to be successful. We have now extended the scheme for young people to the weekends in line with our 'One Wales' commitment.

Eleanor Burnham: I am sure that we are all impressed and would wish as many people as possible to take up swimming. However, there are issues, and I am sure that you will be able to answer me fully. Many local authorities have had to close or are in the process of closing swimming pools, many of which were built in the 1970s so they are at the end-of-life stage, unfortunately, for various reasons. How do you monitor who is taking up free swimming? For instance, are they repeat swimmers or new swimmers? How are you encouraging people to take advantage of the free swimming scheme?

The First Minister: More than 650,000 free swimming sessions were taken up by children and young people and over 700,000 by those aged 60 plus in 2009-10. For the two-month period of October and November last year, some 25,000 attendances were linked to free swimming at various sessions at weekends. You are right to say that some pools have closed; nevertheless, some new pools have also opened, and we should recognise that.

Eleanor Burnham: May I have a second bite of the cherry, please, Llywydd?

The Presiding Officer: Order. On what basis?

Eleanor Burnham: That I am my party's spokesperson on these matters.

The Presiding Officer: These questions are to the First Minister.

Gareth Jones: A yw'r Prif Weinidog yn

The Free Swimming Scheme

7. Eleanor Burnham: *Will the First Minister make a statement on the free swimming scheme. OAQ(3)3456(FM)*

Y Prif Weinidog: Mae nofio am ddim yng Nghymru yn parhau i fod yn llwyddiannus. Rydym bellach wedi ymestyn y cynllun i bobl ifanc i gynnwys y penwythnosau, yn unol â'n hymrwymiad yn 'Cymru'n Un'.

Eleanor Burnham: Yr wyf yn siŵr ein bod ni i gyd yn falch ac am i gymaint o bobl â phosib fanteisio ar nofio. Fodd bynnag, mae problemau, ac yr wyf yn siŵr y byddwch yn gallu fy ateb yn llawn. Mae llawer o awdurdodau lleol wedi gorfod cau neu yn y broses o gau pyllau nofio, y cafodd nifer eu hadeiladu yn y 1970au ac felly sydd ar ddiwedd eu hoes, yn anffodus, am resymau amrywiol. Sut ydych chi'n monitro pwy sy'n manteisio ar nofio am ddim? Er enghraifft, a ydynt yn nofwyr cyson neu'n nofwyr newydd? Sut ydych yn annog pobl i fanteisio ar y cynllun nofio am ddim?

Y Prif Weinidog: Manteisiwyd ar fwy na 650,000 o sesiynau nofio am ddim gan blant a phobl ifanc, a dros 700,000 gan y rhai sy'n 60 oed a hŷn, yn 2009-10. Yn ystod mis Hydref a mis Tachwedd y llynedd, yr oedd tua 25,000 o ymweliadau yn gysylltiedig â nofio am ddim mewn sesiynau amrywiol ar benwythnosau. Yr ydych yn gywir i ddweud bod rhai pyllau wedi cau, ond mae rhai pyllau newydd hefyd wedi agor, a dylem gydnabod hynny.

Eleanor Burnham: A gaf fi gyfle arall, os gwelwch yn dda, Lywydd?

Y Llywydd: Trefn. Ar ba sail?

Eleanor Burnham: Am mai fi yw llefarydd fy mhlaid ar y materion hyn.

Y Llywydd: Mae'r cwestiynau hyn i'r Prif Weinidog.

Gareth Jones: Does the First Minister

cydnabod llwyddiant y polisi poblogaidd hwn ac a all gadarnhau nad oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw fwriad i ddod â'r cynllun nofio am ddim i ben, er gwaethaf effeithiau dinistriol toriadau'r Democratiaid Rhyddfrydol a'r Toriaid mewn gwario cyhoeddus?

Y Prif Weinidog: Nid oes cynlluniau i wneud hynny.

Mohammad Asghar: Do you agree with Members on this side of the Chamber that it would be a fantastic gesture to offer free entry to local authority swimming pools, as well as to other local government leisure facilities, for all ex-armed forces personnel in Wales? Making such a commitment could play a pivotal role in helping those who have served our country so bravely to reintegrate into Welsh society.

The First Minister: I understand that some authorities already do this. I encourage all local authorities in Wales to take the same approach.

Gwasanaethau Cymdeithasol

8. Veronica German: *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. OAQ(3)3452(FM)*

The First Minister: As you know, our plans for transforming social services in Wales were set out in 'Sustainable Social Services for Wales: A Framework for Action', which was published on 17 February. I refer you to the oral statement made by the Deputy Minister on 1 March.

Veronica German: We hear much talk of the importance of enabling people in Wales to live independent lives. Sometimes, help with care is required. The paper to which you referred talks about citizen-centred services. One way for a person to be able to shape and take control of those services is to receive direct payments, yet, in Wales, at the moment, only 1.3 per cent of people receiving a social care package take up those direct payments, compared with 13 per cent

acknowledge the success of this popular policy and can he confirm that the Welsh Government has no intention of terminating the free swimming scheme, despite the devastating effects of the Liberal Democrat and Tory public expenditure cuts?

The First Minister: There are no plans to do that.

Mohammad Asghar: A ydych yn cytuno â'r Aelodau ar yr ochr hon i'r Siambr y byddai'n beth gwych i gynnig mynediad am ddim i byllau nofio awdurdodau lleol, yn ogystal ag i gyfleusterau hamdden eraill llywodraeth leol, i holl gyn-bersonél y lluoedd arfog yng Nghymru? Gallai ymrwymiad o'r fath chwarae rhan ganolog yn helpu'r rhai sydd wedi gwasanaethu'n gwlad mor ddewr i ailintegreiddio i'r gymdeithas yng Nghymru.

Y Prif Weinidog: Yr wyf yn deall bod rhai awdurdodau yn gwneud hyn eisoes. Rwy'n annog holl awdurdodau lleol yng Nghymru i wneud yr un peth.

Social Services

8. Veronica German: *Will the First Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's plans for social services in Wales. OAQ(3)3452(FM)*

Y Prif Weinidog: Fel y gwyddoch, gosodwyd ein cynlluniau ar gyfer trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru yn 'Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu', a gyhoeddwyd ar 17 Chwefror. Fe'ch cyfeiriaf at y datganiad llafar a wnaed gan y Dirprwy Weinidog ar 1 Mawrth.

Veronica German: Yr ydym yn clywed llawer o sôn am bwysigrwydd galluogi pobl yng Nghymru i fyw bywydau annibynnol. Weithiau, y mae angen cymorth gyda gofal. Roedd y papur y cyfeiriasoch ato yn sôn am wasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd. Un ffordd i berson allu llunio a chymryd rheolaeth dros y gwasanaethau hynny yw drwy dderbyn taliadau uniongyrchol, ond yng Nghymru ar hyn o bryd dim ond 1.3 y cant o'r bobl sy'n derbyn

in England. Are you happy with those figures and can you account for why they are so low?

The First Minister: We take the view that what is important is that people receive the services that they need. That is why we have ensured, first, that sufficient money is available for that to happen in Wales, unlike where your party is in power, and, secondly, taken steps to ensure that the structure for delivering social services for the future is the right one.

Helen Mary Jones: First Minister, I know that you will agree that the key to delivering successful social services is the workforce. I am sure that you will want to endorse the remarks made last week by the Deputy Minister about the excellent work that the vast majority of our staff involved in care, including professional social workers, do, although we know that there are still challenges. Do you agree that there might be value in looking at a national set of terms and conditions for social workers? You do not get paid differently in different parts of Wales if you are a nurse or a teacher and you used not to get paid differently if you were a social worker. It would be very much in keeping with the spirit of the White Paper that the Deputy Minister published last week, both as a practical step to stop social workers being poached from one authority to another, and as a way of giving that profession respect, for consideration to be given, at least, to a national set of terms and conditions for those professionals.

The First Minister: That is an interesting idea to discuss with the organisations representing social workers. You are right to point out that part of the difficulty lies in the fact that we have so many social services departments in Wales. It is difficult, these days, for new social workers to get the training and mentoring that they need compared with the days when there were only eight departments. It is right to say that

pecyn gofal cymdeithasol sy'n manteisio ar y taliadau uniongyrchol hynny, o gymharu â 13 y cant yn Lloegr. A ydych chi'n hapus gyda'r ffigurau hynny, ac a allwch chi esbonio pam y maent mor isel?

Y Prif Weinidog: Yr ydym o'r farn mai'r hyn sy'n bwysig yw bod pobl yn derbyn y gwasanaethau y mae arnynt eu hangen. Dyna pam yr ydym, yn gyntaf, wedi sicrhau bod digon o arian ar gael er mwyn i hynny ddigwydd yng Nghymru, yn wahanol i'r fan lle mae eich plaid chi mewn grym, ac, yn ail, wedi cymryd camau i sicrhau bod y strwythur ar gyfer cyflwyno gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer y dyfodol yn gywir.

Helen Mary Jones: Brif Weinidog, yr wyf yn gwybod y byddwch yn cytuno mai'r allwedd i ddarparu gwasanaethau cymdeithasol llwyddiannus yw'r gweithlu. Yr wyf yn siŵr y byddwch yn dymuno ategu'r sylwadau a wnaethpwyd yr wythnos diwethaf gan y Dirprwy Weinidog am y gwaith rhagorol y mae'r mwyafrif helaeth o'n staff sy'n ymwneud â gofal yn ei wneud, gan gynnwys gweithwyr cymdeithasol proffesiynol, er y gwyddom bod heriau yn parhau. A ydych yn cytuno y gallai fod gwerth mewn edrych ar set genedlaethol o delerau ac amodau ar gyfer gweithwyr cymdeithasol? Nid ydych yn cael eich talu yn wahanol mewn gwahanol rannau o Gymru os ydych yn nyrs neu'n athro ac nid oeddech yn arfer cael eich talu yn wahanol os oeddech yn weithiwr cymdeithasol. Byddai'n gydnaws ag ysbryd y Papur Gwyn y cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog yr wythnos diwethaf, fel cam ymarferol i atal gweithwyr cymdeithasol rhag gael eu cipio o un awdurdod i un arall, ac fel ffordd o roi parch i'r proffesiwn hwnnw, i ystyriaeth gael ei roi, o leiaf, i set genedlaethol o delerau ac amodau ar gyfer y gweithwyr proffesiynol hynny.

Y Prif Weinidog: Mae hwnnw'n syniad diddorol i'w drafod gyda'r sefydliadau sy'n cynrychioli gweithwyr cymdeithasol. Yr ydych yn iawn i nodi bod rhan o'r anhawster yn y ffaith bod gennym gymaint o adrannau gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Mae'n anodd, y dyddiau hyn, i weithwyr cymdeithasol newydd gael yr hyfforddiant a'r mentora y mae arnynt eu hangen o gymharu â'r dyddiau pan nad oedd ond wyth adran.

one of the reasons behind looking at the social services White Paper and all the actions after that was to see whether we can provide greater support for social workers. Money and the pay scale are important, but it is also essential to ensure that training, support and mentoring are all in place.

Gwasanaethau Iechyd yn y Gogledd

9. Darren Millar: *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol gwasanaethau iechyd yn y Gogledd. OAQ(3)3461(FM)*

The First Minister: As in the rest of Wales, we will continue to ensure that patients receive the care that they need in an integrated system that is not distracted by competition and a complicated commissioning processes.

2.00 p.m.

Darren Millar: Thank you for that response, First Minister. You will be aware that recent figures show that there has been a significant increase in the number of hospital births and Caesarean deliveries in north Wales over the past five years. You may also be aware that there is significant concern in north Wales about the future of maternity services, which are currently being reviewed by the Betsi Cadwaladr University Local Health Board.

In a recent update, which was circulated to Assembly Members in north Wales yesterday, the board makes it absolutely clear that it is not ruling out the withdrawal of consultant-led maternity services at one or more of the three district general hospitals in north Wales. Your Government has been silent on this matter. In fact, the only statement that I can recall the Minister for Health and Social Services making was the one branding mothers as troublemakers for raising these concerns in public. Do you agree that it is important that consultant-led maternity services are available at each of those three district general hospitals and will you guarantee the future of those for my constituents and others like them who are concerned about these services?

Mae'n iawn i ddweud mai un o'r rhesymau dros edrych ar y Papur Gwyn ar wasanaethau cymdeithasol, a'r holl gamau gweithredu ar ôl hynny, oedd i weld a allwn gynnig mwy o gefnogaeth i weithwyr cymdeithasol. Mae arian a'r raddfa gyflog yn bwysig, ond mae hefyd yn hanfodol i sicrhau bod hyfforddiant, cefnogaeth a mentora i gyd yn eu lle.

Health Services in North Wales

9. Darren Millar: *Will the First Minister make a statement on the future of health services in North Wales. OAQ(3)3461(FM)*

Y Prif Weinidog: Fel yng ngweddill Cymru, byddwn yn parhau i sicrhau bod cleifion yn derbyn y gofal y mae arnynt ei angen mewn system integredig nad yw'n cael ei ddrysu gan gystadleuaeth a phrosesau comisiynu cymhleth.

Darren Millar: Diolch ichi am yr ymateb hwnnw, Brif Weinidog. Byddwch yn ymwybodol bod ffigurau diweddar yn dangos bod cynnydd sylweddol wedi bod yn nifer y genedigaethau ysbyty a genedigaethau Cesaraidd yng ngogledd Cymru dros y pum mlynedd diwethaf. Efallai y byddwch hefyd yn ymwybodol bod pryder sylweddol yn y gogledd ynghylch dyfodol gwasanaethau mamolaeth, sy'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd gan Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Yn y wybodaeth ddiweddaraf a gafodd ei dosbarthu i Aelodau Cynulliad yng ngogledd Cymru ddoe, mae'r bwrdd yn ei gwneud yn gwbl glir nad yw'n gwrthod y posibilrwydd o ddileu'r gwasanaethau mamolaeth dan arweiniad meddyg ymgynghorol yn un neu fwy o'r tri ysbyty cyffredinol dosbarth yng ngogledd Cymru. Mae eich Llywodraeth wedi bod yn dawel ar y mater hwn. Yn wir, yr unig ddatganiad y gallaf ei gofio gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol oedd yr un a oedd yn brandio mamau fel pobl sy'n creu helynt am godi'r pryderon hyn yn gyhoeddus. A ydych yn cytuno ei bod yn bwysig bod gwasanaethau mamolaeth dan arweiniad meddyg ymgynghorol ar gael ym mhob un o'r tri ysbyty cyffredinol dosbarth, ac a wnewch chi

warantu eu dyfodol ar gyfer fy etholwyr a phobl eraill sy'n pryderu am y gwasanaethau hyn?

The First Minister: I am amazed to hear Darren say that the Minister for health branded mothers as troublemakers; that is not what she said at all. Secondly, all we hear from the party opposite is scaremongering. There is an election coming up in May, therefore they are scaremongering in north Wales and suggesting that, somehow, those living in north Wales will lose services. Let me make two things absolutely clear: first, no decisions have been made and, secondly, and importantly, no recommendations will be made until a clinical consensus is developed. In other words, doctors' views are important.

Y Prif Weinidog: Yr wyf yn synnu clywed Darren yn dweud bod y Gweinidog dros iechyd wedi brandio mamau fel pobl sy'n creu helynt; nid dyna beth a ddywedodd o gwbl. Yn ail, y cwbl a glywn gan y blaid gyferbyn yw codi bwganod. Mae etholiad yn ym mis Mai, felly maent yn codi bwganod yng ngogledd Cymru ac yn awgrymu y bydd y rhai sy'n byw yng ngogledd Cymru rywsut yn colli gwasanaethau. Gadewch i mi wneud dau beth yn hollol glir: yn gyntaf, nid oes unrhyw benderfyniadau wedi eu gwneud ac, yn ail, ac yn bwysig, ni fydd unrhyw argymhellion yn cael eu gwneud hyd nes y bydd consensws clinigol yn cael ei ddatblygu. Mewn geiriau eraill, mae barn meddygon yn bwysig.

Sandy Mewies: Since 2007, thanks to this Government, people in Wales, in their tens of thousands, if not hundreds of thousands, have benefited from free prescriptions, which has been hailed as a great benefit by the British Medical Association and many of the large health promotion organisations. I therefore welcome your commitment to keep free prescriptions in Wales. However, do you agree that Mark Isherwood's pledge last week that the Conservatives in Wales would reintroduce prescription charges for some is another indication that, given the chance, the Conservatives in Wales would implement more cuts on important universal benefits, such as free school breakfasts, free prescriptions and free bus travel?

Sandy Mewies: Ers 2007, diolch i'r Llywodraeth hon, mae pobl yng Nghymru, yn eu degau o filoedd, os nad yn eu cannoedd o filoedd, wedi elwa o gael presgripsiynau am ddim, sydd wedi cael ei ganmol fel budd gwyb gan y Gymdeithas Feddygol Brydeinig a llawer o'r sefydliadau mawr sy'n hybu iechyd. Yr wyf felly yn croesawu eich ymrwymiad i gadw presgripsiynau am ddim yng Nghymru. Fodd bynnag, a ydych yn cytuno bod addewid Mark Isherwood yr wythnos ddiwethaf, sef y byddai'r Ceidwadwyr yng Nghymru yn ailgyflwyno taliadau presgripsiwn ar gyfer rhai, yn arwydd arall y byddai Ceidwadwyr Cymru, o gael y cyfle, yn gwneud mwy o doriadau i fudd-daliadau cyffredinol pwysig, megis brecwast am ddim mewn ysgolion, presgripsiynau am ddim a theithio ar fysiau am ddim?

The First Minister: Prescription charges, if introduced in Wales, would be a tax, not a cut. The Tories want to introduce a tablet tax for the people of Wales. The party opposite has been telling us that the last thing that we should do is to increase taxes but the first thing that it would do, if it ever came to power in Wales, would be to introduce a tablet tax, forcing people to pay up to £7.40 each time they receive prescription drugs from a doctor. We know full well that many people in Wales will find themselves

Y Prif Weinidog: Byddai taliadau presgripsiwn, pe caent eu cyflwyno yng Nghymru, yn dreth nid yn doriad. Mae'r Torïaid eisiau cyflwyno treth dabledi ar gyfer pobl Cymru. Mae'r blaid gyferbyn wedi bod yn dweud wrthym mai'r peth olaf y dylem ei wneud yw cynyddu trethi, ond y peth cyntaf y byddai'n ei wneud, pe bai'n dod i rym yng Nghymru, fyddai cyflwyno treth dabledi, gan orfodi pobl i dalu hyd at £7.40 bob tro y byddant yn derbyn cyffuriau presgripsiwn gan feddyg. Rydym yn gwybod yn iawn y

significantly worse off, such as the people who are ill but who are still in work. They may then find it easier not to be in work if they have to pay for their prescription drugs. The cat is now out of the bag and the Tories' tablet tax is there for all to see.

Mick Bates: Do you agree that the neonatal services department in Wrexham Maelor Hospital may not be able to cope with the extra approximately 50 neonatal cases it would receive from Montgomeryshire should proposals go ahead for changes to services at the Royal Shrewsbury Hospital for patients living in Wales? Do you also agree that your Government should examine the strategic impact of these changes in Shropshire on all Welsh providers?

The First Minister: That is something that Powys Teaching Local Health Board is looking at, and which the Minister is monitoring carefully to ensure that there is no adverse impact on Wales. However, this decision will be taken by the UK Government in London, not the Welsh Assembly Government. Nevertheless, we will take steps to ensure that we monitor the situation to ensure that the people of Powys do not lose out.

Janet Ryder: You are aware of the very good work that has been done in Wales over many years in the field of autism, and that Betsi Cadwaladr University Local Health Board is taking the lead, in an all-Wales strategy, to develop diagnostics in that field for both adults and children. This is crucial to many people. Can you give an update on the progress of that work and perhaps consider issuing a statement on it, so that everyone can be assured how well that work is progressing?

The First Minister: All health boards have agreed to participate in the all-Wales service. They are all represented on the project, which is hosted, as you know, by Betsi Cadwaladr LHB. For the financial year 2011-12, £256,000 has been allocated for this work. The situation at the moment is that some

bydd llawer o bobl yng Nghymru yn sylweddol waeth eu byd, megis y bobl sy'n sâl ond sydd yn dal i fod mewn gwaith. Efallai y byddant yn ei gweld hi'n haws i beidio á bod yn y gwaith os oes yn rhaid iddynt dalu am eu cyffuriau presgripsiwn. Mae'r gath yn awr allan o'r cwd ac mae treth dabledi y Toriaid yno i bawb ei weld.

Mick Bates: A ydych yn cytuno na fydd yr adran gwasanaethau newyddenedigol yn Ysbyty Maelor Wrecsam yn gallu ymdopi ag oddeutu 50 o achosion newyddenedigol ychwanegol o sir Drefaldwyn os yw cynigion ar gyfer newidiadau i wasanaethau yn Ysbyty Brenhinol Amwythig yn mynd yn eu blaen yn achos cleifion sy'n byw yng Nghymru? A ydych hefyd yn cytuno y dylai eich Llywodraeth edrych ar effaith strategol y newidiadau hyn yn sir Amwythig ar y darparwyr o Gymru?

Y Prif Weinidog: Mae hynny'n rhywbeth y mae Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys yn edrych arno, ac mae'r Gweinidog yn monitro yn ofalus er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol ar Gymru. Fodd bynnag, bydd y penderfyniad hwn yn cael ei gymryd gan Lywodraeth y DU yn Llundain, nid Llywodraeth Cynulliad Cymru. Serch hynny, byddwn yn cymryd camau i sicrhau ein bod yn monitro'r sefyllfa i sicrhau nad yw pobl Powys yn colli allan.

Janet Ryder: Yr ydych yn ymwybodol o'r gwaith da iawn sydd wedi cael ei wneud yng Nghymru dros nifer o flynyddoedd ym maes awtistiaeth, a bod Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr yn arwain y ffordd, mewn strategaeth Cymru gyfan, i ddatblygu diagnosteg yn y maes hwnnw ar gyfer oedolion a phlant. Mae hyn yn hanfodol i lawer o bobl. A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd gyda'r gwaith hwnnw ac efallai ystyried cyhoeddi datganiad arno, fel y gall pawb fod yn sicr pa mor dda y mae'r gwaith yn mynd rhagddo?

Y Prif Weinidog: Mae pob bwrdd iechyd wedi cytuno i gymryd rhan yn y gwasanaeth ar gyfer Cymru gyfan. Maent yn cael eu cynrychioli ar y prosiect, sy'n cael ei gynnal, fel y gwyddoch, gan fwrdd iechyd lleol Betsi Cadwaladr. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2011-12, mae £256,000 wedi cael ei neilltuo

initial development work has been undertaken and I expect the work to start in earnest during the next financial year.

Mark Isherwood: Thank you for mentioning my name earlier, Sandy. What I said was that we will protect free prescriptions for young people, older people, for students and for everybody who was previously receiving them, and extend them to additional groups of people with complex conditions. By removing prescriptions for people such as me—and probably you—we can put more money into stroke services and palliative care. Why has your Government ignored the calls over the years to provide the core funding that is so desperately needed in those two areas?

The First Minister: You cannot extend a service that is already universal, Mark. If you start charging people for medicine, where will you end? Will you start charging people for visiting their GP, or for minor operations? Where does it all end? You should tell us.

Swyddi yn y Sector Cyhoeddus

10. Leanne Wood: *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bwysigrwydd swyddi yn y sector cyhoeddus i Gymru. OAQ(3)3454(FM)*

The First Minister: Public sector jobs represent some 25.7 per cent of total employment and there are many working in the public sector who will be concerned about their futures following the financial settlement provided by the UK Government.

Leanne Wood: First Minister, we are seeing signs of the Westminster coalition's cuts agenda starting to bite across Wales. Local authorities across Wales have had to make some very tough decisions as a result of the budget squeeze engineered by George Osborne in London. Although a memorandum of agreement was signed between trade unions and Welsh councils on saving jobs and services, there does seem to be a great deal of variance with regard to the way in which local authorities are tackling

ar gyfer y gwaith hwn. Y sefyllfa ar hyn o bryd yw bod rhywfaint o waith datblygu cychwynnol wedi cael ei wneud ac rwy'n disgwyl i'r gwaith ddechrau o ddifrif yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

Mark Isherwood: Diolch i chi am grybwyll fy enw yn gynharach, Sandy. Yr hyn a ddywedais oedd y byddwn yn diogelu presgripsiynau am ddim i bobl ifanc, pobl hŷn, myfyrwyr ac i bawb a oedd yn eu derbyn yn barod, a'u hystyngwch i grwpiau ychwanegol o bobl â chyflyrau cymhleth. Wrth dynnu presgripsiynau oddi wrth bobl fel fi—a chi, mae'n debyg—gallwn roi mwy o arian i wasanaethau strôc a gofal lliniarol. Pam mae eich Llywodraeth wedi anwybyddu'r galw dros y blynyddoedd i ddarparu'r cyllid craidd y mae dirfawr angen amdano yn y ddau faes hwnnw?

Y Prif Weinidog: Ni allwch ymestyn gwasanaeth sydd eisoes yn gyffredinol, Mark. Os ydych yn dechrau codi tâl ar bobl am foddion, ble bydd hynny'n dod i ben? A fyddwch yn dechrau codi tâl ar bobl am ymweld â'u meddyg teulu, neu ar gyfer mân lawdriniaethau? Ble mae hyn i gyd yn diweddu? Dylech ddweud wrthym.

Public Sector Jobs

10. Leanne Wood: *Will the First Minister make a statement on the importance of public sector jobs to Wales. OAQ(3)3454(FM)*

Y Prif Weinidog: Mae swyddi yn y sector cyhoeddus yn cyfateb i tua 25.7 y cant o gyfanswm cyflogaeth, a bydd llawer sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus yn poeni am eu dyfodol yn dilyn setliad ariannol Llywodraeth y DU.

Leanne Wood: Brif Weinidog, rydym yn gweld arwyddion bod agenda toriadau'r glymblaid yn San Steffan yn dechrau brathu ar draws Cymru. Mae awdurdodau lleol ledled Cymru wedi gorfod gwneud rhai penderfyniadau anodd iawn o ganlyniad i'r wasgfa ar y gyllideb a gafodd ei lywio gan George Osborne yn Llundain. Er bod memorandwm cytundeb wedi ei arwyddo rhwng undebau llafur a chynghorau Cymru o ran arbed swyddi a gwasanaethau, mae'n ymddangos bod llawer o amrywiaeth o ran y

their budget deficit. Some are making great efforts to ensure that those at the top share the pain, but others, such as Rhondda Cynon Taf, appear to be punishing some of their lowest paid staff. I agree that everything possible should be done to protect jobs, but is there any room to revisit the memorandum in order to insert a clause to ensure that a level of equality exists so that the burden for these cuts is shared much more equally by those at the top of the salary scale as opposed to being borne only by those at the bottom, as appears to be happening at the moment?

The First Minister: I would not necessarily disagree with your comments on the need to share the burden and for the burden not to fall disproportionately on those who are lowest paid. However, the memorandum of understanding is designed to provide a framework that both employers and employees can follow in order to reach a satisfactory settlement in difficult financial times. I am happy that all local authorities in Wales, as well as the Wales TUC, have signed up to the memorandum of understanding and I believe that, if it is followed, it will provide certainty for everybody involved.

Alun Davies: First Minister, we are coming to the end of this Assembly and, when people look back at it, it will be the economic and financial crisis that will, in many ways, characterise it and this term of the Welsh Assembly Government. Do you agree with me that investment in the public sector and public sector jobs was one way in which this Assembly Government was able to ensure that Wales did not face the depths of the recession that we have seen in previous years? Do you also agree with me that the cuts that we are seeing engineered by idle ideologues in London mean that the public sector is facing cuts that are too deep and too fast?

The First Minister: 'Idle ideologues' is quite a phrase, but not one that should be repeated at some speed, I suspect. I agree, however, with your point. Two of the things

ffordd y mae awdurdodau lleol yn mynd i'r afael â'u diffyg cyllideb. Mae rhai yn gwneud ymdrechion mawr i sicrhau bod y rhai ar y brig yn rhannu'r boen, ond ymddengys bod eraill, megis Rhondda Cynon Taf, yn cosbi rhai o'u staff sy'n derbyn y cyflogau isaf. Cytunaf y dylai popeth posibl gael ei wneud i ddiogelu swyddi, ond a oes unrhyw le i ailystyried y memorandwm er mwyn cynnwys cymal i sicrhau bod lefel o gydraddoldeb yn bodoli fel bod baich y toriadau yn cael ei rannu yn llawer mwy cyfartal gan y rhai sydd ar frig y raddfa gyflog yn hytrach na dim ond y rhai ar y gwaelod, fel yr ymddengys sy'n digwydd ar hyn o bryd?

Y Prif Weinidog: Ni fyddwn o reidrwydd yn anghytuno â'ch sylwadau ar yr angen i rannu'r baich ac i'r baich beidio â disgyn yn anghymesur ar y rhai sy'n cael y cyflogau isaf. Fodd bynnag, mae'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth wedi ei gynllunio i ddarparu fframwaith y gall cyflogwyr a gweithwyr ei ddilyn er mwyn dod i gytundeb boddhaol mewn cyfnod ariannol anodd. Yr wyf yn hapus bod pob awdurdod lleol yng Nghymru, yn ogystal â TUC Cymru, wedi ymrwymo i'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth ac rwy'n credu, os yw'n cael ei ddilyn, y bydd yn rhoi sicrwydd i bawb.

Alun Davies: Brif Weinidog, rydym yn dod at ddiwedd y Cynulliad hwn, a phan fydd pobl yn edrych yn ôl arno, yr argyfwng economaidd ac ariannol a fydd, mewn sawl ffordd, yn ei nodweddu a'r tymor hwn o Lywodraeth y Cynulliad. A ydych chi'n cytuno â mi bod buddsoddi yn y sector cyhoeddus ac mewn swyddi sector cyhoeddus wedi bod yn un ffordd y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gallu sicrhau nad oedd Cymru yn wynebu dyfnderoedd y dirwasgiad yr ydym wedi gweld yn y blynyddoedd blaenorol? A ydych chi hefyd yn cytuno â mi bod y toriadau a luniwyd gan ideolegwyr segur yn Llundain yn golygu bod y sector cyhoeddus yn wynebu toriadau sy'n rhy ddwfn ac yn rhy gyflym?

Y Prif Weinidog: Mae 'ideolegwyr segur' yn dipyn o ymadrodd, ond nid un y dylid ei ailadrodd yn gyflym, yr wyf yn amau. Yr wyf yn cytuno, fodd bynnag, gyda'ch pwynt. Dau

that we did that have had a great effect was the bringing forward of the capital programme and the introduction of the ProAct and ReAct schemes, which were brought forth after discussions with trade unions and the Confederation of British Industry and employers. There are more than 12,000 people in Wales today who are in jobs because of the ProAct scheme, where employers were given a subsidy to keep people and to train them. That is the Government working at its best with employers and employees in the spirit of social partnership.

Gwybodaeth Fusnes

11. Bethan Jenkins: *Pa wybodaeth fusnes y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei chasglu a'i throsglwyddo i gwmnïau yma yng Nghymru. OAQ(3)3457(FM)*

The First Minister: Our main repository and communication channel to collect information and provide Welsh companies with up-to-date business information is the Welsh Assembly Government's business website, www.business.wales.gov.uk.

Bethan Jenkins: At an economic forum that I launched in Neath recently, businesspeople asked whether they could be provided with information on industry trends in order to help them to make commercial decisions. What business information does the Welsh Assembly Government collect and pass on to companies in Wales so that they can make informed choices about the future of their businesses?

The First Minister: We provide clients with analysis and information on trends that emanate from research as and when that is required. You will know that, through 'Economic Renewal: a New Direction', the sector panels will be able to provide greater insight into the needs of the various sectors that are identified within it.

Angela Burns: First Minister, could you also tell us whether you receive any of the information that the UK Government collects from businesses? These censuses are launched onto businesses every quarter, and have been going on now for at least the past

o'r pethau a wnaethom a gafodd effaith fawr oedd dwyn ymlaen y rhaglen gyfalaf a chyflwyno cynlluniau ProAct a ReAct, a gyflwynwyd yn dilyn trafodaethau gydag undebau llafur a Chyddfederasiwn Diwydiant Prydain a chyflogwyr. Mae mwy na 12,000 o bobl yng Nghymru heddiw sydd mewn swyddi oherwydd y cynllun ProAct, lle rhoddwyd cymhorthdal i gyflogwyr i gadw pobl a'u hyfforddi. Dyna'r Llywodraeth yn gweithio ar ei orau gyda chyflogwyr a gweithwyr yn yr ysbryd o bartneriaeth gymdeithasol.

Business Information

11. Bethan Jenkins: *What business information does the Welsh Assembly Government collect and pass onto companies here in Wales. OAQ(3)3457(FM)*

Y Prif Weinidog: Ein prif storfa a sianel gyfathrebu i gasglu gwybodaeth a darparu cwmnïau Cymreig gyda'r wybodaeth busnes ddiweddaraf yw gwefan busnes Llywodraeth Cynulliad Cymru, www.business.wales.gov.uk/cy.

Bethan Jenkins: Mewn fforwm economaidd a lanswyd gennyf yng Nghastell-nedd yn ddiweddar, gofynnodd pobl fusnes a ellid eu darparu â gwybodaeth ar dueddiadau diwydiant er mwyn eu helpu i wneud penderfyniadau masnachol. Pa wybodaeth fusnes y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei chasglu a'i throsglwyddo i gwmnïau yng Nghymru fel y gallant wneud dewisiadau gwybodus am ddyfodol eu busnesau?

Y Prif Weinidog: Rydym yn darparu cleientiaid gyda dadansoddiad a gwybodaeth am dueddiadau sy'n deillio o waith ymchwil yn ôl y galw. Byddwch yn gwybod, drwy 'Adnewyddu'r Economi: Cyfeiriad Newydd', y bydd y paneli sector yn gallu darparu mwy o fewnwelediad i anghenion y sectorau amrywiol sy'n cael eu nodi ynddo.

Angela Burns: Brif Weinidog, a allech hefyd ddweud wrthym a ydych yn derbyn unrhyw ran o'r wybodaeth y mae Llywodraeth y DU yn ei chasglu oddi wrth fusnesau? Mae busnesau dan ymosodiad chwarterol gan y cyfrifiadau hyn am o leiaf y 15 mlynedd

15 years, if not more. What relationship is there between the Welsh Assembly Government and the UK Government with regard to finding out that information and getting those parts of it that are relevant to Wales, so that it can be used by the Welsh Assembly Government and Welsh businesses?

The First Minister: There is an exchange of data between the Governments. Sometimes it is possible to extrapolate from UK data the effect on Wales, and sometimes it is not possible to do so. We produce data for our own use as a Government, but we are also keen to access data that are produced by the UK Government. There is no question of there being some kind of wall surrounding UK Government data, or indeed Welsh Assembly Government data.

Trafnidiaeth Gyhoeddus

12. David Melding: *Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i sicrhau bod trafndiaeth gyhoeddus yn fwy hygyrch i bobl eiddil ac anabl. OAQ(3)3459(FM)*

The First Minister: We are undertaking several initiatives to improve the accessibility of public transport and to ensure equality of access for everyone. They are to be found in the national transport plan, and include maintaining the concessionary fare scheme for elderly and disabled people, and moving forward with the national stations improvement programme and community transport initiatives.

David Melding: As well as improving infrastructure and access to buses and trains, many elderly, infirm and disabled people rely on community transport schemes. Many of us are rather disappointed that we have not developed those schemes a bit more, and feel that those in the community who are usually the most vulnerable as a result of their lack of mobility have been somewhat left behind in the world of the free bus pass initiative. That has had great social benefits in shifting transport modes, but that group of people feel that they have not been at the top of the list when it comes to new policy initiatives to improve transport for them.

diwethaf, os nad mwy. Pa berthynas sydd rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a Llywodraeth y DU o ran canfod y wybodaeth honno a chael y rhannau hynny ohoni sy'n berthnasol i Gymru, fel y gall Llywodraeth Cynulliad Cymru a busnesau Cymru ei ddefnyddio?

Y Prif Weinidog: Mae cyfnewid data rhwng y Llywodraethau. Weithiau mae'n bosibl allosod yr effaith ar Gymru o ddata y DU, ac weithiau nid yw'n bosibl gwneud hynny. Rydym yn cynhyrchu data ar gyfer ein defnydd eu hunain fel Llywodraeth, ond rydym hefyd yn awyddus i gael gafael ar ddata sy'n cael ei gynhyrchu gan Lywodraeth y DU. Nid oes unrhyw fath o wal o amgylch data Llywodraeth y DU, neu yn wir ddata Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Public Transport

12. David Melding: *What is the Welsh Assembly Government doing to make public transport more accessible for the infirm and disabled. OAQ(3)3459(FM)*

Y Prif Weinidog: Yr ydym yn cynnal nifer o fentrau i wella hygyrchedd trafndiaeth gyhoeddus a sicrhau mynediad cyfartal i bawb. Maent i'w cael yn y cynllun trafndiaeth cenedlaethol, ac maent yn cynnwys cynnal y cynllun tocynnau rhatach ar gyfer yr henoed a phobl anabl, a symud ymlaen gyda'r rhaglen genedlaethol i wella gorsafocedd a mentrau trafndiaeth gymunedol.

David Melding: Yn ogystal â gwella seilwaith a mynediad i fysiau a threnau, mae nifer o bobl oedrannus, pobl fregus ac anabl yn dibynnu ar gynlluniau trafndiaeth gymunedol. Mae llawer ohonom yn siomedig braidd nad ydym wedi datblygu'r cynlluniau hynny ychydig yn fwy, ac yn teimlo bod y rhai yn y gymuned sydd fel arfer yn fwyaf agored i niwed o ganlyniad i broblemau symudo gwmpas wedi cael eu gadael braidd yn ôl ym myd y fenter tocynnau bws am ddim. Mae hynny wedi dod â manteision cymdeithasol mawr i symud dulliau trafndiaeth, ond mae'r grŵp hwnnw o bobl yn teimlo nad ydynt wedi bod ar frig y rhestr pan ddaw at fentrau polisïau newydd i wella

trafnidiaeth ar eu cyfer.

The First Minister: You will be aware of the Bwcabus scheme, which operates in some parts of rural Carmarthenshire. We have supported that project financially, and it has won several awards. We are now considering extending that project to other parts of Carmarthenshire and to Ceredigion. Indeed, we will look to build upon that successful model for the provision of community transport in the medium to long term.

Y Prif Weinidog: Byddwch yn ymwybodol o'r cynllun Bwcabus, sy'n gweithredu mewn rhai rhannau o sir Gaerfyrddin wledig. Rydym wedi cefnogi'r prosiect yn ariannol, ac mae wedi ennill sawl gwobr. Rydym yn awr yn ystyried ymestyn y prosiect i rannau eraill o sir Gaerfyrddin a Cheredigion. Yn wir, byddwn yn edrych i adeiladu ar y model llwyddiannus ar gyfer darparu trafndiaeth gymunedol yn y tymor canolig i'r tymor hir.

Y Llywydd: Diolch yn fawr i'r Prif Weinidog am ateb y cwestiynau.

The Presiding Officer: Thank you, First Minister, for responding to the questions.

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes Business Statement and Announcement

The Minister for Business and Budget (Jane Hutt): There are a number of changes to this week's planned Government business. Following the legislative consent motion in respect of the Public Bodies Bill this afternoon, the First Minister will be making a statement on the next steps following last week's referendum result. That will be followed by a statement by the Minister for health in response to the contaminated blood review. Tomorrow, the Minister for health will also make a statement on the Proposed National Assembly for Wales (Legislative Competence) (Health and Health Services) Order. However, business for the next three weeks is as set out in the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers that are available to Members electronically.

Y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb (Jane Hutt): Mae nifer o newidiadau i fusnes arfaethedig y Llywodraeth yr wythnos hon. Yn dilyn y cynnig cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â'r Mesur Cyrff Cyhoeddus y prynhawn yma, bydd y Prif Weinidog yn gwneud datganiad ar y camau nesaf yn dilyn canlyniad y refferendwm yr wythnos ddiwethaf. Bydd hyn yn cael ei ddilyn gan ddatganiad gan y Gweinidog dros iechyd mewn ymateb i'r adolygiad gwaed halogedig. Yfory, bydd y Gweinidog dros iechyd hefyd yn gwneud datganiad ar Orchymyn Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Iechyd a Gwasanaethau Iechyd). Fodd bynnag, mae busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y'i nodir yn y datganiad a'r cyhoeddiad busnes, sydd i'w gweld ymysg y papurau agenda sydd ar gael i Aelodau'n electronig.

Darren Millar: Minister, I ask for a statement from the Minister for Rural Affairs, or perhaps the Minister for Social Justice and Local Government, on decisions that are being taken by some local authorities in Wales regarding dog control Orders. My local authority of Conwy is consulting presently throughout the local authority area on dog control Orders that are, frankly, draconian. They will not allow dog owners, who are, on the whole, responsible, to exercise their dogs freely in public parks, public gardens, or on beaches in the area.

Darren Millar: Weinidog, gofynnaf am ddatganiad gan y Gweinidog dros Faterion Gwledig, neu efallai y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, ar benderfyniadau sy'n cael eu cymryd gan rai awdurdodau lleol yng Nghymru ynghylch Gorchmynion rheoli cŵn. Mae fy awdurdod lleol Conwy yn ymgynghori ar hyn o bryd ar draws yr awdurdod lleol ar Orchmynion rheoli cŵn sydd, a dweud y gwir, yn llym iawn. Ni fyddant yn caniatáu i berchnogion cŵn, sydd, ar y cyfan, yn gyfrifol, i ymarfer eu cŵn yn rhydd mewn

Given that they are so draconian, opportunities will be limited for dog owners to get out and have some exercise of their own. As the owner of a whippet, I cannot speak too highly of the exercise that that gives me, running up and down in the local park. Given the benefits to dog owners of the companionship and the exercise that they can get, in terms of their health and wellbeing, do you agree that it is important to have a standardised approach to this across Wales, rather than draconian measures coming forward in individual local authorities, one at a time?

2.15 p.m.

Jane Hutt: Clearly, this is an important issue for the people of Wales and their dogs, but I will clarify the issue of the regulatory arrangements with the Minister for Rural Affairs and the Minister for Social Justice and Local Government.

Brian Gibbons: Could we have a debate on core NHS values in Wales? We have already heard reference to free prescriptions. There have been four years, more or less, since the Assembly brought forward proposals for free prescriptions. That excellent lead was followed by Northern Ireland three years ago, and, in the last three or four weeks, the Scottish Parliament has taken a similar route, recognising the lead and the good policy provided in Wales. We need to protect these core values, given the comments that we have just heard from Mark Isherwood, and the tablet tax and the sickness tax that some parties in the Assembly are proposing.

Another core value is maintaining the NHS as the preferred provider of public services in Wales. A review is currently taking place in England on the blood transfusion service—if you do not mind—on UK Government proposals on the elements of the blood transfusion service that can be hived off to private providers in the name of ‘commercial effectiveness’. Could you confirm that this is not a route that we will take in Wales, given our core NHS values? Privatisation of the blood transfusion service would undermine

parciau cyhoeddus, gerddi cyhoeddus, neu ar draethau yn yr ardal. O ystyried eu bod mor llym, bydd cyfleoedd yn cael eu cyfyngu i berchnogion cŵn i fynd allan a chael ychydig o ymarfer corff eu hunain. Fel perchennog ar filgi bach, ni allaf ddweud digon am yr ymarfer corff y mae rhedeg i fyny ac i lawr yn y parc lleol gyda'r ci yn ei roi i mi. O ystyried y manteision i berchnogion cŵn o'r gwmnïaeth a'r ymarfer corff y gallant ei gael, o ran eu hiechyd a'u lles, a ydych yn cytuno ei bod yn bwysig cael dull safonedig ar draws Cymru, yn hytrach na mesurau llym gan awdurdodau lleol unigol, un ar y tro?

Jane Hutt: Yn amlwg, mae hwn yn fater pwysig i bobl Cymru a'u cŵn, ond byddaf yn trafod y trefniadau rheoleiddio gyda'r Gweinidog dros Faterion Gwledig a'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol.

Brian Gibbons: A allem gael dadl ar werthoedd craidd y GIG yng Nghymru? Rydym eisoes wedi clywed cyfeiriadau at bresgripsiynau am ddim. Mae pedair blynedd, fwy neu lai, wedi pasio ers i'r Cynulliad gyflwyno cynigion ar gyfer presgripsiynau am ddim. Dilynwyd yr arweiniad ardderchog hwnnw gan Ogledd Iwerddon dair blynedd yn ôl, ac yn y tair neu bedair wythnos ddiwethaf, mae Senedd yr Alban wedi dilyn llwybr tebyg, gan gydnabod yr arweiniad a'r polisi da a ddarperir yng Nghymru. Mae angen inni warchod y gwerthoedd craidd hyn, o ystyried y sylwadau rydym newydd eu clywed gan Mark Isherwood, a'r dreth tabledi a'r dreth salwch y mae rhai pleidiau yn y Cynulliad yn eu cynnig.

Gwerth craidd arall yw cynnal y GIG fel y darparwr gwasanaethau cyhoeddus dewisol yng Nghymru. Mae adolygiad yn cael ei gynnal yn Lloegr ar y gwasanaeth trallwysu gwaed—os nad oes ots gennyh—ar gynigion Llywodraeth y DU ar yr elfennau o'r gwasanaeth trallwysu gwaed y gellir eu dosrannu i ddarparwyr preifat yn enw 'effeithiolrwydd masnachol'. A allech chi gadarnhau nad yw hyn yn llwybr y byddwn yn ei gymryd yng Nghymru, o ystyried ein gwerthoedd craidd GIG ni? Byddai

the core principle of altruism that is the basis of that service.

Jane Hutt: Our core NHS values are clearly reflected in the ‘One Wales’ programme of government. Free prescriptions not only reflect our core values but also the evidence; free prescriptions are a long-term investment in improving health and in tackling health inequalities. They not only keep people out of hospitals by reducing the number of emergency admissions, thereby reducing the cost to the NHS, but also help people with long-term conditions to return to work, in the knowledge that they will receive this universal benefit, available to the people of Wales. That is in contrast to the £7.40 per item that will be charged over the border in England from 1 April. Scotland has followed us in recognising that these core values deliver the best outcomes. That is reflected in our response to the UK Government on the England-only review of the blood transfusion service. We have no plans to privatise the blood transfusion service in Wales. As you would expect, the public sector—the national health service—is the preferred provider in Wales.

Peter Black: We have already mentioned the proposed local government Measure that will be debated next week, and you will know that I am concerned about the late amendment tabled by the Minister for local government. I note that the explanatory memorandum and regulatory impact assessment have only been laid today, and will not be available on the internet until tomorrow, although they have been circulated to some Members and business managers so that they can be passed on. Given that this amendment is so controversial and contains actions that have not been properly costed or considered, do you not think that it is rather tardy of the Government to table the explanatory memorandum so late in the day, right up against the deadline for tabling amendments on the proposed Measure? We are not able to

preifateiddio'r gwasanaeth trallwysu gwaed yn tanseilio'r egwyddor graidd o anhunanoldeb sy'n sail i'r gwasanaeth hwnnw.

Jane Hutt: Mae ein gwerthoedd craidd GIG ni yn cael eu hadlewyrchu'n glir yn ein rhaglen lywodraethu ‘Cymru'n Un’. Mae presgripsiynau am ddim nid yn unig yn adlewyrchu ein gwerthoedd craidd ond y dystiolaeth hefyd; mae presgripsiynau am ddim yn fuddsoddiad tymor hir mewn gwella iechyd a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd. Nid yn unig eu bod yn cadw pobl allan o ysbytai drwy leihau nifer y derbyniadau brys, a thrwy hynny yn lleihau'r gost i'r GIG, ond maent hefyd yn helpu pobl â chyflyrau hirdymor i ddychwelyd i'r gwaith, gan wybod y byddant yn derbyn y budd cyffredinol hwn, sydd ar gael i bobl Cymru. Mae hynny mewn gwrthwyneb i'r £7.40 fesul eitem a fydd yn cael ei godi dros y ffin yn Lloegr o 1 Ebrill. Mae'r Alban wedi ein dilyn ni wrth gydnabod bod y gwerthoedd craidd hyn yn cyflawni'r canlyniadau gorau. Mae hynny wedi'i adlewyrchu yn ein hymateb i Lywodraeth y DU ar yr adolygiad Lloegr yn unig o'r gwasanaeth trallwysu gwaed. Nid oes gennym unrhyw gynlluniau i breifateiddio'r gwasanaeth trallwysu gwaed yng Nghymru. Fel y byddech yn ei ddisgwyl, y sector cyhoeddus—y gwasanaeth iechyd gwladol—yw'r darparwr dewisol yng Nghymru.

Peter Black: Yr ydym eisoes wedi sôn am y Mesur llywodraeth leol arfaethedig a fydd yn cael ei drafod yr wythnos nesaf, a byddwch yn gwybod fy mod yn pryderu am y gwelliant hwyr a gyflwynwyd gan y Gweinidog dros lywodraeth leol. Nodaf fod y memorandwm esboniadol a'r asesiad effaith rheoleiddiol ond wedi cael eu cyflwyno heddiw, ac ni fyddant ar gael ar y rhyngwyd tan yfory, er eu bod wedi cael eu dosbarthu i rai Aelodau a rheolwyr busnes fel y gellir eu trosglwyddo. O ystyried fod y gwelliant hwn mor ddadleuol ac yn cynnwys camau gweithredu nad ydynt wedi eu costio'n briodol neu eu hystyried, onid ydych yn meddwl bod y Llywodraeth wedi bod braidd yn araf yn cyflwyno'r memorandwm esboniadol mor hwyr yn y dydd, mor agos at y terfyn amser ar gyfer cyflwyno gwelliannau ar y Mesur

address any issues that may arise from it. Could you reconsider whether this amendment should go ahead, given that our hands are effectively being tied in terms of how we can respond to the late tabling of this explanatory memorandum?

Jane Hutt: The First Minister responded to this earlier this afternoon. The regulatory impact assessment was available. Indeed, I know that you were alerted to this yesterday. It was on time, and it is quite clear that this has been appropriately tabled, and that the proposed local government Measure will be able to proceed on that basis.

Rhodri Glyn Thomas: Minister, could you update me on discussions held with the Westminster coalition Government about the housing revenue account? As you know, the Deputy Minister for Housing and Regeneration has been working very hard to ensure that Welsh authorities are not penalised by this system. Carmarthenshire County Council, for example, had to return £5.5 million last year and has returned £50 million since 1999 through this system, purely because it has retained its stock. Scotland, interestingly enough, is exempt from this. Coincidentally, the Chief Secretary to the Treasury, Danny Alexander, is from Scotland, and therefore represents a country that is exempt from returning money through this system. Wales returns more money than is returned by England, although there are fewer houses kept in stock for rental purposes in Wales than in England. Could you update us on any discussions aimed at ensuring that Welsh local authorities are not penalised through this system and can invest that money in updating the stock that they have? We could reach the relevant quality standards much more quickly if local authorities like Carmarthenshire did not have to return £5.5 million every year to the Treasury.

Jane Hutt: We all agree that the housing revenue account subsidy system is unfair. It takes vital investment away, as you say, from the local authority housing sector. The

arfaethedig? Nid ydym yn gallu mynd i'r afael ag unrhyw faterion a allai godi ohono. A allwch chi ailystyried pa un ai a ddylai'r gwelliant hwn fynd yn ei flaen, o gofio bod ein dwylo, i bob pwrpas, yn cael eu clymu o ran sut y gallwn ymateb i gyflwyno'r memorandwm esboniadol hwn yn hwyr?

Jane Hutt: Ymatebodd y Prif Weinidog i hyn yn gynharach y prynhawn yma. Mae'r asesiad effaith rheoleiddiol ar gael. Yn wir, gwn ichi gael gwybod am hyn ddoe. Roedd ar amser, ac mae'n eithaf amlwg bod hyn wedi ei gyflwyno'n briodol, ac y bydd y Mesur llywodraeth leol arfaethedig yn gallu symud ymlaen ar y sail honno.

Rhodri Glyn Thomas: Weinidog, a allech roi'r wybodaeth ddiweddaraf i mi am drafodaethau a gafwyd gyda'r Llywodraeth glymblaid yn San Steffan am y cyfrif refeniw tai? Fel y gwyddoch, mae'r Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio wedi bod yn gweithio'n galed iawn i sicrhau nad yw awdurdodau Cymru yn cael eu cosbi gan y system hon. Gorfu i Gyngor Sir Gaerfyrddin, er enghraifft, ddychwelyd £5.5 miliwn y llynedd ac mae wedi dychwelyd £50 miliwn ers 1999 drwy'r system hon, dim ond oherwydd ei fod wedi cadw ei stoc. Mae'r Alban, yn ddigon diddorol, wedi ei heithrio o hyn. Trwy gyd-ddigwyddiad, mae Prif Ysgrifennydd y Trysorlys, Danny Alexander, yn dod o'r Alban, ac felly yn cynrychioli gwlad sydd wedi'i heithrio rhag dychwelyd arian drwy'r system hon. Mae Cymru'n dychwelyd mwy o arian nag sy'n cael ei ddychwelyd gan Loegr, er bod llai o dai yn cael eu cadw mewn stoc ar gyfer dibenion rhentu yng Nghymru nag yn Lloegr. A allech roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am unrhyw drafodaethau ynglŷn â sicrhau nad yw awdurdodau lleol Cymru yn cael eu cosbi drwy'r system ac y gallant fuddsoddi'r arian hwnnw mewn diweddarau'r stoc sydd ganddynt? Gallem gyrraedd y safonau ansawdd perthnasol yn llawer cyflymach os na fyddai'n rhaid i awdurdodau lleol fel sir Gaerfyrddin ddychwelyd £5.5 miliwn bob blwyddyn i'r Trysorlys.

Jane Hutt: Rydym i gyd yn cytuno bod y system cymhorthdal y cyfrif refeniw tai yn annheg. Mae'n cymryd buddsoddiad hanfodol i ffwrdd, fel y dywedwch, o sector

Deputy Minister for Housing and Regeneration has conducted a review of the system in Wales, and I have been supporting her and working with her to address this. As you say, the review revealed unpalatable comparisons with England and Scotland—particularly with Scotland. We are, therefore, committed to working together to get the best deal for Wales. In fact, I have discussed this with the Chief Secretary to the Treasury. It is important that we look at the outcome of the Welsh review. We remain committed to delivering an equitable system that meets the needs of Wales.

Nick Bourne: I thank the Minister for business for her statement, and for much of what she said on health. I absolutely agree that we have to be aware of any cutbacks on spending and rationing. The Minister will be aware that, on two separate occasions, I have raised the issue of people who are being referred to the Hywel Dda Local Health Board by optometrists for cataract operations and who are not being seen. This is a deliberate decision by the health board. It is a serious issue, which indicates how important it is that we do not drop our guard and spend fewer resources on the health service. Will the Minister please tell me what the Government is doing about this very serious omission, where people are being referred for serious cataract operations but are not being seen?

Jane Hutt: We debated this extensively in the debate on the draft budget, and you know full well, Nick, that we are increasing the budget line for the health service, in relation to the direct funding of health boards. There are operational matters that you can raise with the Minister for Health and Social Services, in terms of local and regional concerns. The Minister would clearly respond on that particular issue in writing, and I believe that she would provide a written statement.

Joyce Watson: Minister, would you join me in commemorating the one hundredth anniversary of International Women's Day

tai yr awdurdod lleol. Mae'r Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio wedi cynnal adolygiad o'r system yng Nghymru, ac rwyf wedi bod yn ei chefnogi a'n gweithio gyda hi i fynd i'r afael â hyn. Fel y dywedwch, datgelodd yr adolygiad gymariaethau annymunol â Lloegr a'r Alban—yn enwedig â'r Alban. Yr ydym, felly, wedi ymrwymo i weithio gyda'n gilydd i gael y fargen orau i Gymru. Yn wir, yr wyf wedi trafod hyn gyda Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys. Mae'n bwysig ein bod yn edrych ar ganlyniad yr adolygiad yng Nghymru. Rydym yn parhau'n ymrwymedig i ddarparu system deg sy'n diwallu anghenion Cymru.

Nick Bourne: Diolchaf i'r Gweinidog dros fusnes am ei datganiad, ac am lawer o'r hyn a ddywedodd ar iechyd. Cytunaf yn llwyr fod yn rhaid inni fod yn ymwybodol o unrhyw doriadau ar wariant a dogni. Bydd y Gweinidog yn ymwybodol, ar ddau achlysur gwahanol, fy mod wedi codi mater y bobl sy'n cael eu cyfeirio at Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda gan optometryddion ar gyfer llawdriniaethau cataract, ac sydd ddim yn cael eu gweld. Mae hyn yn benderfyniad bwriadol gan y bwrdd iechyd. Mae'n fater difrifol, sy'n dangos pa mor bwysig yw hi nad ydym yn bod yn llai gwyliadwrus ac yn gwario llai o adnoddau ar y gwasanaeth iechyd. A wnaiff y Gweinidog ddweud wrthyf beth y mae'r Llywodraeth yn ei wneud ynghylch y diffyg difrifol hwn, lle mae pobl yn cael eu cyfeirio ar gyfer llawdriniaethau cataract difrifol ond ddim yn cael eu gweld?

Jane Hutt: Trafodwyd hyn yn helaeth gennym yn y ddadl ar y gyllideb ddrafft, a gwyddoch yn dda, Nick, ein bod yn cynyddu'r llinell gyllid ar gyfer y gwasanaeth iechyd, mewn perthynas â'r cyllid uniongyrchol i fyrddau iechyd. Mae materion gweithredol y gallwch godi gyda'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, o ran pryderon lleol a rhanbarthol. Byddai'r Gweinidog yn ymateb yn glir ar y mater penodol hwnnw yn ysgrifenedig, a chredaf y byddai hi yn darparu datganiad ysgrifenedig.

Joyce Watson: Weinidog, a fydddech yn ymuno â mi i goffáu canfed pen-blwydd Diwrnod Rhyngwladol y Menywod a holl

and all of the achievements that women have made during the last 100 years? Would you also try to find some time to discuss the impact of the UK Government's proposals and cuts on women? It is clear that the Labour Government looked after women extremely well. For example, it expanded part-time workers' rights to paid holiday leave. I can speak from personal experience; my mother worked most of her life as a part-time paid worker and, when she was near retirement and had got that far in her working life, she asked me to thank the Government for having the entitlement to paid holidays. Labour also expanded maternity and paternity leave. At that critical time in a woman's life, having extended maternity leave rights is essential to the welfare of the mother and the child. The Assembly Government also introduced many other measures, like free bus passes, which are predominantly taken up by women, and free prescription rights. On this day, the one-hundredth anniversary of International Women's Day, which highlights the rights and entitlement of women to a better place in society, I am increasingly concerned that the ideology of the UK Government will serve to undermine all those gains that women have made, particularly in Wales.

Jane Hutt: I am sure that everyone in the Chamber will join Joyce in celebrating International Women's Day. Indeed, many of us have been involved in events in the Senedd, the Pierhead and our constituencies, and we will do so throughout the week. It is important that you have highlighted some of the achievements that have been delivered through Government intervention, particularly the last UK Labour Government. Now we face real challenges from the UK coalition Government's cuts, which are too deep and too fast—particularly the impact that they will have on equality. That is why we undertook an equality impact assessment on our budget. I draw Members' and constituents' attention to that again. A statement was made by the Minister for Social Justice and Local Government yesterday on the eleventh annual report on equality. That gives some clear indication as to the progress and achievements, which we

gyflawniadau menywod yn ystod y 100 mlynedd diwethaf? A fyddech hefyd yn ceisio dod o hyd i amser i drafod effaith cynigion a thoriadau Llywodraeth y DU ar fenywod? Mae'n amlwg bod y Llywodraeth Lafur wedi gofalu am fenywod yn hynod o dda. Er enghraifft, ehangodd hawliau gweithwyr rhan-amser i gael gwyliau blynyddol â thâl. Gallaf siarad o brofiad personol; roedd fy mam yn gweithio rhan fwyaf o'i bywyd fel gweithiwr rhan-amser cyflogedig, a phan oedd yn agos at ymddeol, ac wedi mynd mor bell â hynny yn ei bywyd gwaith, gofynnodd i mi ddiolch i'r Llywodraeth am gael yr hawl i wyliau â thâl. Ehangwyd gyfnodau mamolaeth a thadolaeth hefyd gan Lafur. Yn y cyfnod hanfodol hwnnw ym mywyd menyw, mae cael hawliau absenoldeb mamolaeth estynedig yn hanfodol i les y fam a'r plentyn. Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd wedi cyflwyno llawer o fesurau eraill, fel tocynnau bws am ddim, sy'n cael eu defnyddio'n bennaf gan fenywod, a hawliau presgripsiynau am ddim. Ar y diwrnod hwn, canfed pen-blwydd Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, sy'n tynnu sylw at hawliau a hawl menywod i le gwell mewn cymdeithas, rwyf yn gynyddol bryderus y bydd ideoleg Llywodraeth y DU yn tansilio'r holl enillion hynny y mae menywod wedi eu cael, yn enwedig yng Nghymru.

Jane Hutt: Yr wyf yn siŵr y bydd pawb yn y Siambr am ymuno â Joyce i ddathlu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod. Yn wir, mae llawer ohonom wedi bod yn gysylltiedig â digwyddiadau yn y Senedd, y Pierhead ac yn ein hetholaethau, a byddwn yn gwneud hynny drwy gydol yr wythnos. Mae'n bwysig eich bod wedi tynnu sylw at rai o'r cyflawniadau sydd wedi cael eu darparu drwy ymyriad gan y Llywodraeth, yn enwedig Llywodraeth Lafur ddiwethaf y DU. Yn awr, rydym yn wynebu heriau go iawn o ganlyniad i doriadau Llywodraeth glymblaid y DU, sy'n rhy ddwfn ac yn rhy gyflym—yn enwedig yr effaith y byddant yn ei gael ar gydraddoldeb. Dyna pam y cynhaliwyd asesiad effaith cydraddoldeb ar ein cyllideb. Tynnaf sylw'r Aelodau ac etholwyr at hynny eto. Gwnaed datganiad gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol ddoe ar yr unfed adroddiad blynyddol ar ddeg ar gydraddoldeb. Mae hynny'n rhoi

now have a duty to safeguard.

rhyw syniad clir ynghylch y cynnydd a'r cyflawniadau, sydd bellach yn ddyletswydd arnom i'w diogelu.

Mick Bates: Can we have a statement from the Minister for health on the future of Welsh patients receiving health services in England, to dispel the widespread belief in border areas that the Government has a hidden agenda to stop the current cross-border practice that exists in areas such as Montgomeryshire? We depend on English providers, since many of our own providers are distant from mid Wales.

Mick Bates: A allwn gael datganiad gan y Gweinidog dros iechyd ynghylch dyfodol cleifion o Gymru sy'n derbyn gwasanaethau iechyd yn Lloegr, i chwalu'r gred gyffredin yn ardaloedd y gororau bod gan y Llywodraeth agenda gudd i atal yr arferion traws-ffiniol presennol sy'n bodoli mewn ardaloedd fel sir Drefaldwyn? Rydym yn dibynnu ar ddarparwyr Lloegr, gan fod llawer o'n darparwyr ein hunain yn bell o ganolbarth Cymru.

Jane Hutt: If you live in Wales, you can be assured that your health service will not be turned upside-down by the needless reforms that are taking place in England. We have our core NHS values, which I hope you subscribe to, around belief in the national health service being free at the point of use and distribution. Where proposals that are made by English healthcare organisations could have an impact on Powys patients, perhaps you should be making representations to those over the border, not the Welsh Assembly Government. It is the UK Government's Department of Health that is responsible for this destabilisation. In Wales, we are safeguarding those services.

Jane Hutt: Os ydych yn byw yng Nghymru, gallwch fod yn sicr na fydd eich gwasanaeth iechyd yn cael ei droi wyneb i waered gan y diwygiadau diangen sy'n digwydd yn Lloegr. Mae gennym ein gwerthoedd GIG craidd, yr wyf yn gobeithio y byddwch yn tanysgrifio iddynt, o gwmpas y gred y dylai'r gwasanaeth iechyd gwladol fod yn rhad ac am ddim i'w ddefnyddio. Lle y gallai gynigion sy'n cael eu gwneud gan sefydliadau gofal iechyd yn Lloegr gael effaith ar gleifion Powys, efallai y dylech fod yn gwneud sylwadau i'r rhai dros y ffin, nid Llywodraeth Cynulliad Cymru. Adran Iechyd Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am y dadsefydlogi hyn. Yng Nghymru, rydym yn diogelu'r gwasanaethau hynny.

Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Mesur Seneddol ynghylch Diwygio Cyrff Cyhoeddus Legislative Consent Motion in respect of the Public Bodies Bill

Cynnig NDM4671 Jane Hutt

Motion NDM4671 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.4, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried darpariaethau'r Mesur Seneddol ynghylch Diwygio Cyrff Cyhoeddus, fel y'i cyflwynwyd i Dŷ'r Arglwyddi ar 28 Hydref 2010, a'r rheini'n ddarpariaethau sy'n ymwneud â chyrff a swyddi cyhoeddus penodol, i'r graddau y mae'r cyrff a'r swydd-ddeiliaid hynny yn arfer swyddogaethau yng Nghymru a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 26.4, agrees that the provisions of the Public Bodies Bill, as introduced into the House of Lords on 28 October 2010, which relate to certain public bodies and offices, to the extent that these bodies and office holders exercise functions in Wales which would be within the legislative competence of the National Assembly for Wales, should be considered by the UK Parliament.

The First Minister: I move the motion.

Y Prif Weinidog: Cynigiau y cynnig.

Thank you for the opportunity to explain the background to the legislative consent motion in relation to the Public Bodies Bill. The LCM is required because some of the Bill's provisions fall within the Assembly's present legislative competence. The legislative consent memorandum refers to the structure of the Bill, which is an enabling Bill, and it highlights how Orders that are made by UK Ministers to reform public bodies and offices under clauses 1 to 6 of the Bill may touch on the Assembly's legislative competence in areas such as the environment, local government and planning.

Diolch i chi am y cyfle i esbonio cefndir y cynnig cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Cyrff Cyhoeddus. Mae'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol yn angenrheidiol oherwydd bod rhai o ddarpariaethau'r Bil yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol presennol y Cynulliad. Mae'r memorandwm cydsyniad deddfwriaethol yn cyfeirio at strwythur y Bil, sydd yn Fil galluogi, ac mae'n tynnu sylw at sut y mae Gorchmynion a wneir gan Weinidogion y DU i ddiwygio cyrff cyhoeddus a swyddfeydd o dan gymalau 1 i 6 o'r Mesur yn gallu cyffwrdd ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad mewn meysydd fel yr amgylchedd, llywodraeth leol a chynllunio.

2.30 p.m.

The UK Government has tabled an amendment to clause 9 of the Bill so that any Order that is made by a UK Minister under clauses 1 to 6 that engages the Assembly's legislative competence will require the Assembly's consent, thus giving the Assembly a full opportunity to consider the implications of any such proposals. Prior to the Bill's being introduced in the House of Lords in October, we agreed with the UK Government the inclusion of Order-making powers in clauses 13 and 14 to enable Welsh Ministers to modify and transfer the functions of the Countryside Council for Wales, the Environment Agency, and the Forestry Commission. We have since agreed Government amendments to extend those powers to regional flood and coastal committees.

Mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno gwelliant i gymal 9 o'r Mesur fel bod unrhyw Orchymyn sy'n cael ei wneud gan Weinidog y DU o dan gymalau 1 i 6 sy'n ymgysylltu cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad angen cydsyniad y Cynulliad, gan roi i'r Cynulliad gyfle llawn i ystyried goblygiadau unrhyw gynigion o'r fath. Cyn i'r Mesur gael ei gyflwyno yn Nhŷ'r Arglwyddi ym mis Hydref, gwanethom gytuno gyda Llywodraeth y DU i gynnwys pwerau Gorchymyn yng nghymalau 13 a 14 i alluogi Gweinidogion Cymru i addasu a throsglwyddo swyddogaethau Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Comisiwn Coedwigaeth. Rydym wedi cytuno gwelliannau'r Llywodraeth ers hynny i ymestyn y pwerau hynny i lifogydd rhanbarthol a phwyllgorau arfordirol.

The UK Government has also agreed to table amendments that remove from Schedules 1 to 6 to the Bill all bodies for which Welsh Ministers alone are responsible, instead giving Welsh Ministers comparable Order-making powers in relation to those bodies. The bodies concerned include the Welsh national park authorities and internal drainage boards that are wholly, or mainly, in Wales. The inclusion of these powers in the Bill will enable Welsh Ministers to pursue a more integrated approach to delivering environmental policies in Wales.

Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi cytuno i gyflwyno gwelliannau sy'n dileu o Atodlenni 1 i 6 i'r Mesur yr holl gyrff y mae Gweinidogion Cymru yn unig yn gyfrifol amdanynt, ac i roi yn eu lle pwerau tebyg i Weinidogion Cymru wneud Gorchmynion mewn perthynas â'r cyrff hynny. Mae'r cyrff dan sylw yn cynnwys yr awdurdodau parciau cenedlaethol Cymru a byrddau draenio mewnol sydd yn gyfan gwbl, neu'n bennaf, yng Nghymru. Bydd cynnwys y pwerau hyn yn y Mesur yn galluogi Gweinidogion Cymru i fabwysiadu dull mwy integredig o ddarparu polisiau amgylcheddol yng Nghymru.

During the parliamentary passage of the Bill, additional safeguards have been proposed regarding the consultation and scrutiny of Orders made under the Bill. As a result, Orders that are made under this Bill will be subject to superaffirmative procedure. This will equally apply to Orders that are made by Welsh Ministers, requiring a draft Order to be laid before the Assembly following a 12-week consultation on the Order.

The effect of the provisions for Wales in the Bill that we have agreed with the UK Government is that any changes relating to bodies or offices with devolved Welsh functions, established in or for regions in Wales, will be decided in Wales, with appropriate safeguards for the Assembly and the Assembly Government. It is on that basis that the legislative consent motion is placed before the Assembly for approval.

Mark Isherwood: We support this motion. As you know, the UK Government has announced that Consumer Focus and Consumer Direct are to be abolished as part of this Public Bodies Bill. However, the UK Minister for Employment Relations, Consumer and Postal Affairs, Ed Davey, has indicated that he is open to a different solution for Wales and Scotland, noting that Northern Ireland already has its own strong, independent consumer council, with a broad range of powers and responsibilities.

Over the last two years, I know that Members share the view that citizens in Wales have benefitted from having a strong Wales-based consumer champion in Consumer Focus Wales. Its investigations team in Cardiff has helped to secure £17 million for Npower customers across the UK, and its work on E. coli has led to a review of food enforcement law in Wales, and the issuing of draft guidance by the Food Standards Agency. The big challenges for consumers lie ahead, with reforms in the energy, postal and financial service markets. Its work on alleviating fuel poverty—it is one of the co-sponsors of the

Wrth i'r Mesur fynd drwy'r Senedd, mae diogelu ychwanegol wedi cael eu cynnig o ran yr ymgynghoriad a chraffu ar Orchmynion a wnaed o dan y Mesur. O ganlyniad, mae Gorchmynion sy'n cael eu gwneud o dan y Mesur hwn yn ddarostyngedig i weithdrefn uwchgadarnhaol. Bydd hyn yr un mor berthnasol i Orchmynion a wneir gan Weinidogion Cymru, ac yn ei gwneud yn ofynnol i Orchmynyn drafft gael ei osod gerbron y Cynulliad yn dilyn ymgynghoriad 12-wythnos ar y Gorchmynyn.

Effaith y darpariaethau i Gymru yn y Mesur yr ydym wedi'u cytuno gyda Llywodraeth y DU yw bod unrhyw newidiadau mewn perthynas â chyrrff neu swyddfeydd gyda swyddogaethau datganoledig yng Nghymru a sefydlwyd mewn, neu ar gyfer, rhanbarthau yng Nghymru, yn cael ei benderfynu yng Nghymru, gyda mesurau diogelwch priodol ar gyfer y Cynulliad a Llywodraeth y Cynulliad. Ar y sail hwnnw y mae'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol yn cael ei osod gerbron y Cynulliad i'w gymeradwyo.

Mark Isherwood: Yr ydym yn cefnogi'r cynnig hwn. Fel y gwyddoch, mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi bod Llais Defnyddwyr a Cyswllt Defnyddwyr yn cael eu diddymu fel rhan o'r Mesur Cyrff Cyhoeddus. Fodd bynnag, mae Gweinidog y DU dros Gysylltiadau Cyflogaeth Defnyddwyr a Materion Post, Ed Davey, wedi nodi ei fod yn agored i ateb gwahanol ar gyfer Cymru a'r Alban, gan nodi fod gan Ogledd Iwerddon ei gyngor defnyddwyr annibynnol, cryf ei hun, gydag ystod eang o bwerau a chyfrifoldebau.

Dros y ddwy flynedd diwethaf, yr wyf yn gwybod bod yr Aelodau'n rhannu'r farn bod dinasyddion yng Nghymru wedi elwa o gael hyrwyddwr defnyddwyr cryf yng Nghymru yn Llais Defnyddwyr Cymru. Mae ei dîm ymchwiliadau yng Nghaerdydd wedi helpu i sicrhau £17 miliwn ar gyfer cwsmeriaid Npower ledled y DU, ac mae ei waith ar E. coli wedi arwain at adolygiad o orfodi cyfraith bwyd yng Nghymru, ac i gyhoeddi canllawiau drafft gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Mae heriau mawr i ddefnyddwyr, gyda diwygiadau ynni, post a marchnadoedd gwasanaethau ariannol. Mae ei waith ar

cross-party group on fuel poverty, which I chair—is another positive contribution, as is looking at Wales-only pricing structures, which are being reviewed by the regulator. It looks at empowerment, enforcement, advice, information, and advocacy work undertaken in consumer protection, and also represents the former bodies of Postwatch, Energywatch and the Consumer Council for Wales.

I have written to you and to the UK Minister, Ed Davey, expressing the Welsh Conservative group's support for enabling legislation, through this Bill, to allow Welsh Ministers to set up a new body and to transfer the functions of Consumer Focus to that body in so far as they relate to Wales, giving statutory framework powers to Welsh Ministers. You responded yesterday, which I welcome, via the leader of the opposition, Nick Bourne, saying that you had written to Francis Maude, the Minister for the Cabinet Office and Paymaster General, seeking UK Government support for an amendment to the Bill to that effect. Therefore, in our support for this matter, can you confirm that you will continue to press for that and emphasise that you have cross-party support in this place?

Brian Gibbons: I do not think that this legislative consent motion is particularly controversial, and I do not think many in the Assembly are likely to dissent from supporting it. We realise that the UK Government has to have its bonfire of the quangos; we gave the lead in doing that well over half a decade ago. Indeed, there are some public bodies that probably need to be put out of their misery and abolished because their functions are no longer relevant or appropriate to public bodies. However, it would not be right for this motion to be passed, probably unanimously, without our recognising and expressing concern that this Public Bodies Bill is very much a Trojan horse for much of the phoney big society agenda that the UK Government is taking forward. Valuable public services are being delivered by public bodies, and the clear

liniaru tlodi tanwydd—mae'n un o gyd-noddwyr y grŵp trawsbleidiol ar dlodi tanwydd yr wyf yn ei gadeirio—yn gyfraniad cadarnhaol arall, fel y mae edrych ar strwythurau prisio yng Nghymru yn unig, sy'n cael eu hadolygu gan y rheoleiddiwr. Mae'n edrych ar rymuso, gorfodaeth, cyngor, gwybodaeth, eiriolaeth a gwaith a wnaed yn diogelu defnyddwyr, ac hefyd yn cynrychioli cyrff blaenorol megis Golwg ar Bost Cymru, Golwg ar Ynni a Cyngor Defnyddwyr Cymru.

Rwyf wedi ysgrifennu atoch chi ac at Weinidog y DU, Ed Davey, yn mynegi cefnogaeth grŵp Ceidwadwyr Cymru ar gyfer galluogi deddfwriaeth, drwy'r Mesur hwn, er mwyn caniatáu i Weinidogion Cymru sefydlu corff newydd a throsglwyddo swyddogaethau Llais Defnyddwyr i'r corff hwnnw i'r graddau y maent yn berthnasol i Gymru, gan roi pwerau fframwaith statudol i Weinidogion Cymru. Ymateboch ddoe, a chroesawaf hynny, drwy arweinydd yr wrthblaid, Nick Bourne, yn dweud eich bod wedi ysgrifennu at Francis Maude, y Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet a'r Tâl-feistr Cyffredinol, gan geisio cefnogaeth Llywodraeth y DU ar gyfer gwelliant i'r Mesur i'r perwyl hwnnw. Felly, yn ein cefnogaeth i'r mater hwn, a allwch gadarnhau y byddwch yn parhau i bwysu am hynny ac yn pwysleisio bod gennych gefnogaeth drawsbleidiol yn y lle hwn?

Brian Gibbons: Nid wyf yn credu bod y cynnig cydsyniad deddfwriaethol yn arbennig o ddadleuol, ac nid wyf yn meddwl bod llawer yn y Cynulliad yn debygol o beidio a'i gefnogi. Rydym yn sylweddoli bod yn rhaid i Lywodraeth y DU gael coelcerth y cwangos; rhoddom arweiniad i wneud hynny ymhell dros hanner degawd yn ôl. Yn wir, mae rhai cyrff cyhoeddus sydd yn dal angen eu codi o'u diflastod a'i diddymu oherwydd nad yw eu swyddogaethau bellach yn berthnasol neu'n briodol i gyrff cyhoeddus. Fodd bynnag, ni fyddai'n iawn i'r cynnig hwn gael ei basio, yn ôl pob tebyg yn unfrydol, heb ein bod ni'n cydnabod a mynegi pryder bod y Mesur Cyrff Cyhoeddus yn bendant yn geffyl Trojan ar gyfer llawer o agenda ffug y gymdeithas fawr y mae Llywodraeth y DU yn dwyn yn ei flaen. Mae gwasanaethau cyhoeddus gwerthfawr yn cael eu darparu

intent of this Bill is to hive off these services 'to any willing provider'. There have been a number of references to this already today. Even though many of the bodies providing these services are not, in effect, devolved—Mark Isherwood has touched upon a number of them—they are key partners in delivering wider Welsh Assembly Government policy. We have built strong partnerships with these bodies and an ideological and dogma-driven approach, which seems to epitomise the current UK Government, will compromise the good working relationships that we have built up in Wales.

Once this legislative consent motion is passed, will the First Minister renew his efforts to ensure that, on each and every element of the detail of this Public Bodies Bill, we will be able to make effective representations to the UK Government to ensure that the devolved dimensions of the proposals are taken fully into account, and that we can exercise an effective challenge in relation to the alternative proposals that the UK Government might wish to put in place?

Peter Black: Brian Gibbons makes a valuable point with regard to engagement between the Welsh Government and the UK Government on how these measures will be introduced. It is vital that Wales's interests are protected and that we ensure that we have a say in any proposals to reform UK Government bodies by abolition or by passing their powers and responsibilities to another body. Like Brian, I would be grateful for the First Minister's views on how he proposes to take that forward. I am happy to support this legislative consent motion today, because it will make it easier to achieve a number of policy objectives that we as Welsh Liberal Democrats support, particularly reform of the environment quangos. We welcome the opportunity to provide a more effective environment quango in Wales, which is why we are pleased that the UK Government is taking on board suggestions from our budget amendments back in 2009. Stronger collaboration between the Environment Agency, the Countryside Council for Wales and the Forestry Commission can only save money, as well as

gan gyrff cyhoeddus, a bwriad clir y Mesur hwn yw cyrchu'r gwasanaethau hyn i unrhyw ddarparwr parod. Mae nifer o gyfeiriadau wedi bod at hyn eisoes heddiw. Er nad yw llawer o'r gyrff sy'n darparu'r gwasanaethau hyn wedi'u datganoli mewn gwirionedd—mae Mark Isherwood wedi cyffwrdd ar nifer ohonynt—maent yn bartneriaid allweddol wrth gyflwyno polisi ehangach Llywodraeth Cynulliad Cymru. Rydym wedi adeiladu partneriaethau cryf gyda'r gyrff hyn, a bydd ymagwedd ideolegol a dogma, sy'n crynhoi agwedd Llywodraeth y DU ar hyn o bryd, yn peryglu'r perthnasau gwaith da rydym wedi eu hadeiladu yng Nghymru.

Unwaith y bydd y cynnig cydsyniad deddfwriaethol yn cael ei basio, a wnaiff y Prif Weinidog adnewyddu ei ymdrechion i sicrhau, ar bob elfen o fanylion y Mesur Cyrff Cyhoeddus, y byddwn yn gallu gwneud sylwadau yn effeithiol i Lywodraeth y DU i sicrhau bod dimensiynau datganoledig y cynigion yn cael eu cymryd i ystyriaeth yn llawn, ac y gallwn herio'n effeithiol mewn perthynas â'r cynigion amgen y gallai Llywodraeth y DU ddymuno eu rhoi ar waith?

Peter Black: Mae Brian Gibbons yn gwneud pwynt gwerthfawr o ran ymgysylltu rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch sut y bydd y mesurau hyn yn cael eu cyflwyno. Mae'n hanfodol bod buddiannau Cymru yn cael eu diogelu a'n bod yn sicrhau ein bod yn cael dweud ein dweud mewn unrhyw gynigion i ddiwygio gyrff Llywodraeth y DU gan ddiddymu neu drwy basio eu pwerau a'u cyfrifoldebau i gorff arall. Fel Brian, byddwn yn ddiolchgar am farn y Prif Weinidog ar sut y mae'n bwriadu bwrw ymlaen â hynny. Yr wyf yn hapus i gefnogi'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn heddiw oherwydd bydd yn ei gwneud yn haws i gyflawni nifer o amcanion polisi yr ydym ni fel Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn eu cefnogi, yn enwedig diwygio cwangos yr amgylchedd. Rydym yn croesawu'r cyfle i ddarparu cwango amgylchedd mwy effeithiol yng Nghymru, a dyna pam rydym yn falch bod Llywodraeth y DU yn gwrando ar awgrymiadau o'n gwelliannau i'r gyllideb yn ôl yn 2009. Gall gydweithio cryfach rhwng Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyngor Cefn

improve the environment.

There is a concern in relation to the transparency of some elements of this Bill in Westminster and how the UK Government handles this Bill is a matter that needs to be taken up at Westminster. However, we need to set the tone, if you like, in how we handle those provisions in Wales, and whereas secondary legislation is acceptable if we are going to drive forward better collaboration, if we are looking at building a new organisation, and a substantially restructured organisation from the bottom up, then we should be showing the UK Government what transparency and accountability look like by producing a proper White Paper and primary legislation, rather than using the Order powers that may be available to Ministers. In a way, given that we are now entering a new era of Welsh Government, perhaps we have a responsibility as parliamentarians in the Assembly to set that example for other parliaments to follow. The people of Wales showed us a lot of faith last week in voting 'yes'; let us repay that by using proper legislation. Although it may not be convenient, it is certainly the right thing to do.

Bethan Jenkins: As we know, the Public Bodies Bill is currently passing through the House of Lords. Some pleasing amendments have already been made, not least the removal of Schedule 7 and the Henry VIII powers, which would have given UK Ministers the power to scrap more than 150 public bodies without public scrutiny. There are devolved aspects of the Bill that we welcome, including powers over environmental bodies in Wales and their functions, as has been mentioned. Those bodies include the Countryside Council for Wales, the Environment Agency as it relates to Wales and the Forestry Commission. As we saw in last week's historic vote, there is appetite for devolution and, as Elin Jones showed over the privatisation of forests debate, we do things differently in Wales. This will allow the delivery of policies consulted on in 'A Living Wales' to reflect that policy divergence.

Gwlad Cymru a'r Comisiwn Coedwigaeth ond arbed arian, yn ogystal â gwella'r amgylchedd.

Mae yna bryder mewn perthynas â thryloywder rhai elfennau o'r Mesur hwn yn San Steffan ac mae sut y mae Llywodraeth y DU yn ymdrin â'r Mesur hwn yn fater y mae angen ei drafod yn San Steffan. Fodd bynnag, mae angen i ni osod y tôn, os mynnwch, o ran sut rydym yn trin y darpariaethau hynny yng Nghymru, a thra bod deddfwriaeth eilaidd yn dderbyniol os ydym yn mynd i weithredu gwell cydweithio, os ydym yn edrych ar adeiladu sefydliad newydd, a sefydliad sydd wedi'i ailstrwythuro'n sylweddol o'r gwaelod i fyny, yna dylem fod yn dangos Llywodraeth y DU beth yw tryloywder ac atebolrwydd drwy gynhyrchu Papur Gwyn priodol a deddfwriaeth sylfaenol, yn hytrach na defnyddio'r pwerau Gorchymyn allai fod ar gael i Weinidogion. Mewn ffordd, o gofio ein bod yn awr yn dechrau ar gyfnod newydd o Lywodraeth Cymru, efallai bod gennym gyfrifoldeb fel seneddwr yn y Cynulliad i osod yr enghraifft honno i seneddau eraill ei dilyn. Mae pobl Cymru wedi dangos llawer o ffydd ynddom yr wythnos diwethaf wrth bleidleisio 'ie', gadewch i ni ad-dalu hynny drwy ddefnyddio deddfwriaeth briodol. Er efallai nad yw'n gyfleus, ond y peth iawn i'w wneud ydyw.

Bethan Jenkins: Fel y gwyddom, mae'r Mesur Cyrff Cyhoeddus ar hyn o bryd yn mynd drwy Dŷ'r Arglwyddi. Mae rhai newidiadau dymunol wedi'u gwneud eisoes, nid lleiaf cael gwared o Atodlen 7 a'r pwerau Harri'r VIII, a fyddai wedi rhoi pŵer i Weinidogion y DU i gael gwared ar fwy na 150 o gyrff cyhoeddus heb graffu gan y cyhoedd. Mae agweddau datganoli o'r Mesur rydym yn eu croesawu, gan gynnwys pwerau dros gyrff amgylcheddol yng Nghymru a'u swyddogaethau, fel y soniwyd amdanynt. Mae'r cyrff hynny yn cynnwys Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd fel y mae'n berthnasol i Gymru a'r Comisiwn Coedwigaeth. Fel y gwelsom yn y bleidlais hanesyddol yr wythnos diwethaf, mae archwaeth am ddatganoli ac, fel dangosodd Elin Jones yn y ddadl dros breifateiddio coedwigoedd rydym yn gwneud pethau yn wahanol yng Nghymru. Bydd hyn yn caniatáu i weithrediad y polisïau yr

ymgynghorwyd arnynt yn 'Cymru Fyw' adlewyrchu y gwahaniaeth polisi hwnnw.

We also welcome the recently introduced amendments that put power in the hands of the National Assembly for Wales and not Welsh Ministers with regard to the transfer of any legislative competence, as with this motion. Similarly, we welcome amendments that insist on consultation with Welsh Ministers even where a legislative consent motion is not required, and we hope that Ministers will share this consultation with the Senedd as a whole. Plaid has tabled amendments to the Bill in the second Chamber, which we hope will be accepted and which include taking a belt-and-braces approach to our hard-won Welsh language rights to ensure that public bodies will still meet their responsibilities with regard to the language.

The position of S4C in this Bill is of paramount importance to Wales as the Bill is the vehicle currently being used to undermine the funding of S4C in the Broadcasting Act 1996. Schedule 4 to the Bill would give the Minister the right to change the financing of public bodies, which we already know the Government plans to do. Removing S4C would allow it to operate under the present funding system. A further Plaid amendment in the second Chamber is to ensure that any discussion or debate on S4C would include Ministers and representatives from Wales, who were shamefully missed out of the debate last year. As we discussed earlier, this motion also deals with Consumer Focus Wales. It is interesting to see the Tories crying crocodile tears over the future of bodies such as Consumer Focus Wales. It is very important to Wales. How will the Government ensure that any changes are not to the detriment of consumers here in Wales? This is particularly important given that forthcoming cuts would put more people under pressure and in need of organisations such as Consumer Focus Wales to fight their corner.

Rydym hefyd yn croesawu'r gwelliannau a gyflwynwyd yn ddiweddar sy'n rhoi grym yn nwylo Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac nid i Weiniogion Cymru o ran trosglwyddo unrhyw gymhwysedd deddfwriaethol, fel gyda'r cynnig hwn. Yn yr un modd, rydym yn croesawu newidiadau sy'n mynnu ymgynghoriad â Gweiniogion Cymru, hyd yn oed lle nad oes angen cynnig cydsyniad deddfwriaethol, ac rydym yn gobeithio y bydd Gweiniogion yn rhannu'r ymgynghoriad hwn â'r Senedd yn ei gyfarwydd. Mae Plaid Cymru wedi cyflwyno gwelliannau i'r Mesur yn yr ail Siambr, a gobeithiwn y bydd yn cael ei dderbyn ac yn cynnwys cymryd ymagwedd belt-a-bresys i'n hawliau a frwydrwyd yn galed amdanynt o ran yr iaith Gymraeg er mwyn sicrhau y bydd cyrff cyhoeddus yn parhau i gyflawni eu cyfrifoldebau o ran yr iaith.

Mae sefyllfa S4C yn y Mesur hwn yn hollbwysig i Gymru gan taw'r Mesur yw'r cyfrwng sy'n yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd i danseilio ariannu S4C yn Neddf Darlledu 1996. Byddai Atodlen 4 i'r Mesur yn rhoi'r hawl i'r Gweiniog newid sut mae cyrff cyhoeddus yn cael eu hariannu, yr ydym eisoes yn gwybod y Llywodraeth yn bwriadu ei wneud. Byddai cael gwared ar S4C yn ei alluogi i weithredu o dan y system gyllido bresennol. Mae gwelliant pellach Plaid Cymru yn yr ail Siambr er mwyn sicrhau y byddai unrhyw drafodaeth neu ddadl ar S4C yn cynnwys Gweiniogion a chynrychiolwyr o Gymru, a oedd wedi'u gadael allan yn gywilyddus o'r ddadl y llynedd. Fel y trafodwyd yn gynharach, mae'r cynnig hwn hefyd yn delio gyda Llais Defnyddwyr Cymru. Mae'n ddiddorol gweld y Toriaid yn wylo dagrau crocodeil dros ddyfodol cyrff megis Llais Defnyddwyr Cymru. Mae'n bwysig iawn i Gymru. Sut y bydd y Llywodraeth yn sicrhau na fydd unrhyw newidiadau yn draul ar ddefnyddwyr yma yng Nghymru? Mae hyn yn arbennig o bwysig o gofio y bydd y toriadau sydd i ddod yn rhoi mwy o bobl o dan bwysau ac angen sefydliadau fel Llais Defnyddwyr Cymru i frwydro drostynt.

The First Minister: Three substantive issues were raised during this debate. The first is with regard to Consumer Focus. I can confirm that the UK Government has confirmed that it would support bespoke arrangements in the devolved administrations if proposals were forthcoming. I wrote to Francis Maude on 17 February to request a UK Government amendment to give Welsh Ministers an Order-making power to establish a new body to take on consumer protection functions in Wales, including any functions of the National Consumer Council transferred to the Welsh Ministers under the Bill. We look forward to a positive response with regard to that. The second issue raised was with regard to how we make representations to the UK Government with regard to UK or GB-wide bodies that are proposed to be reformed or abolished under this Bill. That is something we do regularly.

The third point relates to why this legislative consent motion is needed in the first place, bearing in mind that many of the powers being legislated on in the Public Bodies Bill are powers that will be completely devolved to this institution after 5 May. The reason is that there are still some technical aspects of the Bill that it is important to clarify before 5 May. For example, the restriction on modifying or removing pre-commencement Minister-of-the-Crown functions without the agreement of the UK Government means that the Assembly as an institution might not be able to legislate to reform cross-border bodies. To ensure that there is no difficulty with that, we are continuing with this LCM.

2.45 p.m.

We must also be mindful of the precise nature of the Orders that would be brought forward under the Bill should it become an Act. To ensure that the Assembly's ability to legislate is not unnecessarily fettered after 5 May, it is important to take this LCM forward, bearing in mind that we are still operating under the present arrangements until 5 May.

Y Prif Weinidog: Codwyd tri mater sylweddol yn ystod y ddadl hon. Y cyntaf yw o ran Llais Defnyddwyr Cymru. Gallaf gadarnhau bod Llywodraeth y DU wedi cadarnhau y byddai'n cefnogi trefniadau pwrpasol yn y gweinyddiaethau datganoledig os yw cynigion yn dod. Ysgrifennais at Francis Maude ar 17 Chwefror i ofyn am welliant gan Lywodraeth y DU i roi pŵer gwneud Gorchymyn i Weinidogion Cymru i sefydlu corff newydd i ymgymryd â swyddogaethau diogelu defnyddwyr yng Nghymru, gan gynnwys unrhyw un o swyddogaethau Cyngor Defnyddwyr Cenedlaethol a'u trosglwyddwyd i Weinidogion Cymru o dan y Mesur. Rydym yn edrych ymlaen at ymateb cadarnhaol o ran hynny. Yr ail fater a godwyd oedd sut rydym yn gwneud sylwadau i Lywodraeth y DU mewn perthynas â chyrff y DU neu Brydain Fawr gyfan sy'n cael eu cynnig i gael eu diwygio neu eu diddymu o dan y Mesur hwn. Mae hynny'n rhywbeth rydym yn ei wneud yn rheolaidd.

Mae'r trydydd pwynt yn ymwneud â pham bod angen y cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn yn y lle cyntaf, gan gadw mewn côf bod llawer o'r pwerau sy'n cael eu deddfu yn y Mesur Cyrff Cyhoeddus yn bwerau a fydd yn cael eu datganoli yn gyfan gwbl i'r sefydliad hwn ar ôl 5 Mai. Y rheswm yw bod yna rai agweddau technegol o'r Mesur ei bod yn bwysig egluro cyn 5 Mai. Er enghraifft, mae'r cyfyngiad ar addasu neu dynnu swyddogaethau cyn-gychwyn Gweinidog y Goron heb gytundeb Llywodraeth y DU yn golygu na fydd y Cynulliad fel sefydliad yn gallu deddfu i ddiwygio cyrff trawsffiniol. Er mwyn sicrhau nad oes unrhyw anhawster gyda hynny, rydym yn parhau â'r memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn.

Rhaid i ni hefyd fod yn ymwybodol o union natur y Gorchymynion a fyddai'n cael eu cyflwyno o dan y Mesur pe byddai'n dod yn Ddeddf. I sicrhau nad yw gallu'r Cynulliad i ddeddfu yn cael ei lyffetheirio yn ddiangen ar ôl 5 Mai, mae'n bwysig cymryd y cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn yn ei flaen, gan gadw mewn cof ein bod yn parhau i weithredu dan y trefniadau presennol tan 5

Mai.

Y Llywydd: Y cwestiwn yw ein bod yn cytuno ar y cynnig. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, mae'r cynnig wedi ei dderbyn.

The Presiding Officer: The question is that the motion be agreed. Is there any objection? I see that there is not. In accordance with Standing Order No. 7.35, the motion is therefore agreed.

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion agreed.*

Datganiad am y Refferendwm: Y Camau Nesaf Statement on the Referendum: Next Steps

Y Prif Weinidog: Bron bedair blynedd yn ôl, sicrhodd cytundeb 'Cymru'n Un' fod y Plaid Lafur a Phlaid Cymru'n cytuno i symud at ac ymgyrchu am ganlyniad llwyddiannus yn y refferendwm am bwerau ddeddfu llawn. Ar 3 Mawrth, cyraeddasom y nod hwnnw. Cydnabyddaf y cymorth a roddwyd gan y pleidiau eraill, a diolchaf i'r Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol am eu cymorth o ran sicrhau'r canlyniad hwn.

The First Minister: Nearly four years ago, the 'One Wales' agreement between the Labour Party and Plaid Cymru committed us to proceed to, and campaign for, a successful outcome in a referendum for full law-making powers. On 3 March, we succeeded in that goal. I acknowledge the assistance given by the other parties, and I express my gratitude to the Conservatives and the Liberal Democrats for their assistance in meeting that objective.

Gwyddom ba mor bwysig yw'r canlyniad hwn. Ar 3 Mawrth, pleidleisiodd pobl Cymru am system sy'n fwy effeithiol, yn gyflymach ac yn denuach. Yr oeddent am sicrhau bod ffordd o ddeddfu yng Nghymru a fyddai'n llawer gwell ac yn gyflymach na'r hyn sydd gennym ar hyn o bryd. Am yr ail dro yn hanes diweddar Cymru, pleidleisiodd pobl Cymru 'ie' dros ddatganoli. Yn fy marn i, datganoli yw ewyllys sefydlog pobl Cymru.

We all realise the importance of this result. On 3 March, the people of Wales voted for a leaner, quicker and more efficient system. They wanted to ensure a means of legislating in Wales that would be much enhanced and quicker than the current arrangements. For the second time in Wales's recent history, the people of Wales voted 'yes' to devolution. In my opinion, devolution is the settled will of the people of Wales.

halogedig. Yr wyf, fodd bynnag, wedi ymrwymo i gynnal deialog gyda chynrychiolwyr y grwpiau yr effeithir arnynt, i barhau i wella darpariaeth y gwasanaeth, ac i sicrhau ein bod i gyd yn cydweithio i fynd i'r afael â'r materion iechyd cyhoeddus sylweddol a achosir gan feirysau a gludir yn y gwaed a'u cludir yng Nghymru.

Y Llywydd: Galwaf ar Nick Ramsay, yr Aelod Cynulliad dros Fynwy.

Nick Ramsay: Diolch ichi am y cyflwyniad cynnes, Lywydd. Mae'n golygu llawer i mi.

Croesawaf y datganiad pwysig hwn gan y Gweinidog dros iechyd. Mae penderfyniad y Gweinidog i weithredu argymhellion yr adolygiad yn amlwg yn un cywir. Fel y mae'r Gweinidog wedi ei ddweud, byddai wedi bod yn annheg i beidio â gweithredu pecyn y gellid ei gymharu â hwnnw dros y ffin. Yr oedd yr ymrwymiad hwnnw yn angenrheidiol er mwyn tawelu meddwl y bobl hynny a oedd, yn anffodus, wedi'u heintio â hepatitis C drwy waed halogedig pan oedd tystiolaeth yn dangos y broblem.

Mae gennyf ambell i gwestiwn i'r Gweinidog yn dilyn ei datganiad. Yn gyntaf oll, yn gynnar yn eich datganiad, Weinidog, dywedasoch ei bod yn anodd amcangyfrif union gost y pecyn, ond y gallai ddarparu tua £6 miliwn. Pam nad allwch fod yn fwy manwl am hynny? Mae'n bosibl bod rhesymau da, ond a allech roi ychydig o eglurder ynghylch y swm? A allai fod yn llawer llai na hynny, neu a ydym yn edrych ar ffigur o £6 miliwn?

Yn ail, i droi at y pryderon yr oeddech yn gywir i'w crybwyll am y rhai a fu farw cyn sefydlu'r gronfa Skipton, dywedasoch eich bod wedi penderfynu peidio â chael dyddiad cau i hawlwydros posibl gofrestru. Allech chi esbonio ymhellach eich penderfyniad ar y mater hwnnw? Yn ogystal, tybiaf eich bod wedi amcangyfrif nifer y ceisiadau yr ydych yn disgwyl i gael eu gwneud gan deuluoedd ar ran ystadau y dioddefwyr sy'n perthyn i'r categori hwnnw.

You are right to say that ensuring equity in relation to the discretionary fund is difficult. Clearly, it needs to be equitable, so what measures are you putting in place to try to achieve equity? We would all want to see that, and the claimants need to see equity in who would be eligible for the discretionary fund.

You spoke about the local health boards, and you said that measures were being taken with respect to this fund, but there was no detail about the types of measures. I would like to know a great deal more about what the local health boards are doing on the ground to ensure that equity in the fund is achievable.

Finally, I refer to the comments that you made about FibroScan. I have only had a short time to consider your statement, but, on the face of it, it seems to be a good innovation. It is difficult enough for people suffering from liver disease, who have suffered over the years due to mistakes made in the past, without having to have invasive surgery to try to ascertain the scale of their liver problems. So, on the face of it, that is good. I understand that you are in discussions with the UK Secretary of State about this. Perhaps you could keep us up to date on that in Plenary.

Thank you, Presiding Officer, the excellent Assembly Member for Montgomeryshire. [*Interruption.*] I should not have said anything, should I? I meant Meirionnydd.

Edwina Hart: Thank you for your contribution. The issue of the FibroScan scanners is the one that patients raised with me most. It is the most non-invasive way of assessing. It is important that, when we look at services, we provide the necessary equipment. That is directly as a result of the time that I have taken to discuss with patients' groups and clinicians how we take this work forward. It is important that we look at equity, which was at the forefront of my response to this.

We have looked at the figures that we have available, but, during the period, people

Yr ydych yn gywir i ddweud bod sicrhau tegwch o ran y gronfa ddewisol yn anodd. Yn amlwg, mae angen tegwch, felly, pa fesurau yr ydych yn eu rhoi ar waith i geisio sicrhau hynny? Byddem i gyd am weld hynny, ac mae angen i'r hawlwydwr weld tegwch o ran pwy fyddai'n gymwys ar gyfer y gronfa ddewisol.

Soniasoch am y byrddau iechyd lleol, a dywedasoch fod mesurau yn cael eu cymryd o ran y gronfa hon, ond nid oedd manylion am y mathau o fesurau. Hoffwn wybod llawer mwy am yr hyn y mae byrddau iechyd lleol yn ei wneud ar lawr gwlad i sicrhau bod tegwch yn y gronfa yn gyraeddadwy.

Yn olaf, cyfeiriai at y sylwadau a wnaethoch am FibroScan. Dim ond amser byr yr wyf wedi ei gael i ystyried eich datganiad, ond, ar yr wyneb, mae'n ymddangos fel arloesedd da. Mae'n ddigon anodd i bobl sy'n dioddef o glefyd yr afu, sydd wedi dioddef dros y blynyddoedd oherwydd camgymeriadau a wnaed yn y gorffennol, heb orfod cael llawdriniaeth ymledol i geisio canfod hyd a lled eu problemau afu. Felly, ar yr wyneb, mae hynny'n dda. Yr wyf yn deall eich bod mewn trafodaethau gydag Ysgrifennydd Gwladol y DU am hyn. Efallai y gallech roi diweddariadau cyson i ni o ran hynny yn y Cyfarfod Llawn.

Diolch i chi, Lywydd, yr Aelod Cynulliad ardderchog ar gyfer Sir Drefaldwyn. [*Torri ar draws.*] Ni ddylwn fod wedi dweud unrhyw beth, ddylwn i? Roeddwn yn golygu Meirionnydd.

Edwina Hart: Diolch i chi am eich cyfraniad. Sganwyr FibroScan yw'r mater a gododd cleifion fwyaf gyda mi. Dyna'r ffordd leiaf ymwithiol o asesu. Mae'n bwysig, pan fyddwn yn edrych ar wasanaethau, ein bod yn darparu'r offer angenrheidiol. Mae hynny'n ganlyniad uniongyrchol i'r amser yr wyf wedi'i gymryd i drafod gyda grwpiau cleifion a chlinigwyr sut y gallwn symud y gwaith hwn yn ei flaen. Mae'n bwysig ein bod yn edrych ar degwch, a oedd yn flaenoriaeth yn fy ymateb i hyn.

Yr ydym wedi edrych ar y ffigurau sydd ar gael, ond, yn ystod y cyfnod, efallai y bydd

might move to stage 2 and be eligible for payments. We are not sure, because of all the issues around the Skipton fund. So, I cannot be absolutely accurate about that. In terms of registration, I thought that the timescale announced in England for people to register was very short. I looked at whether I should just extend that timescale, but I then thought that, to be absolutely equitable and fair to individuals who might not know about the provisions that now have been introduced, I needed to give a longer timescale. It was about ensuring fairness.

On local health boards, the fact that we have established a task and finish group now to look at some of the service issues will focus the attention of the local health boards on what they are required to do. I am particularly concerned about access to physiotherapy for patients and requirements in that regard, and local health boards can certainly deal with that.

You are absolutely right to say that there is a question of equity with regard to the discretionary fund. I wanted to have further discussions with the UK Government about the management of that fund. It is not that I do not intend to have a fund; it is about how we can best deal with it. I would be delighted to keep Members updated on all of these issues.

David Lloyd: I greatly welcome the Minister's statement this afternoon. This is tremendous news for people with haemophilia and others who have suffered HIV and hepatitis C as a result of NHS-supplied contaminated blood products. It ends a huge injustice, going back over years—as the Minister will obviously be aware—not just for people with haemophilia, but for others who have been contaminated by blood transfusions in the past. Members may recall a short debate that I held on this topic in the first Assembly. It has been a long battle to get to where we are today.

The earlier provisions were based around HIV, but it must not be forgotten that hepatitis C is a very significant and serious

pobl yn symud i gam 2 a bod yn gymwys ar gyfer taliadau. Nid ydym yn sicr, oherwydd yr holl faterion o amgylch cronfa Skipton. Felly, ni allaf fod yn hollol gywir am hynny. O ran cofrestru, yr wyf yn credu bod yr amserlen a gyhoeddwyd yn Lloegr i bobl gofrestru yn fyr iawn. Ystyriaais a ddylwn ymestyn y terfyn amser hwnnw, ond wedyn meddyliais, i fod yn hollol gyfartal a theg i unigolion nad ydynt efallai'n gwybod am y darpariaethau sydd bellach wedi cael eu cyflwyno, fod angen i mi roi amserlen hirach. Yr oedd yn ymwneud â sicrhau tegwch.

Ar fyrddau iechyd lleol, bydd y ffaith ein bod yn awr wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i edrych ar rai o'r materion yn ymwneud â gwasanaeth yn canolbwyntio sylw'r byrddau iechyd lleol ar yr hyn y mae'n ofynnol iddynt ei wneud. Yr wyf yn pryderu'n arbennig am fynediad i ffisiotherapi i gleifion a gofynion yn hynny o beth, a gall byrddau iechyd lleol yn sicr ddelio â hynny.

Yr ydych yn hollol gywir i ddweud bod yna gwestiwn ynglŷn â thegwch o ran y gronfa ddewisol. Yr oeddwn eisiau cael trafodaethau pellach gyda Llywodraeth y DU ynghylch rheolaeth y gronfa honno. Nid wyf yn bwriadu peidio â chael cronfa; mae'n ymwneud â sut y gallwn ddelio â hyn orau. Byddwn wrth fy modd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau ar yr holl faterion hyn.

David Lloyd: Yr wyf yn croesawu'n fawr ddatganiad y Gweinidog y prynhawn yma. Mae hyn yn newyddion gwych i bobl sy'n dioddef o hemoffilia ac eraill sydd wedi dioddef HIV a hepatitis C o ganlyniad i gynhyrchion gwaed halogedig a gyflenwyd gan y GIG. Mae'n dod i ben ag anghyfiawnder mawr, sy'n mynd yn ôl dros flynyddoedd—fel y bydd y Gweinidog yn amlwg yn ymwybodol—nid yn unig ar gyfer pobl â hemoffilia, ond i eraill sydd wedi cael eu halogi gan drallwysiadau gwaed yn y gorffennol. Efallai y bydd Aelodau'n cofio dadl fer a gynhaliwyd ar y pwnc hwn yn y Cynulliad cyntaf. Mae wedi bod yn frwydr hir i gyrraedd lle'r ydym heddiw.

Yr oedd y darpariaethau cynharach yn seiliedig ar HIV, ond ni ddylid anghofio bod hepatitis C yn afiechyd sylweddol a difrifol

illness. In fact, it is a life-threatening illness. Sometimes, we forget that because we think that hepatitis, in comparison with HIV, is relatively mild. I assure Members that hepatitis C is a serious, life-threatening illness and needs to be treated in that way. To that end, I welcome the Minister's announcements today. To summarise again, a new annual payment of £12,800 will be introduced for each living person infected with hepatitis C by contaminated blood. There will also be a further lump-sum payment of £25,000 for those with serious liver disease, thereby increasing the amount of the stage 2 Skipton fund payments from £25,000 to £50,000, along the same lines as in other countries in these islands. Patients who have developed hepatitis C related B-cell non-Hodgkin's lymphoma will also become eligible for a Skipton fund stage 2 payment. All of those annual payments will be uprated annually, in line with the consumer price index, to keep pace with living costs. That is a very important consideration.

There is one issue that I would like to explore with the Minister, as I do not wish to cover the same ground that the Member for Monmouth has already trodden. On the Minister's comments,

'I also have serious concerns that the financial assistance available to people infected by chronic hepatitis C, but who do not reach the criteria for Stage 2 Skipton Fund payment, is an underestimate of the impact',

I fully support you, Minister, in your efforts to get justice for those people who have hepatitis C, but not seriously enough at present to allow them to meet the criteria for stage 2 Skipton fund payments. We must not forget, as I have said already, that hepatitis C is a significant and life-threatening illness, and that these people have contracted it as a result of contamination by NHS blood products. Those two issues, regardless of the severity of the illness, should make people work ever harder to ensure that everybody with hepatitis C has justice in terms of the financial assistance accorded to them.

iawn. Yn wir, mae'n salwch sy'n peryglu bywyd. Yr ydym yn anghofio hynny ambell waith gan ein bod yn credu bod hepatitis, o'i gymharu â HIV, yn gymharol ysgafn. Yr wyf yn sicrhau Aelodau bod hepatitis C yn salwch difrifol sy'n peryglu bywyd ac mae angen ei drin yn y ffordd honno. I'r perwyl hwnnw, yr wyf yn croesawu cyhoeddiadau'r Gweinidog heddiw. I grynhoi eto, bydd taliad blynyddol newydd o £12,800 yn cael ei gyflwyno ar gyfer pob person byw sydd wedi'i heintio gyda hepatitis C gan waed halogedig. Bydd hefyd cyfandaliad pellach o £25,000 ar gyfer y rhai sydd â chlefyd difrifol ar yr afu, a thrwy hynny cynyddir swm y taliadau cam 2 o gronfa Skipton o £25,000 i £50,000, ar hyd yr un llinellau â gwledydd eraill yr ynysoedd hyn. Bydd cleifion sydd wedi datblygu lymffoma cell-B nad yw'n fath Hodgkin cysylltiedig â hepatitis C hefyd yn dod yn gymwys i gael taliad cam 2 o gronfa Skipton. Bydd pob un o'r taliadau blynyddol hynny yn cael ei uwchraddio yn flynyddol, yn unol â'r mynegai prisiau defnyddwyr, i gadw i fyny gyda chostau byw. Mae hynny'n ystyriaeth bwysig iawn.

Mae un mater y byddwn yn hoffi ei archwilio gyda'r Gweinidog, gan nad wyf yn dymuno ailadrodd yr hyn y mae'r Aelod dros Fynwy eisoes wedi'i ddweud. Ar sylwadau'r Gweinidog,

'Mae gennyf hefyd bryderon difrifol bod y cymorth ariannol sydd ar gael i bobl sydd wedi'u heintio gan hepatitis C difrifol cronig, ond nad ydynt yn cyrraedd y meini prawf ar gyfer taliad cam 2 Cronfa Skipton, yn amcangyfrif rhy isel o'r effaith',

Fe'ch cefnogaf yn llwyr, Weinidog, yn eich ymdrechion i sicrhau cyfiawnder i'r bobl hynny sydd â hepatitis C, ond nid yn ddigon difrifol ar hyn o bryd i'w galluogi i fodloni'r meini prawf ar gyfer taliadau cam 2 cronfa Skipton. Rhaid i ni beidio ag anghofio, fel yr wyf wedi dweud eisoes, fod hepatitis C yn salwch sylweddol sy'n peryglu bywyd, a bod y bobl hyn wedi ei ddal o ganlyniad i halogiad gan gynnyrch gwaed y GIG. Dylai'r ddau fater, waeth pa mor ddifrifol y salwch, wneud i bobl weithio'n galetach fyth i sicrhau bod pawb sydd â hepatitis C yn cael cyfiawnder o ran y cymorth ariannol a roddir iddynt.

Finally, your comments about FibroScan scanners are well made, Minister. Dr Gibbons will know that, in addition to being painful, liver biopsies are fairly anxious times, not just for patients, but for the doctor doing them. Any way around having a liver biopsy is to be commended, and I commend your approach, Minister. Most of all, I commend this very welcome announcement today, which will be a source of great comfort to many households in Wales.

Edwina Hart: Thank you very much indeed, Dr Lloyd. I welcome your comments, particularly those about FibroScan scans and the issues around liver biopsies, which have been raised with me by patients concerned about having to have them. They are also concerned that those are taken into account in relation to access to stage 2 payments. It is important that we are raising these wider issues.

There is an issue about justice here. I place on record my disappointment that my own party, when it was in power in Westminster, did not deal with this issue. It should be dealt with in a far more equitable manner. I have been corresponding with the Secretary for State for Health and have asked whether he is prepared to consider implementing across the UK the insurance scheme that is in place in the Republic of Ireland. Patients' groups have raised this with me, and have said that it is not about the cash when you get to stage 2, but about the other things in life that we all take for granted, like life insurance cover. If you have cancer or other serious illnesses, it is important that you can have things paid for. What happens with holiday insurance and such things? The Irish looked in a very comprehensive way at what was then a very expensive scheme, and I have raised this with the UK Government. This has been a good start to the discussion. We have to look at our services here. Many people will be delighted to receive the payments. However, I also have had correspondence indicating that many people do not feel that this has gone far enough. I hope that, in the next few years, when financial circumstances change in the UK, we can perhaps look at this again.

Yn olaf, yr oedd graen ar eich sylwadau am sganwyr FibroScan, Weinidog. Bydd Dr Gibbons yn gwybod, yn ogystal â bod yn boenus, bod biopsiau afu yn adegau gweddol bryderus, nid yn unig i gleifion, ond i'r meddyg sy'n eu gwneud. Mae unrhyw ffordd o osgoi biopsi afu i'w ganmol, a chymeradwyaf eich hymagwedd, Weinidog. Yn bennaf oll, cymeradwyaf a chroesawaf y cyhoeddiad hwn heddiw, a fydd yn ffynhonnell o gysur mawr ar gyfer nifer o aelwydydd yng Nghymru.

Edwina Hart: Diolch yn fawr iawn yn wir, Dr Lloyd. Yr wyf yn croesawu eich sylwadau, yn enwedig y rhai ar sganwyr FibroScan a'r materion sy'n ymwneud â biopsiau afu, sydd wedi cael eu codi gyda mi gan gleifion sy'n poeni am orfod eu cael. Maent hefyd yn pryderu bod y rheini'n cael eu cymryd i ystyriaeth mewn perthynas â mynediad at daliadau cam 2. Mae'n bwysig ein bod yn codi'r materion ehangach hyn.

Mae problem o ran cyfiawnder yma. Yr wyf am gofnodi fy siom bod fy mhlaid fy hun, pan oedd mewn grym yn San Steffan, heb drin y mater hwn. Dylid ei drin mewn modd llawer tecach. Yr wyf wedi bod yn gohebu gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd ac wedi gofyn a yw'n barod i ystyried gweithredu, ar draws y DU, y cynllun yswiriant sydd ar waith yng Ngweriniaeth Iwerddon. Mae grwpiau cleifion wedi codi hyn gyda mi, ac wedi dweud nad yr arian pan fyddwch yn mynd i gam 2 sy'n bwysig, ond y pethau eraill mewn bywyd yr ydym i gyd yn eu cymryd yn ganiataol, fel yswiriant bywyd. Os oes gennych ganser neu afiechydon difrifol eraill, mae'n bwysig eich bod yn gallu cael pethau wedi eu talu amdanynt. Beth sy'n digwydd gydag yswiriant gwyliau a phethau o'r fath? Edrychodd y Gwyddelod mewn modd cynhwysfawr iawn ar yr hyn oedd yn gynllun drud iawn, ac yr wyf wedi codi hyn gyda Llywodraeth y DU. Mae hyn wedi bod yn ddechrau da i'r drafodaeth. Mae'n rhaid i ni edrych ar ein gwasanaethau yma. Bydd llawer o bobl wrth eu bodd yn derbyn y taliadau. Fodd bynnag, yr wyf hefyd wedi cael gohebiaeth sy'n dangos nad yw llawer o bobl yn teimlo bod hyn wedi mynd yn ddigon pell. Gobeithiaf, yn y blynyddoedd nesaf, pan

fydd amgylchiadau ariannol yn newid yn y DU, y gallwn efallai edrych ar hyn eto.

Veronica German: The Welsh Liberal Democrats and I also welcome the statement that the Minister has made today. It is clearly right that anybody suffering as a result of treatment that they received from the NHS should get as much support as possible. It should have been a priority when it was first discovered, as the Minister said. It clearly must be a priority now. We are pleased that the Minister is matching and implementing the recommendations of the review into these matters that was announced in England. I also agree with her that this should only be a start, and that we have to address the inequities to which she has just referred. I can understand why she has decided not to have a cut-off date—I think that the cut-off date in England is the end of this month—as people need to have that opportunity. She has explained her reasoning behind that. She mentioned ex-gratia payments being exempt from means testing for social care. Does that mean that she intends that all of the payments should be exempt and that they will not affect any other payments that people might already be receiving when she issues guidance on that matter?

On the discretionary fund, you say that you will be having a dialogue with the Minister in London. Do you intend to use the same criteria as will be used in England? I think that that is what is implied in your statement, but I wanted to check that. We diverge slightly on the counselling services—named counselling services would have been used in England to deliver those services. The only thing that concerns me about this becoming part of the work of the task and finish group is that people may have longer to wait. I would be grateful if you could give some indication as to how long you think that that task and finish group will take. Meanwhile, if there is someone who desperately needs counselling, are there some interim measures that could be put in place? I will not repeat what has been said about FibroScan scanners, except to say that it is welcome.

Veronica German: Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru a minnau hefyd yn croesawu'r datganiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud heddiw. Mae'n amlwg iawn y dylai unrhyw un sy'n dioddef o ganlyniad i driniaeth a gawsant gan y GIG gael gymaint o gefnogaeth ag y bo modd. Dylai fod wedi bod yn flaenoriaeth pan gafodd ei ddarganfod gyntaf, fel y dywedodd y Gweinidog. Rhaid iddo fod yn flaenoriaeth yn awr. Rydym yn falch bod y Gweinidog yn cwrdd ag ac yn gweithredu argymhellion yr adolygiad i'r materion hyn a gyhoeddwyd yn Lloegr. Rwyf hefyd yn cytuno â hi y dylai hyn fod yn fan cychwyn yn unig, a bod yn rhaid i ni fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau y mae hi wedi cyfeirio atynt. Gallaf ddeall pam ei bod wedi penderfynu peidio â chael dyddiad terfyn—credaf mai'r dyddiad terfyn yn Lloegr yw diwedd y mis hwn—gan fod angen i bobl gael y cyfle hwnnw. Mae hi wedi esbonio ei rhesymeg dros hynny. Soniodd am daliadau ex-gratia yn cael eu heithrio rhag profion modd ar gyfer gofal cymdeithasol. A yw hynny'n golygu ei bod yn bwriadu y dylai pob un o'r taliadau gael eu heithrio ac na fyddant yn effeithio ar unrhyw daliadau eraill y gallai pobl eisoes fod yn eu derbyn wrth iddi gyhoeddi canllawiau ar y mater hwnnw?

Ar y gronfa ddewisol, dywedwch y byddwch yn cael deialog gyda'r Gweinidog yn Llundain. A ydych chi'n bwriadu defnyddio'r un meini prawf a fydd yn cael eu defnyddio yn Lloegr? Rwyf yn meddwl mai dyna a awgrymir yn eich datganiad, ond rwy'n awyddus i wirio hynny. Rydym yn gwahaniaethu ychydig ar y gwasanaethau cwnsela—byddai gwasanaethau cwnsela a'u henwir wedi cael eu defnyddio yn Lloegr i ddarparu'r gwasanaethau hynny. Yr unig beth sy'n fy mhryderu am y rhan hon o waith y grŵp gorchwyl a gorffen yw y gallai pobl aros am fwy o amser. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi rhyw syniad o pa mor hir yr ydych yn credu y bydd y grŵp gorchwyl a gorffen yn cymryd. Yn y cyfamser, os oes rhywun sydd â gwir angen cwnsela, a oes rhai mesurau dros dro y gellid eu rhoi ar waith? Nid wyf am ailadrodd yr hyn sydd wedi'i ddweud am sganwyr FibroScan, ar wahân i ddweud ei fod i'w groesawu.

On the payments, particularly the £12,800, I assume that it will be paid in the same way as payments have already been paid to people with HIV. How long do you envisage that it would take for the system to get going, and for people to receive payments back-dated to January? Finally, I welcome the Minister's wish to engage with people in the affected groups, because communication has been criticised in the past—not just in Wales, but in the UK as a whole. People just did not know what was happening. At the end of your statement, you mentioned the public health issues posed by blood-borne viruses, not necessarily with regard to this manner of infection, but the general public health issues related to increasing people's awareness of the risk factors for a disease such as hepatitis C. As Dai has already said, it has severe effects on people's health, especially when it is not recognised at an early stage. Perhaps you could comment on that.

Edwina Hart: I thank Veronica German for her positive comments and for her support for what I am trying to do with regard to these payments. She makes some valid points about the counselling services and what needs to be looked at there. I assure her that we have patient representation on the task and finish group, and I will take on board the points that she made. With regard to the issues around payments, I will take that up with officials to ensure that there is an appropriate timescale and no inappropriate delays for individuals. I welcome her comments around supporting me on the issue of a cut-off date; I thought that it would be rather unfair, because this has been a long-running issue and a lot of people have lost their loved ones already. I think that they will want the time to consider their applications and so on.

As regards the discretionary fund, we need to look at the rules and we need to ensure that they are consistent and right. So, it is important that we have a discussion on this in the interests of fairness and equity. With all the schemes across the UK, it would be very difficult otherwise. We are making the same

Ar y taliadau, yn enwedig y £12,800, rwy'n tybio y bydd yn cael ei dalu yn yr un modd â thaliadau sydd eisoes wedi cael eu talu i bobl sydd â HIV. Pa mor hir ydych chi'n rhagweld y byddai'n ei gymryd i'r system gychwyn ac i bobl dderbyn taliadau wedi'u hól-ddyddio i fis Ionawr? Yn olaf, croesawaf ddymuniad y Gweinidog i ymgysylltu â phobl yn y grwpiau yr effeithir arnynt, oherwydd bod cyfathrebu wedi cael ei feirniadu yn y gorffennol—nid yn unig yng Nghymru, ond yn y DU i gyd. Nid oedd pobl yn gwybod beth oedd yn digwydd. Ar ddiwedd eich datganiad, soniasoch am faterion iechyd y cyhoedd a achosir gan firysau a gludir yn y gwaed, nid o angenrheidrwydd o ran y modd hwn o heintio, ond materion iechyd cyffredinol y cyhoedd yn ymwneud â chynyddu ymwybyddiaeth pobl o'r ffactorau risg ar gyfer clefyd fel hepatitis C. Fel y mae Dai eisoes wedi'i ddweud, mae'n cael effeithiau difrifol ar iechyd pobl, yn enwedig pan nad yw'n cael ei ganfod yn gynnar. Efallai y gallech roi sylwadau ar hynny.

Edwina Hart: Hoffwn ddiolch i Veronica German am ei sylwadau cadarnhaol ac am ei chefnogaeth i'r hyn yr wyf yn ceisio ei wneud o ran y taliadau hyn. Mae hi'n gwneud rhai pwyntiau dilys am y gwasanaethau cwnsela a beth sydd angen edrych arno yn y fan honno. Gallaf ei sicrhau bod gennym gynrychiolaeth cleifion ar y grŵp gorchwyl a gorffen, a byddaf yn ystyried y pwyntiau a wnaeth. O ran y materion sy'n ymwneud â thaliadau, byddaf yn codi hynny gyda swyddogion i sicrhau bod amserlen briodol a dim oedi amhriodol ar gyfer unigolion. Yr wyf yn croesawu ei sylwadau sy'n fy nghefnogi ar fater y dyddiad terfyn; roeddwn yn meddwl y byddai braidd yn annheg, oherwydd mae hon wedi bod yn broblem hirdymor ac mae llawer o bobl wedi colli eu hanwyliaid yn barod. Credaf y byddant eisiau amser i ystyried eu ceisiadau ac yn y blaen.

O ran y gronfa ddewisol, mae angen i ni edrych ar y rheolau a sicrhau eu bod yn gyson ac yn gywir. Felly, mae'n bwysig ein bod yn cael trafodaeth ar hyn yng nghydestun tegwch a chydarddoldeb. Gyda'r holl gynlluniau ar draws y DU, byddai'n anodd iawn fel arall. Yr ydym yn gwneud yr un

payments, so we do not want to do things differently on the discretionary fund. That is the only reason why I raised that point. On the general points that you made, on the whole issue of blood-borne viral hepatitis action plans and the wider context, we have to make people aware of these issues.

3.30 p.m.

Jonathan Morgan: I start by saying how much I welcome the fact that you are implementing the recommendations in Wales. I am slightly concerned that it has taken this long to get to this point. On several occasions, when Jenny Randerson and I have raised this point in the Chamber with the Minister for Business and Budget, over a five or six-week period, we were told that there were several issues that you wanted to consider. However, bearing in mind that you have, with two exceptions, decided to implement the financial package in Wales, it is a pity that that package could not have been announced earlier, and that more information about the review that you are commissioning could have been announced later.

For many people in Wales, particularly for those with haemophilia, it was not just about the provision of services, and about whether the Welsh Health Specialised Services Committee, along with the health boards, were doing their job properly, but about the financial package of compensation to which they felt they were entitled. Therefore, and in the spirit in which this statement has been handled this afternoon, will you reflect on how these matters could be dealt with in future? Where such an issue arises, and where there is an opportunity to follow what is being done elsewhere in the UK, could that announcement be made quicker than this one, even though you wanted to consider several other issues in this case?

You have said that one of those issues will be additional access to counselling. You are right to want to look at that and to include it as part of the task and finish review. However, how quickly will that review start, when will it finish, when will it report, and

taliadau, felly nid ydym eisiau gwneud pethau'n wahanol o ran y gronfa ddewisol. Dyna'r unig reswm pam y codais y pwynt hwnnw. O ran y pwyntiau cyffredinol a wnaethoch, ar gynlluniau gweithredu hepatitis firol a gludir yn y gwaed a'r cyddestun ehangach, mae'n rhaid i ni wneud pobl yn ymwybodol o'r materion hyn.

Jonathan Morgan: Dechreuaf drwy ddweud cymaint yr wyf yn croesawu'r ffaith eich bod yn gweithredu'r argymhellion yng Nghymru. Yr wyf ychydig yn bryderus ei bod wedi cymryd cyhyd i gyrraedd y pwynt hwn. Ar sawl achlysur, pan fo Jenny Randerson a mi wedi codi'r pwynt hwn yn y Siambr gyda'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb, dros gyfnod o bump neu chwe wythnos, dywedwyd wrthym fod nifer o faterion yr oeddech eisiau eu hystyried. Fodd bynnag, o gofio eich bod, gyda dau eithriad, wedi penderfynu gweithredu'r pecyn ariannol yng Nghymru, mae'n drueni na allai'r pecyn hwnnw fod wedi cael ei gyhoeddi yn gynharach, ac na allai rhagor o wybodaeth am yr adolygiad yr ydych yn ei gomisiynu wedi cael ei chyhoeddi yn ddiweddarach.

I lawer o bobl yng Nghymru, yn enwedig y bobl sydd â hemoffilia, nid oedd hyn yn fater o'r ddarpariaeth o wasanaethau, ac a oedd Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, ynghyd â'r byrddau iechyd, yn gwneud eu gwaith yn iawn yn unig, ond roedd hefyd am y pecyn iawndal ariannol yr oeddent yn teimlo bod ganddynt hawl iddo. O ganlyniad i hyn, ac yn yr ysbryd yr ymdriniwyd â'r datganiad hwn y prynhawn yma, a wnewch chi ystyried sut y gellid ymdrin â'r materion hyn yn y dyfodol? Pan fo mater o'r fath yn codi, a lle mae cyfle i ddilyn yr hyn sy'n cael ei wneud mewn mannau eraill yn y DU, a allai'r cyhoeddiad hwnnw gael ei wneud yn gynt na'r un hwn, er i chi fod yn awyddus i ystyried nifer o faterion eraill yn yr achos hwn?

Rydych wedi dwed mai un o'r materion hynny fydd mynediad ychwanegol i wasanaethau cynghori. Rydych yn iawn i eisiau edrych ar hynny a'i gynnwys fel rhan o'r adolygiad gorchwyl a gorffen. Fodd bynnag, pa mor gyflym fydd yr adolygiad

what will be its scope? We want that to be done as quickly as possible, because many people in Wales rely on these services, and they want to know why those services are not delivering at present. We also want to know what you believe this review might achieve.

It is interesting that you said in your statement that the health boards, and the Welsh Health Specialised Services Committee, have undertaken work to see what measures are needed to address service provision. What deficiencies have been encountered that now require a task and finish group? I am sorry if you are not able to tell us that this afternoon, but the way in which the statement is written suggests that they have encountered problems, or that they are not doing the work that you anticipated that they would do, and that, as a result of that, there is a need for a further review. We would have expected the health boards and the Welsh Health Specialised Services Committee to have resolved these matters, as I suspect that they have been looking at them for some time. Therefore, can you elaborate further on what that review will be, how quickly it will take place, and what we anticipate coming out of it?

Edwina Hart: Thank you for your comments, Jonathan. I am well aware of your interest, and that of other Members in this issue. It is interesting to note that, although I have been lobbied about the payments issues, people have also written to me, stating that they believe that it is right that I look at the whole service holistically, not just the payments issues. Therefore, it is a judgment call. You would not agree with my judgment, but I will reflect on your comments in the spirit in which they were made.

Regarding my review, I was very much taken during discussions by the fact that I wanted to see greater co-ordination and a role for the centre, in terms of how services could be delivered across Wales. We have the LHBS,

hwnnw'n cychwyn, pryd y caiff ei gwblhau, pryd fydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno, a beth fydd ei gwmpas? Rydym am i hynny gael ei wneud cyn gynted ag y bo modd, gan fod llawer o bobl yng Nghymru yn dibynnu ar y gwasanaethau hyn, ac maent am wybod pam nad yw'r gwasanaethau hynny'n cael eu darparu ar hyn o bryd. Rydym hefyd am wybod beth ydych yn credu y gallai'r adolygiad hwn ei gyflawni.

Mae'n ddiddorol i chi ddweud yn eich datganiad bod y byrddau iechyd, a Phwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, wedi gwneud gwaith i weld pa fesurau sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r ddarpariaeth o wasanaethau. Pa ddiffygion a wnaeth godi y mae angen grŵp gorchwyl a gorffen i fynd i'r afael â hwy? Mae'n ddrwg gennyf os nad ydych yn gallu dweud hynny wrthym y prynhawn yma, ond mae'r ffordd yr ysgrifennwyd y datganiad yn awgrymu bod problemau wedi codi, neu nad ydynt yn gwneud y gwaith yr oeddech wedi rhagweld y byddent yn ei wneud, ac, o ganlyniad i hynny, fod angen adolygiad pellach. Byddem wedi disgwyl y byddai'r byrddau iechyd a Phwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru wedi datrys y materion hyn, gan fy mod yn amau eu bod wedi bod yn edrych arnynt ers peth amser. Felly, a allwch ymhelaethu ar beth fydd yr adolygiad hwnnw, pa mor gyflym y bydd yn digwydd, a beth rydym yn rhagweld y bydd yn dod allan ohono?

Edwina Hart: Diolch ichi am eich sylwadau, Jonathan. Rwy'n ymwybodol iawn o'ch diddordeb, a diddordeb Aelodau eraill, yn y mater hwn. Mae'n ddiddorol nodi, er fy mod wedi bod yn llobio am y materion sy'n ymwneud â thaliadau, fod pobl hefyd wedi ysgrifennu ataf, gan ddweud eu bod yn credu ei bod yn iawn fy mod yn edrych ar y gwasanaeth cyfan yn holistig, ac nid ar y materion taliadau yn unig. Felly, mae'n fater o farn. Ni fydddech yn cytuno gyda fy marn i, ond byddaf yn ystyried eich sylwadau yn yr ysbryd y cawsant eu gwneud.

O ran fy adolygiad, fe'm trawyd yn ystod y trafodaethau gan y ffaith fy mod eisiau gweld mwy o gydlynw a rôl ar gyfer y ganolfan, mewn perthynas â sut y gellid darparu gwasanaethau ledled Cymru. Mae gennym y

with their individual responsibilities, and we also have these specialist services in the centre; however, I believed that it was important that Government also has a role, and the medical director reports directly to the Minister, bringing together the various parties. What is important about this is that I will be including the voluntary sector, as well as patient representatives, to ensure that the real day-to-day issues are addressed in terms of what services are required—and I do not like to say this with two doctors present in the Chamber—not just in terms of some of the medical issues, but in terms of some of the practical issues that impact on people, which are enormously important to this agenda. Therefore, that is the reason behind that.

I have discussed with Dr Chris Jones that the letter inviting participants should now be sent. I believe that an appropriate timescale for the review to report back would be during the first week following the Assembly elections. Any new Minister for health can then report back appropriately to the Assembly, because the subject has been of great interest here. I do not believe that that is a difficult timescale for this work to be done. However, the review will have to look at wider issues, such as what physiotherapy services are available across Wales. People like to use a specialist physiotherapist sometimes, particularly for children—and we need to know what their requirements are. Therefore, there is a range of issues. However, I believe that the discussion will be well-focused under the chairmanship of Dr Chris Jones, the medical director, who, of course, has been engaging first hand with representatives of the organisations. However, if you wish to write to me further concerning this issue, or require further information, I will be delighted to write to you and share the letter with Assembly Members.

Jenny Randerson: I warmly welcome the Minister's statement this afternoon. It is a very important and big step forward for the sufferers of these two dreadful diseases. This is not the end of the road, I am sure, and there

byrddau iechyd lleol, gyda'u cyfrifoldebau unigol, ac mae gennym hefyd y gwasanaethau arbenigol yn y ganolfan. Fodd bynnag, roeddwn yn credu ei bod yn bwysig fod gan y Llywodraeth rôl hefyd, a bod y cyfarwyddwr meddygol yn adrodd yn uniongyrchol i'r Gweinidog, gan ddwyn ynghyd y gwahanol bartïon. Yr hyn sy'n bwysig am hyn yw y byddaf yn cynnwys y sector gwirfoddol, yn ogystal â chynrychiolwyr cleifion, i sicrhau yr ymdrinnir â'r materion dydd i ddydd yn iawn o ran pa wasanaethau sydd eu hangen—ac nid wyf yn hoffi dweud hyn gyda dau feddyg yn bresennol yn y Siambr—nid yn unig o ran rhai o'r materion meddygol, ond hefyd o ran rhai o'r materion ymarferol sy'n effeithio ar bobl, sy'n hynod bwysig i'r agenda hon. Felly, dyna'r rheswm y tu ôl i hynny.

Mae Dr Chris Jones a mi wedi trafod y ffaith y dylai'r llythyr yn gwahodd cyfranogwyr gael ei anfon yn awr. Rwy'n credu y byddai'n amserlen briodol ar gyfer yr adolygiad pe bai'n adrodd yn ôl yn ystod yr wythnos gyntaf ar ôl etholiadau'r Cynulliad. Wedyn, gall unrhyw Weinidog newydd dros iechyd adrodd yn ôl i'r Cynulliad, gan fod y pwnc hwn wedi bod o ddiddordeb mawr yma. Nid wyf yn credu fod honno'n amserlen anodd ar gyfer cyflawni'r gwaith sydd i'w wneud. Fodd bynnag, bydd yn rhaid i'r adolygiad edrych ar faterion ehangach, fel pa wasanaethau ffisiotherapi sydd ar gael ledled Cymru. Mae pobl yn hoffi defnyddio ffisiotherapydd arbenigol weithiau, yn enwedig ar gyfer plant—ac mae angen inni wybod beth yw eu gofynion. Felly, mae ystod o faterion. Fodd bynnag, credaf y bydd ffocws da i'r drafodaeth o dan gadeiryddiaeth Dr Chris Jones, y cyfarwyddwr meddygol, sydd, wrth gwrs, wedi bod yn ymgysylltu'n uniongyrchol â chynrychiolwyr o'r sefydliadau. Fodd bynnag, os ydych yn dymuno ysgrifennu ataf ymhellach am y mater hwn, neu os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, byddaf yn hapus i ysgrifennu atoch a rhannu'r llythyr ag Aelodau'r Cynulliad.

Jenny Randerson: Rwy'n croesawu'n gynnes ddatganiad y Gweinidog y prynhawn yma. Mae'n gam pwysig a sylwedol ymlaen ar gyfer dioddefwyr y ddau glefyd ofnadwy hyn. Nid pen y daith yw hwn, rwy'n siŵr, ac

is still a lot more work to be done, but it is an important step forward. I have three specific questions. First, you refer to the lack of a registration deadline for posthumous claims for those who have suffered from hepatitis C. Can you give us specific numbers, or an estimate of the number of potential posthumous claims? I ask that question simply because, given that the numbers will be relatively small, it might be easier simply to contact the families concerned rather than rely on advertising, as some of the families may never see those advertisements and they may not be in contact with the campaigning organisations. It would not be a massive bureaucratic exercise in Wales. It certainly would be a big exercise in England, but, in Wales, we are talking about relatively small numbers.

I welcome in principle what you have said in relation to the discretionary fund. By implication, you are saying that you may be prepared to provide payments to those with chronic hepatitis C, but who have not reached stage 2. If that is the case, I strongly welcome that, Minister, because, as previous speakers have said—and as you have said—it is difficult to identify when you go from stage 1 to stage 2. I do not necessarily know that there is a day when that happens. There is a process by which that happens. It is, as Dai Lloyd said, a very debilitating disease, and I urge you, Minister, to do anything you can to raise awareness in Wales of the seriousness of hepatitis C in general and to make progress with measures to identify those who are suffering from it. It is a disease that lies dormant and people are unaware for many years that they have it. It is often an inheritance—although not in the case of the people we are talking about here—from a lifestyle of previous generations that people tend to have forgotten about in many cases, and there is an issue with identification. I am in danger of digressing, Minister, but I will return to the statement.

The importance of the counselling service is phenomenal. I note that you are dealing with it as part of your review of the treatment of

mae llawer mwy o waith i'w wneud eto, ond mae'n gam pwysig ymlaen. Mae gennyf dri chwestiwn penodol. Yn gyntaf, rydych yn cyfeirio at y ffaith nad oes dyddiad cau i gofrestru ar gyfer hawliadau ar ôl marwolaeth ar gyfer y rhai sydd wedi dioddef o hepatitis C. A allwch roi rhifau penodol inni, neu amcan o'r nifer o hawliadau ar ôl marwolaeth posibl? Rwy'n gofyn y cwestiwn hwnnw oherwydd, o gofio y bydd y niferoedd yn gymharol fach, efallai y byddai'n haws cysylltu â'r teuluoedd dan sylw yn hytrach na dibynnu ar hysbysebu, gan ei bod yn bosibl na fydd rhai o'r teuluoedd yn gweld yr hysbysebion hynny ac efallai nad ydynt mewn cysylltiad â'r sefydliadau ymgyrchu. Ni fyddai'n ymarfer biwrocraidd enfawr yng Nghymru. Byddai'n sicr yn ymarfer mawr yn Lloegr, ond, yng Nghymru, rydym yn sôn am niferoedd gymharol fach.

Rwy'n croesawu mewn egwyddor yr hyn yr ydych wedi'i ddweud mewn perthynas â'r gronfa ddewisol. Rydych yn awgrymu efallai y byddwch yn barod i ddarparu taliadau i'r rhai sydd â hepatitis C cronig, ond nad ydynt wedi cyrraedd cam 2. Os yw hynny'n wir, rwy'n croesawu hynny, Weinidog, oherwydd, fel y mae siaradwyr blaenorol wedi dweud—ac fel yr ydych chi wedi dweud—mae'n anodd gwybod pryd fyddwch yn mynd o gam 1 i gam 2. Nid wyf o reidrwydd yn gwybod bod yna ddiwrnod penodol pan fydd hynny'n digwydd. Mae hynny'n digwydd fel rhan o broses. Fel y dywedodd Dai Lloyd, mae'n glefyd gwanychol iawn, ac rwy'n eich annog chi, Weinidog, i wneud unrhyw beth y gallwch i godi ymwybyddiaeth o ddifrifoldeb hepatitis C yn gyffredinol yng Nghymru ac i wneud cynnydd drwy fesurau i adnabod y bobl sy'n dioddef ohono. Mae'n glefyd sy'n gorwedd yn segur ac nid yw pobl yn gwybod bod ganddynt y clefyd am nifer o flynyddoedd. Mae'n aml yn etifeddiaeth—er, nid yn achos y bobl yr ydym yn sôn amdanynt yma—o ffordd o fyw cenedlaethau blaenorol y mae pobl yn dueddol o fod wedi anghofio amdani mewn llawer o achosion, ac mae problem gydag adnabod y clefyd. Rwyf mewn perygl o grwydro, Weinidog, ond byddaf yn dychwelyd at y datganiad.

Mae'r gwasanaeth cwnsela yn aruthrol o bwysig. Sylwaf eich bod yn delio ag ef fel rhan o'ch adolygiad o drin pobl â hemoffilia.

people with haemophilia. I have concerns, Minister, about any delay in the provision of these services because people are dying by the month and the counselling service is important.

Finally, with regard to the Penrose inquiry in Scotland, do you have any plans to take that way forward? I have urged it in the past, and I urge it again. For many of the families and the patients concerned, the issue is as fundamentally about apportioning blame and getting the apology as it about money and financial compensation.

Edwina Hart: I understand exactly your final point because that is the message that I have received very strongly from patients and others, namely that we need to get to the bottom of all of this and to know what has happened and why. I have not given any active consideration to looking at that issue, but in view of you raising it, I will do so.

I share your concerns about the counselling issues. That is why I have indicated these timescales today. However, I will certainly discuss this further with my officials to see whether there is anything that we could do in the interim because I agree that it is very important that people have access to counselling services.

I think that your first point about posthumous cases and the issues around these is very well made. The trouble is the proof required that the cause was contaminated blood. However, it is something that I will certainly look at in light of your contribution to see whether there is anything more that we can do in this area. You are right that, in the context of Wales, numbers will be relatively small.

I am thinking about a discretionary fund. Of course, I also have to think about the resources that will be available from the Welsh Assembly Government during that period. I am also well aware that, as you say, things do not change in a day—in the sense of reaching stage 2. There are all sorts of issues to do with the difficulties people face. They cannot even go to work. They cannot provide for their families. It affects how they live their lives, which must be looked at.

Mae gennyf bryderon, Weinidog, am unrhyw oedi o ran darparu'r gwasanaethau hyn oherwydd bod pobl yn marw bob mis ac mae'r gwasanaeth cwnsela yn bwysig.

Yn olaf, o ran yr ymchwiliad Penrose yn yr Alban, a oes gennych unrhyw gynlluniau i ddilyn y trywydd hwnnw? Rwyf wedi annog hynny yn y gorffennol, ac rwy'n annog hynny eto. Yn achos llawer o'r teuluoedd a'r cleifion dan sylw, mae hwn yn fater o roi bai a derbyn ymddiheuriad gymaint ag y mae'n ymwneud ag arian ac iawndal ariannol.

Edwina Hart: Rwy'n deall eich pwynt olaf yn iawn oherwydd dyna'r neges a gefais yn gryf iawn gan gleifion ac eraill, sef bod angen inni fynd at wraidd hyn a dysgu beth sydd wedi digwydd a pham. Nid wyf wedi rhoi unrhyw ystyriaeth weithredol i edrych ar y mater hwnnw, ond oherwydd eich bod wedi ei godi, byddaf yn gwneud hynny.

Rwy'n rhannu eich pryderon am gwnsela. Dyna pam rwyf wedi dynodi'r amserlenni hyn heddiw. Fodd bynnag, byddaf yn sicr yn trafod hyn ymhellach gyda fy swyddogion i weld a oes unrhyw beth y gallem ei wneud yn y cyfamser, oherwydd rwy'n cytuno ei fod yn bwysig iawn bod pobl yn cael mynediad at wasanaethau cynghori.

Credaf fod eich pwynt cyntaf am achosion ar ôl marwolaeth a materion cysylltiedig yn bwynt da iawn. Y drafferth yw'r dystiolaeth sydd ei hangen mai gwaed halogedig a wnaeth achosi hyn. Fodd bynnag, byddaf yn sicr yn edrych ar hyn yng ngoleuni eich cyfraniad i weld a oes unrhyw beth mwy y gallwn ei wneud yn y maes hwn. Rydych yn iawn i ddweud y bydd y niferoedd yn gymharol fach yng nghyd-destun Cymru.

Rwy'n meddwl am gronfa ddewisol. Wrth gwrs, mae'n rhaid imi feddwl hefyd am yr adnoddau a fydd ar gael wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru yn ystod y cyfnod hwnnw. Rwyf hefyd yn ymwybodol iawn, fel y dywedaso, nad yw pethau'n newid mewn diwrnod—o ran cyrraedd cam 2. Mae pob math o faterion sy'n ymwneud â'r anawsterau y mae pobl yn eu hwynebu. Ni allant hyd yn oed fynd i'r gwaith. Ni allant ddarparu ar gyfer eu teuluoedd. Mae'n effeithio ar sut y

Therefore, if Members will forgive me, I will take a bit of time to look at the issues around the discretionary fund. However, we will try to update Members with any further information I can share before we enter the election period.

The Presiding Officer: Thank you Minister, until we hear from you next on the regulations later this afternoon.

maent yn byw eu bywydau, ac mae'n rhaid ystyried hynny. Felly, os bydd yr Aelodau'n maddau imi, byddaf yn cymryd ychydig o amser i edrych ar y materion sy'n ymwneud â'r gronfa ddewisol. Fodd bynnag, byddwn yn ceisio sicrhau bod yr Aelodau yn cael unrhyw wybodaeth y gallaf ei rhannu â hwy cyn inni fynd i mewn i gyfnod yr etholiad.

Y Llywydd: Diolch yn fawr, Weinidog, hyd nes ein bod yn clywed gennych ar y rheoliadau yn ddiweddarach y prynhawn yma.

**Datganiad am Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad Blynyddol
Comisiynydd Plant Cymru**
**Statement on the Welsh Assembly Government's Response to the Annual Report
of the Children's Commissioner for Wales**

The Deputy Minister for Children (Huw Lewis): Today, I would like to formally welcome the ninth annual report from the Children's Commissioner for Wales. The children's commissioner's annual report rightly challenges us to do better for the children of Wales. He has identified a number of important issues to which we must respond. I would like to take this opportunity to touch briefly on some of those issues.

The commissioner has once again raised concerns about school toilets. I regret that schools and local authorities have not made more progress on this issue. I am very clear that the responsibility for school facilities and the health and wellbeing of pupils rests with local authorities and that we expect to see improvements. The Assembly Government will play its part, and I am pleased that the consultation on the best practice guidance on standards for school toilets has recently been published. My officials are currently considering the responses to the consultation, and the final guidance will be endorsed by the Minister for Children, Education and Lifelong Learning and the Minister for Health and Social Services.

I agree with the view expressed by the commissioner that we have to ensure that the emotional health of children and young people is everybody's business. We have made a commitment to child and adolescent

Y Dirprwy Weinidog dros Blant (Huw Lewis): Heddiw, hoffwn groesawu'n ffurfiol y nawfed adroddiad blynyddol gan Gomisiynydd Plant Cymru. Mae adroddiad blynyddol y comisiynydd plant yn ein herio i wneud yn well ar gyfer plant Cymru, ac mae hynny'n iawn. Mae wedi nodi nifer o faterion pwysig y mae'n rhaid inni ymateb iddynt. Hoffwn achub ar y cyfle hwn i sôn yn fyr am rai o'r materion hynny.

Mae'r comisiynydd wedi codi pryderon ynghylch toiledau ysgol unwaith eto. Rwy'n gresynu nad yw ysgolion ac awdurdodau lleol wedi gwneud mwy o gynnydd ar y mater hwn. Rwy'n glir iawn am y ffaith fod y cyfrifoldeb dros gyfleusterau ysgol ac iechyd a lles y disgyblion yn gorwedd gydag awdurdodau lleol a'n bod yn disgwyl gweld gwelliannau. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn chwarae ei rhan, ac rwy'n falch y cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar y canllaw arfer gorau ynghylch safonau toiledau ysgol yn ddiweddar. Mae fy swyddogion wrthi'n ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, a bydd y canllaw terfynol yn cael ei chymeradwyo gan y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes a'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Rwy'n cytuno â'r farn a fynegwyd gan y comisiynydd bod yn rhaid inni sicrhau bod iechyd emosiynol plant a phobl ifanc yn fusnes i bawb. Rydym wedi ymrwymo i wasanaethau iechyd meddwl plant a'r

mental health services in 'One Wales', with a total of £6.9 million being made available over the three-year period from 2008-09 to 2010-11. This is intended to enhance service delivery. The commissioner highlights examples where children are not allowed to play in our public spaces, highlighting that more needs to be done to change attitudes towards children's play and to ensure that young people have spaces where they can safely hang out. We are currently drafting regulations, standards and guidance for local authorities on fulfilling their duty to assess for and secure sufficient play opportunities for children in their areas. This will include guidance on creating safe but challenging play opportunities, as well as raising awareness of the importance of play in a child's life.

Tackling child poverty is a top priority for the Welsh Government. The First Minister and I launched the Assembly's child poverty strategy last month. The new strategy gives a clear account of our objectives: to reduce the number of children living in workless households; to reduce in-work poverty; and to reduce inequalities in outcomes for children and young people living in poverty. Our child poverty strategy in particular sets out the importance of the early years, how we will transform support for families and what more we can do for those children and families that are particularly vulnerable. Families First is the Assembly Government's key programme for designing better integrated support for families living in poverty. Its principal focus is supporting families through interventions at the preventive and protective stages. The programme aims to drive improvements to family support, design and delivery and, in so doing, to reduce the numbers of families developing more complex needs and requiring more intensive and costly interventions as a consequence.

3.45 p.m.

In January, the Assembly voted unanimously to embed the United Nations Convention on the Rights of the Child into Welsh law. I am proud that Wales is the first country in the UK to do so. I believe that the Proposed

glasod yn 'Cymru'n Un', gyda chyfanswm o £6.9 miliwn ar gael dros y cyfnod o dair blynedd o 2008-09 i 2010-11. Bwriad hyn yw gwella'r ddarpariaeth o wasanaethau. Mae'r comisiynydd yn tynnu sylw at enghreifftiau lle na chaniateir i blant chwarae mewn mannau cyhoeddus, gan bwysleisio bod angen gwneud mwy i newid agweddau tuag at blant yn chwarae ac i sicrhau bod pobl ifanc yn cael mannau lle gallant gymdeithasu'n ddiogel. Rydym wrthi'n drafftio rheoliadau, safonau a chanllawiau ar gyfer awdurdodau lleol ar gyflawni eu dyletswydd i asesu a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant yn eu hardaloedd. Bydd hyn yn cynnwys canllawiau ar greu cyfleoedd chwarae diogel ond heriol, yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd chwarae ym mywyd plentyn.

Mae mynd i'r afael â thlodi plant yn brif flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Lansiodd y Prif Weinidog a mi strategaeth y Cynulliad ar dlodi plant fis diwethaf. Mae'r strategaeth newydd yn nodi ein hamcanion yn glir: lleihau nifer y plant sy'n byw mewn cartrefi di-waith; lleihau tlodi mewn gwaith; a lleihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau i blant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi. Yn arbennig, mae ein strategaeth tlodi plant yn nodi pwysigrwydd y blynyddoedd cynnar, sut y byddwn yn trawsnewid cymorth i deuluoedd a beth arall y gallwn ei wneud ar gyfer y plant a theuluoedd sy'n arbennig o agored i niwed. Teuluoedd yn Gyntaf yw prif raglen Llywodraeth y Cynulliad ar ddylunio gwell cymorth integredig i deuluoedd sy'n byw mewn tlodi. Ei phrif ffocws yw cefnogi teuluoedd drwy ymyriadau yn ystod y camau ataliol ac amddiffynnol. Nod y rhaglen yw annog gwelliannau i'r cymorth a roddir i deuluoedd, a'r ffordd y caiff ei ddylunio a'i ddarparu ac, wrth wneud hynny, lleihau nifer y teuluoedd sy'n datblygu anghenion mwy cymhleth ac sydd angen ymyriadau mwy dwys a chostus o ganlyniad.

Ym mis Ionawr, pleidleisiodd y Cynulliad yn unfrydol i ymgorffori Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yng nghyfraith Cymru. Rwy'n falch mai Cymru yw'r wlad gyntaf yn y DU i wneud

Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure has real potential to make a positive change that will be of benefit to the lives of all children and young people living in Wales. Placing duties on Welsh Ministers will make the UNCRC part of the framework for decision making. In the first instance, this will impact on two of the most powerful tools that Governments use to effect change: policy and legislation.

The Proposed Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure will strengthen and build on the existing unique rights-based approach of the Welsh Assembly Government towards policy for children and young people. The proposed Measure will further strengthen our commitment to children and young people's rights and will apply across all ministerial portfolios. We have worked closely with the children's commissioner in developing the proposed Measure, and I welcome his wholehearted support. I look forward to working with him on its implementation in order to secure ever better outcomes for the children and young people of our country.

I can confirm to the Assembly that the children's commissioner has operated within the budget of £1.837 million set for 2010-11. We face financial pressures in the coming years, and the children's commissioner, along with many other organisations, will be looking to secure efficiencies. Across the Welsh Assembly Government, children, young people and families are our priority and we will protect their services.

The commissioner's report raises yet again the issue of the continuing negative media coverage directed at children and young people. I share this concern. We are committed to tackling this and are continuing to work with the commissioner's office. The commissioner's staff have provided welcome support and advice in the work that we undertook on this area as part of the UNCRC twenty-first anniversary celebrations. Let us

hynny. Credaf fod gan y Mesur Arfaethedig ynghylch Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) botensial gwirioneddol i wneud newidiadau cadarnhaol a fydd o fudd i fywydau pob plentyn a pherson ifanc sy'n byw yng Nghymru. Bydd gosod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru yn gwneud Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn rhan o'r fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau. Yn y lle cyntaf, bydd hyn yn effeithio ar ddau o'r arfau mwyaf pwerus y mae llywodraethau yn eu defnyddio i achosi newid: polisi a deddfwriaeth.

Bydd y Mesur Arfaethedig ynghylch Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) yn cryfhau ac yn adeiladu ar y dull unigryw sy'n seiliedig ar hawliau a ddefnyddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar hyn o bryd i ymdrin â pholisi plant a phobl ifanc. Bydd y Mesur arfaethedig yn cryfhau ymhellach ein hymrwymiad i hawliau plant a phobl ifanc a bydd yn berthnasol ar draws yr holl bortffolios gweinidogol. Rydym wedi gweithio'n agos gyda'r comisiynydd plant wrth ddatblygu'r Mesur arfaethedig, a chroesawaf ei gefnogaeth lwyr. Edrychaf ymlaen at weithio gydag ef ar ei weithredu er mwyn sicrhau canlyniadau gwell nag erioed i blant a phobl ifanc ein gwlad.

Gallaf gadarnhau i'r Cynulliad bod y comisiynydd plant wedi gweithredu o fewn y gyllideb o £1.837 miliwn a bennwyd ar gyfer 2010-11. Rydym yn wynebu pwysau ariannol dros y blynyddoedd nesaf, a bydd y comisiynydd plant, ynghyd â llawer o sefydliadau eraill, yn edrych am ffyrdd o sicrhau effeithlonrwydd. Ar draws Llywodraeth Cynulliad Cymru, ein blaenoriaeth yw plant, pobl ifanc a theuluoedd a byddwn yn diogelu eu gwasanaethau.

Unwaith eto, mae adroddiad y comisiynydd yn codi'r ffaith bod sylw yn y cyfryngau yn parhau i fod yn negyddol wrth gyfeirio at blant a phobl ifanc. Rhannaf y pryder hwn. Rydym wedi ymrwymo i fynd i'r afael â hyn ac yn parhau i weithio gyda swyddfa'r comisiynydd. Mae staff y comisiynydd wedi darparu cymorth a chyngor a groesawyd mewn perthynas â'r gwaith y gwnaethom ymgymryd ag ef yn y maes hwn fel rhan o

think for a moment about the children and young people we know personally or have come across in our work. The vast majority are decent, law abiding and hard working. It is an established fact that far more children and young people than adults do unpaid voluntary work in their community, yet these stories rarely make the news. Instead, that very small percentage of young people who get into trouble of one sort or another get far more bad press than deserved, and that is often what sticks in people's minds. We need to get the balance right and celebrate more frequently the success that they achieve.

I thank the commissioner and his team for our constructive and ongoing positive dialogue, as we continue to discuss these important issues. I welcome the contribution that they make in championing the cause of children and young people's rights in all areas of policy and practice across Wales. The commissioner has been an established feature of Welsh society for a decade, being the first of the four children's commissioners to be appointed. I know that the experience and expertise of the current commissioner, Keith Towler, and his team is held in high regard by his counterparts in the other UK jurisdictions. I feel sure that he will continue in the coming year to speak up and hold us to account wherever and whenever necessary to promote the rights of our children and young people.

Paul Davies: I thank the Deputy Minister for the statement, and I take this opportunity to thank Keith Towler and his team for their ongoing efforts to improve the lives of children and young people and for producing their annual report. As I have said on numerous occasions, ensuring that the rights of children and young people are recognised and protected is essential. We must continue to work to ensure that every child in Wales has access to proper education and healthcare facilities.

The first of the issues that I would like to

ddathliadau penblwydd Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn 21. Gadewch inni feddwl am funud am y plant a'r bobl ifanc yr ydym yn eu hadnabod yn bersonol neu yr ydym wedi dod ar eu traws yn ein gwaith. Mae'r mwyafrif helaeth yn weddus, yn ufuddhau'r gyfraith ac yn gweithio'n galed. Mae'n ffaith sefydledig bod niferoedd llawer yn uwch o blant a phobl ifanc nag oedolion yn gwneud gwaith gwirfoddol di-dâl yn eu cymuned, ond yn anaml y cawn glywed y storïau hyn yn newyddion. Yn lle hynny, mae'r canran bach iawn o bobl ifanc sy'n mynd i drafferth o ryw fath neu'i gilydd yn cael llawer mwy o sylw negyddol nag y maent yn ei haeddu, ac mae hyn yn aml yn glynu ym meddyliau pobl. Mae angen inni gael y cydbwysedd cywir a dathlu'r hyn y maent yn ei gyflawni yn amlach.

Hoffwn ddiolch i'r comisiynydd a'i dîm am ein deialog gadarnhaol, adeiladol a pharhaus, wrth inni barhau i drafod y materion pwysig hyn. Croesawaf y cyfraniad y maent yn ei wneud o ran pledio achos hawliau plant a phobl ifanc ym mhob maes polisi ac arfer ledled Cymru. Mae'r comisiynydd wedi bod yn nodwedd sefydlog o gymdeithas yng Nghymru ers degawd, fel y cyntaf o'r pedwar comisiynydd plant i gael ei benodi. Gwn fod profiad ac arbenigedd y comisiynydd presennol, Keith Towler, a'i dîm yn fawr eu parch ymhlith ei gymheiriaid yn awdurdodaethau eraill y DU. Yn y flwyddyn sydd i ddod, rwy'n siŵr y bydd yn parhau i leisio'i farn ac i'n galw i gyfrif lle bynnag a phryd bynnag bod angen gwneud hynny i hyrwyddo hawliau ein plant a phobl ifanc.

Paul Davies: Diolch i'r Dirprwy Weinidog am y datganiad, a hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i Keith Towler a'i dîm am eu hymdrechion parhaus i wella bywydau plant a phobl ifanc ac ar gyfer paratoi'r adroddiad blynyddol. Fel yr wyf wedi dweud droeon, mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau bod hawliau plant a phobl ifanc yn cael eu cydnabod a'u gwarchod. Rhaid inni barhau i weithio i sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn cael mynediad i addysg a chyfleusterau gofal iechyd o safon.

Y cyntaf o'r materion yr hoffwn eu trafod y

discuss this afternoon are the education issues that continue to be highlighted in the commissioner's reports. They include the issues of school toilet facilities, school reorganisations and bullying. I would reiterate that it is disappointing to read that the issue of school toilets remains a concern for so many. There appears to be a gap between policy intent and practice in this regard. I would be grateful if the Deputy Minister could outline in his response whether he feels that it is local authorities' implementation of policies and work with schools that have prevented an improvement in this area. I note from the Welsh Assembly Government's response to the report that the final guidance will be endorsed by the Minister for Children, Education and Lifelong Learning. Perhaps the Deputy Minister will be kind enough to give us the timescales for the final guidance.

Another education issue that was mentioned substantially in the commissioner's report was school reorganisations. I am aware that this is an area where a great deal of work is currently being done, and that the Minister for education issued a new consultation document just before Christmas on changes to the school reorganisation process. This is an extremely sensitive issue for many children and parents, and it is clearly something that is being brought to the attention of the children's commissioner on a regular basis. The commissioner states in the report that there is an urgent need for change in the way that authorities provide information to children to ensure their participation in the process—something that I could not agree more with. Will the Deputy Minister outline what the Welsh Assembly Government is doing to address this issue, and what work has been done with local authorities to ensure that children's voices are heard during the reorganisations process? Given that school reorganisations can have a huge impact on children and young people, does the Deputy Minister think that the children's commissioner should have a greater role in the school reorganisations process in the future?

The final major education issue that I wish to draw to the Assembly's attention is that of

prynhawn yma yw'r materion addysg sy'n parhau i gael eu hamlygu yn adroddiadau'r comisiynydd. Maent yn cynnwys cyfleusterau toiledau ysgol, ad-drefnu ysgolion a bwlio. Hoffwn ailadrodd fy mod yn siomedig i ddarllen bod y mater o doiledau ysgol yn parhau i fod yn bryder i gynifer o bobl. Mae'n ymddangos bod bwlch rhwng y bwriad polisi a'r hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd yn y maes hwn. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Dirprwy Weinidog amlinellu yn ei ymateb a yw'n teimlo mai'r ffordd y mae awdurdodau lleol yn gweithredu polisïau ac yn gweithio gydag ysgolion sydd wedi atal gwelliant yn y maes hwn. Nodaf ar sail ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r adroddiad y bydd y canllawiau terfynol yn cael eu cymeradwyo gan y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes. Efallai y bydd y Dirprwy Weinidog yn ddigon caredig i roi'r amserlenni ar gyfer y canllawiau terfynol inni.

Mater addysg arall a oedd yn cael ei grybwyll yn sylweddol yn adroddiad y comisiynydd oedd ad-drefnu ysgolion. Rwy'n ymwybodol bod hwn yn faes lle mae llawer iawn o waith yn cael ei wneud, ac y cyhoeddodd y Gweinidog dros addysg ddogfen ymgynghori newydd ychydig cyn y Nadolig ar newidiadau i'r broses o ad-drefnu ysgolion. Mae hwn yn fater sensitif iawn i lawer o blant a rhieni, ac mae'n amlwg yn rhywbeth sy'n cael ei ddwyn i sylw'r comisiynydd plant yn rheolaidd. Dywed y comisiynydd yn yr adroddiad bod angen dirfawr am newid yn y ffordd y mae awdurdodau'n darparu gwybodaeth i blant er mwyn sicrhau eu cyfranogiad yn y broses—ni allwn gytuno mwy â hynny. A wnaiff y Dirprwy Weinidog amlinellu'r hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â'r mater hwn, a pha waith sydd wedi'i wneud gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod lleisiau plant yn cael eu clywed yn ystod y broses ad-drefnu? O ystyried y gall ad-drefnu ysgolion gael effaith enfawr ar blant a phobl ifanc, a yw'r Dirprwy Weinidog yn credu y dylai'r comisiynydd plant chwarae mwy o ran yn y broses o ad-drefnu ysgolion yn y dyfodol?

Yn olaf, hoffwn dynnu sylw'r Cynulliad at y mater pwysig o fwlio ym maes addysg.

bullying. I welcome the steps that the Welsh Assembly Government has taken, specifically the 'Getting it Right' action plan, which sets out a commitment to eliminate all types of bullying through its anti-bullying guidance. In particular, there has been an increase in cyber bullying in recent years, following the creation of social networking sites such as Facebook, which has meant that bullying is spreading outside of the school gates. I would be grateful if the Deputy Minister could highlight what the Welsh Assembly Government is doing with local authorities and groups to tackle the issue of bullying and cyber bullying.

Moving away from education, in our debate on this report last year, I raised the issue of the blue badge scheme for children under the age of three, which was not discussed in a lot of detail. As it stands at present, parents of disabled children under the age of three are ineligible for blue badge passes. However, as I said last time, I am aware that this is something that the Welsh Assembly Government is addressing, and I am pleased to see that it is modernising this particular scheme. As this is the case, will the Deputy Minister provide an update on what the Welsh Assembly Government has been doing on the blue badge scheme over the last 12 months?

I also wish to briefly touch upon the Proposed Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure, which, as all parties have said, is a wonderful opportunity to showcase to the world that children's rights are at the heart of the Welsh Assembly Government's policies. The proposed Measure, if passed, will mean that Wales is the first country in the UK to integrate the United Nations Convention on the Rights of the Child into domestic law. It will mean that the children's commissioner will be consulted on any draft children scheme, and, as such, it highlights how vital his work is in shaping children's policy in Wales. However, I was disappointed to see that our amendment regarding the inclusion of parents, guardians, carers or other persons legally responsible for children in the consultation process was rejected. Their interaction with the children's

Rwy'n croesawu'r camau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u cymryd, yn benodol y cynllun gweithredu 'Gwneud Pethau'n Iawn', sy'n nodi ymrwymiad i ddileu pob math o fwlio drwy ei ganllawiau gwrth-fwlio. Yn arbennig, bu cynnydd yn nifer yr achosion o seiber-fwlio yn y blynyddoedd diwethaf, yn dilyn creu safleoedd rhwydweithio cymdeithasol megis Facebook, sydd wedi golygu bod bwlio yn cael ei ledaenu y tu hwnt i gatiâu'r ysgol. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Dirprwy Weinidog dynnu sylw at yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud gydag awdurdodau lleol a grwpiau i fynd i'r afael â'r mater o fwlio a seiber-fwlio.

Gan symud i ffwrdd o addysg, yn ein dadl ar yr adroddiad hwn y llynedd, codais y mater o'r cynllun bathodyn glas ar gyfer plant o dan dair oed, ond ni chafodd ei drafod mewn llawer o fanylder. Fel y mae ar hyn o bryd, nid yw rhieni plant anabl o dan dair oed yn gymwys ar gyfer pasys bathodyn glas. Fodd bynnag, fel y dywedais y tro diwethaf, rwy'n ymwybodol bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn mynd i'r afael â hyn, ac rwy'n falch o weld ei bod yn moderneiddio'r cynllun penodol hwn. O ganlyniad i hyn, a wnaiff y Dirprwy Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi bod yn ei wneud mewn perthynas â'r cynllun bathodyn glas dros y 12 mis diwethaf?

Hoffwn hefyd gyfeirio'n fyr at y Mesur Arfaethedig ynghylch Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru), sydd, fel y mae pob plaid wedi ei ddweud, yn gyfle gwyh i arddangos i'r byd bod hawliau plant wrth wraidd polisiau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd y Mesur arfaethedig, os caiff ei gymeradwyo, yn golygu mai Cymru yw'r wlad gyntaf yn y DU i integreiddio Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn mewn cyfraith ddomestig. Bydd yn golygu yr ymgynghorir â'r comisiynydd plant mewn perthynas ag unrhyw gynllun drafft plant, ac, felly, mae'n tynnu sylw at ba mor hanfodol yw ei waith wrth lunio polisi plant yng Nghymru. Fodd bynnag, roeddwn yn siomedig i weld bod ein gwelliant ynghylch cynnwys rhieni, gwarcheidwaid, gofalwyr neu bersonau eraill sy'n gyfreithiol gyfrifol am blant yn y broses

commissioner is important in helping us to understand and to advocate the rights of children. That aside, we can all celebrate this fantastic piece of legislation, and I look forward to hearing more on the input of the children's commissioner to consultations on children schemes in the future.

Finally, I thank Keith Towler for his report, and thank the Deputy Minister for his statement highlighting the Welsh Assembly Government's response. As I have said before, this is an encouraging report, highlighting good practice and areas for improvement. I look forward to hearing about the progress made on these issues in the near future.

Huw Lewis: Thank you for that series of points and questions. On your points on school toilets, I have said that it is disappointing that there has not been as much progress as we might have hoped. This is a recurring theme in successive children's commissioner reports. It is disappointing that we are not in a different place today. I would stress that the annual report of the children's commissioner is not there for only the Government of Wales to listen to; it is for all organisations in Welsh civil society to take notice of, and that includes local government, local education authorities and all third sector organisations. As you mentioned, the final guidance will be going out soon. My colleague the Minister for Children, Education and Lifelong Learning will sign that off, and I will ask him to write to you on the timescale—I cannot recall what it is off the top of my head.

On school reorganisations, which is a live issue, as we are all aware from our constituency work, the children's commissioner has welcomed circular 021/2009, which sets the expectation that local authorities will include children and young people in consultation exercises when changes to schools are proposed. There has been some analysis of how that guidance has taken effect since it was given out and it indicates that, largely, it has been complied with, although some cases have been brought

ymgyngori wedi cael ei wrthod. Mae eu gwaith ar y cyd â'r comisiynydd plant yn bwysig gan ei fod yn ein helpu i ddeall a hyrwyddo hawliau plant. Wedi dweud hynny, gall pob un ohonom ddathlu'r darn gwych hwn o ddeddfwriaeth, ac edrychaf ymlaen at glywed mwy am gyfraniad y comisiynydd plant i ymgynghoriadau ar gynlluniau plant yn y dyfodol.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i Keith Towler am ei adroddiad, a diolchaf i'r Dirprwy Weinidog am ei ddatganiad yn amlinellu ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru. Fel y dywedais o'r blaen, mae hwn yn adroddiad calonogol, sy'n tynnu sylw at arfer da a meysydd i'w gwella. Edrychaf ymlaen at glywed am y cynnydd a wnaed ar y materion hyn yn y dyfodol agos.

Huw Lewis: Diolch ichi am y gyfres honno o bwyntiau a chwestiynau. O ran eich pwyntiau ar doiledau ysgol, rwyf wedi dweud ein bod yn siomedig na fu cymaint o gynnydd ag yr oeddem wedi gobeithio. Mae hon yn thema gyson yn adroddiadau olynol y comisiynydd plant. Mae'n siomedig nad ydym mewn lle gwahanol heddiw. Hoffwn bwysleisio nad yw adroddiad blynyddol y comisiynydd plant yn cael ei baratoi er mwyn i Lywodraeth Cymru wrando arno yn unig; caiff ei baratoi er mwyn i bob sefydliad yng nghymdeithas sifil Cymru gymryd sylw ohono, ac mae hynny'n cynnwys llywodraeth leol, awdurdodau addysg lleol a phob sefydliad yn y trydydd sector. Fel y dywedasoch, bydd y canllawiau terfynol yn cael eu cyhoeddi yn fuan. Bydd fy nghydweithiwr, y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, yn eu cymeradwyo, a byddaf yn gofyn iddo ysgrifennu atoch am yr amserlenni—ni allaf gofio beth ydyw yn fyrfyfyr.

Ar ad-drefnu ysgolion, sy'n fater byw, fel yr ydym i gyd yn gwybod o ganlyniad i'n gwaith etholaethol, mae'r comisiynydd plant wedi croesawu cylchlythyr 021/2009, sy'n gosod y disgwyliad y bydd awdurdodau lleol yn cynnwys plant a phobl ifanc mewn ymarferion ymgynghori pan fydd newidiadau i ysgolion yn cael eu cynnig. Bu rhywfaint o ddadansoddi o sut y mae'r canllawiau hynny wedi cael eu rhoi ar waith ers i'r cylchlythyr gael ei ddosbarthu, ac mae'n ymddangos y cydymffurfiwyd â hwy, i raddau helaeth, er

to our attention in which local authorities have been discouraged from arranging consultation sessions for pupils and young people by the governing bodies of schools, which took the view that the children were too young. My officials will raise that with local authorities and school governors and encourage them to ensure that, wherever possible, young people's views are canvassed in ways suitable to their age and level of understanding. That kind of blanket refusal is not acceptable.

You were right, once again, to highlight bullying as an issue and, specifically within that, the new—to those of us of a certain age—phenomenon of cyber bullying. The cyber world is a place that young people inhabit far more, perhaps, than people of our age. I will consider this with officials and perhaps meet with you at a later date to chat about how we can take a look at updating 'Getting it Right' and how we can best move forward constructively. Perhaps all party spokespeople could get together with a view to ensuring that we are not falling behind in what is a rapidly changing cyber landscape.

On the blue badge scheme for the parents of children under the age of three, I will have to write to you with an update. It does not fall directly within my remit, as you know. I will get back to you with specifics on that.

Helen Mary Jones: I also welcome the Deputy Minister's statement and express my gratitude and that of my party to him for bringing it forward today. I also associate myself with all that has been said by way of thanks to the children's commissioner and his team. I know that all of us who are members of the Children and Young People Committee find the commissioner's work absolutely essential in informing the way that we undertake our scrutiny of the Assembly Government with regard to children and young people.

It is a matter of concern that it has taken this long for the Government to respond to the children's commissioner's report. I fully

bod rhai achosion wedi cael eu dwyn i'n sylw lle mae cyrff llywodraethu ysgolion wedi annog awdurdodau lleol i beidio â threfnu sesiynau ymgynghori ar gyfer disgyblion a phobl ifanc, gan fod y cyrff llywodraethu hynny o'r farn bod y plant yn rhy ifanc. Bydd fy swyddogion yn codi'r mater hwn gydag awdurdodau lleol a llywodraethwyr ysgolion ac yn eu hannog i sicrhau, lle bynnag y bo modd, fod barn pobl ifanc yn cael ei cheisio mewn modd sy'n addas i'w hoedran a'u lefel o ddealltwriaeth. Nid yw'n dderbyniol i wrthod y syniad yn gyffredinol.

Roeddech yn iawn, unwaith eto, i dynnu sylw at fwlio fel mater ac, yn benodol yn y maes hwnnw, y ffenomen newydd—i'r rhai ohonom sydd o oedran arbennig—o seiber-fwlio. Mae'r byd seiber yn lle mae pobl ifanc yn treulio llawer mwy o amser, efallai, nag y mae pobl o'n hoedran ni. Byddaf yn trafod hyn â swyddogion ac efallai gallaf gyfarfod â chi yn nes ymlaen i sgwrsio am sut y gallwn edrych ar ddiweddarau 'Gwneud Pethau'n Iawn' a beth yw'r ffordd orau inni symud ymlaen yn adeiladol. Efallai y gallai llefarwyr yr holl bleidiau ddod at ei gilydd gyda golwg ar sicrhau nad ydym yn colli tir mewn tirwedd seiber sy'n newid yn gyflym.

O ran y cynllun bathodyn glas ar gyfer rhieni plant o dan dair oed, bydd yn rhaid imi ysgrifennu atoch gyda'r wybodaeth ddiweddaraf. Nid yw'n disgyn yn uniongyrchol o fewn fy nghylch gwaith, fel y gwyddoch. Byddaf yn cysylltu â chi gyda manylion hynny.

Helen Mary Jones: Rwyf hefyd yn croesawu datganiad y Dirprwy Weinidog a hoffwn fynegi fy niolchgarwch i a diolchgarwch fy mhlaid iddo am ei gyflwyno heddiw. Rwyf hefyd yn ategu popeth sydd wedi cael ei ddweud mewn perthynas â diolch i'r comisiynydd plant a'i dîm. Gwn fod pob un ohonom sy'n aelodau o'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn credu bod gwaith y comisiynydd yn gwbl hanfodol wrth lywio'r ffordd yr ydym yn ymgymryd â'n gwaith o graffu ar Lywodraeth y Cynulliad mewn perthynas â phlant a phobl ifanc.

Mae'n fater o bryder ei bod wedi cymryd cyhyd i'r Llywodraeth ymateb i adroddiad y comisiynydd plant. Rwy'n deall bod angen

understand that there is always a balance to be struck between a swift response and a full response and I know that it is not easy to get that right, but I ask the Deputy Minister to consider, when making recommendations for the next Assembly Government as to how it responds to the children's commissioner, looking at whether it can be done in a more timely way, but with the same level of authority. This report now dates back a long time, and, on some issues, we may very well have moved on since the commissioner made his report. Therefore, I hope that, in future, the Assembly will be able to hear the Government's response a little earlier. That should not necessarily be taken as a criticism of this occasion, but I think that we need to learn for the future.

With regard to our commissioner and his role, what discussions has the Deputy Minister had, or will he undertake to have some discussions with the UK Government, about the effect of any changes to the role of the English commissioner, who also technically has responsibility in Wales for some of the non-devolved issues, such as youth justice? There has been a consultation about the role of the English commissioner. Some of us were concerned that the role might be abolished, but that issue seems to have gone away; I very much hope so. However, it is important that, with any changes that are made to that commissioner's role, full consideration is given to how that will impact on children and young people's non-devolved issues in Wales. It might even, Presiding Officer, be an opportunity for our commissioner's powers to be extended to enable him to more formally deal with some non-devolved issues, such as youth justice.

4.00 p.m.

With regard to school toilets, I think that all of us in this Chamber share the Deputy Minister's clear frustration that the public bodies, school governors and local authorities with responsibility have not acted more swiftly. I very much welcome what the Deputy Minister has told us today about the guidance. However, what will be the status of that guidance? I suppose that the question

sicrhau cydbwysedd rhwng ymateb cyflym ac ymateb llawn bob amser a gwn nad yw'n hawdd cael hynny'n iawn. Fodd bynnag, gofynnaf i'r Dirprwy Weinidog ystyried, wrth wneud argymhellion ar gyfer y Llywodraeth Cynulliad nesaf ynghylch sut y bydd yn ymateb i'r comisiynydd plant, edrych i weld a ellir ei wneud mewn ffordd fwy amserol, ond gyda'r un lefel o awdurdod. Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn dipyn o amser yn ôl, ac, mewn perthynas â rhai materion, efallai ein bod wedi symud ymlaen ers i'r comisiynydd gyflwyno ei adroddiad. Felly, rwy'n gobeithio, yn y dyfodol, y bydd y Cynulliad yn gallu clywed ymateb y Llywodraeth ychydig yn gynharach. Ni ddylid o reidrwydd gymryd hynny fel beirniadaeth ar yr achlysur hwn, ond credaf fod angen inni ddysgu ar gyfer y dyfodol.

O ran ein comisiynydd a'i rôl, pa drafodaethau y mae'r Dirprwy Weinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU am effaith unrhyw newidiadau i rôl comisiynydd Lloegr, sydd hefyd yn dechnegol yn gyfrifol dros Gymru mewn perthynas â rhai o'r materion sydd heb eu datganoli, megis cyfiawnder ieuenctid, neu a wnaiff ymrwymo i gael trafodaethau o'r fath? Bu ymgynghori ynghylch rôl comisiynydd Lloegr. Roedd rhai ohonom yn pryderu y gallai'r rôl gael ei ddiddymu, ond mae'r mater hwnnw fel petai wedi mynd i ffwrdd; gobeithiaf yn fawr fod hynny'n wir. Fodd bynnag, mae'n bwysig, gydag unrhyw newidiadau a wneir i rôl y comisiynydd, y rhoddir ystyriaeth lawn i sut y bydd yn effeithio ar faterion plant a phobl ifanc sydd heb eu datganoli yng Nghymru. Gallai hyd yn oed, Lywydd, fod yn gyfle i ymestyn pwerau ein comisiynydd i'w alluogi i ymdrin â rhai materion sydd heb eu datganoli, megis cyfiawnder ieuenctid, mewn ffordd fwy ffurfiol.

O ran toiledau ysgol, credaf fod pob un ohonom yn y Siambr yn rhannu rhwystredigaeth glir y Dirprwy Weinidog ynghylch y ffaith nad yw'r cyrff cyhoeddus, y llywodraethwyr ysgolion na'r awdurdodau lleol sydd â chyfrifoldeb dros hyn wedi ymateb yn fwy cyflym. Rwy'n croesawu'r hyn y mae'r Dirprwy Weinidog wedi dweud wrthym heddiw am y canllawiau. Fodd

that I am asking is: what will happen to local authorities if they do not comply? I also ask the Deputy Minister—it would be for his successor to do this, of course—to give consideration to legislating, if necessary, to bring in standards in line with those applicable to workplaces under health and safety legislation. I am sure that we all agree that if local authorities do not respond effectively to this guidance, then we must reach a point where people working in factories and children in our schools have the same rights of privacy and dignity with regard to their toilet and bathroom provision. It has always been a complete mystery to me that local government is allowed to get away with providing for children facilities that they would not be allowed to provide for their staff.

With regard to the Deputy Minister's comments about mental health—we know that there have been very difficult problems in this regard—I very much welcome the investment that is being made. The committee took evidence about this recently, as the Deputy Minister knows, and while it is clear that progress is being made, many of us, as I am sure would the Deputy Minister, feel that it is not being made fast enough. What are the Deputy Minister's views on maintaining ring-fencing for the child and adolescent mental health services budget? I very much hope that the Government continues to ring-fence this funding, because, unless it is ring-fenced, there is a risk that it will fall to the bottom of local health boards' agendas.

Do we have an idea yet—again, perhaps he can write to me if he does not have the information today—about the timescale for play guidance? We would all agree that the fact that the guidance is not out yet is not an excuse for local authorities not to be acting on this agenda. However, we are also aware that, in some cases, it can be used as an excuse. My fellow members on the Children and Young People Committee and I will be hoping that that guidance can come forward in a timely manner.

bynag, beth fydd statws y canllawiau hynny? Y cwestiwn rwy'n ei ofyn yw: beth fydd yn digwydd i awdurdodau lleol os nad ydynt yn cydymffurfio? Gofynnaf hefyd i'r Dirprwy Weinidog—ei olynnydd byddai'n gwneud hyn, wrth gwrs—i roi ystyriaeth i ddeddfu, os oes angen, i sicrhau bod y safonau yn cydymffurfio â'r rhai sy'n gymwys i weithleoedd o dan ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch. Rwy'n siŵr ein bod i gyd yn cytuno, os nad yw awdurdodau lleol yn ymateb yn effeithiol i'r canllawiau hyn, yna mae'n rhaid inni gyrraedd pwynt lle bydd gan bobl sy'n gweithio mewn ffatrioedd a phlant yn ein hysgolion yr un hawliau i breifatrwydd ac urddas o ran y ddarpariaeth o doiledau ac ystafelloedd ymolchi sydd ar gael iddynt. Mae wedi bod yn ddirgelwch llwyr i mi erioed sut y mae llywodraeth leol yn cael darparu cyfleusterau i blant na fyddent yn cael darparu ar gyfer eu staff.

Gyda golwg ar sylwadau'r Dirprwy Weinidog am iechyd meddwl—gwyddom fod problemau anodd iawn wedi codi yn y maes hwn—rwy'n croesawu'n fawr y buddsoddiad sy'n cael ei wneud. Cymerodd y pwyllgor dystiolaeth am hyn yn ddiweddar, fel y mae'r Dirprwy Weinidog yn gwybod, ac er ei bod yn amlwg bod cynnydd yn cael ei wneud, byddai llawer ohonom, gan gynnwys y Dirprwy Weinidog rwy'n siŵr, yn teimlo nad yw'n digwydd yn ddigon cyflym. Beth yw barn y Dirprwy Weinidog ar gynnal yr arfer o neilltuo arian ar gyfer y plant a'r glasoed yn y gyllideb gwasanaethau iechyd meddwl? Rwy'n gobeithio yn fawr y bydd y Llywodraeth yn parhau i neilltuo'r arian hwn, oherwydd, oni bai ei fod wedi'i neilltuo, mae perygl y bydd yn disgyn i waelod agendâu'r byrddau iechyd lleol.

A oes gennym syniad eto—efallai y gall ysgrifennu ataf os nad oes ganddo'r wybodaeth heddiw—ynghylch yr amserlen ar gyfer canllawiau chwarae? Byddem oll yn cytuno nad yw'r ffaith nad yw'r canllawiau wedi'u cyhoeddi eto yn esgus i awdurdodau lleol beidio â gweithredu ar yr agenda hwn. Fodd bynnag, rydym hefyd yn ymwybodol, mewn rhai achosion, y gellir defnyddio hyn fel esgus. Bydd fy nghyd-aelodau ar y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc a mi yn gobeithio y gall y canllawiau hynny gael eu cyhoeddi mewn modd amserol.

The Deputy Minister mentions two of the most powerful tools that Government can use to effect change, which are policy and legislation. There is, of course, a third powerful tool, which is money. The Government made, in principle, a favourable response to our committee's report on children's budgeting, which the commissioner mentions as a matter of importance. Can the Deputy Minister give us an update as to progress on moving the children's budgeting agenda forward within the Welsh Government? The committee fully acknowledged that this is not easy, but, as we say in Welsh, *diwedd y gân yw'r geiniog*—at the end of the song, you always need the penny. I hope that the Deputy Minister can update us on that today.

The commissioner makes reference in his report to the importance of school-based counselling. We received evidence from children and young people last week about how important the school-based counselling service is to them, and it is clearly making an impact in secondary schools. It has also been suggested to us that there is a case for school-based counselling in primary schools—certainly in some, if not all. Will the Deputy Minister and the Government give some consideration to looking at how we might roll out the counselling agenda in primary schools? The young people also raised with our committee the idea of an annual compulsory appointment with the school counsellor, so that you would have to check in. The young men in particular said that it might be seen as soft to make an approach, but that if you had to go to sit down with the school counsellor for 15 minutes once a year or term, then that might be an opportunity for a more reluctant young person to raise issues. That might be something that the Government could consider, possibly in guidance.

I very much welcome what the Deputy Minister had to say about the role of Families First in tackling child poverty. However, he will also be aware of our committee's concern, which we will be debating shortly, about whether or not this approach will reach those children living in poverty in

Gwnaeth y Dirprwy Weinidog sôn am ddau o'r arfau mwyaf pwerus y gall y Llywodraeth eu defnyddio i sicrhau newid, sef polisi a deddfwriaeth. Wrth gwrs, mae trydydd offeryn pwerus, sef arian. Gwnaeth y Llywodraeth, mewn egwyddor, ymateb i adroddiad ein pwyllgor ar gyllidebu ar gyfer plant mewn modd ffafriol, sy'n fater y mae'r comisiynydd yn sôn amdano fel mater o bwys. A all y Dirprwy Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch cynnydd o ran symud yr agenda gyllidebu ar gyfer plant ymlaen o fewn y Llywodraeth Cymru? Mae'r pwyllgor yn cydnabod nad yw hyn yn hawdd, ond, fel y dywedwn yn y Gymraeg, *diwedd y gân yw'r geiniog*. Gobeithio y gall y Dirprwy Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am hynny heddiw.

Mae'r comisiynydd yn cyfeirio yn ei adroddiad at bwysigrwydd cwnsela mewn ysgolion. Cawsom dystiolaeth gan blant a phobl ifanc yr wythnos diwethaf am ba mor bwysig yw'r gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion iddynt, ac mae'n amlwg yn cael effaith mewn ysgolion uwchradd. Hefyd, awgrymwyd inni fod achos ar gyfer cwnsela mewn ysgolion cynradd—yn sicr mewn rhai ohonynt, os nad pob un. A wnaiff y Dirprwy Weinidog a'r Llywodraeth roi rhywfaint o ystyriaeth i edrych ar sut y gallem gyflwyno'r agenda cwnsela mewn ysgolion cynradd? Cododd y bobl ifanc bwynt â'r pwyllgor ynghylch y syniad o apwyntiad gorfodol gyda'r cynghorwr ysgol bob blwyddyn, fel y byddai'n rhaid iddynt fynd i'w gweld. Clywsom gan ddynion ifanc yn arbennig y gallai pobl eu hystyried i fod yn wan os byddent yn cysylltu â chynghorwr, ond os byddai'n rhaid iddynt fynd i eistedd i lawr gyda'r cwnselydd ysgol am 15 munud unwaith y flwyddyn neu'r tymor, gallai hynny fod yn gyfle i annog person ifanc sy'n fwy amharod i siarad i godi problemau. Gallai'r Llywodraeth ystyried hynny, o bosibl mewn canllawiau.

Rwy'n croesawu'n fawr yr hyn a ddywedodd y Dirprwy Weinidog am rôl Teuluoedd yn Gyntaf yn y gwaith o fynd i'r afael â thlodi plant. Fodd bynnag, bydd hefyd yn ymwybodol o bryder ein pwyllgor, y byddwn yn ei drafod yn fuan, ynghylch a fydd y dull hwn yn cyrraedd y plant hynny sy'n byw

communities that are not traditionally poor, whether they are in pockets of poverty or in families isolated in communities that are more prosperous overall or are in rural poverty, where the problems are often less visible, but often as intractable, as the Deputy Minister knows. Therefore, can the Deputy Minister assure us this afternoon that he will ensure that Families First addresses those young people living in poverty who are not in traditionally poor areas? What discussions has the Government had with the Westminster Government about some of the proposed changes, for example to housing benefit, that might undermine what the Government here is attempting to deliver?

The commissioner raises the issue of stigma, and I strongly endorse the remarks that the Deputy Minister has made about the damaging effect that that stigma can have within our communities. Would the Minister agree that the political community has a role to play in tackling that stigma and that, particularly at election time, we must not allow ourselves to be caught up in *Daily Mail*-type rhetoric around children and young people? I believe that we do much better in Wales than is common in the UK on those issues, but it is important that we maintain that through challenging times.

Finally, the Deputy Minister is well aware of our committee's function in scrutinising the commissioner as well as scrutinising the Government on the issues that the commissioner raises. Would the Deputy Minister agree that the next Assembly will need to ensure that it has a robust mechanism for that scrutiny? I would, of course, say that a dedicated committee on children and young people is needed, but some form of robust mechanism is needed to ensure that scrutiny of the commissioner's work and of the Government on the issues that the commissioner raises is maintained into the next Assembly.

Huw Lewis: You raised a plethora of points, all of which are relevant to the report.

mewn tloedi mewn cymunedau nad ydynt yn draddodiadol dlawd, pa un ai ydynt mewn pocedi o dlodi neu mewn teuluoedd sydd wedi'u hynysu mewn cymunedau sy'n fwy ffyniannus yn gyffredinol neu sydd mewn tloedi gwledig, lle mae'r problemau yn aml yn llai amlwg, ond yn aml yn anhydrin, fel y mae'r Dirprwy Weinidog yn gwybod. Felly, a all y Dirprwy Weinidog ein sicrhau y prynhawn yma y bydd yn sicrhau bod Teuluoedd yn Gyntaf yn mynd i'r afael â'r bobl ifanc sy'n byw mewn tloedi nad ydynt mewn ardaloedd sy'n dlawd yn draddodiadol? Pa drafodaethau y mae Llywodraeth wedi'u cael gyda Llywodraeth San Steffan am rai o'r newidiadau arfaethedig, er enghraifft i fudd-dal tai, a allai danseilio'r hyn y mae'r Llywodraeth hon yn ceisio ei gyflawni?

Cododd y comisiynydd y mater o stigma, ac rwy'n cymeradwyo'n gryf y sylwadau a wnaeth y Dirprwy Weinidog am yr effaith niweidiol y gall y stigma hwnnw ei gael yn ein cymunedau. A fyddai'r Gweinidog yn cytuno bod gan y gymuned wleidyddol rôl i'w chwarae i fynd i'r afael â stigma ac, yn arbennig ar adeg etholiad, bod yn rhaid inni beidio â chaniatáu i'n hunain gael ein dal yn rhethreg fel yr hyn a geir yn y *Daily Mail* mewn perthynas â phlant a phobl ifanc? Credaf ein bod yn gwneud llawer yn well yng Nghymru nag sy'n gyffredin yn y DU ar y materion hynny, ond mae'n bwysig ein bod yn cynnal hynny drwy amseroedd anodd.

Yn olaf, mae'r Dirprwy Weinidog yn ymwybodol iawn o swyddogaeth ein pwyllgor o ran craffu ar y comisiynydd yn ogystal â chraffu ar y Llywodraeth mewn perthynas â'r materion y mae'r comisiynydd yn eu codi. A fyddai'r Dirprwy Weinidog yn cytuno y bydd angen i'r Cynulliad nesaf sicrhau bod ganddo fecanwaith cadarn ar gyfer y gwaith craffu hwnnw? Byddwn, wrth gwrs, yn dweud y bydd angen pwyllgor penodol ar blant a phobl ifanc, ond mae angen rhyw fath o fecanwaith cadarn i sicrhau bod y gwaith o graffu ar waith y comisiynydd a'r Llywodraeth mewn perthynas â'r materion y mae'r comisiynydd yn eu codi yn parhau yn y Cynulliad nesaf.

Huw Lewis: Rydych wedi codi lluo o bwyntiau, ac mae pob un ohonynt yn

However, some are perhaps better answered in the election process, as we run up to what parties' intentions might be with regard to what the next Assembly might do on this agenda. We are coming to the final few weeks of this Assembly and, with an election in the offing, no Minister can stand here and guarantee that, on 6 May, certain things will happen. I know that you will understand that.

Your point on the length of time to respond to the children commissioner's report is a valid one. I will ask my officials to look at that with regard to the recommendations that we might make to my successor or equivalent Minister after 5 May. As you say, there will always be tension between ensuring that things are timely and ensuring that things are thorough. For instance, the enormous progress that I feel that we have made in relation to the child poverty strategy would not necessarily have been covered in our response had we made it earlier. However, timeliness is very important; you make a valid point and I will ask my officials to start looking at timescales and how we might improve matters.

The role of the commissioners is now a tricky issue. As you say, Michael Gove, the Secretary of State for Education, invited John Dunford to conduct an independent review of the office, role and functions of the children's commissioner in England. We have seen some details of that review. It looked at powers, remit and functions, how that role relates to other functions supported by Government, and value for money. There are lessons that we will need to learn from that, and implications that we will need to take on board. I have asked officials to meet with John Dunford and his team—they did feed into the review informally—to begin that work. I know that you wrote to me in September asking that, as part of the review, consideration be given to extending the remit of the Children's Commissioner for Wales, and I know that you are on top of these issues. Therefore, that conversation goes on. However, there are issues there that, again, may be for my successor to resolve, rather

berthnasol i'r adroddiad. Fodd bynnag, efallai y byddai rhai ohonynt yn cael eu hateb yn well yn y broses etholiadol, wrth i ystyried beth yw bwriad y partion o ran yr hyn y gallai'r Cynulliad nesaf ei wneud ar yr agenda hwn. Rydym yn dod at ychydig wythnosau olaf y Cynulliad hwn a, gydag etholiad ar y gweill, ni all unrhyw Weinidog sefyll yma a gwarantu y bydd pethau penodol yn digwydd ar 6 Mai. Gwn y byddwch yn deall hynny.

Mae eich pwynt ar faint o amser y gymerodd i ymateb i adroddiad y comisiynydd plant yn un dilys. Byddaf yn gofyn i fy swyddogion edrych ar hynny o ran yr argymhellion y gallem eu gwneud i fy olynydd neu'r Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros y materion hyn ar ôl 5 Mai. Fel y dywedasoch, bydd tensiwn bob amser rhwng sicrhau bod pethau'n amserol a sicrhau bod pethau'n drylwyr. Er enghraifft, ni fyddai'r cynnydd enfawr yr wyf yn teimlo ein bod wedi ei wneud mewn perthynas â'r strategaeth tlodi plant o reidrwydd wedi cael ei gynnwys yn ein hymateb pe bawn wedi ei wneud yn gynharach. Fodd bynnag, mae prydlondeb yn bwysig iawn; rydych yn gwneud pwynt dilys a byddaf yn gofyn i fy swyddogion ddechrau edrych ar amserlenni a sut y gallem wella pethau.

Mae rôl y comisiynwyr bellach yn fater anodd. Fel y dywedasoch, gwahoddodd Michael Gove, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg, John Dunford i gynnal adolygiad annibynnol o swyddfa, rôl a swyddogaethau'r comisiynydd plant yn Lloegr. Rydym wedi gweld rhai manylion o'r adolygiad hwnnw. Mae'n edrych ar bwerau, cylch gwaith a swyddogaethau'r comisiynydd, a sut y mae'r rôl yn ymwneud â swyddogaethau eraill a gefnogir gan y Llywodraeth, a gwerth am arian. Mae gwersi y mae angen inni ddysgu o hynny, a goblygiadau y mae angen inni eu hystyried. Rwyf wedi gofyn i'n swyddogion gyfarfod â John Dunford a'i dîm—a wnaeth fwydo i mewn i'r adolygiad yn anffurfiol—er mwyn dechrau ar y gwaith hwnnw. Gwn eich bod wedi ysgrifennu ataf ym mis Medi yn gofyn bod ystyriaeth yn cael ei rhoi, fel rhan o'r adolygiad, i ymestyn cylch gwaith Comisiynydd Plant Cymru, ac rwy'n gwybod eich bod yn mynd i'r afael â'r materion hyn.

than it being for me to dictate what shape they might take.

The guidance on school toilets has been out there and it has been repeatedly underscored and underlined with local authorities that this is an issue. To my mind it is something of a test issue in terms of ensuring that children's voices are taken seriously, because it is clear as crystal that, time after time, this is the issue that tops the poll of what concerns children and young people in their school environment. I hope that, during the next Assembly, there will be consideration given towards strengthening the Welsh Government's lead in terms of ensuring that local authorities take this issue seriously. Whether that might involve some kind of statutory guidance or legislation is perhaps a matter for manifestos, rather than being a matter for me as I stand here now. I fully accept that there has been a dislocation between the needs, wants and stated priorities of children and young people and what has been delivered, while bearing in mind that there has been progress because of that capital investment in schools, which really has made an enormous difference in many places. However, we still get the message from the children that we are not there yet.

On CAMHS and ring fencing, I will have to ask the Minister for health to write to you, Helen Mary, on that with regard to the intentions. As I understand it, there is no intention to change the situation, and, as far as I am aware, the funding ring fence has not been up for negotiation. I will ask the Minister to write to you with the dots and commas, in order to ensure that that point is fully responded to. I will also need to get back to you on the timescale for play guidance, and will investigate with my officials exactly where we stand on that. Policy and legislation are levers that Government may pull, and, as you say, funding is another. Children's budgeting is an ongoing and complex issue, with which we are all still engaged. It is a work in progress, as it were. I have rapidly reached the opinion that, when it comes to children's budgeting, I will not be able to pull a document out of my back pocket that will explain it all to us, and

Felly, mae'r sgwrs hwnnw yn parhau. Fodd bynnag, unwaith eto, fy olynydd bydd yn datrys rhai o'r materion hynny, felly nid fy lle i yw dweud beth ddylai ddigwydd.

Mae'r canllawiau ar doiledau mewn ysgolion wedi'u cyhoeddi a phwysleisiwyd dro ar ôl tro i awdurdodau lleol fod hyn yn broblem. Yn fy marn i mae'n dipyn o fater prawf o ran sicrhau bod lleisiau plant yn cael eu cymryd o ddifrif, gan ei fod yn hollol glir, dro ar ôl tro, mai hwn yw'r mater sydd ar frig y rhestr o'r hyn sy'n pryderu plant a phobl ifanc yn eu hamgylchedd ysgol. Rwy'n gobeithio, yn ystod y Cynulliad nesaf, y rhoddir ystyriaeth i gryfhau arweiniad Llywodraeth Cymru o ran sicrhau bod awdurdodau lleol yn cymryd y mater hwn o ddifrif. O ran a allai gynnwys rhyw fath o arweiniad statudol neu ddeddfwriaeth, o bosibl, mae hynny'n fater i fanifestos, yn hytrach nag yn fater i mi wrth i mi sefyll yma nawr. Rwy'n derbyn yn llwyr y bu datgymalu rhwng yr anghenion, y dyheadau a'r blaenoriaethau a nodwyd ar gyfer plant a phobl ifanc a'r hyn sydd wedi'i gyflawni, gan gadw mewn cof bod cynnydd wedi'i wneud oherwydd bod buddsoddiad cyfalaf mewn ysgolion, sydd mewn gwirionedd wedi gwneud gwahaniaeth enfawr mewn sawl man. Fodd bynnag, rydym yn dal i gael y neges gan y plant nad ydym wedi cyrraedd y nod eto.

O ran gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed a neilltuo arian, bydd yn rhaid imi ofyn i'r Gweinidog dros iechyd ysgrifennu atoch, Helen Mary, ar y mater hwnnw o ran y bwriadau. Yn ôl yr hyn a ddeallaf, nid oes unrhyw fwriad i newid y sefyllfa, a, hyd y gwn i, nid yw'r cyllid a glustnodir yn agored i'w negodi. Byddaf yn gofyn i'r Gweinidog ysgrifennu atoch gyda'r manylion, er mwyn sicrhau ei bod yn ymateb i'r pwynt hwnnw yn llawn. Bydd hefyd angen i mi ddod yn ôl atoch ar yr amserlen ar gyfer arweiniad chwarae, a byddaf yn ymchwilio gyda fy swyddogion i weld ble yn union rydym yn sefyll ar hynny. Mae polisi a deddfwriaeth yn ddulliau y gall Llywodraeth eu defnyddio, ac, fel y dywedaso, mae cyllid yn un arall. Mae cyllidebu ar gyfer plant yn fater parhaus a chymhleth, yr ydym i gyd yn parhau i gymryd rhan ynddi. Mae'r gwaith ar y gweill, fel petai. Rwyf wedi dod i'r fam yn gyflym, pan ddaw'n fater o gyllidebu ar gyfer plant,

that will mean that, from that point on, we will be able to follow a neat recipe that will give us clarity on what is going on. It is enormously complex, but we are tackling it, step by step, and I appreciate the cross-party co-working that has gone on. Again, the work that the committee has undertaken has been invaluable in informing that debate.

On school-based counselling moving into primary schools, that is the first time that that suggestion has been made to me. That, together with the idea of compulsory appointments, is interesting, particularly if those requests are coming from children and young people themselves. Therefore, we will need to debate and investigate that. If children and young people are talking about those things, they need to be listened to.

Families First will be a universal service. It will concentrate on those families who are the least well-off and most vulnerable, for whatever reason, whether because the family is caught up in poverty or because it has hit one of those blows in the lives of all families, when their needs become greater, such as a bereavement, the onset of a disability, or redundancy, if one of the parents loses their job. Families First is an attempt to build an all-encompassing, holistic service around each family. It will be unique to Wales and will represent a uniquely Welsh way of doing things. It will operate in all communities, everywhere, but not necessarily in the same way, because no two families are exactly the same. For those families who live in areas of multiple deprivation, we would also be talking about how community-based support networks, such as Communities First, knit in with Families First. My intention—I hope that it has been made clear from the beginning—is for Families First to be an all-Wales change to the way in which we support families and co-ordinate our attempts to do so.

ni fyddaf yn gallu tynnu dogfen allan o fy mhoced a fydd yn egluro popeth inni ac a fydd yn golygu, o hynny ymlaen, y byddwn yn gallu dilyn rysâit daclus a fydd yn rhoi eglurder inni o ran yr hyn sy'n digwydd. Mae'n hynod o gymhleth, ond rydym yn mynd i'r afael â hyn, cam wrth gam, ac rwy'n gwerthfawrogi'r cyd-weithio trawsbleidiol sydd wedi mynd rhagddo. Unwaith eto, mae'r gwaith y mae'r pwyllgor wedi ymgymryd ag ef wedi bod yn amhrisiadwy wrth hwyluso'r ddadl honno.

O ran symud cwnsela mewn ysgolion i ysgolion cynradd, dyna'r tro cyntaf y mae'r awgrym hwnnw wedi'i wneud imi. Mae hynny'n ddiddorol, fel y mae'r syniad o apwyntiadau gorfodol, yn enwedig os yw'r ceisiadau hynny yn dod wrth blant a phobl ifanc eu hunain. Felly, bydd angen inni drafod ac ymchwilio i hynny. Os yw plant a phobl ifanc yn sôn am y pethau hynny, mae angen inni wrando arnynt.

Bydd Teuluoedd yn Gyntaf yn wasanaeth cyffredinol. Bydd yn canolbwyntio ar y teuluoedd lleiaf cefnog a mwyaf agored i niwed, am ba reswm bynnag, unai gan fod y teulu yn cael ei ddal i fyny mewn tlodi neu oherwydd ei fod wedi taro un o'r ergydion hynny sy'n digwydd ym mywydau bob teulu, pan fydd eu hanghenion yn dod yn fwy, megis profedigaeth, dechrau anabled, neu ddiswyddiad, os bydd un o'r rhieni yn colli ei swydd. Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn ymgais i adeiladu gwasanaeth cyfannol a hollgynhwysol o gwmpas pob teulu. Bydd yn unigryw i Gymru a bydd yn cynrychioli ffordd unigryw o wneud pethau. Bydd yn gweithredu ym mhob cymuned, ym mhob man, ond nid o reidrwydd yn yr un modd, oherwydd nid oes unrhyw ddau deulu yn union yr un fath. I'r teuluoedd hynny sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd lluosog, byddem hefyd yn sôn am sut y mae rhwydweithiau cymorth yn y gymuned, megis Cymunedau yn Gyntaf, yn clymu i mewn i waith Teuluoedd yn Gyntaf. Fy mwriad i—rwy'n gobeithio fy mod wedi gwneud hynny'n glir o'r cychwyn—yw y bydd Teuluoedd yn Gyntaf yn achosi newid Cymru-gyfan i'r ffordd yr ydym yn cefnogi teuluoedd a chyd-drefnu ein hymdrechion i wneud hynny.

I take on board your points regarding stigma. I hope that we will never stoop to the lowest common denominator in our politicking in Wales when it comes to playing on people's fears, unlike the *Daily Mail*—or the 'Daily Hate', as my grandad used to call it. I hope that we will be able to maintain a sensible dialogue, as we have done, in relation to children and young people in that regard.

Eleanor Burnham: It is always a challenge to speak at the end of a long row of eminent speakers, but I will do my best. In many respects, this is one of the most challenging aspects of the Assembly's portfolios. Perhaps I will be chastised for saying this, but I think that the influence of females on the committee, and within the Assembly, might be sorely missed the next time around.

4.15 p.m.

Even if I am chastised, I would venture to say that perhaps we need more women in more senior and influential positions to share what we know as mothers. [*Interruption.*] No, I am not talking about the Assembly, but the involvement of women in the delivery of services in local authorities, as senior officers, or as part of the school management structure. I believe that the wellbeing and health issues relating to school lavatories are well documented. The fact is that they are in such a dire state that many children cannot drink enough water and cannot ensure that they remain well. If you are not well, you cannot learn, regardless of how clever the teachers are. I used to deal with children who were truants, miscreants, scallywags but also wonderful young people. Many of these issues affect attainment, behaviour and general wellbeing. If we do not get this right, we might have the best teachers in the world, but they will be wasted. It is like having the best surgeons in the health service, but if you have infections, you might as well give up.

I am sad to be standing here questioning the

Rwy'n derbyn eich pwynt ynglŷn â stigma. Rwy'n gobeithio na fyddwn byth yn ildio i'r nodwedd gyffredin yn y ffordd yr ydym yn gwleidyddia yng Nghymru pan mae'n dod i chwarae ar ofnau pobl, yn wahanol i'r *Daily Mail*—neu'r 'Daily Hate', fel roedd fy nhad-cu yn ei alw. Rwy'n gobeithio y byddwn yn gallu cynnal deialog synhwyrol, fel yr ydym wedi ei wneud, mewn perthynas â phlant a phobl ifanc yn hynny o beth.

Eleanor Burnham: Mae bob amser yn her i siarad ar ddiwedd rhes hir o siaradwyr amlwg, ond byddaf yn gwneud fy ngorau. Mewn sawl ffordd, mae hon yn un o'r agweddau mwyaf heriol ar bortffolios y Cynulliad. Efallai y byddaf yn cael fy nghosbi am ddweud hyn, ond credaf ei bod yn bosibl y bydd dylanwad y menywod ar y pwyllgor, ac o fewn y Cynulliad, yn fawr ei golled y tro nesaf.

Hyd yn oed os byddaf yn cael fy nghosbi, mentraf ddweud efallai fod angen mwy o ferched mewn swyddi uwch a dylanwadol i rannu'r hyn rydym yn ei wybod fel mamau. [*Torri ar draws.*] Na, nid wyf yn sôn am y Cynulliad; rwy'n sôn am gyfranogiad merched yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau mewn awdurdodau lleol, fel uwch swyddogion, neu fel rhan o strwythur rheolaeth ysgolion. Credaf fod y materion lles ac iechyd sy'n gysylltiedig â thoiledau mewn ysgolion wedi'u cofnodi'n dda. Y ffaith yw eu bod mewn cyflwr mor ddifrifol bod llawer o blant yn methu ag yfed digon o ddŵr ac ni allwn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn iach. Os nad ydych yn iach, ni allwch ddysgu, waeth pa mor glyfar yw'r athrawon. Roeddwn i'n arfer delio â phlant a oedd yn chwarae triwant, yn ddihirod ac yn rapsgaliwns ond roeddent hefyd yn bobl ifanc gwych. Mae llawer o'r materion hyn yn effeithio ar gyrhaeddiad, ymddygiad a lles cyffredinol. Os nad ydym yn gwneud hyn yn iawn, efallai y bydd gennym yr athrawon gorau yn y byd, ond byddant yn cael eu gwastraffu. Mae fel cael y llawfeddygon gorau yn y gwasanaeth iechyd, ond os oes gennych heintiau, waeth ichi roi'r gorau iddi ddim.

Rwy'n drist i fod yn sefyll yma'n holi'r

Deputy Minister on this point once again. You are a lovely person, Deputy Minister, and I know that you are sincere about all of these issues, but let us put this matter to rest. Do not blame local authorities for this. I remember the very erudite previous Minister for education, Jane Davidson, giving us her spiel about how she would solve the world's problems and sort out all schools by 2010. I know that she is clever, but she did not do that. We are standing here, in 2011, still talking about it. I am sorry to say that we are coming to the end of this Assembly and we still have not solved it. I hope that, in our legacy report, we will mention that this should be one of the first issues to be sorted out in the next Assembly.

The cost of Families First is an interesting issue, which the children's commissioner has taken on board. I wonder whether the Deputy Minister can help us on this. I am delighted that there will be universal provision for all of the reasons that we discussed in committee, which we do not have time to discuss now. It would be interesting if you could help us on that and tell us whether your officials have done any work on that.

As for the implementation gap, what is the cause of the continued frustration of the children's commissioner? Also, in respect of child poverty, I feel quite sad today, because I understand that we now have 96,000 children living in severe poverty, which means that they do not have the basic everyday necessities. This is a huge area of concern for the children's commissioner; therefore, what can be achieved over the next few years? I know that it is difficult, and you will probably tell me that you have nothing to do with the next few years, but it is a worry.

In relation to bullying, cyber-bullying is a problem even for some of us grown-ups in the Assembly because some constituents think that they can treat us in a certain way and bully us via cyberspace, so God knows what the poor children have to put up with.

Dirprwy Weinidog am y pwynt hwn unwaith eto. Rydych yn berson hyfryd, Ddirprwy Weinidog, ac rwy'n gwybod eich bod yn ddiffuant am yr holl faterion hyn, ond gadewch inni ddelio â'r mater hwn am unwaith ac am byth. Peidiwch â rhoi'r bai ar awdurdodau lleol am hyn. Rwy'n cofio Jane Davidson, y Gweinidog addysg blaenorol hyddysg iawn, yn traethu'n hir am sut y byddai'n datrys problemau'r byd ac yn datrys problemau pob ysgol erbyn 2010. Gwn ei bod yn glyfar, ond ni wnaeth wneud hynny. Rydym mewn sefyllfa yn 2011 lle rydym yn dal i fod yn siarad am y peth. Mae'n ddrwg gennyf i ddweud ein bod yn dod i ddiwedd y Cynulliad hwn ac nid ydym wedi datrys y broblem eto. Rwy'n gobeithio, yn ein hadroddiad etifeddiaeth, y byddwn yn dweud y dylai hwn fod yn un o'r materion cyntaf i gael ei ddatrys yn y Cynulliad nesaf.

Mae cost Teuluoedd yn Gyntaf yn fater diddorol y mae'r comisiynydd plant wedi rhoi ystyriaeth iddo. Tybed a all y Dirprwy Weinidog ein helpu gyda hyn. Rwy'n hapus iawn y bydd darpariaeth gyffredinol am bob un o'r rhesymau a drafodwyd gennym yn y pwyllgor ond nid oes gennym yr amser i'w trafod yn awr. Byddai'n ddiddorol pe gallech ein helpu ni a dweud wrthym a yw eich swyddogion wedi gwneud unrhyw waith ar hynny.

O ran y bwlch gweithredu, beth sy'n achosi rhwystredigaeth barhaus y comisiynydd plant? Hefyd, mewn perthynas â thlodi plant, rwy'n teimlo'n eithaf trist heddiw, oherwydd rwy'n deall bod gennym bellach 96,000 o blant sy'n byw mewn tlodi difrifol, sy'n golygu nad oes ganddynt y pethau sylfaenol sydd eu hangen arnynt o ddydd i ddydd. Mae hwn yn fater o bryder mawr i'r comisiynydd plant; felly, beth y gellir ei gyflawni dros y blynyddoedd nesaf? Gwn ei bod yn anodd, ac mae'n debyg y byddwch yn dweud wrthyf nad oes gennych ddylanwad dros y blynyddoedd sydd i ddod, ond mae'n destun pryder.

O ran bwlio, mae seiber-fwlio hyd yn oed yn broblem i rai ohonm ni'r oedolion yn y Cynulliad gan fod rhai etholwyr yn meddwl eu bod yn gallu ein trin mewn ffordd benodol a'n bwlio drwy'r seiberofod, felly Duw a wŷr beth y mae'r plant truan yn gorfod ei

What can be done to prevent cyber-bullying? I have read in some of the popular press quite recently that there is now an enormously nasty development called trolling—if I remember correctly—where, upon the death of a young person, bullies continue to write negatively about them and the circumstances of their death. That is absolutely horrendous. I know that it may not be part of your remit, but can you help the people who are absolutely devastated by some of the ridiculous things that happen?

Finally, I wish Keith Towler and his team all the very best because they have a huge job to do. Will you take up our Welsh leader's challenge issued on 25 January calling for more power for the Children's Commissioner for Wales? She was particularly concerned about the possibility of non-devolved issues being checked by the children's commissioner. Perhaps you have not had the time to address this, but if you could write to me, I would be very grateful.

Huw Lewis: I fully endorse your comments, Eleanor, on the influence of female Members, both in the Assembly and in other legislatures throughout the United Kingdom. As we mark International Women's Day, I am convinced that policy development in Wales would have had a very different character if the Assembly had started out as a male-dominated institution, and I hope that it will never become one. Issues surrounding children are not uniquely of concern to women, but these issues are valuably influenced by the real-life experience of mothers in particular. This experience has changed the way that we do almost everything in relation to this agenda.

You are again quite right to underline concerns regarding school toilets. I hope that I did not solely blame local authorities for this. However, let us face up to the fact that there are priorities to be addressed, and the Assembly Government has repeatedly acknowledged and listened to the children's commissioner, in terms of the priorities being transmitted to us. We have fulfilled our duty in terms of making sure that guidance is

ddioddef. Beth y gellir ei wneud i atal seiber-fwlio? Rwyf wedi darllen yn y wasg boblogaidd yn weddol ddiweddar bod yna ddatblygiad cas iawn a elwir yn *trolling*—os cofiaf yn iawn—lle, pan fydd person ifanc yn marw, bydd bwllis yn parhau i ysgrifennu amdanynt ac amgylchiadau eu marwolaeth mewn ffordd negyddol. Mae hynny'n gwbl erchyll. Gwn nad yw'n rhan o'ch cylch gwaith, efallai, ond a allwch helpu'r bobl y cafwyd effaith andwyol iawn arnynt gan rai o'r pethau hurt sydd wedi digwydd?

Yn olaf, hoffwn ddymuno'r gorau i Keith Towler a'i dîm oherwydd bod ganddynt swydd enfawr i'w wneud. A wnewch chi ymgymryd â'r her a osodwyd gan ein harweinydd yng Nghymru ar 25 Ionawr yn galw am fwy o rym i Gomisiynydd Plant Cymru? Roedd hi'n pryderu yn arbennig am y posibilrwydd o faterion sydd heb eu datganoli yn cael eu gwirio gan y comisiynydd plant. Efallai nad ydych wedi cael yr amser i ymdrin â hyn, ond os gallech ysgrifennu ataf am hyn, byddwn yn ddiolchgar iawn.

Huw Lewis: Rwy'n ategu'ch sylwadau, Eleanor, am ddylanwad Aelodau benywaidd yn y Cynulliad ac yn neddfwrfeydd eraill ledled y Deyrnas Unedig. Wrth inni ddatlu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, rwy'n argyhoeddedig y byddai natur datblygiad polisi yng Nghymru wedi bod yn wahanol iawn pe bai'r Cynulliad wedi cychwyn fel sefydliad a oedd wedi'i ddominyddu gan ddynion, ac rwy'n gobeithio na fydd hynny byth yn digwydd yma. Nid menywod yn unig sy'n pryderu am faterion sy'n ymwneud â phlant, ond caiff profiadau go iawn mamau ddylanwad gwerthfawr ar y materion hyn. Mae'r profiad hwn wedi newid y ffordd yr ydym yn gwneud bron popeth mewn perthynas â'r agenda hon.

Rydych yn llygad eich lle unwaith eto i danlinellu pryderon ynghylch toiledau mewn ysgolion. Nid oeddwn yn beio awdurdodau lleol yn unig am hyn. Fodd bynnag, gadewch inni wynebu'r ffaith bod yna flaenoriaethau sydd angen sylw, ac mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cydnabod dro ar ôl tro yr hyn a ddywedodd y comisiynydd plant am y blaenoriaethau sy'n cael eu trosglwyddo inni ac rydym wedi gwranddo arno. Rydym wedi

transmitted to those in charge of this agenda: local authorities. The result has been patchy. There are issues relating to safe drinking water, hygiene and simple human dignity. It is not good enough that this issue continues to be sidestepped. However, this is a political party whose first act upon entering a coalition, in England at least, was to scrap the Buildings Schools for the Future fund and to take an axe to capital spending on schools programmes. It is difficult, in an environment like that, to expect the Welsh Government to maintain that priority, although we will endeavour to do so, given that the UK Government has comprehensively abandoned it.

Regarding Families First, the backbone of the finance will be provided, as I have explained at committee, by the transition from Cymorth to Families First. However, Families First encompasses much more than that; it is about changing working methods in an integrated way across all support agencies, and it is about having an interface with the family. It involves the NHS, local authorities, the third sector and schools, which are a critical part of it. How various agencies and professionals completely change the way that they work together to ensure that they are, in a co-ordinated way, supporting families, no matter what issues they happen to face, is an enormous job. I am filled with admiration regarding the work of our pioneer local authority areas—one in the north and one in the south. I will announce another tranche of pioneer areas, hopefully by the end of the month, and we will gradually build our expertise towards what Families First will, in reality, become across Wales as a whole. There is no fixed blueprint for this at the moment. If I was to draw one up, I would be guilty of terrible arrogance. However, there will be, at some point in the future, a Welsh way of doing things that will reflect the needs of individual families and the individual children within those families that will differ greatly to what is seen everywhere else in the UK.

Unlike the Liberal Democrats, I am prepared

cyflawni ein dyletswydd o ran sicrhau bod canllawiau yn cael eu trosglwyddo i'r rhai sy'n gyfrifol am yr agenda hon: awdurdodau lleol. Mae'r canlyniadau wedi bod yn anghyson. Mae materion sy'n ymwneud â dŵr yfed diogel, glendid ac urddas dynol syml. Nid yw'n ddigon da bod y mater hwn yn parhau i gael ei osgoi. Fodd bynnag, gweithred gyntaf y blaid wleidyddol mewn cwestiwn wrth fynd i mewn i glymblaid, yn Lloegr o leiaf, oedd cael gwared ar y gronfa Buildings Schools for the Future a chwtagi gwariant cyfalaf ar raglenni ysgolion. Mae'n anodd, mewn amgylchedd o'r fath, disgwyl i Lywodraeth Cymru gynnal y flaenoriaeth honno, er y byddwn yn ymdrechu i wneud hynny, o gofio bod Llywodraeth y DU wedi cefnu ar y gronfa'n llwyr.

O ran y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, caiff asgwrn cefn y cyllid ei ddarparu, fel yr eglurais yn y pwyllgor, gan y newid o Cymorth i Teuluoedd yn Gyntaf. Fodd bynnag, mae'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn cwmpasu llawer mwy na hynny; mae'n ymwneud â newid dulliau gweithio mewn ffordd integredig ar draws yr holl asiantaethau cymorth, ac mae'n ymwneud â rhyngwynebu gyda'r teulu. Mae'n cynnwys y GIG, awdurdodau lleol, y trydydd sector ac ysgolion, sy'n rhan hanfodol ohono. Mae'r ffordd y mae gwahanol asiantaethau a gweithwyr proffesiynol yn newid sut y maent yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau eu bod yn cefnogi teuluoedd mewn ffordd gydlynol, ni waeth pa faterion y maent yn digwydd eu hwynebu, yn dasg enfawr. Rwy'n edmygu'n fawr gwaith ein hardaloedd awdurdod lleol arloesi—un yn y gogledd ac un yn y de. Byddaf yn cyhoeddi cyfres arall o ardaloedd arloesi, erbyn diwedd y mis, gobeithio, a byddwn yn raddol adeiladu ein harbenigedd yn unol â'r hyn y bydd yn digwydd i'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf ledled Cymru. Nid oes glasbrint penodol ar gyfer hyn ar hyn o bryd. Pe bawn i lunio un, byddwn yn euog o fod yn dra hunan-dybus. Fodd bynnag, ar ryw adeg yn y dyfodol, bydd ffordd Gymreig o wneud pethau a fydd yn adlewyrchu anghenion teuluoedd unigol a'r plant unigol o fewn y teuluoedd hynny a fydd yn wahanol iawn i'r hyn a fydd yn digwydd ym mhob man arall yn y DU.

Yn wahanol i'r Democratiaid Rhyddfrydol,

to keep on going when it comes to the issue of child poverty, and not to ask continually 'What can we do?' I think that there is a great deal that we can do as a progressive institution and as a group of people who collectively direct over 50 per cent of public spending in Wales. The devolved public sector, which is ours to orchestrate in terms of priorities, can have an enormous impact on child poverty. However, there are also willing partners across the third and private sectors, in terms of combating the lack of skills, life chances and opportunities that too many children and young people face. The job has barely begun. We have given ourselves another decade to ensure that we can reach that target of eradicating child poverty in Wales by 2020. I, for one, intend to stick to it.

Mark Isherwood: I agree with your comments about the majority of children and young people being decent, law-abiding and hardworking, and I regret that the media continue to believe that the negative stereotyping of children is what sells. You have just referred to capital investment in school buildings by UK Governments, which is not really relevant to this debate. It is also regrettable that the previous Government entered into commitments toward the end its term that were unfunded. However, that is not relevant to the points before us.

All Members were sent a paper from the children's commissioner this morning, so I will not repeat the points within it. One point that is not on the list, but which Paul Davies referred to, related to bullying. How would you respond to concerns raised at this weekend's Welsh Conservatives spring forum in Cardiff? I spoke at the Stonewall Cymru event, which focused on tackling homophobic bullying in schools in Wales. It still considers this to be enough of a problem to focus its fringe meeting on it, some seven years after I first attended a Stonewall Cymru conference that raised the same issue.

rwy'n barod i gadw i fynd pan ddaw i dlodi plant, ac i beidio â gofyn yn barhaus 'Beth allwn ni ei wneud?' Credaf fod llawer iawn y gallwn ei wneud fel sefydliad blaengar ac fel grŵp o bobl sydd, gyda'i gilydd, yn cyfarwyddo dros 50 y cant o wariant cyhoeddus yng Nghymru. Gall y sector cyhoeddus datganoledig, yr ydym ni'n gyfrifol am ei drefnu o ran blaenoriaethau, gael effaith enfawr ar dlodi plant. Fodd bynnag, mae hefydartneriaid ar draws y trydydd sector a'r sector preifat sy'n barod i fynd i'r afael â'r diffyg sgiliau, cyfleoedd bywyd a chyfleoedd eraill y mae gormod o blant a phobl ifanc yn eu hwynebu. Mae'r gwaith hwnnw prin wedi dechrau. Rydym wedi rhoi degawd arall i'n hunain i sicrhau ein bod yn gallu cyrraedd y targed o ddileu tlodi plant yng Nghymru erbyn 2020. Rwyf i, yn bersonol, yn bwriadu cadw ato.

Mark Isherwood: Rwy'n cytuno â'ch sylwadau bod y mwyafrif o blant a phobl ifanc yn weddus, yn parchu'r gyfraith ac yn weithgar, ac rwy'n gresynu bod y cyfryngau yn parhau i gredu bod stereoteipio plant yn negyddol yn gwerthu. Rydych newydd gyfeirio at fuddsoddi cyfalaf mewn adeiladau ysgolion gan Lywodraeth y DU, er nad yw'n berthnasol i'r ddadl hon mewn gwirionedd. Mae hefyd yn anffodus bod y Llywodraeth flaenorol tuag at ddiwedd ei thymor llywodraethu wedi ymrwymo at gynlluniau nad oeddent wedi'u hariannu. Fodd bynnag, nid yw hynny'n berthnasol i'r pwyntiau sydd ger ein bron.

Anfonwyd papur at bob Aelod gan y comisiynydd plant y bore yma, felly nid wyf am ailadrodd y pwyntiau a oedd yn eu cynnwys. Roedd un pwynt nad yw'n ymddangos ar y rhestr, ond y cyfeiriodd Paul Davies ato, yn ymwneud â bwlio. Sut y byddech yn ymateb i bryderon a godwyd yn fforwm gwanwyn Ceidwadwyr Cymru y penwythnos hwn yng Nghaerdydd? Siaradais yn nigwyddiad Stonewall Cymru, a oedd yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â bwlio homoffobig mewn ysgolion yng Nghymru. Mae'n dal i ystyried hyn i fod yn ddigon o broblem i ganolbwyntio arni yn ei gyfarfod mylol, tua saith mlynedd ar ôl y tro cyntaf i mi fynychu cynhadledd Stonewall Cymru a gododd yr un mater.

When I spoke in the debate on this report last November, I quoted what the commissioner had said about child and adolescent mental health services. He said that examples of the difficulties that children and their families had experienced in navigating the system were all too familiar to him, and that the report highlighted a number of areas where considerable improvements could be made. I also note that, two years previously, the commissioner said that each year he had drawn attention to the inadequacy of mental health service provision for children and young people in Wales. Your statement today refers only to money. Of course, money is not the answer to the question; it is about how we use it. However, I note that your more detailed report to Members puts a lot more meat on the bone. What measurable and quantifiable outcomes will you build into the system so that we can now see how the proposed actions will deliver?

In the November debate I also referred to the commissioner's comments regarding monitoring the effectiveness of the Welsh Government's advocacy development and performance unit. I quoted the all-party group on looked-after children, stating that good advocacy is the foundation for better service provision and for ensuring better outcomes for looked-after children. Again, your more detailed report to Members—though not your oral statement—indicates guidance to local authorities on what they should do. What action will you take to ensure that that happens?

You referred to Families First; I have raised this matter previously, but will you be evaluating the parental intervention pilot programmes that are being run in five parts of Wales by the third sector? This will inform further development, particularly of the integrated family support services and teams, who are working with families where parents may have substance misuse problems.

I have two final points. Will you take note of the Childline and NSPCC case note sent to Members yesterday concerning looked-after children? It notes that they are five times

Pan siaradais yn y ddadl ar yr adroddiad hwn ym mis Tachwedd diwethaf, dyfynnais yr hyn a ddywedodd y comisiynydd plant am wasanaethau iechyd meddwl i blant a'r glasoed. Dywedodd bod enghreifftiau o'r anawsterau y mae plant a'u teuluoedd wedi'u profi wrth lywio'r system yn gyfarwydd iawn iddo, a bod yr adroddiad yn amlygu nifer o feysydd lle gellid gwneud gwelliannau sylweddol. Rwyf hefyd yn nodi, ddwy flynedd cyn hynny, y dywedodd y comisiynydd ei fod wedi tynnu sylw at ddiffygion y ddarpariaeth o wasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc yng Nghymru. Roedd eich datganiad heddiw yn cyfeirio at arian yn unig. Wrth gwrs, nid arian yw'r unig ateb i'r cwestiwn; mae'n fater o sut yr ydym yn ei ddefnyddio. Fodd bynnag, nodaf fod eich adroddiad mwy manwl i'r Aelodau yn rhoi llawer mwy o gig ar yr asgwrn. Pa ganlyniadau mesuradwy a chyfrifadwy y byddwch yn adeiladu i mewn i'r system er mwyn inni weld sut y bydd y camau arfaethedig yn arwain at ganlyniadau?

Yn y ddadl mis Tachwedd, cyfeiriais hefyd at sylwadau'r comisiynydd ynghylch monitro effeithiolrwydd uned datblygu eiriolaeth a pherfformiad Llywodraeth Cymru. Dyfynnais y grŵp holl-bleidiol ar blant sy'n derbyn gofal, gan nodi mai eiriolaeth dda yw'r sylfaen ar gyfer darparu gwell gwasanaethau a sicrhau gwell canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal. Unwaith eto, mae'ch adroddiad mwy manwl i'r Aelodau yn nodi canllawiau i awdurdodau lleol ar yr hyn y dylent ei wneud—er nad yw'ch datganiad llafar yn gwneud hynny. Pa gamau a gymerwch i sicrhau bod hynny'n digwydd?

Cyfeiriasoch at Teuluoedd yn Gyntaf; rwyf wedi codi'r mater hwn o'r blaen, ond a fyddwch yn gwerthuso'r rhaglenni ymyrraeth rhieni peilot sy'n cael eu rhedeg mewn pum rhan o Gymru gan y trydydd sector? Bydd hyn yn llywio datblygiad pellach, yn enwedig mewn perthynas â'r gwasanaethau cymorth i deuluoedd a thimau integredig, sy'n gweithio gyda theuluoedd pan fo gan rieni broblemau o ran camddefnyddio sylweddau.

Mae gennyf ddau bwynt i'w gwneud cyn gorffen. A wnewch chi gymryd sylw o nodyn achos Childline a'r NSPCC a anfonwyd at yr Aelodau ddoe ynghylch plant sy'n derbyn

more likely to discuss running away than children overall and twice as likely to discuss self-harm. They felt they had no other trusted adults who they could turn to and were more vulnerable, because many had experienced abuse and neglect prior to being taken into care.

Finally, will you take note of a report into looked-after children and the way in which young people cope financially after care, which was launched this morning in the Pierhead? One of your colleagues, Gwenda Thomas, spoke at the launch, which was hosted by Brian Gibbons. The report found that there is a need to standardise the value of leaving-care grants and the financial assistance offered by local authorities to ensure that young people are treated fairly and equally, because this is not happening at the moment. It also found that local authorities need to fulfil their statutory duties and provide each young person in care with a pathway plan by their sixteenth birthday, because it is still not happening.

4.30 p.m.

Huw Lewis: I am delighted that the Welsh Tory conference is taking a look at homophobic bullying in schools. If I was invited to the Tory party conference at Sophia Gardens the invitation must have been lost in the post. However, I am very pleased that the issue continues to have a high profile with Stonewall and others. There seem to be two growth areas when it comes to bullying, which continues to be a major source of concern for children and young people up and down the country. One is the growth in cyber bullying and the things that go on online. As well as opening up all sorts of wonderful things to young people, perversely, the internet has created all sorts of difficulties and new arenas for people to abuse others. The other is the exponential growth—at least according to the anecdotal reports that I have read—in homophobic bullying in schools. This is happening at quite young ages, which is very scary. We should listen to organisations such as Stonewall and take that into account as we formulate our policy. I am glad to hear that

gofal? Mae'n nodi eu bod pum gwaith yn fwy tebygol o drafod rhedeg i ffwrdd na phlant yn gyffredinol a dwywaith yn fwy tebygol i drafod hunan-niweidio. Roeddent yn teimlo nad oedd ganddynt unrhyw oedolion eraill yr oeddent yn ymddiried ynddynt i droi atynt ac roeddent yn fwy agored i niwed, oherwydd bod llawer wedi cael profiad o gam-drin ac esgeuluso cyn cael eu cymryd i ofal.

Yn olaf, a wnewch chi gymryd sylw o'r adroddiad ar blant sy'n derbyn gofal a'r ffordd y mae pobl ifanc yn ymdopi'n ariannol ar ôl gofal, a lansiwyd y bore yma yn y Pierhead? Siaradodd un o'ch cydweithwyr, Gwenda Thomas, yn y lansiad a noddwyd gan Brian Gibbons. Canfu'r adroddiad fod angen safoni gwerth grantiau gadael gofal a'r cymorth ariannol a gynigir gan awdurdodau lleol i sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu trin yn deg ac yn gyfartal, gan nad yw hyn yn digwydd ar hyn o bryd. Canfu hefyd fod angen i awdurdodau lleol gyflawni eu dyletswyddau statudol a sicrhau bod gan bob person ifanc mewn gofal gynllun llwybr erbyn eu pen-blwydd yn 16 oed, gan nad yw hynny'n digwydd o hyd.

Huw Lewis: Rwy'n falch iawn bod cynhadledd Torïaid Cymru yn edrych ar fwlio homoffobig mewn ysgolion. Os cefais wahoddiad i gynhadledd y blaidd Doriïaid yng Ngerddi Sophia, mae'n rhaid ei fod wedi cael ei golli yn y post. Fodd bynnag, yr wyf yn falch iawn bod y mater yn parhau i fod â phroffil uchel gan Stonewall ac eraill. Ymddengys fod dau faes lle mae bwlio yn tyfu, sy'n parhau i fod yn achos mawr o bryder i blant a phobl ifanc ar hyd a lled y wlad. Un yw'r twf mewn seiber-fwlio a'r pethau sy'n digwydd ar-lein. Yn ogystal â datgloi pob math o bethau gwych i bobl ifanc, yn wrthnysig, mae'r rhyngwrwyd wedi creu pob math o anawsterau a meysydd newydd i bobl gam-drin eraill. Y llall yw'r twf esbonyddol—o leiaf yn ôl yr adroddiadau anecdotaidd yr wyf wedi eu darllen—mewn bwlio homoffobig mewn ysgolion. Mae hyn yn digwydd pan fod plant yn eithaf ifanc, sydd yn frawychus iawn. Dylem wrando ar sefydliadau fel Stonewall a chymryd hynny i ystyriaeth wrth i ni lunio ein polisi. Yr wyf yn falch o glywed bod y Ceidwadwyr

the Welsh Conservative party takes the issue seriously. I hope that the policy will inform us in the run-up to the next Assembly election and the policies that will be delivered afterwards.

With regard to child and adolescent mental health services, I take on board your point that, of course, these issues are very important. As I said, £6.9 million has been made available. In response to the Wales Audit Office and the joint inspectorates' review of CAMHS, there was an action plan that, as you know, Mark, was published in July 2010. The children's commissioner will be invited to participate in the delivery of that action plan.

Families First and its interface with integrated family support teams will be action-researched as it goes. The investment in the evaluation of Families First includes its interface with the IFSTs as they operate in those pioneer areas; it is built in from the beginning. So, we intend to be rigorous in taking a good hard look at what outcomes are achieved through Families First, how well it works with other programmes—not just with the IFSTs, but with programmes such as Communities First—to ensure that we learn from these things as rapidly as possible in the transition from Cymorth to Families First.

I know that we are a little pushed for time this afternoon, but I also welcome the discussions you mentioned at the Pierhead building on looked-after children. It is a huge agenda, which, again, we do not have time to fully explore this afternoon. However, I was pleased to be able to announce a transition grant of £500 to enable that transition to adulthood for looked-after children. Again, that is a unique policy made in Wales.

The Presiding Officer: Thank you, Deputy Minister.

Cymreig yn cymryd y mater o ddifrif. Gobeithio y bydd y polisi ein hysbrydoli yn y cyfnod cyn yr etholiad Cynulliad nesaf a'r polisiau a fydd yn cael eu cyflwyno wedyn.

O ran gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed, yr wyf yn derbyn eich pwynt bod, wrth gwrs, y materion hyn yn rhai pwysig iawn. Fel y dywedais, mae £6.9 miliwn wedi'i ddarparu. Mewn ymateb i adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru a'r arolygiaethau ar y cyd o CAMHS, caed cynllun gweithredu, ac, fel y gwyddoch, Mark, fe'i cyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2010. Bydd y comisiynydd plant yn cael gwahoddiad i gymryd rhan wrth roi'r cynllun gweithredu hwnnw ar waith.

Bydd Teuluoedd yn Gyntaf a'i ryngwyneb gyda thimau integredig cymorth i deuluoedd yn cael ei ymchwilio o ran gweithredu wrth iddo fwrw rhagddo. Mae'r buddsoddiad yng ngwerthuso Teuluoedd yn Gyntaf yn cynnwys ei ryngwyneb gyda'r timau fel y maent yn gweithredu yn yr ardaloedd arloesi hynny; mae hynny wedi ei adeiladu i mewn o'r dechrau. Felly, bwriadwn fod yn drwyadl wrth edrych o ddifrif ar ba ganlyniadau sy'n cael eu cyflawni drwy Teuluoedd yn Gyntaf, pa mor dda mae'n gweithio gyda rhaglenni eraill—nid yn unig gyda'r timau, ond gyda rhaglenni fel Cymunedau yn Gyntaf—i sicrhau ein bod yn dysgu oddi wrth y pethau hyn cyn gynted ag y bo modd yn y cyfnod pontio o Cymorth i Teuluoedd yn Gyntaf.

Gwn ein bod ychydig yn brin o amser y prynhawn yma, ond yr wyf hefyd yn croesawu'r trafodaethau y crybwylloch yn adeilad y Pierhead ar blant sy'n derbyn gofal. Mae'n agenda anferth, ac, unwaith eto, nid oes gennym yr amser i'w archwilio'n llawn y prynhawn yma. Fodd bynnag, yr oeddwn yn falch o allu cyhoeddi grant pontio o £500 i alluogi'r trawsnewid hwnnw i fod yn oedolyn ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Unwaith eto, mae hwnnw'n bolisi unigryw a wnaed yng Nghymru.

Y Llywydd: Diolch, Ddirprwy Weinidog.

**Cynnig i Gymeradwyo Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011
Motion to Approve the Waste (England and Wales) Regulations 2011**

Cynnig NDM4676 Jane Hutt

Motion NDM4676 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rheol Sefydlog 24.4:

To propose that the National Assembly for Wales in accordance with Standing Order 24.4:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Chwefror 2011.

Approves that the draft the Waste (England and Wales) Regulations 2011 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 8 February 2011.

The Minister for Environment, Sustainability and Housing (Jane Davidson): I move the motion.

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson): Cynigiau y cynnig.

Y Llywydd: Y cwestiwn yw bod y cynnig yn cael ei gytno. Gwelaf nad oes gwrthwynebiad. Felly, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, mae'r cynnig wedi'i dderbyn.

The Presiding Officer: The proposal is to agree the motion. I see that there are no objections. Therefore, under Standing Order No. 7.35, the motion is agreed.

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion agreed.*

**Cynnig i Gymeradwyo Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011
Motion to Approve the NHS (Concerns, Complaints and Redress Arrangements (Wales) Regulations 2011**

Cynnig NDM4677 Jane Hutt

Motion NDM4677 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rheol Sefydlog 24.4:

To propose that the National Assembly for Wales in accordance with Standing Order 24.4:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Chwefror 2011.

Approves that the draft the National Health Service (Concerns, Complaints and Redress Arrangements) (Wales) Regulations 2011 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 7 February 2011.

The Minister for Health and Social Services (Edwina Hart): I move the motion.

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart): Cynigiau y cynnig.

These regulations set out a clear, integrated set of arrangements for investigating the majority of concerns about the health service and learning from them. The regulations

Mae'r rheoliadau hyn yn amlinellu set glir, integredig o drefniadau ar gyfer ymchwilio'r mwyafrif o'r pryderon am y gwasanaeth iechyd a dysgu oddi wrthynt. Mae'r

bring together the investigation and complaints, lower value claims and patient safety incidents into one process—an original system that will be unique to Wales. Under the new arrangements, NHS organisations will be required to make real efforts to resolve concerns locally and to put patients at the heart of the process. Concerns will be graded and dealt with proportionately but thoroughly, and the regulations also introduce the concept of redress in cases where health boards and NHS trusts may have been at fault. This will give patients who may have been harmed by the actions of the health service better access to justice and will also benefit the NHS in terms of learning lessons. We have taken time to develop these regulations, given the complexity of the proposals. However, I believe that the time has been well spent in getting the regulations right, and this will be to the ultimate benefit of patients.

As such, the regulations have been subject to two consultations as well as considerable discussion with stakeholders. I can assure Members that preparations for the regulations coming into force on 1 April are well advanced with training, guidance and information under way or nearing completion. I look forward to Members' comments on the draft regulations.

Mark Isherwood: Independent review currently forms the second stage of the complaints procedure and will be phased out under these regulations, thereby scrapping the independent system that ensures that complaints made by patients and relatives can be properly scrutinised. 'Independent' is defined as something that is not influenced or controlled by others in matters of opinion or conduct, and not subject to another's authority or jurisdiction, or influenced by the thought or action of others. By definition, therefore, scrapping independent reviews risks patients and relatives falling victim to influence and control by others.

The Association of Personal Injury Lawyers believes that these regulations represent a serious conflict of interest for NHS Wales, and it questions the independence of the

rheoliadau yn dwyn ynghyd yr ymchwiliad a'r cwynion, hawliadau gwerth is a digwyddiadau diogelwch cleifion i mewn i un broses—system wreiddiol a fydd yn unigryw i Gymru. O dan y trefniadau newydd, bydd yn ofynnol i sefydliadau'r GIG wneud ymdrechion gwirioneddol i ddatrys pryderon yn lleol ac i roi cleifion wrth wraidd y broses. Bydd pryderon yn cael eu graddio a'u trin yn gymesur ond yn drylwyr, ac mae'r rheoliadau hefyd yn cyflwyno'r cysyniad o wneud iawn mewn achosion lle y gall byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG fod wedi bod ar fai. Bydd hyn yn rhoi mynediad gwell at gyfiawnder i gleifion a allai fod wedi cael eu niweidio gan weithredoedd y gwasanaeth iechyd a bydd hefyd o fudd i'r GIG o ran dysgu gwersi. Rydym wedi cymryd amser i ddatblygu'r rheoliadau hyn, o ystyried cymhlethdod y cynigion. Fodd bynnag, credaf fod yr amser wedi cael ei dreulio'n ddoeth er mwyn cael y rheoliadau'n iawn, a bydd hyn er budd cleifion yn y pen draw.

Felly, mae'r rheoliadau wedi bod yn destun dau ymgynghoriad yn ogystal â thrafodaeth helaeth gyda rhanddeiliaid. Gallaf sicrhau Aelodau fod y paratodau ar gyfer y rheoliadau sy'n dod i rym ar 1 Ebrill ymhell ar y blaen gyda hyfforddiant, arweiniad a gwybodaeth ar y gweill neu ar fin cael eu cwblhau. Edrychaf ymlaen at sylwadau'r Aelodau ar y rheoliadau drafft.

Mark Isherwood: Ar hyn o bryd, mae adolygiad annibynnol yn ffurfio ail gam y weithdrefn gwyno a bydd yn cael ei ddileu'n raddol o dan y rheoliadau hyn, a thrwy hynny ceir wared ar y system annibynnol sy'n sicrhau y gellir archwilio'r cwynion a wneir gan gleifion a pherthnasau yn iawn. Diffinnir 'annibynnol' fel rhywbeth nad yw'n cael ei ddylanwadu neu ei reoli gan eraill o ran materion o farn neu ymddygiad, ac nad yw yn destun awdurdod neu awdurdodaeth arall, neu wedi ei ddylanwadu gan feddyliau neu gamau eraill. Drwy ddiffiniad, felly, mae cael gwared ar adolygiadau annibynnol yn creu perygl y bydd cleifion a pherthnasau yn syrthio dan ddylanwad a rheolaeth eraill.

Mae Cymdeithas Cyfreithwyr Anafiadau Personol yn credu bod y rheoliadau hyn yn cynrychioli gwrthdaro difrifol o fuddiannau i GIG Cymru, ac mae'n cwestiynu

proposed scheme. The association, which is a not-for-profit organisation that was established to campaign on behalf of injured people to help them gain access to the justice they deserve, says that it is vital that any investigation is independent of the body that is under scrutiny. It says that the proposed new system does not appear to have independence, as the NHS would decide the level of complexity in every case, investigate each concern and then decide whether it is liable. The potential for serious conflict, it says, is obvious, adding that if the NHS is to run the entire process in this way, it would undoubtedly have a detrimental effect on public confidence in the system, as injured people may suspect self-interest on the part of the NHS. The association concludes that this could lead to injured people not raising grievances, as they would not be confident that the right outcome would be reached. That is the opinion of professional barristers and solicitors who volunteer in this area.

The Wales network of 35 independent reviewers has warned that these regulations will result in the loss of real independence in the complaints process. It has called on Assembly Members to refer the regulations for further scrutiny as a matter of urgency. It says that the process can be streamlined and simplified, but that it must retain that essential element of independent review. The independent review can recommend that no further action be taken, that it be referred back to the NHS and additional steps taken, or that a panel be set up to examine the complaint in more detail. It is not an ombudsman service, and to suggest that unresolved complaints can be referred to the Public Services Ombudsman for Wales displays a worrying ignorance of, or disregard for, the principles at stake and the potential consequences for patients and their relatives.

The 35 independent reviewers, who are based throughout Wales, are concerned that these regulations are misplaced in principle and likely to lead to a much worse scenario for complainants about the NHS because, in

annibyniaeth y cynllun arfaethedig. Mae'r gymdeithas, sydd yn sefydliad di-elw a sefydlwyd i ymgyrchu ar ran pobl wedi'u hanafu i'w helpu i gael mynediad i'r cyfiawnder maent yn ei haeddu, yn dweud ei bod yn hanfodol bod unrhyw ymchwiliad yn annibynnol o'r corff sy'n cael ei archwilio. Mae'n dweud yr ymddengys nad oes gan y system newydd arfaethedig annibyniaeth, gan y buasai'r GIG yn penderfynu ar y lefel o gymhlethdod ym mhob achos, ymchwilio i bob pryder ac yna penderfynu a yw'n atebol. Mae'r potensial ar gyfer gwrthdaro difrifol, mae'n dweud, yn amlwg, gan ychwanegu pe bai'r GIG yn rhedeg y broses gyfan yn y modd hwn, buasai'n sicr yn cael effaith andwyol ar hyder y cyhoedd yn y system, gan y gall pobl wedi'u hanafu amau hunan-les ar ran y GIG. Daw'r gymdeithas i'r casgliad y gallai hyn lesteirio pobl sydd wedi'u hanafu rhag codi cwynion, gan na fuasent yn hyderus y buasai'r canlyniad cywir yn cael ei gyrraedd. Dyna farn bargyfreithwyr a chyfreithwyr proffesiynol sy'n gwirfoddoli yn y maes hwn.

Mae'r rhwydwaith Cymreig o 35 o adolygwyr annibynnol wedi rhybuddio y bydd y rheoliadau hyn yn arwain at golli annibyniaeth go iawn yn y broses gwyno. Mae wedi galw ar Aelodau'r Cynulliad i gyfeirio bod y rheoliadau yn cael eu craffu ymhellach fel mater o frys. Mae'n dweud y gall y broses fod yn llyfnach ac yn symlach, ond bod yn rhaid iddo gadw'r elfen hanfodol o adolygiad annibynnol. Gall yr adolygiad annibynnol argymhell nad oes unrhyw gamau pellach yn cael eu cymryd, bod cwyn yn cael ei gyfeirio yn ôl i'r GIG a bod camau ychwanegol yn cael eu cymryd, neu fod panel yn cael ei sefydlu i ystyried y gŵyn yn fanylach. Nid gwasanaeth ombwdsmon mohono, ac mae awgrymu y gellir cyfeirio cwynion heb eu datrys at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn dangos anwybodaeth sy'n peri pryder, neu ddiffyg ystyriaeth o'r egwyddorion sydd yn y fantol a'r canlyniadau posibl i gleifion a'u perthnasau.

Mae'r 35 o adolygwyr annibynnol, sydd wedi eu lleoli ledled Cymru, yn pryderu bod y rheoliadau hyn yn cael eu camleoli mewn egwyddor ac yn debygol o arwain at sefyllfa waeth o lawer i achwynwyr am y GIG

practice, the NHS is just not ready for the proposed changes. Within the past week, independent reviewers have said that very little training of NHS staff has been undertaken, and that very little of the required documentation from implementation or training has been prepared as we approach the 1 April deadline. They add that, given the demands that the NHS currently faces, this further change will be extremely deleterious and bad news for patients.

When I wrote to the Minister about these concerns, her response cited general support for a less complex system, stating that it is a direction that has been taken in other parts of the United Kingdom. In reality, the Patients Association launched a joint campaign calling for an entirely independent complaints process in England, with real power to challenge health service trusts about their standards of care. That was done after it was inundated with complaints from angry patients who did not have an equivalent to the service that we have in Wales. The Secretary of State for Health, Andrew Lansley, responded that he fully supported the demand for an independent body to which people could complain about poor treatment instead of the current position where they can only go to the trust that has let them down in the first place.

The UK Government is now proposing legislation to introduce a new voice, Healthwatch England, to provide advocacy and support to help people to access and make choices about services and to support individuals who want to make a complaint. However, when I raised this point with the Minister for business, Jane Hutt, she replied that, unlike England, Wales has community health councils, which act as an independent vehicle for complainants. In reality, the independence of community health councils in Wales has already been compromised. When the Minister for health reorganised them, her dismissal of their concerns left them, as they said, frustrated, disappointed and downright angry. NorthWales community health councils have warned that the Minister's changes will seriously inhibit the ability of community health councils to represent patients and scrutinise local NHS

oherwydd, yn ymarferol, nid yw'r GIG yn barod ar gyfer y newidiadau arfaethedig. O fewn yr wythnos diwethaf, mae adolygwyr annibynnol wedi dweud mai ychydig iawn o hyfforddiant staff y GIG a fu, ac mai ychydig iawn o'r dogfennau gweithredu neu hyfforddi angenrheidiol sydd wedi cael eu paratoi wrth i ni nesáu at y dyddiad cau ar 1 Ebrill. Maent yn ychwanegu, o ystyried y pwysau y mae'r GIG yn wynebu ar hyn o bryd, y bydd y newid pellach hwn yn newyddion eithriadol o niweidiol a gwael i gleifion.

Pan ysgrifennais at y Gweinidog am y pryderon hyn, cyfeiriodd ei hymateb at gefnogaeth gyffredinol i system llai cymhleth, gan ddweud ei fod yn gyfeiriad sydd wedi'i gymryd mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Mewn gwirionedd, lansiodd y Gymdeithas Cleifion ymgyrch ar y cyd yn galw am broses gwynion gwbl annibynnol yn Lloegr, gyda grym gwirioneddol i herio ymddiriedolaethau gwasanaeth iechyd am eu safonau gofal. Gwnaethpwyd hynny ar ôl iddo gael ei foddî â chwynion gan gleifion dig heb wasanaeth cyfatebol i'r gwasanaeth sydd gennym yng Nghymru. Ymatebodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd, Andrew Lansley, ei fod yn cefnogi'n llwyr y galw am gorff annibynnol y gallai pobl gwyno iddo am driniaeth wael yn hytrach na'r sefyllfa bresennol lle y gallant ond fynd at yr ymddiriedolaeth a'u siomodd yn y lle cyntaf.

Mae Llywodraeth y DU bellach yn cynnig deddfwriaeth i gyflwyno llais newydd, Healthwatch Lloegr, i ddarparu eiriolaeth a chefnogaeth i helpu pobl i gael mynediad at a gwneud dewisiadau am wasanaethau ac i gynorthwyo unigolion sydd eisïau gwneud cwyn. Fodd bynnag, pan godais y pwynt hwn gyda'r Gweinidog dros fusnes, Jane Hutt, ei hateb oedd, yn wahanol i Loegr, fod gan Gymru gynghorau iechyd cymuned sy'n gweithredu fel cyfrwng annibynnol i achwynwyr. Mewn gwirionedd, mae annibyniaeth cynghorau iechyd cymuned yng Nghymru eisïes wedi cael ei beryglu. Pan ddaru'r Gweinidog dros iechyd eu had-drefnu, fe ddaru ei diystyriaeth o'u pryderon eu gadael, fel y dywedasant, yn rhwystredig, yn siomedig ac yn gandryll. Mae cynghorau iechyd cymuned gogledd Cymru wedi rhybuddio y bydd newidiadau'r Gweinidog yn amharu'n ddifrifol ar allu cynghorau

services. These regulations are anti-social justice, anti-democratic, dangerous and bad, and we cannot support them. After all, what sort of NHS would we have in Wales if dissent was squashed and complainants silenced?

Veronica German: I will not rehearse the arguments that Mark has just made, but he highlighted some of the concerns that the Welsh Liberal Democrats have discussed.

Independence is important to patients and their families when they make what is often a difficult decision to take forward a complaint; it is not something that someone does lightly. What we are discussing has been introduced to simplify and improve the system, and I understand the thought behind it. However, we are concerned about the loss of the independent lay reviewers, because their presence meant that people knew immediately that something would be done and that they would get feedback. We are concerned that bringing in the ombudsman as a last resort will mean that only the process is looked at, with regard to how the complaint was handled, as is often the case with the ombudsman. In deciding whether a case is serious enough to warrant legal advice, the NHS is making a judgment on its own case before it is taken forward, and it is something that also concerns us.

Jonathan Morgan: As we come to the end of the third Assembly, we are returning, in part, to the first Assembly Measure that we examined back in 2007. As Chair of the committee that undertook the scrutiny of that Measure, I am pleased with the content of these regulations as they bring the NHS Redress (Wales) Measure 2008 into effect. The Measure was the right legislation for us to bring forward to ensure that those people who had a qualifying liability in tort could pursue an action against the NHS. We hoped that those actions would be few and far between, but we had to provide a system that would govern those arrangements if and when they arose.

iechyd cymuned i gynrychioli cleifion a chraffu ar wasanaethau'r GIG yn lleol. Mae'r rheoliadau hyn yn groes i gyfiawnder cymdeithasol, yn groes i ddemocratiaeth, yn beryglus ac yn ddrwg, ac ni allwn eu cefnogi. Wedi'r cyfan, pa fath o GIG a fuasai gennym yng Nghymru, pe gwesgid ar anghytuno a phe roddwyd taw ar achwynwyr?

Veronica German: Nid wyf am ailadrodd y dadleuon mae Mark newydd eu gwneud, ond tynnodd sylw at rai o'r pryderon mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi eu trafod.

Mae annibyniaeth yn bwysig i gleifion a'u teuluoedd pan wnânt yr hyn sydd yn aml yn benderfyniad anodd i fynd â chwyn yn ei blaen; nid yw'n rhywbeth y gwna rhywun yn ysgafn. Cafodd beth yr ydym yn ei drafod ei gyflwyno i symleiddio a gwella'r system, ac yr wyf yn deall y syniad y tu ôl iddo. Fodd bynnag, yr ydym yn pryderu am golli'r adolygwyr lleyg annibynnol, gan fod eu presenoldeb yn golygu bod pobl yn gwybod yn syth y buasai rhywbeth yn cael ei wneud ac y caent adborth. Yr ydym yn pryderu y bydd dod â'r ombwdsmon i mewn fel y dewis olaf yn golygu mai dim ond y broses fydd yn cael ei hystyried, o ran sut y cafodd y gŵyn ei thrin, fel sy'n digwydd yn aml gyda'r ombwdsmon. Wrth benderfynu a yw achos yn ddigon difrifol i warantu cyngor cyfreithiol, mae'r GIG yn gwneud dyfarniad ar ei achos ei hun cyn iddo gael ei symud ymlaen, ac mae'n rhywbeth sydd hefyd yn peri pryder i ni.

Jonathan Morgan: Wrth i ni ddod i ddiwedd y trydydd Cynulliad, yr ydym yn dychwelyd, yn rhannol, i'r Mesur Cynulliad cyntaf a archwiliwyd gennym yn ôl yn 2007. Fel Cadeirydd y pwyllgor a graffodd ar y Mesur hwnnw, mae cynnwys y rheoliadau hyn yn fy mhlesio gan eu bod yn dod â'r Mesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2008 i rym. Y Mesur oedd y ddeddfwriaeth iawn i ni i'w dwyn ymlaen i sicrhau y gallai'r bobl hynny gydag atebolrwydd cymwys mewn camwedd fwrw ymlaen ag achos yn erbyn y GIG. Yr oeddem yn gobeithio y buasai'r achosion hynny yn brin iawn, ond yr oedd yn rhaid i ni ddarparu system a fuasai'n rheoli'r trefniadau hynny os a phryd y buasent yn codi.

What I am concerned about is that the Government decided to confuse and mix two separate processes. It has decided to mix the legislation emerging from the NHS Redress (Wales) Measure 2008 with the powers given to Welsh Ministers as set out in two Acts of Parliament, which govern the arrangements for general complaints and concerns. The processes and the issues are quite separate. They are not the same as pursuing a health board for negligence. If you are complaining about the standard of care or you have a concern about the way in which a patient is dealt with in hospital, that is fundamentally different to pursuing a health board for an act of negligence in tort. I am sorry that we are in a position in which these two quite separate issues have been lumped together. I am happy with the regulations as they bring the NHS Redress (Wales) Measure 2008 into effect, but I am concerned about some of the changes that the Minister is bringing forward with regard to complaints and concerns.

In its report to the Constitutional Affairs Committee, the Welsh Government said that it was not realistic to remove the responsibility for investigating concerns from the NHS organisations themselves. I agree with that. I agree that, in any process where a public body has to learn from its mistakes, that public body has to be involved in conducting an investigation. However, if you have a system that allows a public organisation to conduct an investigation, you need a system that provides for an independent look at whether the conclusions reached are the right conclusions.

4.45 p.m.

The Government has tried to address this by saying that patients will have access to independent clinical advice, and that the patient will be involved in selecting that independent clinical advice, but that does not go anywhere near an independent review system. I have met some individuals who have been part of that independent review system. They have contributed greatly to ensuring that the way in which complaints

Yr hyn yr wyf yn bryderus yn ei gylch yw bod y Llywodraeth wedi penderfynu drysu a chymysgu dwy broses ar wahân. Mae wedi penderfynu cymysgu'r ddeddfwriaeth sy'n deillio o'r Mesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2008 gyda'r pwerau a roddwyd i Weinidogion Cymru fel y nodir mewn dwy Ddeddf Seneddol, sy'n rheoli'r trefniadau ar gyfer cwynion a phryderon cyffredinol. Mae'r prosesau a'r materion yn hollol ar wahân. Nid ydynt yr un fath ag ymlid bwrdd iechyd am esgeulustod. Os ydych yn cwyno am safon y gofal neu os oes gennych bryder ynghylch y ffordd y mae claf yn cael ei drin yn yr ysbyty, mae hynny yn sylfaenol wahanol i ymlid bwrdd iechyd am weithred o esgeulustod mewn camwedd. Mae'n ddrwg gennyf ein bod mewn sefyllfa lle mae'r ddau fater hyn sy'n hollol ar wahân wedi cael eu taflu at ei gilydd. Yr wyf yn hapus â'r rheoliadau gan eu bod yn dod â'r Mesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2008 i rym, ond yr wyf yn bryderus am rai o'r newidiadau y mae'r Gweinidog yn eu cyflwyno mewn perthynas â chwynion a phryderon.

Yn ei adroddiad i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol, mae Llywodraeth Cymru wedi dweud nad oedd yn realistig i symud y cyfrifoldeb am ymchwilio i bryderon wrth sefydliadau'r GIG eu hunain. Yr wyf yn cytuno â hynny. Yr wyf yn cytuno, mewn unrhyw broses lle mae corff cyhoeddus i ddysgu oddi wrth ei gamgymeriadau, fod yn rhaid i'r corff cyhoeddus gymryd rhan o gynnal ymchwiliad. Fodd bynnag, os oes gennych system sy'n caniatáu i sefydliad cyhoeddus gynnal ymchwiliad, mae angen system sy'n darparu golwg annibynnol ar gywirdeb y casgliadau y daethpwyd iddynt.

Mae'r Llywodraeth wedi ceisio mynd i'r afael â hyn drwy ddweud y bydd cleifion yn cael mynediad at gyngor clinigol annibynnol, ac y bydd y claf yn rhan o ddewis y cyngor clinigol annibynnol hwnnw, ond nid yw hynny'n agos at fod yn system adolygu annibynnol. Yr wyf wedi cyfarfod â rhai unigolion sydd wedi bod yn rhan o'r system adolygu annibynnol. Maent wedi cyfrannu'n helaeth at sicrhau bod gan y ffordd y mae

and concerns are handled in the NHS has that level of independence, giving the patient and the family absolute certainty that what is being done is being done correctly. They are highly professional and capable. This afternoon, we are being asked to vote for a much more watered-down system and level of independent review of the way in which the health boards conduct these investigations. Therefore, we are losing the greater level of independence that we had before these regulations were put to us this afternoon. My fear is that if they are voted through this afternoon, in the future, we will have something that is not as robust as that which the people of Wales have enjoyed.

My concern is that nowhere in the explanatory memorandum, the consultation document or the response that was given to the Constitutional Affairs Committee has the Government attempted to justify why the independent review system needs to be phased out in its entirety. There is nothing in there to justify or explain why the system has to be changed in that way. If an explanation could be provided, it is possible that Members' fears and concerns could be allayed, but, until that time, I do not see many colleagues in the Chamber this afternoon being able to support these regulations as currently drafted.

Edwina Hart: To address some of the concerns that Jonathan has outlined to me, particularly about independent review, independent review has been useful in the past, but it is no longer fit for purpose. The time has come for the whole system of dealing with concerns to be revitalised. We have to put this into perspective. The number of cases going through independent review is very small. It is actually fewer than 4 per cent of all the complaints made to the NHS in Wales each year, and yet the process is quite costly, at about £0.5 million per annum with the clinical advice commissioned. The effect of independent review is also limited: it prolongs the time taken to look at a complaint and does not provide good value for money. Most of the cases are returned to the NHS organisations for further attempts at resolving the matter and an extremely small number go to panel. Panels often duplicate the investigations already undertaken locally and

cwynion a phryderon yn cael eu trin yn y GIG y lefel hwnnw o annibyniaeth, gan roi sicrwydd absoliwt i'r claf a'r teulu bod yr hyn sy'n cael ei wneud yn cael ei wneud yn gywir. Maent yn hynod broffesiynol a galluog. Y prynhawn yma, gofynnir inni bleidleisio dros system a lefel o adolygiad annibynnol o'r ffordd y mae'r byrddau iechyd yn cynnal yr ymchwiliadau hyn sy'n llawer gwannach. Felly, yr ydym yn colli'r lefel uwch o annibyniaeth a oedd gennym cyn y cyflwynwyd y rheoliadau inni'r prynhawn yma. Fy ofn yw, os oes pleidlais drostynt y prynhawn yma, yn y dyfodol, bydd gennym rywbeth nad yw mor gadarn â'r hyn y mae pobl Cymru wedi mwynhau.

Fy mhryder yw nad yw'r Llywodraeth wedi ceisio cyfiawnhau yn unman—yn y memorandwm esboniadol, y ddogfen ymgynghori neu'r ymateb a roddwyd i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol—pam fod angen dirwyn y system adolygu annibynnol i ben yn ei chyfarwydd. Nid oes unrhyw beth yno i gyfiawnhau neu esbonio pam fod yn rhaid newid y system yn y ffordd honno. Pe bai modd darparu esboniad, mae'n bosibl y gallai ofnau a phryderon Aelodau gael eu tawelu, ond, tan hynny, ni welaf sut y bydd llawer o'm cyd-Aelodau yn y Siambr y prynhawn yma'n gallu cefnogi'r rheoliadau hyn fel y'u drafftwyd ar hyn o bryd.

Edwina Hart: I roi sylw i rai o'r pryderon a amlinellodd Jonathan i mi, yn enwedig am adolygiad annibynnol, mae adolygiad annibynnol wedi bod yn ddefnyddiol yn y gorffennol, ond nid yw bellach yn addas at y diben. Daeth yn amser adfywio'r system gyfan o ymdrin â phryderon. Mae'n rhaid inni roi hyn mewn persbectif. Mae nifer yr achosion sy'n mynd drwy adolygiad annibynnol yn fach iawn. Mewn gwirionedd, mae'n llai na 4 y cant o'r holl gwynion a wnaed i'r GIG yng Nghymru bob blwyddyn, ac eto mae'r broses yn eithaf costus—tua £0.5 miliwn y flwyddyn gyda'r cyngor clinigol a gomisiynir. Mae effaith adolygiad annibynnol yn gyfyngedig hefyd: mae'n ymestyn yr amser a gymerir i edrych ar gŵyn ac nid yw'n darparu gwerth da am arian. Mae'r rhan fwyaf o'r achosion yn cael eu dychwelyd i'r sefydliadau GIG ar gyfer ymdrechion pellach i ddatrys y mater ac mae nifer eithriadol o fach yn mynd i'r panel. Mae

many people end up going to the ombudsman as well as having an independent review. In some cases, that is because they have not been happy with the independent review process. This time and money would be better spent on getting the NHS organisation to deal more thoroughly and effectively with the concern from the outset rather than having further stages later on. We must now have a philosophy of 'do it once and do it well' when it comes to handling concerns.

Jonathan Morgan: I understand the rationale that you are using, but my concern is that, by scrapping an independent review, and merely allowing a patient to be involved in the selection of an independent clinician, you are making an assumption that the only concern and complaint that a patient would have is of a clinical nature, whereas it may be about the level of care and whether not the doctors or nurses were timely in helping a patient who may have been in distress, for example. You are assuming that the concern will always be clinical. If the concern is not purely of a clinical nature, there will be no independent look at it whatsoever.

Edwina Hart: I understand the point that you are making, but I feel that I am right to bring these regulations to the Chamber today to deal with these matters.

There is some talk about how it is not right that NHS organisations should be allowed to investigate themselves or to decide whether fault and harm have been caused. NHS organisations have always investigated complaints about their services, and I acknowledge that they may not always have done so well, but that is precisely what we want to change. Allowing organisations to look at what they have done wrong is part of their learning experience. Taking that out of the hands of the NHS would run counter to the requirement of learning lessons. The regulations enable a wide range of persons to give notification of their concerns, including the staff of health service bodies, and they also place an obligation on the Welsh NHS bodies in relation to concerns that allege that harm has or may have been caused to

paneli yn aml yn dyblygu archwiliadau a wnaed eisoes yn lleol ac mae llawer o bobl yn y pen draw yn mynd at yr ombudsmon yn ogystal â chael adolygiad annibynnol. Mewn rhai achosion, mae hynny oherwydd nad ydynt wedi bod yn hapus gyda'r broses adolygu annibynnol. Buasai'n well treulio'r amser a gwario'r arian hyn ar gael y sefydliad GIG i drin y pryder yn fwy trylwyr ac effeithiol o'r cychwyn yn hytrach na chael camau pellach yn nes ymlaen. Rhaid inni bellach feddu ar athroniaeth o wneud rhywbeth unwaith a'i wneud yn dda wrth ymdrin â phryderon.

Jonathan Morgan: Yr wyf yn deall y rhesymeg yr ydych yn ei defnyddio, ond fy mhryder yw, drwy gael gwared ar adolygiad annibynnol, a dim ond caniatáu i glaf gymryd rhan wrth ddewis clinigwr annibynnol, eich bod yn rhagdybio mai pryder a chwyn o natur glinigol yn unig a fuasai gan glaf, ond efallai y bydd am lefel y gofal a ph'un ai fu'r meddygon neu'r nyrsys yn amserol o ran helpu claf a allai fod wedi bod mewn trallod, er enghraifft. Yr ydych yn rhagdybio y bydd y pryder bob amser yn glinigol. Os nad yw'r pryder yn unig o natur glinigol, ni fydd golwg annibynnol arno o gwbl.

Edwina Hart: Yr wyf yn deall y pwynt yr ydych yn ei wneud, ond teimlaf fy mod yn iawn i ddod â'r rheoliadau hyn i'r Siambr heddiw i ddelio â'r materion hyn.

Mae rhywfaint o sôn am sut nad yw'n iawn fod gan sefydliadau'r GIG yr hawl i ymchwilio eu hunain neu i benderfynu a achoswyd bai a niwed. Mae sefydliadau'r GIG bob amser wedi ymchwilio i gwynion am eu gwasanaethau, ac yr wyf yn cydnabod ei fod yn bosibl nad ydynt bob amser wedi gwneud hynny'n dda, ond dyna'n union yr hyn yr ydym am ei newid. Mae caniatáu sefydliadau i edrych ar yr hyn y maent wedi'i wneud o'i le yn rhan o'u profiad dysgu. Buasai cymryd hynny allan o ddwylo'r GIG yn mynd yn groes i'r gofyniad o ddysgu gwersi. Mae'r rheoliadau yn galluogi amrywiaeth eang o bobl i roi gwybod am eu pryderon, gan gynnwys staff cyrff y gwasanaeth iechyd, ac maent hefyd yn gosod dyletswydd ar gyrrff GIG Cymru mewn perthynas â phryderon sy'n honni bod niwed

determine whether the harm was the fault of that body.

People are also saying that the new arrangements will mean that the NHS will be able to do what it likes, and that this will all be swept under the carpet. That is not true; that is certainly not the case. The NHS organisations will have a number of duties, such as to consider whether obtaining independent clinical opinion might help to resolve issues, and the use of mediation or alternative dispute resolution. The ombudsman's office has made preparations for an expected increase in cases, which I am sure will mean that cases will be dealt with within reasonable timescales.

People are also alleging that there are problems with NHS organisations in that they will be unable to deal with matters within the timescale. The NHS has been preparing for these changes for some time. Interim guidance was issued in October 2009 asking organisations to start putting structures in place and to integrate teams. An implementation project was commenced in mid 2010 to identify training and development needs, and there have been programmes on openness, legal training and awareness of the new arrangements, which commenced in January. There has been considerable investment in training and there has been an e-learning package. I am therefore sure that the NHS will be in a good state to implement all of this.

Mark Isherwood alluded to community health councils. They have also received investment in their advocacy services, and the advocates are receiving further training in order to prepare them for the new arrangements. Like all Members, I am aware of the interested groups and parties that have written to us all, who are concerned about how these matters are being dealt with. Mark constantly said in his contribution, 'They say'. Well, I say, in respect of the Association of Personal Injury Lawyers, that I am quite disappointed that it felt the need to make those criticisms about a new system that I believe will give access to justice more easily. The regulations are clear about how the redress elements will work and

wedi neu a all fod wedi cael ei achosi i benderfynu ai bai'r corff hwnnw oedd y niwed.

Mae pobl hefyd yn dweud y bydd y trefniadau newydd yn golygu y bydd y GIG yn gallu gwneud fel y mynna, ac y bydd hyn i gyd yn cael ei ysgubo o dan y carped. Nid yw hynny'n wir; yn sicr nid yw hynny'n wir. Bydd gan sefydliadau'r GIG nifer o ddyletswyddau, fel ystyried a allai cael barn glinigol annibynnol helpu i ddatrys materion, a'r defnydd o gyfryngu neu ddatrysiadau anghydfodau amgen. Mae swyddfa'r ombwdsmon wedi gwneud paratodau ar gyfer cynnydd disgwylidig mewn achosion, ac yr wyf yn sicr y bydd hynny'n golygu y bydd achosion yn cael eu trin o fewn amserlenni rhesymol.

Mae pobl hefyd yn honni bod problemau gyda sefydliadau GIG o ran na fyddant yn gallu ymdrin â materion o fewn yr amserlen. Mae'r GIG wedi bod yn paratoi ar gyfer y newidiadau hyn ers cryn amser. Cyhoeddwyd canllawiau dros dro ym mis Hydref 2009 yn gofyn i sefydliadau ddechrau rhoi strwythurau yn eu lle ac integreiddio timau. Dechreuwyd prosiect gweithredu yng nghanol 2010 i nodi anghenion hyfforddi a datblygu, a bu rhaglenni ar fod yn agored, hyfforddiant cyfreithiol ac ymwybyddiaeth o'r trefniadau newydd, a ddechreuodd ym mis Ionawr. Bu buddsoddiad sylweddol mewn hyfforddiant a bu pecyn e-ddysgu. Yr wyf felly'n siŵr y bydd y GIG mewn cyflwr da i weithredu hyn i gyd.

Cyfeiriodd Mark Isherwood at gynghorau iechyd cymuned. Maent hefyd wedi derbyn buddsoddiad yn eu gwasanaethau eiriolaeth, ac mae'r eiriolwyr yn cael hyfforddiant pellach er mwyn eu paratoi ar gyfer y trefniadau newydd. Fel pob Aelod, yr wyf yn ymwybodol o'r grwpiau a phartion sydd â diddordeb sydd wedi ysgrifennu atom i gyd, sy'n pryderu am sut mae'r materion hyn yn cael eu trin. Dywedodd Mark yn gyson yn ei gyfraniad, 'Maent yn dweud'. Wel, yr wyf i'n yn dweud, mewn perthynas â Chymdeithas Cyfreithwyr Anafiadau Personol, fy mod yn siomedig iawn y teimlodd fod angen gwneud y beirniadaethau hynny am system newydd yr wyf yn credu y bydd yn darparu mynediad

it is not a case of the NHS being judge and jury. If an NHS body does not believe that it is at fault after initial investigation under the regulations, then it will have to explain why, and, if a body feels that it is or may have been at fault, then more investigations will be undertaken. A lot of training has gone on within the NHS to prepare it for that. I therefore commend these regulations to the Chamber.

Y Llywydd: Y cwestiwn yw bod cytuno ar y cynnig. Gwelaf fod gwrthwynebiad, felly yr wyf yn gohirio pleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y bleidlais tan y cyfnod pleidleisio.
Vote deferred until voting time.*

*Daeth y Dirprwy Lywydd (Rosemary Butler) i'r Gadair am 4.52 p.m.
The Deputy Presiding Officer (Rosemary Butler) took the Chair at 4.52 p.m.*

Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ar gyfer 2009-10
The Annual Report for 2009-10 of Her Majesty's Chief Inspector of Education and Training in Wales

The Deputy Presiding Officer: I have selected amendment 1 in the name of Nick Ramsay and amendments 2 and 3 in the name of Peter Black.

Cynnig NDM4679 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi adroddiad blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn) ar gyfer 2009-10; ac

2. Yn croesawu'r cyfraniad a wnaed gan yr adroddiad blynyddol i'r sylfaen dystiolaeth ar safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

The Minister for Children, Education and Lifelong Learning (Leighton Andrews): I move the motion.

I start by placing on record my thanks to Ann

haws at gyfiawnder. Mae'r rheoliadau yn glir ynghylch sut y bydd yr elfennau gwneud iawn yn gweithio ac ni fydd y GIG yn farnwr ac yn rheithgor. Os nad yw corff GIG yn credu ei fod ar fai ar ôl ymchwiliad cychwynnol o dan y rheoliadau, yna bydd yn rhaid iddo egluro pam, ac, os yw corff yn teimlo ei fod, neu y gallai fod, wedi bod ar fai, yna cynhelir mwy o ymchwiliadau. Mae llawer o hyfforddiant wedi mynd ymlaen o fewn y GIG i'w baratoi ar gyfer hynny. Felly, cymeradwyaf y rheoliadau hyn i'r Siambr.

The Presiding Officer: The proposal is to agree the motion. I see that there is objection, therefore I defer voting on this item until voting time.

Y Dirprwy Lywydd: Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Nick Ramsay a gwelliannau 2 a 3 yn enw Peter Black.

Motion NDM4679 Jane Hutt

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Notes the annual report for 2009-10 of Her Majesty's Chief Inspector of Education and Training in Wales (ESTYN); and

2. Welcomes the contribution made by the annual report to the evidence base on education and training standards in Wales.

Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes (Leighton Andrews): Cynigaf y cynnig.

Dechreuaf drwy gofnodi fy nioch i Ann

Keane and the Estyn team for their work in producing this substantial report. The report looks back over 2009-10, but also over the full six years of the inspection cycle from 2004, and provides a useful assessment of progress over that period. It concludes that, while progress has been made, it has not gone far enough nor has it been fast enough. Worryingly, the chief inspector states in her foreword:

‘Overall, standards of education and training in Wales have been maintained or improved since 2004, but improvement has been slow, particularly in schools.’

I am particularly concerned that the report concludes that there is a lack of improvement in the maintained schools sector. In primary schools, overall standards increased only slightly over the six-year period, although the proportion of lessons and the quality of teaching that was judged increased over the cycle. In secondary schools, the proportion with good or better standards has stayed much the same, although the proportion with outstanding standards has increased over the cycle. The results of teacher assessments of seven-year-olds have changed little in the past six years. Results in Welsh as a first language and science improved a little, while English and mathematics were similar to 2004. At age 11, there was an increase of 6 per cent in the proportion of pupils achieving the expected level in all core subjects, but at ages 11 and 14 there was a drop in the percentage of pupils achieving above the expected level over the period since 2004.

Coming so soon on the back of the Programme for International Student Assessment results in December, this annual report confirms what PISA has already told us: there are failings at every level of the school system. There is no group of learners unaffected. However, there are some positives; not all is gloom. The report acknowledges that good practice has developed in some sectors, such as in early years, where standards are higher now than they were six years ago, and in further education, where standards are now much

Keane a thîm Estyn am eu gwaith yn llunio'r adroddiad sylweddol hwn. Mae'r adroddiad yn edrych yn ôl dros 2009-10, ond hefyd dros chwe blynedd lawn y cylch arolygu o 2004, ac mae'n darparu asesiad defnyddiol o gynnydd dros y cyfnod hwnnw. Daw i'r casgliad, er bod cynnydd wedi'i wneud, nad yw wedi mynd yn ddigon pell ac na fu'n ddigon cyflym. Mae'n destun pryder bod y prif arolygydd yn dweud yn ei rhagair:

‘At ei gilydd, mae safonau addysg a hyffoddiant yng Nghymru wedi cael eu cynnal neu eu gwella er 2004, ond mae'r gwelliant wedi bod yn araf, yn enwedig mewn ysgolion.’

Yr wyf yn enwedig yn bryderus bod yr adroddiad yn dod i'r casgliad bod yna ddiffyg gwelliant yn y sector ysgolion a gynhelir. Mewn ysgolion cynradd, cynyddodd safonau cyffredinol ond ychydig dros y cyfnod o chwe blynedd, er y cynyddodd y gyfran o wersi a'r ansawdd addysgu a arfarnwyd yn ystod y cylch. Mewn ysgolion uwchradd, mae'r gyfran gyda safonau da neu well wedi aros fwy neu lai'r un fath, er bod y gyfran gyda safonau rhagorol wedi cynyddu yn ystod y cylch. Mae canlyniadau asesiadau athrawon o blant saith oed heb newid llawer yn ystod y chwe blynedd diwethaf. Gwellodd canlyniadau yn y Gymraeg fel iaith gyntaf a gwyddoniaeth ychydig, tra yr oedd Saesneg a mathemateg yn debyg i 2004. Yn 11 oed, bu cynnydd o 6 y cant yng nghyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig yn yr holl bynciau craidd, ond o ran y rhai a oedd yn 11 ac 14 oed bu gostyngiad yn y ganran o ddisgyblion yn cyrraedd yn uwch na'r lefel a ddisgwyliir dros y cyfnod ers 2004.

Yn dod mor fuan wedi canlyniadau'r Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr ym mis Rhagfyr, mae'r adroddiad blynyddol hwn yn cadarnhau'r hyn y mae PISA eisoes wedi ei ddweud wrthym: mae methiannau ar bob lefel y gyfundrefn ysgolion. Nid oes unrhyw grŵp o ddysgwyr heb eu heffeithio. Fodd bynnag, mae yna rai pethau cadarnhaol; nid yw popeth yn dywyll. Mae'r adroddiad yn cydnabod bod arfer da wedi datblygu mewn rhai sectorau, fel yn y blynyddoedd cynnar, lle mae safonau yn uwch yn awr nag yr oeddent chwe blynedd yn ôl, ac mewn

higher than they were in 2004, with learners achieving two thirds of the qualifications for which they were entered in 2009-10, which is an increase of over 25 per cent over the period. The report also acknowledges that the new initiatives put in place over recent years are beginning to pay dividends: the foundation phase, learning pathways for 14 to 19-year-olds and the Welsh baccalaureate have captured the imagination of children and young people. They are helping students to develop essential skills to become more confident and independent and better prepared for the next level of education.

The report also shows us, through its case studies, that there are examples of good practice. We need to spread that good practice, as I said in my statement on 2 February. We use the school effectiveness framework as the vehicle for driving improvement. We know that the best performing systems are those that focus on a limited number of priorities, such as literacy and numeracy. They also ensure the availability of data, which is critical to reform. The proper use of data is fundamental to a successful education system. As Ann Keane states in the report:

‘One important key to improvement is having transparent and shared data on progress so that intervention and support can be planned. Benchmarking performance makes it possible to challenge performance.’

That is why we have developed the all-Wales core schools data set, which provides common analyses, produced centrally for all primary and secondary schools in Wales. Those datasets are core for Estyn inspection teams. I have made it clear to Estyn, as I said in my statement on 2 February, that we need to be clear that school governing bodies are discussing all relevant data. That is why we are also going to be introducing a national system for the grading of schools. As the chief inspector states:

addysg bellach, lle mae safonau yn llawer uwch yn awr nag yr oeddent yn 2004, gyda dysgwyr yn llwyddo i gael dau o bob tri chymhwyster y rhoddwyd eu henwau i lawr ar eu cyfer yn 2009-10, sy'n gynydd o dros 25 y cant dros y cyfnod. Mae'r adroddiad hefyd yn cydnabod bod y mentrau newydd a roddwyd ar waith dros y blynnyddoedd diwethaf yn dechrau dwyn ffrwyth: mae'r cyfnod sylfaen, llwybrau dysgu ar gyfer dysgwyr 14 i 19 oed a bagloriaeth Cymru wedi dal dychymyg plant a phobl ifanc. Maent yn helpu myfyrwyr i ddatblygu sgiliau hanfodol i ddod yn fwy hyderus ac annibynnol ac yn barotach ar gyfer y lefel nesaf o addysg.

Mae'r adroddiad hefyd yn dangos i ni, drwy ei astudiaethau achos, fod enghreifftiau o arfer da. Mae angen i ni ledaenu'r arfer da hwnnw, fel y dywedais yn fy natganiad ar 2 Chwefror. Yr ydym yn defnyddio'r fframwaith effeithiolrwydd ysgolion fel cyfrwng ar gyfer gyrru gwelliant. Yr ydym yn gwybod mai'r systemau sy'n perfformio orau yw'r rhai sy'n canolbwyntio ar nifer gyfyngedig o flaenoriaethau, fel llythrennedd a rhifedd. Maent hefyd yn sicrhau argaeledd data, sy'n hanfodol ar gyfer diwygio. Mae'r defnydd priodol o ddata yn sylfaenol i system addysg lwyddiannus. Fel y noda Ann Keane yn yr adroddiad:

‘Un ffordd bwysig o ysgogi gwella yw cael data tryloyw a hawdd eu rhannu ynglŷn â chynnydd er mwyn gallu cynllunio ar gyfer ymyriadau a chynnig cymorth. Mae meincnodi perfformiad yn hwyluso'r broses o herio perfformiad.’

Dyna pam yr ydym wedi datblygu set ddata graidd ysgolion Cymru, sy'n darparu dadansoddiadau cyffredin, a gynhyrchir yn ganolog ar gyfer pob ysgol gynradd ac uwchradd yng Nghymru. Mae'r setiau data hynny yn greiddiol ar gyfer timau arolygu Estyn. Yr wyf wedi ei gwneud yn glir i Estyn, fel y dywedais yn fy natganiad ar 2 Chwefror, bod angen inni fod yn glir bod cyrff llywodraethu ysgolion yn trafod yr holl ddata perthnasol. Dyna pam y byddwn hefyd yn cyflwyno system genedlaethol ar gyfer graddio ysgolion. Fel y dywed y prif arolygydd:

‘The lack of a commonly understood system and baseline and subsequent assessments also limit our ability to evaluate the effectiveness of interventions and new ways of working.’

Well, no more: we have the data, they will be used, and we will drive up improvements at each and every school. We are committed to driving up performance; that is a matter of leadership and honesty and of facing the facts that are before us. I outlined a programme of 20 action points at the beginning of last month. We are now implementing those, we are creating a school standards unit, and we are making sure that everybody in the system understands what needs to be done to drive up performance.

Gwelliant 1 Nick Ramsay

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i roi sylw i'r heriau a nodwyd yn adroddiad Estyn fel blaenoriaeth genedlaethol.

Paul Davies: I move amendment 1.

I am pleased to have the opportunity to take part in this debate today and to move the amendment in the name of Nick Ramsay on behalf of the Welsh Conservatives. I welcome the findings of the 2009-10 annual report, and the contribution of Ann Keane and all the staff behind the report in their efforts to ensure that the Welsh education system is meeting the needs of learners. It is essential that our children are given the best possible opportunities through the education system in Wales and that they have access to first-class facilities. While I welcome the positive aspects of the report and the fact that there are some encouraging signs, there are some urgent challenges that need addressing. Standards in nearly a third of schools across Wales are simply not good enough. As Ann Keane states:

‘We need to raise standards relative to other countries.’

The first issue that I would like to look at briefly is literacy. I appreciate that this issue

‘Mae'r ffaith nad oes system o asesiadau sylfaenol ac asesiadau dilynol sy'n hawdd i bawb ei deall yn cyfyngu hefyd ar ein gallu i arfarnu pa mor effeithiol yw ymyriadau a ffyrdd newydd o weithio.’

Wel, dim mwy: mae gennym y data, byddant yn cael eu defnyddio, a byddwn yn gyrru gwelliannau i fyny ym mhob un ysgol. Yr ydym wedi ymrwymo i wella perfformiad; mae hynny'n fater o arweinyddiaeth a gonestrwydd ac o wynebu'r ffeithiau sydd ger ein bron. Amlinellais raglen o 20 pwynt gweithredu ddechrau fis diwethaf. Yr ydym yn awr yn eu gweithredu, yr ydym yn creu uned safonau ysgol ac yr ydym yn gwneud yn siŵr bod pawb yn y system yn deall yr hyn sydd angen ei wneud i wella perfformiad.

Amendment 1 Nick Ramsay

Add as new point at end of motion:

Calls on the Welsh Assembly Government to address the challenges identified in the Estyn report as a matter of national priority.

Paul Davies: Cynigaf welliant 1.

Yr wyf yn falch o gael y cyfle i gymryd rhan yn y ddadl hon heddiw ac i gynnig y gwelliant yn enw Nick Ramsay ar ran y Ceidwadwyr Cymreig. Yr wyf yn croesawu canfyddiadau adroddiad blynyddol 2009-10, a chyfraniad Ann Keane a'r holl staff y tu ôl i'r adroddiad yn eu hymdrechion i sicrhau bod system addysg Cymru yn diwallu anghenion dysgwyr. Mae'n hanfodol bod ein plant yn cael y cyfleoedd gorau posibl drwy'r system addysg yng Nghymru a bod ganddynt fynediad at gyfleusterau o'r radd flaenaf. Er fy mod yn croesawu agweddau cadarnhaol yr adroddiad a'r ffaith fod rhai arwyddion calonogol, mae rhai heriau brys sydd angen sylw. Nid yw safonau mewn bron i draean o ysgolion ledled Cymru yn ddigon da. Fel mae Ann Keane yn datgan:

‘Mae angen i ni wella safonau o gymharu â gwledydd eraill.’

Y mater cyntaf yr hoffwn edrych arno'n fyr yw llythrennedd. Yr wyf yn sylweddoli bod y

has been under a huge spotlight in recent months and it is something that we continue to debate in the Chamber. I have always welcomed the idea of a four-year national literacy programme when it has been discussed in the past, and we on this side of the Chamber remain committed to tackling literacy in any way possible. However, it is extremely worrying to think that 40 per cent of children leaving primary school have a reading age lower than their actual age. A recent survey of more than 17,000 young people by the National Literacy Trust showed that 39 per cent of girls read every day, compared with just 28 per cent of boys. As we are aware, reading from a young age can seriously improve a child's ability to perform well in all subjects. That again reaffirms that literacy should be a national priority. There still appears to be a severe lack of comparative data in our assessment system, which means that identifying areas of concern is a problem. If we cannot identify a problem, then it is obviously difficult to attempt to solve it. In his response to the debate, I would be interested to hear the Minister's comments on the current assessment system, which he did allude to earlier, and what further plans he has for tackling the issue of the lack of comparative data.

5.00 p.m.

I appreciate that this is not the only problem in tackling literacy and numeracy in Wales, and I acknowledge that the Welsh Assembly Government is taking steps to address some of the problems that are highlighted in the report. The Minister has announced that he will create a standards unit, which he referred to earlier, and which will lead performance and provide challenge on a national basis. I welcome that important step, and I hope that, in his response, the Minister will divulge more information about the standards unit and the timescales that he is looking at for setting up the unit and making it fully functional.

Another aspect of the report that I would like to touch upon is teaching. A key message in the report is that there needs to be a

mater hwn wedi bod o dan sylw mawr yn y misoedd diwethaf ac mae'n rhywbeth yr ydym yn parhau i'w drafod yn y Siambr. Yr wyf bob amser wedi croesawu'r syniad o raglen llythrennedd genedlaethol bedair blynedd pan ei fod wedi cael ei drafod yn y gorffennol, ac yr ydym ar yr ochr hon i'r Siambr yn parhau i fod wedi ymrwymo i fynd i'r afael â llythrennedd mewn unrhyw ffordd bosibl. Fodd bynnag, mae'n destun pryder aruthrol bod gan 40 y cant o blant sy'n gadael ysgol gynradd oedran darllen is na'u hoed gwirioneddol. Dangosodd arolwg diweddar o fwy na 17,000 o bobl ifanc gan yr Ymddiriedolaeth Llythrennedd Genedlaethol bod 39 y cant o ferched yn darllen bob dydd, o gymharu â dim ond 28 y cant o fechgyn. Fel yr ydym yn ymwybodol, gall darllen o oedran ifanc wella gallu plentyn i berfformio'n dda ym mhob pwnc yn ddirfawr. Mae hynny eto yn cadarnhau y dylai llythrennedd fod yn flaenoriaeth genedlaethol. Mae'n ymddangos o hyd bod diffyg difrifol o ddata cymharol yn ein system asesu, sy'n golygu bod nodi'r meysydd sy'n peri pryder yn broblem. Os na allwn nodi problem, mae'n amlwg yn anodd i geisio ei datrys. Yn ei ymateb i'r ddadl, buaswn yn hoffi clywed sylwadau'r Gweinidog ar y system asesu presennol, y cyfeiriodd ati yn gynharach, a pha gynlluniau pellach sydd ganddo i fynd i'r afael â'r mater o ddiffyg data cymharol.

Yr wyf yn sylweddoli nad hwn yw'r unig broblem wrth fynd i'r afael â llythrennedd a rhifedd yng Nghymru, ac yr wyf yn cydnabod bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cymryd camau i fynd i'r afael â rhai o'r problemau a amlygir yn yr adroddiad. Mae'r Gweinidog wedi cyhoeddi y bydd yn creu uned safonau, y cyfeiriodd ati yn gynharach, a fydd yn arwain perfformiad ac yn darparu her yn genedlaethol. Yr wyf yn croesawu'r cam pwysig hwnnw, ac yr wyf yn gobeithio, yn ei ymateb, y bydd y Gweinidog yn datgelu rhagor o wybodaeth am yr uned safonau a'r amserlen y mae'n edrych arno ar gyfer sefydlu'r uned a'i wneud yn gwbl weithredol.

Agwedd arall ar yr adroddiad yr hoffwn gyffwrdd arno yw addysgu. Neges allweddol yn yr adroddiad yw bod angen rhaglen o

programme of training in important areas, such as behaviour, and guidance on teaching pupils who have additional learning needs. I fully accept that the Minister has committed to revising and reviewing teaching in Wales, including extending teachers' powers last autumn, but I would be interested to hear what further steps the Welsh Assembly Government is taking to deal with issues such as pupil behaviour, which can massively affect learning in many of our classrooms. The report also looks at leadership and management issues, and highlights the fact that local authorities could do more to support the strategic direction of their schools. We all want to see a decrease in the number of schools that cause concern.

I am pleased that, in Welsh-medium and English-medium primary schools, standards in Welsh as a first and second language have improved over the past six years, and that, in English-medium schools, there is now more contact with the Welsh language. However, the report states that we still face the challenge of exposing our children to Welsh outside the classroom. Perhaps the Minister could outline in his response the provisions that are in place to ensure that our children are constantly exposed to the language while learning it. What provisions are in place to encourage parents who are non-Welsh speakers to take up learning the language?

A number of achievements are mentioned in the report. For example, there are encouraging signs in early years provision, further education and in work-based learning, which the Minister referred to earlier. However, ultimately, the report was a damning verdict on education standards in Wales. Following the publication of the Programme for International Student Assessment results, addressing standards has become a national priority.

I welcome a number of the steps that the Minister is now taking to address some of these problems, and I hope that we can put an end to current trends in that respect, so that

hyfforddiant mewn meysydd pwysig, megis ymddygiad, ac arweiniad ar addysgu disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Yr wyf yn derbyn yn llwyr fod y Gweinidog wedi ymrwymo i ddiwygio ac adolygu addysgu yng Nghymru, yn cynnwys ymestyn pwerau athrawon yr hydref diwethaf, ond byddai gennyf ddiddordeb i glywed pa gamau pellach y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i ymdrin â materion fel ymddygiad disgyblion, sy'n gallu effeithio'n aruthrol ar ddysgu mewn llawer o'n hystafelloedd dosbarth. Mae'r adroddiad hefyd yn edrych ar faterion arweinyddiaeth a rheolaeth, ac yn tynnu sylw at y ffaith y gallai awdurdodau lleol wneud mwy i gefnogi cyfeiriad strategol eu hysgolion. Yr ydym i gyd am weld gostyngiad yn nifer yr ysgolion sy'n achosi pryder.

Yr wyf yn falch bod safonau mewn Cymraeg fel iaith gyntaf ac ail iaith wedi gwella dros y chwe blynedd diwethaf mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg, a bod mwy o gyswllt â'r iaith Gymraeg yn awr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn datgan ein bod dal i wynebu'r her o roi profiad o Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth i'n plant. Efallai y gallai'r Gweinidog amlinellu yn ei ymateb y darpariaethau sydd ar waith i sicrhau bod ein plant yn cael profiad cyson o'r iaith wrth ei dysgu. Pa ddarpariaethau sydd ar waith i annog rhieni di-Gymraeg i fanteisio ar ddysgu'r iaith?

Crybwyllir nifer o gyflawniadau yn yr adroddiad. Er enghraifft, mae arwyddion calonogol yn y ddarpariaeth ar gyfer blynyddoedd cynnar, addysg bellach ac mewn dysgu yn y gwaith, y cyfeiriodd y Gweinidog atynt yn gynharach. Fodd bynnag, yn y pen draw, yr oedd yr adroddiad yn ddamniol ar safonau addysg yng Nghymru. Yn dilyn cyhoeddi canlyniadau'r Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr, mae mynd i'r afael â safonau wedi dod yn flaenoriaeth genedlaethol.

Yr wyf yn croesawu nifer o'r camau y mae'r Gweinidog bellach yn eu cymryd i fynd i'r afael â rhai o'r problemau hyn, a gobeithiaf y gallwn roi terfyn ar dueddiadau cyfredol yn

our children can leave our education system with a strong set of key skills that benefit our economy's long-term future.

Gwelliant 2 Peter Black

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y bydd asesiadau Estyn yn y dyfodol yn cael eu gwella drwy fuddsoddi mewn premiwm disgybl i wella cyrhaeddiad disgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Gwelliant 3 Peter Black

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y bydd asesiadau Estyn yn y dyfodol yn cael eu gwella drwy fuddsoddi'n iawn i gynnis cyfleoedd hyfforddi a datblygu i athrawon.

Jenny Randerson: I move amendments 2 and 3.

I am grateful for the chance to speak in this important debate on the report—it is a pleasant change from having to ask an urgent question. The past few months have seen the Government's failures on education bubble to the surface. In December, the PISA results were published. I will not go into that grief again; the key thing is that they showed that we are falling further behind other countries. I would not seek to blame it all on the most recent Minister, although he has hardly been a stabilising influence.

A child's life chances are determined at a very early age. Education is not simply about who we send to university, but who aspires to go in the first place. I want to take the Estyn report in the context of the previous report in 2009. It warned that too many learners were being allowed to underachieve, and that the brightest and most disadvantaged pupils were not getting the help that they need. The then chief inspector of education and training, Bill Maxwell, said that he wanted to tackle mediocrity and to bring the weaker providers up to the level of the best. That, clearly, has

hynny o beth, fel y gall ein plant adael ein system addysg gyda set gadarn o fedrau allweddol sydd o fudd i ddyfodol hirdymor ein heconomi.

Amendment 2 Peter Black

Add as new point at end of motion:

Believes that future Estyn assessments will be improved by investing in a pupil premium to improve the attainment of pupils from disadvantaged backgrounds.

Amendment 3 Peter Black

Add as new point at end of motion:

Believes that future Estyn assessments will be improved by investing properly to offer training and development opportunities for teachers.

Jenny Randerson: Cynigiau welliannau 2 a 3.

Yr wyf yn ddiolchgar am y cyfle i siarad yn y ddafl bwysig hon ar yr adroddiad—mae'n newid dymunol o orfod gofyn cwestiwn brys. Mae'r misoedd diwethaf wedi gweld methiannau'r Llywodraeth ar addysg yn codi i'r wyneb. Ym mis Rhagfyr, cyhoeddwyd y canlyniadau PISA. Ni fanylaf ar y tralod hwnnw eto; y peth allweddol yw y dangoswyd ein bod yn mynd ymhellach y tu ôl i wledydd eraill. Ni fyddwn yn ceisio rhoi'r bai i gyd ar y Gweinidog mwyaf diweddar, er go brin fod ei ddylanwad wedi sefydlogi pethau.

Pennir cyfleoedd bywyd plentyn ar oedran cynnar iawn. Nid yw addysg yn syml ynghylch pwy yr ydym yn ei anfon i brifysgol, ond ynghylch pwy sy'n dyheu mynd yn y lle cyntaf. Hoffwn osod adroddiad Estyn yng nghyd-destun yr adroddiad blaenorol yn 2009. Rhybuddiodd fod gormod o ddysgwyr yn cael eu caniatáu i dangyflawni, ac nad oedd y disgyblion mwyaf disgrair a mwyaf difreintiedig yn cael y cymorth y mae arnynt ei angen. Dywedodd y prif arolygydd addysg a hyfforddiant ar y pryd, Bill Maxwell, ei fod am fynd i'r afael â

not happened. Even in 2009, Estyn highlighted deep concern over the underperformance of pupils from deprived backgrounds, with the inspectorate saying that the poorest pupils were falling behind similar pupils in England.

Therefore, the recent shower—or heavy hailstorm—of bad news in the form of the Estyn report and the PISA results has not come out of the blue; the black clouds have been gathering for a long time. Labour seems to accept mediocrity. For many years now, we have been told, ‘It is not good now, but it will improve. We will try harder. It has been a problem in the past, but we are onto it now.’ Unfortunately, this portfolio of platitudes has been ineffective in changing things.

Leighton Andrews: Would you like to tell the Chamber which of the 20 actions that I outlined in my statement on 2 February you disagree with?

Jenny Randerson: I am coming to those.

We have a real problem in Wales in terms of educational achievement. Despite the Minister’s recent announcement, there are still no obvious signs of a turnaround. The Minister has talked about urgency. I wholeheartedly agree that the situation is urgent. It is a pity that his predecessors did not regard it as such.

Today’s report states that a key factor in the unemployment rate of young males is the low level of literacy skills, which exacerbates the failure of the Government’s attempts to tackle the issue of young people not in education, employment or training. At the other end of the scale, this report notes that the proportion of more able pupils who achieve above the expected level has generally fallen between 2004 and 2010. That is a serious downward trend. As a nation, we should not just be dealing with those who underachieve at the bottom; we should be dealing with those who underachieve at the

chyffredinedd a chodi’r darparwyr gwannach i lefel y goreuon. Mae’n amlwg nad yw hynny wedi digwydd. Hyd yn oed yn 2009, tynnodd Estyn sylw at bryder mawr am danberfformio disgyblion o gefndiroedd difreintiedig, gyda’r arolygiaeth yn dweud bod y disgyblion tlotaf yn syrthio ar ôl disgyblion tebyg yn Lloegr.

Felly, nid oedd y gawod ddiweddar—neu’r storm genllysg trwm—o newyddion drwg ar ffurf adroddiad Estyn a’r canlyniadau PISA yn gwbl annisgwyl; mae’r cymylau duon wedi bod yn ymgasglu ers amser maith. Ymddengys fod Llafur yn derbyn cyffredinedd. Am nifer o flynyddoedd bellach, dywedwyd wrthym, ‘Nid yw’n dda yn awr, ond bydd yn gwella. Byddwn yn ymdrechu’n galetach. Mae wedi bod yn broblem yn y gorffennol, ond rydym yn gweithio arno nawr.’ Yn anffodus, mae’r portffolio hwn o ystrydebau heb newid pethau.

Leighton Andrews: A hoffech chi ddweud wrth y Siambr pa un o’r 20 o gamau gweithredu y crybwyllais yn fy natganiad ar 2 Chwefror yr ydych yn anghytuno ag ef?

Jenny Randerson: Yr wyf yn dod at y rheiny.

Mae gennym broblem go iawn yng Nghymru o ran cyflawniad addysgol. Er gwaethaf cyhoeddiad diweddar y Gweinidog, nid oes unrhyw arwyddion amlwg o dro ar fyd. Mae’r Gweinidog wedi sôn am frys. Cytunaf yn llwyr fod y sefyllfa yn un brys. Mae’n drueni nad oedd ei ragflaenwyr yn ei ystyried felly.

Mae adroddiad heddiw yn datgan mai ffactor allweddol yng nghyfradd ddiweithdra dynion ifanc yw’r lefel isel o sgiliau llythrennedd, sy’n gwaethygu methiant ymdrechion y Llywodraeth i fynd i’r afael â’r mater o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Ar ben arall y raddfa, nodar adroddiad hwn bod cyfran y disgyblion mwy galluog sydd yn cyrraedd yn uwch na’r lefel a ddisgwylir yn gyffredinol wedi gostwng rhwng 2004 a 2010. Mae hynny’n duedd ar i lawr difrifol. Fel cenedl, ni ddylem fod yn ymdrin â’r sawl sy’n tangyflawni ar y gwaelod yn unig; dylem fod

very top. We should be inspiring and improving the most able in our society and our schools.

The report also discusses the lack of comparable data on the literacy and numeracy levels of pupils because authorities measure them in different ways, and I am pleased that the Minister is tackling that issue. It is a fundamental issue that demonstrates that professionals do not trust each other's judgments. Reading the report, I am also particularly concerned about community schools not being created systematically in rural areas and the deprived areas that need them most.

There is a whole catalogue of other things of significant concern, and I repeat to the Minister that money does not make the whole difference, but the £604 funding gap certainly has a considerable impact.

Finally, in terms of this report, we will be supporting the Conservative amendment, but we are pretty astonished at their hypocrisy when we consider the impact on education funding of ring-fencing the health budget.

Brian Gibbons: As the Minister has said, the Estyn report highlights that some progress is being made in education in Wales. Again, as the Minister said, substantial issues remain unaddressed. The progress that is being made is not as rapid as in other parts of the United Kingdom, in the Organisation for Economic Co-operation and Development or in other countries in different parts of the world. Although progress is being made, there is still an unacceptably large number of children who are not achieving adequate educational outcomes in Wales.

As the PISA report indicated, what may seem to be a national difference at a superficial level is often an issue of social justice in education. There are social and economic circumstances, advantages and disadvantages at the heart of educational outcomes. The PISA report stated that 75 per cent of the

yn ymdrin â'r sawl sy'n tangyflawni ar y brig. Dylem fod yn ysbrydoli ac yn gwella'r mwyaf galluog yn ein cymdeithas ac yn ein hysgolion.

Mae'r adroddiad hefyd yn trafod y diffyg data cymharol ar lefelau llythrennedd a rhifedd disgyblion gan fod awdurdodau yn eu mesur mewn ffyrdd gwahanol, ac yr wyf yn falch bod y Gweinidog yn mynd i'r afael â'r mater hwnnw. Mae'n fater sylfaenol sy'n dangos nad yw gweithwyr proffesiynol yn ymddiried eu dyfarniadau ei gilydd. Wrth ddarllen yr adroddiad, yr wyf hefyd yn arbennig o bryderus am nad yw ysgolion cymunedol yn cael eu creu yn systematig mewn ardaloedd gwledig a'r ardaloedd difreintiedig sydd eu hangen fwyaf.

Mae catalog cyfan o bethau eraill sy'n peri pryder sylweddol, ac yr wyf yn ailadrodd i'r Gweinidog nad yw arian yn gwneud y gwahaniaeth i gyd, ond mae'r bwlch cyllido o £604 yn sicr yn cael effaith sylweddol.

Yn olaf, o ran yr adroddiad hwn, byddwn yn cefnogi gwelliant y Ceidwadwyr, ond yr ydym yn synnu braidd ar eu rhagrith pan ystyriwn effaith neilltuo'r gyllideb iechyd ar gyllido addysg.

Brian Gibbons: Fel y mae'r Gweinidog wedi ei ddweud, mae adroddiad Estyn yn amlygu bod rhywfaint o gynnydd yn cael ei wneud mewn addysg yng Nghymru. Unwaith eto, fel y dywedodd y Gweinidog, mae materion sylweddol yn parhau heb fod wedi cael eu trin. Nid yw'r cynnydd sy'n cael ei wneud cyn gyflymed â'r hyn sy'n digwydd mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, yn y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd neu mewn gwledydd eraill mewn rhannau gwahanol o'r byd. Er bod cynnydd yn cael ei wneud, mae nifer annerbyniol o fawr o blant nad ydynt yn cyflawni canlyniadau addysgol digonol yng Nghymru.

Fel y dangosodd yr adroddiad PISA, gall yr hyn a ymddengys fel gwahaniaeth cenedlaethol ar lefel arwynebol yn aml fod yn fater o gyfiawnder cymdeithasol mewn addysg. Mae amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd, manteision ac anfanteision, wrth wraidd canlyniadau addysgol. Dywedodd yr

variation in educational performance in the United Kingdom can be explained by socioeconomic variables. One of my criticisms of the Estyn report is that, while it does acknowledge, in places, that socioeconomic disadvantage is a factor in poor educational outcomes, I do not think that it has addressed this issue as systematically or systemically as it should. Here is a quote from the report:

‘There is a strong statistical link between poverty and low educational results.’

However, this is not just a statistical link; there is a very real and organic link between educational outcomes and the socioeconomic circumstances in which people find themselves. If we merely regard it as being a statistical, rather than organic, fact, we are not going to get our teeth into the subject matter. Estyn has reported, and the PISA results have demonstrated, that some schools are more successful in helping disadvantaged learners to do well, despite the fact that the school faces challenging circumstances. However, ‘some’ clearly implies ‘a few’. We need to move from ‘some’ to ‘most’ or, indeed, why not ‘all’? That should not be an unreasonable ambition. Estyn and PISA highlighted a number of common areas that must be tackled if we are to bring social justice to the heart of our education agenda and allow all of our children to contribute positively to their own future and the future wellbeing of Wales.

It is worth highlighting a number of areas. First, we need to be ambitious for our children. If we do not have that ambition, our children are not going to achieve. The Estyn report says that promoting high expectations of standards is crucial for all of our children. Secondly, we need to monitor progress effectively and put remedial steps in place, or build on existing success. To do that, we need a well-validated assessment process. This applies throughout the educational cycle, although the report highlights that the abolition of key stage testing in 2005 left a vacuum that still needs to be addressed effectively. Thirdly, successful schools have greater autonomy to address the needs of

adroddiad PISA y gellir egluro 75 y cant o'r amrywiad mewn perfformiad addysgol yn y Deyrnas Unedig gan newidynnau cymdeithasol-economaidd. Un o'm beirniadaethau o'r adroddiad Estyn yw, er ei fod yn cydnabod, mewn manau, fod anfantais economaidd-gymdeithasol yn ffactor mewn canlyniadau addysgol gwael, nid wyf yn credu ei fod wedi mynd i'r afael â'r mater hwn mor systematig neu systemig ag y dylai. Dyma ddyfyniad o'r adroddiad:

‘Mae cysylltiad ystadegol cryf rhwng tlodi a chanlyniadau addysgol isel.’

Fodd bynnag, nid yw hyn yn unig yn gysylltiad ystadegol; mae cysylltiad go iawn ac organig rhwng canlyniadau addysgol ac amgylchiadau economaidd-gymdeithasol pobl. Os ystyriwn ef fel ffaith ystadegol, yn hytrach nag organig, nid ydym yn mynd i ddal gafael ar y pwnc. Mae Estyn wedi adrodd, ac mae'r canlyniadau PISA wedi dangos, fod rhai ysgolion yn fwy llwyddiannus o ran helpu dysgwyr dan anfantais i wneud yn dda, er gwaethaf y ffaith fod yr ysgol yn wynebu amgylchiadau heriol. Fodd bynnag, mae 'rhai' yn amlwg yn awgrymu 'ychydig'. Mae angen i ni symud o 'rhai' i 'y rhan fwyaf' neu, yn wir, beth am 'holl'? Ni ddylai hynny fod yn uchelgais afresymol. Tynnodd Estyn a PISA sylw at nifer o feysydd cyffredin y mae'n rhaid mynd i'r afael â hwy os ydym i ddod â chyfiawnder cymdeithasol at wraidd ein hagenda addysg a chaniatáu i bob un o'n plant gyfrannu'n gadarnhaol at eu dyfodol eu hunain a lles Cymru yn y dyfodol.

Mae'n werth tynnu sylw at nifer o feysydd. Yn gyntaf, mae angen i ni fod yn uchelgeisiol ar gyfer ein plant. Os nad oes gennym yr uchelgais hwnnw, ni fydd ein plant yn cyflawni. Mae adroddiad Estyn yn dweud bod hyrwyddo disgwyliadau uchel o safonau yn hanfodol ar gyfer ein holl blant. Yn ail, mae angen i ni fonitro cynnydd yn effeithiol a rhoi camau adferol ar waith, neu adeiladu ar lwyddiant presennol. Er mwyn gwneud hynny, mae angen proses asesu sydd wedi ei ddilysu yn dda. Mae hyn yn berthnasol gydol y cylch addysgol, er bod yr adroddiad yn amlygu y gwnaeth diddymu profion cyfnod allweddol yn 2005 adael gwagle sy'n dal angen mynd i'r afael ag ef yn effeithiol. Yn

their learners. However, they must have a resilient accountability process in place. This includes better parent engagement and much better engagement through governors and local education authorities, which must be more effective in delivering, challenging and holding education to account for what it is delivering. In many of our most disadvantaged communities, parents and governors do not feel well enough equipped to exercise this challenge and accountability. Here, our LEAs have a crucial role in making this accountability happen at the parental and governor level.

Finally, the report highlights the performance differential between boys and girls. There is 10 per cent underperformance among boys across the board in secondary education, and this increases to 17 per cent in a number of subject areas. This is an area that needs specific attention in the context of the wider social equality agenda, and I look forward to the proposals that the Assembly Government and the Minister will bring forward to address this particular area.

Kirsty Williams: I would like to begin by thanking the Minister for finally bringing this debate to the Chamber and by focusing the positive parts of the inspectors' report. There is so much to be critical of that it might be easy to skip over the fact that there are some signs of real improvement in our education system. I am particularly pleased to see the comments from the inspector on further education. This is a sector of the education system that is too often ignored and is not given credit for the role that it plays. The big improvements seen in the FE sector are a testament to the hard work of the principals and other staff working in that sector and should be acknowledged, as should the improvements in the early years sector.

Without doubt, some schools in our communities are doing extremely well, and I can think of a few in my constituency that have achieved a grade 1 score across the inspection board. However, the crucial word there is 'few'. In fact, it is very few. Even in

drydydd, mae gan ysgolion llwyddiannus fwy o annibyniaeth i fynd i'r afael ag anghenion eu dysgwyr. Fodd bynnag, rhaid iddynt gael proses atebolrwydd cadarn ar waith. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltiad gwell â rhieni ac ymgysylltu llawer gwell â llywodraethwyr ac awdurdodau addysg lleol, sydd yn gorfod bod yn fwy effeithiol wrth ddarparu, herio a dal addysg i gyfrif am yr hyn y mae'n ei gyflawni. Mewn llawer o'n cymunedau mwyaf difreintiedig, nid yw rhieni a llywodraethwyr yn teimlo'n ddigon cymwys i herio a dal i gyfrif. Yn hyn o beth, mae gan ein hawdurdodau addysg lleol rôl hanfodol o ran gwneud i'r dal i gyfrif hwn gan rieni a llywodraethwyr ddigwydd.

Yn olaf, mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y gwahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn a merched. Mae tanberfformio o 10 y cant ymysg bechgyn drwy gydol addysg uwchradd, ac mae hyn yn cynyddu i 17 y cant mewn nifer o bynciau. Mae hwn yn faes sydd angen sylw penodol yng nghyd-destun yr agenda cydraddoldeb cymdeithasol ehangach, ac edrychaf ymlaen at y cynigion y bydd Llywodraeth y Cynulliad a'r Gweinidog yn eu cyflwyno i fynd i'r afael â'r ardal benodol hon.

Kirsty Williams: Hoffwn ddechrau drwy ddiolch i'r Gweinidog am ddod â'r ddaid hon i'r Siambr o'r diwedd a chanolbwyntio ar rannau cadarnhaol adroddiad yr arolygwyr. Mae cymaint i fod yn feirniadol yn ei gylch y gallai fod yn hawdd i sgipio dros y ffaith bod rhai arwyddion o welliant go iawn yn ein system addysg. Yr wyf yn arbennig o falch i weld y sylwadau gan yr arolygydd ar addysg bellach. Mae'r sector hwn o'r system addysg yn cael ei anwybyddu yn rhy aml ac nid yw'n cael clod am y rhan y mae'n ei chwarae. Mae'r gwelliannau mawr a welwyd yn y sector addysg bellach yn dyst i waith caled y penaethiaid a staff eraill sy'n gweithio yn y sector hwnnw a dylai gael ei gydnabod, fel y dylai'r gwelliannau yn y sector blynyddoedd cynnar.

Heb amheuaeth, mae rhai ysgolion yn ein cymunedau yn gwneud yn dda iawn, a gallaf feddwl am ychydig yn fy etholaeth sydd wedi cyflawni sgôr gradd 1 ym mhob maes gan y bwrdd arolygiad. Fodd bynnag, y gair allweddol yw 'ychydig'. Yn wir, mae'n

a relatively prosperous county such as Powys, too many of our schools are not delivering for our children. Any child in Wales, regardless of where they live and the economic status of their parents, deserves to attend an excellent school within their community; a school that supports those who struggle with learning, stretches those who are academically gifted and brings out the best in all our children.

5.15 p.m.

The Minister challenged my colleague Jenny Randerson to outline the areas that we disagree with in his list of 20 points; the challenge should, perhaps, not be to us, but to his coalition colleagues. It seems that they disagree with rather a lot from Nerys Evans's speech this afternoon. Rather than it being an insult on your intelligence or anyone else's intelligence, Minister, I think that it is right that we have a unified way of assessing our schools across Wales. It is also right that we have a unified way of assessing each child within those schools. I have personal experience in my own family of a child who was assessed as doing fine by the teacher, only to find that, when an independent assessment tool was brought in, she is below the expected reading age. We need to ensure that there are robust systems in all our schools to keep track of individual attainment. I do not think that parents are necessarily interested in scoring school against school; they just want the reassurance that their child is where they should be for their age, and achieving up to the best of their potential. People are not interested in playing school against school; they just want to know that their child is doing okay and is not being failed by the system.

It is right that we need to look again at how we train our teachers, especially in initial teacher training and in continuing professional development. One of the damning issues in this report is that continuing professional development does not focus on how it will lead to improvements within the classroom. It is also a damning indictment that the course that we expect our aspiring headteachers to undertake

ychedig iawn. Hyd yn oed mewn sir gymharol lewyrchus fel Powys, mae gormod o'n hysgolion nad ydynt yn darparu ar gyfer ein plant. Mae pob plentyn yng Nghymru, waeth ble maent yn byw a waeth beth yw statws economaidd eu rhieni, yn haeddu mynychu ysgol ardderchog o fewn eu cymuned; ysgol sy'n cefnogi'r sawl sy'n cael anhawster gyda dysgu, yn ymestyn y sawl sy'n ddawnus yn academaidd a dod â'r gorau allan o bob un o'n plant.

Heriodd y Gweinidog fy nghyd-Aelod, Jenny Randerson, i amlinellu'r meysydd yr ydym yn anghytuno â hwy yn ei restr o 20 pwynt; ni ddylai, efallai, ein herio ni ond yn hytrach ei gydweithwyr yn y glymblaid. Ymddengys eu bod yn anghytuno â chryn dipyn o araith Nerys Evans y prynhawn yma. Yn hytrach na bod yn sarhad ar eich gallu deallusol neu allu deallusol unrhyw un arall, Weinidog, yr wyf yn credu ei bod yn iawn fod gennym ffordd unedig o asesu ein hysgolion ledled Cymru. Mae hefyd yn iawn fod gennym ffordd unedig o asesu pob plentyn yn yr ysgolion hynny. Mae gennyf brofiad personol yn fy nheulu fy hun o blentyn a oedd yn gwneud yn iawn yn ôl asesiad yr athro, dim ond i ddarganfod, pan gyflwynwyd offeryn asesu annibynnol, ei bod yn is na'r oedran darllen disgwylidig. Mae angen i ni sicrhau bod systemau cadarn yn ein holl ysgolion i gadw cofnod o gyrhaeddiad unigol. Nid wyf yn credu bod gan rieni o reidrwydd ddiddordeb mewn sgorio ysgol yn erbyn ysgol; maent ond eisiau cael y sicrwydd bod eu plentyn yn lle y dylai fod ar gyfer ei oed, ac yn cyrraedd hyd at eithaf eu potensial. Nid oes gan bobl ddiddordeb mewn chwarae ysgol yn erbyn ysgol; maent ond eisiau gwybod bod eu plentyn yn gwneud yn iawn ac nad yw'n cael ei fethu gan y system.

Mae'n iawn fod angen i ni edrych eto ar sut yr ydym yn hyfforddi ein hathrawon, yn enwedig mewn hyfforddiant cychwynnol i athrawon ac mewn datblygiad proffesiynol parhaus. Un o'r materion damniol yn yr adroddiad hwn yw nad yw datblygiad proffesiynol parhaus yn canolbwyntio ar sut y bydd yn arwain at welliannau o fewn yr ystafell ddosbarth. Mae hefyd yn ddamniol nad yw'r cwrs yr ydym yn disgwyl i'n darpar

so that they are qualified to lead a school does not reflect current best practice in school leadership and teaching. At all levels, whether at initial teacher training, in continuing professional development or in qualifying to be a school leader, our teachers deserve the very best support. We cannot go on to criticise them for not delivering for our children unless we have backed them in the first instance.

It is right that Brian noted the issue of flexibility within schools. We need to look at whether our curriculum currently allows schools to be flexible in their approach to the learning needs of each individual child. However, you are also right to have appropriate challenge within that system. We need to look at our governance arrangements and at whether they really allow for critical challenge in a school setting.

That brings me on to the role of local education authorities. Turning around to say that it is not their job, because of the local management of schools, is not enough. Each local education authority has a school improvement team, and they need to be monitored to ensure that they are doing the job of driving that challenge on the ground, along with the governors.

Turning quickly to another issue, transition seems key if we are to improve results at the age of 16. I pay tribute to the work done in schools such as Newport High School, which has an excellent way of dealing with transition and is really making a difference to pupils.

Finally, Brian made the link between poorer families and educational attainment. That is why we will not stop talking about the need to attach a premium to those pupils, so that schools that have a large number of pupils—or even one or two—from a more deprived background have the tools that they need to do the job for those children.

Nerys Evans: Diolch am y cyfle i gyfrannu. Hoffwn ddiolch i Estyn am ei waith pwysig. Yr ydym yn gwerthfawrogi ei gyfraniad i'r

benaeithiaid i ymgymryd fel eu bod yn gymwys i arwain ysgol yn adlewyrchu arfer gorau cyfredol mewn arweinyddiaeth ysgolion a dysgu. Ar bob lefel, boed hynny mewn hyfforddiant cychwynnol i athrawon, mewn datblygiad proffesiynol parhaus neu wrth gymhwysu i fod yn arweinydd ysgol, mae ein hathrawon yn haeddu'r gefnogaeth orau. Ni allwn fynd ymlaen a'u beirniadu am beidio â darparu ar gyfer ein plant oni bai ein bod wedi eu cefnogi yn y lle cyntaf.

Mae'n iawn fod Brian wedi nodi hyblygrwydd o fewn ysgolion. Mae angen i ni edrych ar a yw ein cwricwlwm presennol yn caniatáu ysgolion i fod yn hyblyg yn eu hagwedd at anghenion dysgu pob plentyn unigol. Fodd bynnag, yr ydych hefyd yn iawn i gael her briodol o fewn y system honno. Mae angen i ni edrych ar ein trefniadau llywodraethu ac ystyried a ydynt mewn gwirionedd yn caniatáu her feirniadol mewn ysgolion.

Daw hynny â mi at rôl awdurdodau addysg lleol. Nid yw'n ddigon i droi o gwmpas a dweud nad dyna yw eu gwaith, oherwydd rheolaeth leol ysgolion. Mae gan bob awdurdod addysg lleol dîm gwella ysgolion, ac mae angen eu monitro i sicrhau eu bod yn gwneud y gwaith o yrru'r her honno ar lawr gwlad, ynghyd â'r llywodraethwyr.

Gan droi yn gyflym at fater arall, ymddengys fod pontio yn allweddol os ydym am wella canlyniadau 16 oed. Talaf deyrnged i'r gwaith a wnaed mewn ysgolion fel Newport High School, sydd â ffordd ardderchog o ymdrin â phontio ac sydd yn gwneud gwahaniaeth go iawn i ddisgyblion.

Yn olaf, gwnaeth Brian y cysylltiad rhwng teuluoedd tlotach a chyrhaeddiad addysgol. Dyna pam na fyddwn yn rhoi'r gorau i siarad am yr angen i atodi premiwm i'r disgyblion hynny, er mwyn i ysgolion sydd â nifer fawr o ddisgyblion—neu hyd yn oed un neu ddau—o gefndir mwy difreintiedig gael yr offer sydd eu hangen arnynt i weithio dros y plant hynny.

Nerys Evans: Thank you for the opportunity to contribute. I would like to thank Estyn for its important work. We greatly appreciate its

gyfundrefn addysg yn fawr.

Mae'r materion y mae Estyn wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad blynyddol yn dangos bod safonau wedi'u cynnal ers 2004, gyda gwelliannau yn digwydd yn araf. Cafwyd llwyddiannau gyda bagloriaeth Cymru, y cyfnod sylfaen ac yn y blaen, sy'n dda i weld. Fel yr amlinellwyd, mae'r adroddiad hefyd wedi dangos pryderon difrifol, a dylai'r rheini fod yn destun pryder i bob un ohonom.

Mae'r diffygion o ran sgiliau sylfaenol eisoes wedi cael cryn dipyn o sylw. Mae Plaid Cymru wedi amlinellu ei gweledigaeth i drawsnewid y sefyllfa a chael gwared ar anllythrennedd. Dylai hynny fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth nesaf Cymru. Yr ydym am weld lefelau anllythrennedd yn haneru erbyn 2015 a bron yn diflannu erbyn 2020. Yr ydym wedi amlinellu ein cynlluniau darllen i'r plant ieuengaf, cynllun y rhwyd diogelwch ar gyfer plant wyth oed â lefelau is na'r disgwyl a rhyddid i athrawon yn y maes. Nid oes dwywaith mai sicrhau sgiliau sylfaenol digonol yw'r flaenoriaeth i ni. Fel y dywedodd Paul Davies, mae'n annerbyniol bod gan chwarter y boblogaeth sgiliau ysgrifennu a rhifo sy'n is na rhai disgybl 11 oed. Yr ydym hefyd am adolygu'r cwricwlwm cenedlaethol er mwyn sefydlu technoleg gwybodaeth fel sgil craidd.

Mae nifer o bethau wedi'u hamlinellu yn adroddiad Estyn—fel y dywedodd Kirsty, llawer gormod o bethau inni gyfeirio atynt i gyd mewn dadl fer y prynhawn yma. Hoffwn ganolbwyntio, felly, ar sylwadau Estyn ynglŷn ag addysg cyfrwng Cymraeg, a'r cynnydd a wnaed. Er bod cydnabyddiaeth bod cynnydd yn nifer y dosbarthiadau cynradd ac uwchradd a addysgir yn bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg, mae'n ymddangos nad oedd unrhyw gynnydd mewn addysg ôl-16 mewn rhai rhannau o Gymru. Mae diffygion eraill wedi'u cydnabod hefyd yn y maes hwn, gan gynnwys diffyg gwybodaeth i ddysgwyr ynglŷn â chyfleoedd i wella sgiliau a diffyg anogaeth i rai dysgwyr rhugl i gymryd addysg cyfrwng Cymraeg neu ddatblygu addysg ddwyieithog ymhellach. Y gobaith yw y bydd strategaeth addysg Gymraeg y Llywodraeth, a gyhoeddwyd ar ddechrau'r flwyddyn ddiwethaf, yn mynd i'r

contribution to the education system.

The issues highlighted by Estyn in the annual report demonstrate that standards have been maintained since 2004, with improvements slowly emerging. There were successes with the Welsh baccalaureate, the foundation phase and so on, which are good to see. As highlighted, the report also mentions serious concerns, which should be a matter of concern for us all.

The deficiencies in basic skills have already been mentioned extensively. Plaid Cymru has outlined its vision for transforming the situation and eliminating illiteracy. That should be a priority for the next Welsh Government. We want to see illiteracy levels halved by 2015 and almost eradicated by 2020. We have outlined our plans with regard to reading schemes for our youngest children, the safety net scheme for eight-year-olds and freedom for teachers in this area. There is no doubt that ensuring adequate basic skills is the priority for us. As Paul Davies said, it is unacceptable that a quarter of the population has numeracy and literacy skills lower than that of an 11-year-old pupil. We also want to review the national curriculum to establish IT as a core skill.

Many issues were outlined in the Estyn report—as Kirsty said, there are far too many things for us to cover in a brief debate this afternoon. Therefore, I would like to concentrate on Estyn's comments on Welsh-medium education and the progress that has been made in that area. Although there is recognition that progress has been made in the number of primary and secondary classes taught mainly through the medium of Welsh, it appears that there has been no progress in post-16 education in certain parts of Wales. Other deficiencies have been recognised in Welsh-medium education, including a lack of information for learners about opportunities to improve skills and a lack of encouragement for some fluent learners to take Welsh-medium education or to further develop bilingual skills. The hope is that the Welsh-medium strategy published by the Government at the start of last year will get

afael â'r materion hynny; gobeithio'n wir bod y gwaith o ran gwreiddu'r strategaeth honno yn mynd yn ei flaen er mwyn gwella'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i'r dyfodol.

Bu'n ddiddorol clywed sylwadau'r Ceidwadwyr, fel bob wythnos, ar y pwnc hwn. Nid oedd unrhyw sôn am y toriadau sylfaenol yn y gyllideb addysg y mae'r Ceidwadwyr am eu gweld, a fyddai'n tansilio gallu ein hysgolion, ein hawdurdodau addysg lleol a Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd yn adroddiad Estyn. Hyd yn oed yn fwy difrifol, byddai cynlluniau'r Ceidwadwyr yn tansilio'r holl gyfundrefn addysg bresennol.

Yr oedd Jenny Randerson yn sôn am y bwch cyllido rhwng Cymru a Lloegr, ac mae'r sefyllfa ariannol yn achosi pryder. Yr oedd yn sôn am ragrith y Ceidwadwyr o ran eu cynlluniau i dorri gwariant yn y maes hwn. A ydych yn derbyn, Jenny, bod tangyllido Cymru hefyd yn ffactor enfawr a bod angen i'r Llywodraeth yn Llundain weithredu fformiwla teg i Gymru ar unwaith?

Jenny Randerson: Yes, I accept that it is. Do you, therefore, welcome the commitment made by the Deputy Prime Minister this weekend that the Government would implement a Calman-type inquiry in Wales?

Nerys Evans: We have already had the Holtham report, of course, which was backed by everybody in the Assembly, as far as I remember. We need to be looking at the funding formula, not just the tax powers and what we could have in future. Before we look at that, we need to look at the unfairness of the funding formula that we already have.

Mae'r adroddiad hwn yn un amserol iawn ac mae'n gosod her i'r pedwerydd Cynulliad. Mae llawer o negeseuon pwysig iawn ynddo, ond yr un sy'n peri'r gofid mwyaf—a'r un sydd angen ei flaenoriaethu—yw'r diffygion o ran sgiliau sylfaenol ymhlith pobl ifanc. Mae'n hanfodol, wrth inni ddod drwy'r

to grips with some of those issues; I very much hope that the work on implementing that strategy is ongoing in order to ensure an improvement in Welsh-medium provision for the future.

It was interesting, as it is every week, to hear the Conservatives' comments on this issue. There was no talk about the fundamental cuts to the education budget that the Conservatives want to implement, which would undermine the ability of our schools, education authorities and the Welsh Government to get to grips with the deficiencies highlighted in the Estyn report. Even more serious is the fact that the Conservative plans would undermine the whole education system that we have at present.

Jenny Randerson mentioned the funding gap between Wales and England, and the financial situation is, of course, a concern. She mentioned the hypocrisy of the Conservatives in terms of their plans to cut spending in this area. Do you accept, Jenny, that underfunding Wales is also a huge factor and that the Government in London needs to implement a fair funding formula for Wales at once?

Jenny Randerson: Ydw, yr wyf yn derbyn ei fod. A ydych, felly, yn croesawu'r ymrwymiad a wnaed gan y Dirprwy Brif Weinidog y penwythnos hwn y byddai'r Llywodraeth yn gweithredu ymchwiliad tebyg i Calman yng Nghymru?

Nerys Evans: Yr ydym eisoes wedi cael adroddiad Holtham, wrth gwrs, a gefnogwyd gan bawb yn y Cynulliad, cyn belled ag yr wyf yn cofio. Mae angen i ni edrych ar y fformiwla ariannu, nid dim ond y pwerau trethu a'r hyn y gallem ei gael yn y dyfodol. Cyn i ni edrych ar hynny, mae angen i ni edrych ar annhegwch y fformiwla cyllido sydd gennym eisoes.

This report is very timely and sets a challenge for the fourth Assembly. It contains a number of important messages, but the one that causes the greatest concern—and that one that needs to be prioritised—is the lack of basic skills among young people. It is crucial, as we come through this global recession into

dirwasgiad byd-eang i gysgod hir toriadau ariannol enfawr yn ein gwasanaethau cyhoeddus, ein bod yn uchelgeisiol ar gyfer dyfodol y system addysg yng Nghymru. Mae'n rhaid inni fod yn uchelgeisiol os ydym am daclo'r diffygion hyn gyda'n gilydd.

Rhodri Morgan: The problems at Danescourt Primary School in my constituency following its inspection last year have prompted me to speak in this debate. It is fairly well known that, occasionally, troublesome children will be persuaded to take the week off during an inspection, but at Danescourt school, somehow or other, troublesome teachers were persuaded to absent themselves during the week of the inspection, and I therefore have reason to question the integrity of the inspection that was carried out last July, following which the problems at the school have mounted, with the suspension of the same four teachers in September. The school has really not recovered since. I find it very strange and have put this point to Estyn. How can I be persuaded of the integrity of the inspection carried out last year given that the Estyn inspectors must surely have been aware that four supply teachers were brought in that week, who were less likely to speak out of turn than the four teachers who were persuaded to absent themselves for various reasons—for good or ill? I have no idea whose side to take on this. All I know is that they were not there during the week of the inspection.

I therefore believe that the inspection gave a completely false picture of what was going on in the school. Certainly, there have been problems since then, with teachers strikes creating a really difficult situation, and I hope that that will be resolved shortly, given the length of time that it has taken to resolve the issue of the four teachers who were suspended in September following their absence from the inspection. Local authorities can always find the funds for supply teachers to be brought in to replace suspended teachers, making such a course of action easy to follow. That process essentially started with the inspection. I was told by Estyn, 'Nothing to do with us; it is entirely a local authority personnel matter'. I

the long shadow cast by cuts to public expenditure, that we are ambitious for the future of the education system in Wales. We have to be ambitious if we are to tackle these deficiencies together.

Rhodri Morgan: Mae'r problemau yn Ysgol Gynradd Danescourt yn fy etholaeth yn dilyn ei archwiliad y llynedd wedi fy annog i siarad yn y ddadl hon. Mae'n weddol hysbys, o bryd i'w gilydd, y bydd plant trafferthus yn cael eu perswadio i gymryd yr wythnos i ffwrdd yn ystod arolygiad, ond yn ysgol Danescourt, rywsut neu'i gilydd, cafodd athrawon trafferthus eu perswadio i fod yn absennol yn ystod wythnos yr arolygiad, ac, felly, mae gennyf reswm dros amau cywirdeb yr arolygiad a gynhaliwyd fis Gorffennaf diwethaf. Yn dilyn hwnnw, mae'r problemau yn yr ysgol wedi tyfu, gydag atal yr un pedwar athro ym mis Medi. Nid yw'r ysgol wedi gwella mewn gwirionedd ers hynny. Rwy'n ei chael hi'n rhyfedd iawn, ac rwyf wedi cyfleu'r pwynt hwn i Estyn. Sut y gallaf gael fy mherswadio o gywirdeb yr arolygiad a gynhaliwyd y llynedd o gofio bod yn rhaid bod arolygwyr Estyn wedi bod yn ymwybodol bod pedwar athro cyflenwi wedi cael eu dwyn i mewn yn ystod yr wythnos, a oedd yn llai tebygol o ddweud rhywbeth na ddylent na'r pedwar athro a gafodd eu perswadio i fod yn absennol am resymau amrywiol—er da neu er drwg? Nid oes gennyf unrhyw syniad pa ochr i'w gymryd ar hyn. Y cyfan a wn i yw nad oeddent yno yn ystod wythnos yr arolygiad.

Felly, yr wyf yn credu bod yr arolygiad yn rhoi darlun cwbl ffug o'r hyn a oedd yn digwydd yn yr ysgol. Yn sicr, mae problemau wedi codi ers hynny, gyda streiciau athrawon yn creu sefyllfa anodd iawn, a gobeithiaf y bydd yn cael ei ddatrys cyn bo hir, o ystyried faint o amser mae wedi cymryd i ddatrys y mater o'r pedwar athro a gafodd eu hatal dros dro ym mis Medi yn dilyn eu habsenoldeb yn ystod yr arolygiad. Gall awdurdodau lleol bob amser ddod o hyd i'r arian ar gyfer dwyn athrawon cyflenwi i mewn i gymryd lle athrawon sydd wedi eu hatal dros dro, gan wneud y fath ffordd o weithredu yn hawdd i'w dilyn. Yn y bôn, dechreuodd y broses honno gyda'r arolygiad. Dywedodd Estyn wrthyf, 'Dim byd i'w wneud gyda ni; mae'r

think that it is to do with Estyn, however, because it undermines the integrity of an inspection if inspectors never hear the views of teachers who would normally have been present had they not been told to stay away during that week.

In a way, it is an indication of problems in the management of schools, and I hope that Estyn is picking up on that, because I understand that one third of Cardiff's schools are in the 'causing concern' category. When I have spoken to Estyn representatives, they have told me that school inspections are not what they used to be; they are much more of a box-ticking exercise now. I hope that, under the new chief inspector, Estyn will henceforth try to get inspectors to really engage in the school improvement agenda rather than be box-tickers. I think that they regret the changing nature of their function and that they do want to engage in school improvement, but they fear that they have become box-tickers because inspections are too frequent and because some inspections have been outsourced to semi-professional inspectors. That has now been reversed and inspections brought back in-house, and that may be part of an agenda to get away from box-ticking and into real engagement.

You have to ask yourself whether Estyn has missed something in looking at the recently published PISA results for 2009 that gave us all a wake-up call and a Sputnik moment in looking at the quality of education in Wales. Of course, those at Estyn may be asking themselves whether they missed something in the widening gap between the apparent improvement in our school kids' knowledge and the skills that PISA measure that are the result of that knowledge. This deviation between an apparent improvement in knowledge and lack of improvement in the skills that you should have as a result of having that knowledge might be causing Estyn to engage in self-examination to find out whether it has missed something.

Jenny Randerson: Rhodri, if you look at the Estyn reports for recent years, you will see a

holl beth yn fater i staff yr awdurdod lleol'. Credaf ei fod a wnelo ag Estyn, fodd bynnag, oherwydd mae'n tanseilio cywirdeb arolygiad os nad yw arolygwyr yn clywed barn athrawon a fyddai fel arfer wedi bod yn bresennol pe na ddywedwyd wrthynt am aros draw yn ystod yr wythnos honno.

Mewn ffordd, mae'n arwydd o broblemau wrth reoli ysgolion, a gobeithio bod Estyn yn ymwybodol o hynny, oherwydd yr wyf yn deall bod traean o ysgolion Caerdydd yn y categori 'achosi pryder'. Pan wyf wedi siarad â chynrychiolwyr Estyn, maent wedi dweud wrthyf nad yw arolygiadau ysgol fel yr oeddent yn arfer bod; maent yn llawer mwy o ymarfer ticio blychau yn awr. Yr wyf yn gobeithio, o dan y prif arolygydd newydd, y bydd Estyn o hyn ymlaen yn ceisio cael arolygwyr i gymryd rhan gwirioneddol yn yr agenda gwella ysgolion yn hytrach na thicio blychau. Yr wyf yn meddwl eu bod yn gresynu at y newid yn natur eu swyddogaeth a'u bod yn dymuno cymryd rhan mewn gwella ysgolion, ond eu bod yn ofni eu bod wedi dod yn rhai sy'n ticio blychau oherwydd cynhelir arolygiadau yn rhy aml ac oherwydd bod rhai arolygiadau wedi cael eu gwneud yn allanol gan arolygwyr lled-broffesiynol. Mae hynny bellach wedi'i wrthdroi ac mae arolygiadau wedi cael eu dwyn yn ôl yn fewnol, a gall hynny fod yn rhan o agenda er mwyn dianc rhag ticio blychau at ymgysylltu go iawn.

Mae'n rhaid i chi ofyn i chi'ch hun a yw Estyn wedi colli rhywbeth wrth edrych ar y canlyniadau PISA ar gyfer 2009 a gyhoeddwyd yn ddiweddar a'n dihunodd ni i gyd ac a oedd yn eiliad Sputnik yn edrych ar ansawdd addysg yng Nghymru. Wrth gwrs, gall fod y bobl yn Estyn yn gofyn i'w hunain a wnaethant golli rhywbeth yn y bwllch cynyddol rhwng y gwelliant amlwg mewn gwybodaeth ein plant ysgol a'r sgiliau y mae PISA yn mesur sydd yn ganlyniad i'r wybodaeth honno. Gallai'r gwyrriad hwn rhwng gwelliant amlwg mewn gwybodaeth a diffyg gwelliant yn y sgiliau y dylech eu cael o ganlyniad i gael y wybodaeth honno beri bod Estyn holi ei hunan i ddarganfod a yw wedi colli rhywbeth.

Jenny Randerson: Rhodri, os ydych yn edrych ar adroddiadau Estyn ar gyfer y

repeated concern about skills levels as opposed to the knowledge base that you talk about. You can track it through Estyn's reports.

Rhodri Morgan: Looking at the PISA report, I find it rather sad that, although 132 schools in Wales took part in the research, we have not yet seen a breakdown to see whether some areas in Wales have beaten the trend of relative deterioration and done well in reading skills in particular and whether there are others that are worse than the average for Wales, which itself was not healthy at all. For instance, we are told that, at primary school level, Newport is the best authority in Wales. While Newport High School will probably be among the best in Wales, we are told that Neath Port Talbot's secondary schools are, by and large, the best in Wales up to the age of 16. If the PISA results confirm that, we could tell local authorities such as Cardiff, where one third of its schools are in the 'causing concern' category, to go over to Newport to see what it is doing in running its primary schools and what its leadership programme is, and then to Neath Port Talbot for the secondary schools. It may be difficult for people in Cardiff to accept that some in Newport might be doing things better, but that is nevertheless what they might need to do—it is not far to go. Estyn should be engaged in this process of saying to Cardiff's education department, 'You don't have very far to go; go over to Newport and see what they are doing right at primary level, then go to Neath Port Talbot to see what they are doing'. I have not yet seen that evidence in the Estyn reports of that full engagement with what is going right in some parts of Wales, even in terms of PISA performance, if we had the breakdown by authority. So, to some extent, there is a verdict on Estyn itself and a wish that it would really engage with what school inspectors used to be in the old days, when they were Her Majesty's inspectors.

blynyddoedd diwethaf, fe welwch chi bryder dro ar ôl tro am lefelau sgiliau yn hytrach na'r sylfaen o wybodaeth yr ydych yn sôn amdano. Gallwch ei olrhain drwy adroddiadau Estyn.

Rhodri Morgan: O edrych ar adroddiad PISA, yr wyf yn teimlo braidd yn drist, er bod 132 o ysgolion yng Nghymru wedi cymryd rhan yn yr ymchwil, nad ydym eto wedi gweld dadansoddiad i ganfod a oes rhai ardaloedd yng Nghymru wedi curo'r duedd o ddirywiad cymharol a gwneud yn dda mewn sgiliau darllen yn benodol ac a oes rhai eraill sydd yn waeth na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, oedd yn ei hun ymhell o fod yn iach. Er enghraifft, dywedir wrthym, ar lefel ysgol gynradd, mai Casnewydd yw'r awdurdod gorau yng Nghymru. Er y bydd Newport High School yn debygol o fod ymysg y gorau yng Nghymru, dywedir wrthym mai ysgolion uwchradd Castell-nedd Port Talbot, ar y cyfan, yw'r gorau yng Nghymru hyd at 16 oed. Os bydd canlyniadau PISA yn cadarnhau hynny, gallem ddweud wrth awdurdodau lleol fel Caerdydd, lle mae traean o'i ysgolion yn y categori 'achosi pryder', i fynd draw i Gasnewydd i weld beth mae'n ei wneud wrth redeg ei ysgolion cynradd a beth yw ei raglen arweinyddiaeth, ac yna i Gastell-nedd Port Talbot ar gyfer yr ysgolion uwchradd. Gall fod yn anodd i bobl yng Nghaerdydd i dderbyn y gallai rhai yng Nghasnewydd fod yn gwneud pethau'n well, ond serch hynny dyna beth y gallai fod angen iddynt ei wneud—nid yw'n bell i fynd. Dylai Estyn fod yn cymryd rhan yn y broses hon o ddweud wrth adran addysg Caerdydd, 'Does dim rhaid mynd yn bell iawn; ewch draw i Gasnewydd a gweld yr hyn maent yn ei wneud yn iawn ar lefel gynradd, yna ewch i Gastell-nedd Port Talbot i weld yr hyn y maent yn ei wneud'. Nid wyf wedi gweld tystiolaeth eto yn adroddiadau Estyn o'r ymgysylltiad llawn hwnnw gyda'r hyn sy'n mynd yn iawn mewn rhai rhannau o Gymru, hyd yn oed o ran perfformiad PISA, pe bai gennym y dadansoddiad fesul awdurdod. Felly, i ryw raddau, mae dyfarniad ar Estyn ei hun a dymuniad y byddai wir yn ymwneud â'r hyn roedd arolygwyr ysgol yn arfer bod yn yr hen ddyddiau, pan oeddent yn arolygwyr Ei Mawrhydi.

5.30 p.m.

Jeff Cuthbert: I welcome the opportunity to contribute to this debate. We are all agreed that the education sector faces many challenges in Wales, as this report by Estyn has highlighted. Some schools are still not delivering the standards expected of them, and too many pupils leave school without the qualifications that are needed to pursue further or higher education, if they want to do that, or to pursue other training or employment. We need to remember that higher education is not necessarily the only destination for learners. Employment or vocational and professional qualifications may be the right ticket for a lot of young people. Too many people from poorer backgrounds still have lower levels of literacy and numeracy.

The PISA results that were unveiled late last year are, of course, disappointing, but it would be misleading to suggest that it is all doom and gloom in Wales. Estyn's most recent annual report pointed out that progress is being made in most areas, with around seven out of 10 schools performing satisfactorily or better, although I am not suggesting for a moment that we should be satisfied with that outcome. We are improving standards in schools in Wales through increased funding, through the twenty-first century schools programme, the foundation phase and the schools effectiveness framework, which is designed to lift performance and improve the leadership of our schools. Crucially, we have protected the schools budget, with a 1 per cent increase above the Welsh budget.

Turning specifically to the report, it points out that the greatest improvements across the sector over the course of the education cycle has been in such areas as further education and work-based learning. This is significant, and these are areas in which I have a long-running interest. To that end, it is good that the Proposed Education (Wales) Measure proposes to place a duty on local authorities, maintained schools and the governing bodies of further education colleges to consider how they might work collaboratively when exercising their education functions, thereby helping to boost performance and spread good practice in line with the

Jeff Cuthbert: Croesawaf y cyfle i gyfrannu at y ddatl hon. Rydym i gyd yn cytuno bod y sector addysg yn wynebu llawer o heriau yng Nghymru, fel y dywedodd yr adroddiad hwn gan Estyn. Mae rhai ysgolion nad ydynt yn dal i ddarparu'r safonau a ddisgwylir ganddynt, ac mae gormod o ddisgyblion yn gadael yr ysgol heb y cymwysterau sydd eu hangen i ddilyn addysg bellach neu uwch, os ydynt am wneud hynny, neu i ddilyn hyfforddiant eraill neu gyflogaeth. Rhaid i ni gofio nad addysg uwch yw'r unig gyrchfan o reidrwydd i ddysgwyr. Gall cyflogaeth neu gymwysterau galwedigaethol a phroffesiynol fod yn llwybrau priodol i lawer o bobl ifanc. Mae gormod o bobl o gefndiroedd tlotach yn dal i feddu ar lefelau llythrennedd a rhifedd is.

Roedd y canlyniadau PISA a ddatgelwyd yn hwyr y llynedd, wrth gwrs, yn siomedig, ond byddai'n gamarweiniol awgrymu bod y darlun yn ddu i gyd yng Nghymru. Dywed adroddiad blynyddol diweddaraf Estyn bod cynnydd yn cael ei wneud yn y rhan fwyaf o ardaloedd, gyda thua saith o bob 10 ysgol yn perfformio'n foddhaol neu'n well, er nad wyf yn awgrymu am eiliad y dylem fodloni ar hynny. Rydym yn gwella safonau mewn ysgolion yng Nghymru drwy roi mwy o gyllid, drwy'r rhaglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain, y cyfnod sylfaen a'r fframwaith effeithiolrwydd ysgolion, sydd wedi'i chynllunio i wella perfformiad a gwella arweinyddiaeth ein hysgolion. Yn allweddol, rydym wedi diogelu y gyllideb ysgolion, gyda chynnydd o 1 y cant yn fwy na chyllideb Cymru.

A throi'n benodol at yr adroddiad, mae'n nodi y bu'r gwelliannau mwyaf ar draws y sector yn ystod y cylch addysg mewn meysydd fel addysg bellach a dysgu yn y gwaith. Mae hyn yn arwyddocaol, ac mae'r rhain yn feysydd y mae gennyf ddiddordeb hirhoedlog ynddynt. I'r perwyl hwnnw, mae'n dda bod y Mesur Arfaethedig Addysg (Cymru) yn bwriadu gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol, ysgolion a gynhelir a chyrrff llywodraethu colegau addysg bellach i ystyried sut y gallent weithio ar y cyd wrth arfer eu swyddogaethau addysg, gan helpu i roi hwb i berfformiad a lledaenu arfer da yn unol ag argymhellion adroddiad Webb a'n

recommendations of the Webb report and our commitments to boosting literacy and numeracy in Wales. I acknowledge Paul Davies's clear commitments and comments in this regard.

I believe that we are using our settlement from the UK Government wisely, even if it is the worst settlement since devolution began. Key policies such as the foundation phase, a long-term transformational measure that will fundamentally improve the education and life chances of our youngest children, the Welsh baccalaureate, with its emphasis on the application of knowledge, our youth strategy, and the extra £20 million invested in skills-based resources to tackle unemployment among young people, demonstrate that we are doing all that we can in Wales to address the needs and concerns of young people, particularly in deprived communities.

In conclusion, while we acknowledge that we face many challenges with regard to education in Wales, we are putting the right mechanisms in place to ensure that things will improve, with long-term initiatives such as the foundation phase and the Welsh baccalaureate, as well as more immediate reforms, such as improving further education and work-based learning to ensure that young people have the right skills to get ahead in the world of work. We are committed to improving numeracy and literacy and to protecting education spending, which the opposition parties have not done. As this report points out, there is much room for improvement, but I believe that we are on the right track.

The Minister for Children, Education and Lifelong Learning (Leighton Andrews): A wide range of subjects were picked up by Members in the course of this debate, and I will try to comment on as many as I can.

Paul Davies made some important observations about literacy, and how crucial that is to what we are seeking to achieve. I put in place at the outset priorities for the school effectiveness framework, which were literacy, numeracy and seeking to break the link between poverty and low levels of attainment. In respect of literacy, we are

hymrwymiaidau i hybu llythrennedd a rhifedd yng Nghymru. Rwyf yn cydnabod ymrwymiaidau a sylwadau clir Paul Davies yn hyn o beth.

Rwy'n credu ein bod yn defnyddio ein setliad gan Lywodraeth y DU yn ddoeth, hyd yn oed os mai dyma'r setliad gwaethaf ers dechrau datganoli. Mae polisiâu allweddol megis y cyfnod sylfaen, mesur trawsnewidiol hirdymor a fydd yn gwella cyfleoedd addysg a bywyd ein plant ieuengaf yn sylfaenol, bagloriaeth Cymru, gyda'i bwyslais ar gymhwyso gwybodaeth, ein strategaeth ieuencid, a'r £20 miliwn ychwanegol a fuddsoddiwyd mewn sgiliau sy'n seiliedig ar adnoddau i fynd i'r afael â diweithdra ymysg pobl ifanc, yn dangos ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu yng Nghymru i fynd i'r afael ag anghenion a phryderon pobl ifanc, yn enwedig mewn cymunedau difreintiedig.

I gloi, er ein bod yn cydnabod ein bod yn wynebu llawer o heriau o ran addysg yng Nghymru, rydym yn rhoi'r mecanweithiau cywir ar waith i sicrhau y bydd pethau'n gwella, gyda mentrau hirdymor megis y cyfnod sylfaen a bagloriaeth Cymru, yn ogystal â diwygiadau yn y tymor byrrach, megis gwella addysg bellach a dysgu yn y gwaith i sicrhau bod gan bobl ifanc y sgiliau cywir i lwyddo ym myd gwaith. Rydym wedi ymrwymo i wella llythrennedd a rhifedd ac i ddiogelu gwariant ar addysg, sy'n rhywbeth na wnaeth y gwrthbleidiau. Fel mae'r adroddiad hwn yn ei nodi, mae llawer o le i wella, ond credaf ein bod ar y trywydd iawn.

Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes (Leighton Andrews): Cododd Aelodau amrywiaeth eang o bynciau yn ystod y ddadl hon, a byddaf yn ceisio gwneud sylwadau ar gymaint ohonynt ag y gallaf.

Gwnaeth Paul Davies rai sylwadau pwysig am lythrennedd, a pha mor hanfodol yw hynny i'r hyn rydym yn ceisio ei gyflawni. Rhoddais flaenoriaethau ar waith ar y cychwyn i'r fframwaith effeithiolrwydd ysgolion, sef llythrennedd, rhifedd a cheisio torri'r cysylltiad rhwng tlodi a lefelau cyrhaeddiad isel. O ran llythrennedd, rydym

seeking to implement best practice, looking at schemes that have operated in west Dunbartonshire, for example. We have been drawing on the expertise of practitioners there to underpin our national literacy programme.

He also raised the issue of the assessment system, particularly at key stage 2, and there are significant issues there, to which I referred in my statement on 2 February. It is clear that secondary schools do not have huge confidence in the key stage 2 assessments that are made and will often reassess. We are looking actively at how we address those issues.

In the course of the debate, he and many other Members discussed the importance of data. We want those data to be available. I was discussing this with groups of governors on Saturday. In respect of the Welsh-medium education strategy, he was right to pick up the need to reinforce that in the community and at home with parents. That is why we have schemes in place that do that.

Jenny Randerson also commented on a wide range of issues. It is important to stress that Estyn's new common inspection framework is not covered by this report, because this report covers 2009-10, and the common inspection framework kicked in from September. It is a tougher form of assessment and dispenses with the box-ticking that Rhodri Morgan referred to in his contribution.

We are focusing upon literacy and we are making an investment in young people from deprived backgrounds. That is why we have invested in the Flying Start programme and that is why my party is committed to expanding that programme in future. We believe that, in the long term, those kinds of actions will support the work that we are undertaking to reduce the number of young people not in education, employment or training. However, I must say to Jenny Randerson that it was not our Government in London that scrapped the Future Jobs fund, which has made such a contribution to addressing youth unemployment and economic inactivity among young people.

yn ceisio gweithredu arferion gorau, gan edrych ar gynlluniau a fu ar waith yng ngorllewin Swydd Dunbarton, er enghraifft. Buom yn tynnu ar arbenigedd ymarferwyr yno i roi sail i'n rhaglen llythrennedd genedlaethol.

Soniodd hefyd am y system asesu, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2, ac mae problemau sylweddol yno, y cyfeiriais atynt yn fy natganiad ar 2 Chwefror. Mae'n amlwg nad oes gan ysgolion uwchradd ffydd mawr yn yr asesiadau cyfnod allweddol 2 a wneir, a byddant yn aml yn ailasesu. Rydym yn edrych yn frwd ar sut y byddwn yn mynd i'r afael â'r materion hynny.

Yn ystod y ddadl, soniodd ef a nifer o Aelodau eraill am bwysigrwydd data. Rydym am i'r data hwnnw fod ar gael. Roeddwn yn trafod hyn gyda grwpiau o lywodraethwyr ddydd Sadwrn. O ran y strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg, roedd yn iawn i sôn am yr angen i atgyfnerthu hynny yn y gymuned ac yn y cartref gyda rhieni. Dyna pam mae gennym gynlluniau ar waith sy'n gwneud hynny.

Soniodd Jenny Randerson hefyd am ystod eang o faterion. Mae'n bwysig pwysleisio nad yw fframwaith arolygu cyffredin newydd Estyn yn cael ei gwmpasu gan yr adroddiad hwn, gan fod yr adroddiad hwn yn cwmpasu 2009-10, ac mae'r fframwaith arolygu cyffredin yn cael ei gyflwyno o fis Medi. Mae'n fath llymach o asesu ac mae'n cael gwared ar y ticio blychau y cyfeiriodd Rhodri Morgan ato yn ei gyfraniad.

Rydym yn canolbwyntio ar lythrennedd ac rydym yn buddsoddi mewn pobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig. Dyna pam rydym wedi buddsoddi yn y rhaglen Dechrau'n Deg a dyna pam mae fy mhlaid wedi ymrwymo i ehangu'r rhaglen honno yn y dyfodol. Credwn, yn y tymor hir, y bydd y mathau hynny o gamau gweithredu yn cefnogi'r gwaith rydym yn ei wneud i leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Fodd bynnag, rhaid i mi ddweud wrth Jenny Randerson nad ein Llywodraeth ni yn Llundain a gafodd wared ar y gronfa Swyddi'r Dyfodol, a wnaeth gymaint o gyfraniad i fynd i'r afael â diweithdra ymhlith pobl ifanc ac

anweithgarwch economaidd ymysg pobl ifanc.

Brian Griffiths rightly raised the issues of socioeconomic variables and their impact upon education and demonstrated that there are schools and local authorities that are achieving—

Roedd Brian Griffiths yn gywir i godi materion am newidynnau cymdeithasol-economaidd a'u heffaith ar addysg a dangosodd bod ysgolion ac awdurdodau lleol yn cyflawni—

Rhodri Morgan: It was Brian Gibbons.

Rhodri Morgan: Brian Gibbons ddywedodd hynny.

Leighton Andrews: What did I say? Brian Griffiths? I am sorry. It was not Brian Griffiths the professor, but Brian Gibbons—I am having a senior moment—who addressed the issue of socioeconomic expectations and the fact that some local authorities are outperforming those expectations and clearly making an impact. There is no question, as Estyn has told us before, that the schools that raise performance in disadvantaged areas are often doing many of the same things as schools in other areas. It comes back to leadership. I am glad that Brian also stressed the issues of the use of data, challenge and accountability.

Leighton Andrews: Beth ddywedais i? Brian Griffiths? Mae'n ddrwg gennyf. Nid Brian Griffiths yr athro ddywedodd hynny, ond Brian Gibbons—rwyf yn cael pwl o henaint—soniodd am ddisgwyliadau economaidd-gymdeithasol a'r ffaith bod rhai awdurdodau lleol yn perfformio'n well na'r disgwyliadau hynny ac yn amlwg yn cael effaith. Nid oes amheuaeth, fel y dywedodd Estyn wrthym o'r blaen, bod yr ysgolion sy'n codi perfformiad mewn ardaloedd dan anfantais yn aml yn gwneud llawer o'r un pethau ag ysgolion mewn ardaloedd eraill. Mae'n dod yn ôl at arweinyddiaeth. Rwyf yn falch bod Brian hefyd wedi sôn am bethau fel defnyddio data, her ac atebolrwydd.

I am glad that Kirsty Williams and Jeff Cuthbert both drew attention to the very good work that has been going on in further education and the great lifting of standards that we have seen there. Kirsty Williams endorsed, I think, most of the 20 points that I outlined in my statement on 2 February. She agreed with the work that we are doing on grading. I agree with her on the points that she made about initial teacher training and continuing professional development. We are revamping the headship qualification at present. In respect of local authorities, we expect them to use their school improvement services effectively and to work together in consortia to strengthen their school improvement services, and I am glad that the Association of Directors of Education in Wales has committed to that. I agree with her about the interesting models on transition that have been adopted, which I have also seen in action in Newport High School.

Rwyf yn falch bod Kirsty Williams a Jeff Cuthbert wedi tynnu sylw at y gwaith da iawn a wnaethpwyd mewn addysg bellach a'r cynnydd mawr mewn safonau a welsom yno. Roedd Kirsty Williams, mi dybiaf, yn cymeradwyo'r rhan fwyaf o'r 20 pwynt a amlinellais yn fy natganiad ar 2 Chwefror. Cytunodd gyda'r gwaith rydym yn ei wneud ar raddio. Rwyf yn cytuno â hi ar y pwyntiau a wnaeth am hyfforddiant cychwynnol athrawon a datblygiad proffesiynol parhaus. Rydym yn ailwampio'r cymhwyster prifathrawiaeth ar hyn o bryd. O ran awdurdodau lleol, disgwyliwn iddynt ddefnyddio eu gwasanaethau gwella ysgolion yn effeithiol ac i gydweithio mewn consortia i gryfhau eu gwasanaethau gwella ysgolion, ac rwyf yn falch bod Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg yng Nghymru wedi ymrwymo i hynny. Cytunaf â hi am y modelau diddorol ar bontio sydd wedi cael eu mabwysiadu, a welais hefyd ar waith yn Ysgol Uwchradd Casnewydd.

Nerys Evans has made two speeches on education today. Perhaps she will not be

Gwnaeth Nerys Evans ddwy arraith ar addysg heddiw. Efallai na fydd yn synnu clywed fy

surprised that I enjoyed the one that she made in the Chamber slightly more than the other one. I will make one comment on the speech that she made outside the Chamber, which is that I was interested to see that all the things that had been done in education that she liked had been carried out by a Plaid Government and that all the things that she did not like had been carried out by Labour Ministers.

The issues that she raised that we were in agreement upon were in respect of what needs to be done on literacy and some of the challenges that we clearly still face in relation to post-16 Welsh-medium education. She was also right to stress throughout the challenges that we have in respect of basic skills.

I will not follow Rhodri Morgan to Danescourt Primary School. He raised a number of issues and I know that he has been in discussion with the chief inspector about those. The most important thing about where we are going now with the inspection regime is that the new common inspection framework has a much greater emphasis on looking at skills issues and on looking at best practice and spreading best practice. We are having more engagement of the full-time inspectors and, as I said, we have moved well beyond that box-ticking culture.

I am pleased that Jeff Cuthbert in his contribution reasserted the work that we have been doing respect of vocational pathways. We have pioneered the foundation phase, which will be fully rolled out from this September, and will in the long term, as Jeff said, make a major contribution to addressing some of the issues that we face. He is absolutely right to point to some of the successes within the system and to point to the fact that, in our budget this year, we have protected schools and put in an investment of 1 per cent above the money that we received from the UK Government in what was a very tough settlement.

We have a challenge, which we have not shrunk from as a Government. There are serious issues that we must address if we are to raise performance, and I am sure that we will return to them before this Assembly dissolves and when we look at the report that

mod wedi mwynhau yr un a wnaeth yn y Siambr ychydig yn fwy na'r llall. Gwnaf un sylw ar yr araith a wnaeth y tu allan i'r Siambr, sef fod gennyf ddiddordeb gweld bod yr holl bethau a oedd wedi cael eu gwneud mewn addysg roedd yn eu hoffi wedi cael eu gwneud gan Lywodraeth Plaid Cymru a bod yr holl bethau nad oedd yn eu hoffi wedi cael eu gwneud gan Weinidogion Llafur.

Mae'r materion a godwyd ganddi roeddem yn cytuno arnynt yn ymwneud â'r hyn sydd angen ei wneud ar lythrennedd a rhai o'r heriau sy'n amlwg yn ein hwynebu o ran addysg cyfrwng Cymraeg ôl-16. Roedd hefyd yn iawn i bwysleisio'r heriau sydd gennym mewn perthynas â sgiliau sylfaenol.

Ni fyddaf yn dilyn Rhodri Morgan i Ysgol Gynradd Danescourt. Cododd nifer o faterion a gwn y bu'n trafod y rheini gyda'r prif arolygydd. Y peth pwysicaf am ble rydym yn mynd yn awr gyda'r drefn arolygu yw bod y fframwaith arolygu cyffredin newydd yn cael llawer mwy o bwyslais ar edrych ar faterion sgiliau ac ar edrych ar arferion gorau a'u lledaenu. Rydym yn cael mwy o ymgysylltu gan yr arolygwyr llawn amser ac, fel y dywedais, rydym wedi symud ymhell y tu hwnt i'r diwylliant ticio blychau hwnnw.

Rwyf yn falch bod Jeff Cuthbert yn ei gyfraniad wedi ailddatgan y gwaith y buom yn ei wneud o ran llwybrau galwedigaethol. Rydym wedi arloesi'r cyfnod sylfaen, a fydd yn cael ei gyflwyno'n llawn o fis Medi ymlaen, ac a fydd, fel y dywedodd Jeff, yn y tymor hir yn gwneud cyfraniad mawr i fynd i'r afael â rhai o'r materion sy'n ein hwynebu. Mae'n hollol iawn i dynnu sylw at rai o'r llwyddiannau o fewn y system ac i dynnu sylw at y ffaith ein bod, yn ein cyllideb eleni, wedi diogelu ysgolion a rhoi buddsoddiad o 1 y cant yn uwch na'r arian a gawsom gan Lywodraeth y DU yn yr hyn oedd yn setliad anodd iawn.

Mae gennym her, nad ydym wedi gwrthod ei hwynebu fel Llywodraeth. Mae problemau difrifol y mae'n rhaid inni fynd i'r afael â hwy os ydym am wella perfformiad, ac rwyf yn siŵr y byddwn yn dychwelyd atynt cyn diddymu'r Cynulliad a phan fyddwn yn

we are shortly to receive from the structural delivery of education task and finish group, which is also looking at many of these issues. We will go ahead with a programme for the national grading of schools. That is not a return to league tables; it will have a much broader range of indicators and it will look at the added value that is being brought into the system. We will certainly invest in continuing professional development for teachers, but it will be linked to the priorities that we are setting for the schools system. It will not be a *laissez-faire* approach to CPD. We are committed to raising standards, and we are putting in place a comprehensive programme to do that.

edrych ar yr adroddiad y byddwn yn ei dderbyn wrth y grŵp gorchwyl a gorffen ar gyflwyno addysg yn strategol, sydd hefyd yn edrych ar lawer o'r materion hyn. Byddwn yn mynd yn ein blaen gyda rhaglen genedlaethol i raddio ysgolion. Nid dychwelyd i dablau cynghrair ydyw; bydd ganddo ystod llawer ehangach o ddangosyddion a bydd yn edrych ar y gwerth ychwanegol sy'n cael ei gyflwyno i'r system. Byddwn yn sicr yn buddsoddi mewn datblygiad proffesiynol parhaus i athrawon, ond bydd yn cael ei gysylltu â'r blaenoriaethau rydym yn eu gosod ar gyfer y system ysgolion. Ni fydd yn cynrychioli agwedd *laissez-faire* at DPP. Rydym wedi ymrwymo i godi safonau, ac rydym yn cyflwynio rhaglen gynhwysfawr i wneud hynny.

The Deputy Presiding Officer: The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? I see that there is objection, therefore I defer all voting on this item until voting time.

Y Dirprwy Lywydd: Y cynnig yw y dylid derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiad; felly, byddaf yn gohirio'r holl bleidleisiau ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisiau tan y cyfnod pleidleisio.
Votes deferred until voting time.*

Y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol The National Transport Plan

The Deputy Presiding Officer: I have selected amendments 1, 2 and 3 in the name of Nick Ramsay and amendments 4 and 5 in the name of Peter Black.

Y Dirprwy Lywydd: Rwyf wedi dethol gwelliannau 1, 2 a 3 yn enw Nick Ramsay a gwelliannau 4 a 5 yn enw Peter Black.

Cynnig NDM4678 Jane Hutt

Motion NDM4678 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn croesawu llwyddiant blwyddyn gyntaf y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol wrth gefnogi datblygiad rhwydwaith trafndiaeth gynaliadwy.

Welcomes the success of the first year of the National Transport Plan in supporting the development of a sustainable transport network.

Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones): Cynigaf y cynnig.

The Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport (Ieuan Wyn Jones): I move the motion.

Yr wyf yn falch iawn o'r cyfle i gynnal y drafodaeth hon, flwyddyn ar ôl cyhoeddi'r cynllun trafndiaeth cenedlaethol, sef dogfen sy'n rhoi yn eu lle y gweithrediadau yr ydym

I am pleased to have the opportunity to hold this debate, a year after I published the national transport plan, a document that sets out the actions we are taking, following the

yn eu dilyn, a hynny'n dilyn y strategaeth y cyhoeddassom ddwy flynedd ynghynt. Yr ydym yn ceisio adeiladu rhwydwaith sy'n cadw'r cydbwysedd pwysig rhwng gofynion economaidd y genedl, gofynion cymdeithasol a'r rhai amgylcheddol, sy'n rhai hollbwysig yn ein hoes ni. Felly, rhaid inni sicrhau bod ein cynllun trafndiaeth yn edrych ar sut yr ydym yn gallu helpu'r economi i dyfu, ond i wneud hynny mewn ffordd nad yw'n niweidiol i'r amgylchedd.

Yr ydym eisiau tynnu sylw heddiw at y cynnydd yr ydym wedi'i wneud, a hynny yn erbyn yr amcanion a osodwyd, gan ein bod yn ceisio, o fewn rhaglen pum mlynedd, gwneud nifer o bethau i'n hisadeiledd. Mae'r cynllun wedi'i lunio o amgylch tair egwyddor allweddol. Y gyntaf yw bodloni'r galw am well symudedd, gan ganiatáu twf economaidd a gwella hygyrchedd fel bod modd i bobl Cymru gael gafael ar swyddi a gwasanaethau. Yr ail yw gosod trafndiaeth ar lwybr mwy cynaliadwy ac ysgafnach ar garbon. Y trydydd yw defnyddio cyllid ar gyfer trafndiaeth yn fwy effeithlon yng ngoleuni'r pwysau cynyddol ar gyllid cyhoeddus. Rhaid cyfaddef fod y toriadau o safbwynt cyfalaf wedi'i gwneud hi'n anodd inni gynnal y rhaglen gyfan a osodwyd allan gennym. Yr oeddwn yn hynod siomedig fod y Ceidwadwyr yng Nghymru eisiau gweld y gyllideb yn cael ei thorri yn fwy na hynny hyd yn oed. Maent am dorri £118 miliwn o gyllideb fy adran, a fyddai'n ei gwneud yn anodd iawn inni wneud hyd yn oed yr hyn yr ydym yn amcanu ei wneud wedi'r toriadau o Lundain. Mater iddynt hwy, felly, yw ceisio perswadio pobl Cymru yn yr etholiad ym mis Mai mai eu hagwedd hwy sy'n gywir.

Mae gan ein rhwydwaith trafndiaeth ran hanfodol i'w chwarae i arwain Cymru allan o'r dirwasgiad presennol a'n gosod ar lwybr adferiad. Mae'n rhan allweddol o'n polisi adnewyddu'r economi, sef cadarnhau pwysigrwydd seilwaith o'r radd flaenaf i annog ac i lwyddo i gael twf economaidd.

5.45 p.m.

O gofio'r pwysau presennol ar gyllid cyhoeddus, mae'n hanfodol inni gael mwy allan o'n rhwydwaith trafndiaeth gan ei wneud yn symlach ac yn fwy effeithiol. Un

strategy that we published two years previously. We are trying to build a network that maintains the important balance between the nation's economic demands, social demands and environmental demands, which are all-important in our age. Therefore, we need to ensure that our transport plan looks at how we can help the economy to grow, but in a way that is not damaging to the environment.

What we want to do today is to draw attention to the progress that we have made, against the principles that were set out, as we are trying, within a five-year programme, to do several things to our infrastructure. The plan is built around three key principles. The first is to meet the demand for enhanced mobility, enabling economic growth and improving accessibility so that the people of Wales can access jobs and services. The second is to put transport onto a more sustainable and less carbon-intensive path. The third is to use transport funding more effectively in light of the increasing pressures on public finances. I must confess that the cuts to capital have made it difficult for us to maintain the programme that we set out in its entirety. I was very disappointed to hear that the Conservatives in Wales want to see that budget cut even more than that. They want to cut £118 million from my department's budget, which would make it very difficult for us to do even that which we are aiming to do following the cuts from London. It is for them, therefore, to try to persuade the people of Wales in the election in May that their attitude is the right one.

Our transport network has a crucial role to play in leading Wales out of the current recession and putting us on the road to recovery. It is a key part of our economic renewal policy, which confirms the importance of first-class infrastructure to encouraging and achieving economic growth.

Bearing in mind the current pressures on public funding, it is essential that we get more out of our transport network by making it simpler and more efficient. One prominent

thema fawr yw parhau i integreiddio'n well: gwella rhannau o'r rhwydwaith ffyrdd a rheilffyrdd i'w gwneud yn fwy diogel, yn gyflymach ac yn fwy dibynadwy, a chynnig cyfleoedd gwell i bobl gerdded a beicio. Mae hefyd yn golygu sicrhau bod yr arian sy'n cael ei fuddsoddi yn darparu rhwydwaith trafniadaeth gynaliadwy i Gymru.

Yr wyf yn gobeithio y bydd y mwyafrif o Aelodau yn cydnabod bod y cynllun trafniadaeth cenedlaethol wedi'n galluogi i edrych ar y rhwydwaith trafniadaeth yng Nghymru mewn ffordd gwbl wahanol i'r gorffennol. Yn hytrach na chanolbwyntio ar ffyrdd o deithio, yr ydym yn edrych ar goridorau. Golyga hyn y gallwn gynnig atebion holistaidd i broblemau penodol. Nid ar y ffyrdd y mae'r ateb i broblemau traffig bob tro. Mae dull coridor y cynllun trafniadaeth yn caniatáu inni edrych ar atebion ehangach, sy'n fwy cynaliadwy. Enghraifft o'r ffordd yr ydym yn edrych ar bethau mewn ffordd fwy cynaliadwy yw menter y canolfannau teithio cynaliadwy, sydd eisoes wedi cael effaith sylweddol yng Nghaerdydd, ac mae'r gwaith wedi dechrau bellach ar y fenter yn ardal Môn a Menai.

Mae nifer o gynlluniau penodol yn y cynllun. Yn gyntaf, mae rhaglen newydd i wella gorsafydd a gwneud gorsafydd trên yn fwy hygrych. Yr wyf eisoes wedi cyhoeddi'r gwelliannau i'r orsaf newydd yn Abertawe, sydd yn enghraifft wych o'r hyn y gellir ei gyflawni, a bydd egwyddorion yr orsaf hon yn cael eu defnyddio i roi'r rhaglen ar waith ledled Cymru. Yr hyn sy'n bwysig o safbwynt yr hyn yr ydym wedi'i wneud yn Abertawe yw'r bartneriaeth rhwng y Llywodraeth, Network Rail, pobl y ddinas a chynrychiolwyr pobl ag anableddau. Mae'r gwaith hwnnw wedi bod yn waith y byddwn yn ei ddefnyddio mewn lleoedd eraill o hyn ymlaen.

Yr ydym wedi parhau i ariannu'r trên cyflym o Gaerdydd i Gaerdydd, sydd wedi teithio'n llwyddiannus ers mis Rhagfyr 2008. Yr ydym yn gobeithio adeiladu ar y llwyddiant hwnnw. Yr ydym wedi buddsoddi mewn rhaglen adnewyddu newydd ar gyfer y rhwydwaith trenau i'w gwneud yn fwy cyfforddus, yn gyflymach ac yn fwy diogel; ac, lle yr ydym wedi gallu gwneud hynny, yr

theme is to continue to integrate more effectively: improving parts of the road network and the railways to make them safer, quicker and more reliable, and provide more opportunities for people to walk and cycle. It also means ensuring that the money that is invested provides a sustainable transport network for Wales.

I hope that the majority of Members will acknowledge that the national transport plan has enabled us to look at the transport network for Wales in a completely different way. Instead of focusing on modes of travel, we are looking at corridors. This means that we can deliver holistic solutions for specific problems. The roads are not always the answer to traffic problems. The corridor approach of the national transport plan lets us look at broader, more sustainable solutions. An example of the way in which we are looking at things more sustainably is the sustainable travel centres initiative, which has already had a significant impact in Cardiff, and work has started on the initiative in the Môn a Menai area.

There are a number of specific schemes within the plan. First, there is a new programme to improve stations and make them more accessible. I have already announced the improvements to the new station in Swansea, which is an excellent example of what can be achieved, and the principles employed at that station will be used to roll out the programme across Wales. What is important with regard to the work that we have done in Swansea is the partnership between the Government, Network Rail, the people of the city, and those representing people with disabilities. That is a method that we will use in other areas in the future.

We have continued to fund the express train from Holyhead to Cardiff, which has been operating successfully since December 2008. We hope to build on that success. We have invested in a new refurbishment programme for the rail network in order to make it more comfortable, faster and safer; and, where we have been able to do so, we have funded additional train services. We have also

ydyd wedi ariannu rhagor o wasanaethau trên. Yr ydyd hefyd wedi penderfynu buddsoddi yn yr isadeiledd i sicrhau gwelliannau, nid yn unig rhwng y de a'r gogledd ond hefyd yn y de. Yr ydyd wedi dechrau gweithio ar raglen wella newydd yr M4, ac wedi ymrwymo i gwblhau'r gwelliannau i'r A465. O ran yr M4, byddwn yn sefydlu pecyn o fesurau i ymdrin â materion diogelwch a dibynadwyedd yn ardal Casnewydd. Fel y bu imi gyhoeddi yr wythnos diwethaf, bydd y mesurau hyn yn cynnwys dechrau'r system terfyn cyflymder newidiol newydd, a fydd yn cael ei rhoi ar waith erbyn mis Mehefin 2011.

Mae pob un ohonom yn ymwybodol o'r cyfyngiadau ar wariant cyhoeddus yn y dyfodol, ac mae honno'n her fawr wrth inni geisio cyflawni ymrwymadau'r cynllun hwn yn y dyfodol. Fodd bynnag, yr wyf wedi ymrwymo o hyd i gyflawni'r rhaglen waith a amlinellwyd yn y cynllun trafndiaeth cenedlaethol, a byddaf yn ceisio manteisio i'r eithaf ar werth pob punt a fuddsoddwn yn ein rhwydwaith trafndiaeth. Yr wyf eisoes wedi dechrau drwy sicrhau cyllid cydgyfeirio Ewropeaidd i'w gwneud yn haws i'r cynllun gael ei gyflawni yn y tymor byr. Er enghraifft, mae £40 miliwn bellach ar gael ar gyfer y rhaglen newydd i wella gorsafoedd, sy'n cynnwys £21 miliwn o gyllid Ewropeaidd.

